

Rhaglen Gyflawn

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 13eg Hydref, 2026
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Hybrid / Hybrid Meeting - Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH – Siambr Hywel Dda a Zoom
PWYNT CYSWLLT	Gwen Alaw Roberts cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Nia Wyn Jeffreys	Arweinydd y Cyngor
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Paul John Rowlinson	Aelod Cabinet Tai ac Eiddo
Menna Trenholme	Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd
June Jones	Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd
R Medwyn Hughes	Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Dewi Jones	Aelod Cabinet Addysg
Huw Wyn Jones	Aelod Cabinet Cyllid
Llio Elenid Owen	Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 MEDI			4 - 20
6	STRATEGAETH LLAIS Y PLENTYN	Cyng. Nia Jeffreys	Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg	21 - 110
7	ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025-26, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-28	Cyng Llio Elenid Owen	Gwenno Griffith, Swyddog Cydraddoldeb	111 - 151
8	ADRODDIAD BLYNYDDOL - GWEITHLU	Cyng Llio Elenid Owen	Eleri Jones, Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol	152 - 168
9	ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT	Cllr Llio Elenid Owen	Ian Jones, , Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	169 - 182
10	ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2025-26	Cyng Craig ab Iago	Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd	183 - 407
11	STRATEGAETH GYFALAF	Cyng. Huw Wyn Jones	Dafydd Gibbard, Prif	408 - 414

			Weithredwr	
12	RHAGLEN GYFALAF 2026/27 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST (SEFYLLFA 31 AWST 2026)	Cyng Huw Wyn Jones	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau	415 - 427

Y CABINET DYDD MAWRTH, 15 MEDI 2026

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Dewi Jones a Paul Rowlinson.

Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro) Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Bethan Williams (Mantell Gwynedd), Mari Wynne Jones (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Adran Addysg), Dafydd Gwynne (Rheolwr Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), Yr Athro Sally Holland (Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb), Lowri Cadwaladr Roberts (Pennaeth Cynorthwyol Adran Tai ac Eiddo), Debbie Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd), Cyng Geraint Wyn Parry (Is Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi), Cyng Dafydd Davies (Aelod Lleol Ward Clynnog), Cyng Peter Thomas (Aelod Lleol Ward Llanllyfni), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Adran Gwasanaethau Corfforaethol), Joanne Parry (Rheolwr Gofal Cwsmer a Chofrestru), Sioned Owen (Uwch Reolwr Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar), Gwen Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Diolchwyd i bawb sydd wedi bod yn gweithio'n ddi flino yn ein cymunedau dros brysurdeb yr haf. Amlygwyd ei bod yn Ddiwrnod Rhyngwladol Democratiaeth a chydabuwyd y pwysigrwydd o fod yn agored, yn atebol, ac yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau ar ran pobl Gwynedd.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

Nodwyd y bu rhaid i'r Cyng Dilwyn Morgan a'r Cyng Craig ab Iago adael y cyfarfod yn gynnar oherwydd cyfarfodydd eraill.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Paul Rowlinson mewn perthynas ag Eitem 6. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a ni adawodd y cyfarfod.

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Paul Rowlinson mewn perthynas ag Eitem 10, a bu i'r Aelod adael y cyfarfod.

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorwyr Nia Jeffreys a June Jones mewn perthynas ag Eitem 11. Nid oeddent o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a ni adawsant y cyfarfod.

3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

Diolchwyd i Gadeiryddion ac Is- Gadeiryddion y pwyllgorau craffu sy'n mynychu cyfarfodydd y Cabinet i adrodd yn ôl ar argymhellion y pwyllgorau i'r eitemau sydd wedi eu craffu.

5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2026 fel rhai cywir.

6. COMPACT: CYTUNDEB CYDWEITHIO CYNGOR GWYNEDD A'R TRYDYDD SECTOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan.

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo a mabwysiadu'r Compact: Cytundeb Cydweithio Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector fel fframwaith strategol ar gyfer y berthynas rhwng y Cyngor a sefydliadau'r Trydydd Sector yng Ngwynedd.

TRAFODAETH

Amlygwyd pwysigrwydd y berthynas rhwng y Cyngor a sefydliadau'r Trydydd Sector, a diolchwyd i'r sector am eu cyfraniad at lesiant pobl y Sir.

Eglurwyd bod y Compact yn ddarn o waith sydd wedi bod yn cael ei wneud gan y Cyngor mewn partneriaeth agos gyda Mantell Gwynedd ers tro bellach.

Esboniwyd bod y Compact yn arddangos sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cydweithio gyda'r Trydydd Sector er mwyn ceisio sicrhau y caiff dyletswyddau'r Cyngor eu diwallu a'u cyflawni'n rhagorol.

Nodwyd bod ymgynghori eang wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r Compact, a rhan o'r ymgynghori hynny wedi cael ei wneud gyda Mantell Gwynedd.

Adnabuwyd gwerth cyd-weithio â'r Trydydd Sector er mwyn peidio dyblygu gwasanaethau, a gan eu bod yn aml yn agosach at gymunedau, ac felly'n gallu darparu gwasanaethau mewn dull sy'n ymwybodol o egwyddorion a gwerthoedd y cymunedau hynny.

Croesawyd Prif Swyddog Mantell Gwynedd i'r cyfarfod.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod cryn amser wedi pasio ers y tro diwethaf i'r Compact gael ei adolygu. Er mai dogfen gychwynnol yw hon, cadarnhawyd y bydd cynllun gweithredu mewn lle a chaiff ei effaith ei fesur yn ogystal. Datgelwyd bod y tirlun wedi newid yng Nghymru gyda deddfwriaeth newydd bellach mewn grym, ac o ganlyniad, roedd angen edrych ar y berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector mewn ffordd ychydig yn wahanol.

Mynegwyd balchder bod cytundeb cyd-weithio da bellach mewn lle rhwng y Sector a'r Cyngor. Ymhelaethwyd ar yr ymgynghori sylweddol a wnaethpwyd ar y ddogfen dros gyfnod o flwyddyn a mwy, gyda rhwydweithiau amrywiol y Sector wedi cael mewnbwn iddi a sawl cyfle i ddarparu adborth.

Manylwyd ar y Trydydd Sector eang sydd yng Ngwynedd, gan bwysleisio'r angen a'r awydd i gydweithio â phartneriaid i sicrhau ffyniant. Nodwyd bod y ddogfen yn arddangos yr ymddiriedaeth rhwng y ddwy sector yn y Sir, a diolchwyd i'r unigolion hynny a fu'n gefnogol iawn o'r Sector yn yr ymgais i gyrraedd y pwynt hwn lle mae Compact mewn lle. Soniwyd am y ddibyniaeth rhwng y Cyngor a'r mudiadau Trydydd Sector er mwyn gallu darparu'r holl wasanaethau effeithiol. Ynghyd â'r cynllun gweithredu a fydd mewn lle, amlygwyd y bydd Grŵp Cyswllt Trydydd Sector yn gyrru'r gwaith yn ei flaen.

Pwysleisiwyd mai lles pobl Gwynedd sydd wrth wraidd y Compact hwn.

Yn ogystal, diolchwyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal am eu gwaith wrth graffu ar yr eitem.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Crybwyllwyd pwysigrwydd y Trydydd Sector i'r economi yn ogystal, ac ymfalchiwyd yn y cyd-weithio da sydd bellach i'w weld rhwng y ddwy sector. Nodwyd bod mesur gwerth gwaith yn bosib ac yn rhywbeth sy'n mynd rhagddo drwy weithio ar y cyd gyda Mantell Gwynedd. Esboniwyd bod mesur llwyddiant y Compact yn heriol, ond bod bwriad ail gydio yn y cyfarfodydd hynny efo'r Trydydd Sector gan ofyn am eu hadborth. Soniwyd am y shifft y Cyngor o fod yn gomisiynydd i fod yn bartner sy'n cyd-weithio, ond bod angen ffordd o fesur y newid hwnnw. Ychwanegwyd bod posib defnyddio egwyddorion sydd wedi'u sefydlu er mwyn mesur gwerth cymdeithasol y Compact yn ogystal.
- Cwestiynwyd y penderfyniad ynglŷn ag enw'r Compact yn sgil adborth o'r ymgynghori. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod yr adborth wedi i'w ystyried ond mai Compact yw'r term a gaiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chynghorau eraill, felly penderfynwyd cadw at yr enw hwnnw.
- Cytunwyd bod mudiadau'r cymunedol yn agosach at lawr gwlad ac felly bod modd iddynt ddarparu gwasanaeth mewn modd llai ffurfiol efallai. Cyfeiriwyd yn ogystal at hyblygrwydd mudiadau Trydydd Sector.
- Holwyd pwy fydd yn cynrychioli'r Cyngor ar y Grŵp Cyswllt Trydydd Sector hwn o ran swyddogion a chynghorwyr. Nodwyd y bydd swyddogion ac uwch swyddogion o amryw o adrannau'r Cyngor yn rhan o'r Grŵp, ond y byddai'n syniad edrych ar yr eitemau hynny sydd ar agendau'r cyfarfodydd gan wahodd y swyddogion perthnasol i'r eitemau hynny. O ran Cynghorwyr, awgrymwyd y byddai'n syniad i'r aelodau Cabinet perthnasol

fod yn bresennol, ond eu bod yn agored i unrhyw argymhellion gan y Cabinet ynglŷn â hyn.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag a yw mentrau cymdeithasol yn ran o'r Compact hwn, datganwyd bod unrhyw sefydliad sy'n ceisio gwneud budd i'r gymuned leol yn ddi elw yn rhan o'r hyn a gaiff ei ystyried yn Drydydd Sector.
- Diolchwyd am y Trydydd Sector cryf sydd yng Ngwynedd, a sicrhawyd ymrwymiad y Cyngor i'r Compact ac i'r Cynllun Gweithredu sydd i ddilyn.

7. MABWYSIADU CYNLLUN GWEITHREDU CYNGOR GWYNEDD AR GYFER ATAL HUNANLADDIAD A HUNAN-NIWEIDIO 2026-2028

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Cyngor Gwynedd ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, sy'n amlinellu'r gweithgareddau fydd yn cael eu cyflawni ar draws adrannau'r Cyngor fel rhan o ddull corfforaethol i gefnogi amcanion Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Llywodraeth Cymru (Atodiad 1).

TRAFODAETH

Rhybuddiwyd bod y pwnc hwn yn un sensitif iawn i'w drafod, a thynnwyd sylw at y cymorth sydd ar gael gan amryw o elusennau a sefydliadau yn y Sir.

Adroddwyd y bu Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd yr wythnos ddiwethaf, ac y caiff mis Medi ei gydnabod yn eang fel Mis Ymwybyddiaeth ac Atal Hunanladdiad. Amlygwyd bod hunanladdiad yn gyfrifoldeb i bawb; sefydliadau, cymunedau, ac i unigolion. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn barod i drafod y pwnc yn agored yn ein cymunedau.

Datganwyd bod yr adroddiad yn deillio o waith y Cyngor i ymateb i Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Llywodraeth Cymru. Pasiwyd Rhybudd o Gynnig, a oedd yn galw ar y Cyngor i ddatgan cefnogaeth i'r Strategaeth a sefydlu Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Gwynedd, yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2025.

Mynegwyd balchder bod llawer o waith da eisoes yn digwydd ar draws gwasanaethau'r Cyngor, yn ein hysgolion ac ar draws ein partneriaethau, a dywedwyd y bydd y Cynllun hwn yn dod a'r gwaith hwnnw ynghyd, gan gryfhau ymwybyddiaeth, hyfforddiant, ac ymyrraeth gynnar. Manylwyd ar y camau gweithredu a chadarnhawyd y bydd y gwaith yn adeiladu ar y gefnogaeth sydd eisoes ar gael mewn ysgolion, gan gryfhau trefniadau adnabod pryderon yn gynnar a sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at y gefnogaeth briodol.

Diolchwyd i'r swyddogion, partneriaid, a'r cyngorwyr sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun.

Mynegwyd tristwch bod y niferoedd o hunanladdiadau wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly pwysleisiwyd pwysigrwydd cyd-weithio'n eang i godi ymwybyddiaeth a sicrhau fod pobl yn ymwybodol o le i droi am gymorth neu petai ganddynt bryder am berson arall.

Nodwyd y bwriad o gynnal sesiynau ymwybyddiaeth er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth pobl ar draws y Sir, ynghyd â gweithlu'r Cyngor, a hyrwyddo hyfforddiant penodol ar gyfer y gweithlu. Ymhelaethwyd ar hynny gan nodi'r bwriad o hyrwyddo hyfforddiant ehangach hefyd, megis hyfforddiant Trais Domestig, a bod yn effro i'r effaith benodol yn gall hyn ei gael ar unigolion.

Soniwyd am yr angen i ymdreiddio'r ddealltwriaeth yma a hybu lleisiant ar draws y system addysg yn ogystal. Cadarnhawyd bod yr adran Addysg yn effro i'r risgiau yn y maes hwn, ac yn cynyddu'r gefnogaeth a'r hyfforddiant i'r personau dynodedig mewn ysgolion. Credwyd bod y Strategaeth hon yn gam i'r cyfeiriad cywir ac yn sicrhau ei fod ar flaen ein meddyliau. Mewn achosion lle mae digwyddiad o'r fath wedi digwydd, nodwyd bod yr Adran wedi adlewyrchu ar drefniadau cefnogaeth i blant a phobl ifanc yr ysgolion, y staff a'r penaethiaid yn ogystal. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y gwaith hwn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Croesawyd y Strategaeth a chytunwyd ynglŷn â phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth y gymdeithas o'r materion hyn.
- Mynegwyd tristwch bod un o'r elusennau sy'n gweithio yn y maes hwn wedi gorfod cau o ganlyniad i'w sefyllfa gyllidol. Soniwyd am bwysigrwydd yr elusennau hyn a gwaith y trydydd sector yn y maes hwn.
- Cadarnhawyd y bydd y bydd y gwaith yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu ac y bydd yn rhan o waith y Panel Strategol Diogelu. Amlygwyd y bydd gofyn i'r Cabinet adolygu'r Cynllun ymhen amser yn ogystal.
- Tynnwyd sylw at ymrwymiad y Cyngor i weithredu.

8. SIARTER ANGOR RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan.

PENDERFYNIAD

- Nodi cynnwys Siarter Angor Rhanbarthol Gogledd Cymru a gymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar yr 8fed Mai 2026.
- Nodi'r gwaith croesgyfeirio a gwblhawyd rhwng ymrwymadau'r Siarter a blaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 a gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

- Cydnabod bod gwaith presennol y Cyngor eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni amcanion y Siarter, a bod cyfle i ystyried cyfleoedd i gryfhau'r cyfraniadau hyn yn unol â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor
- Nodi'r cyfle i rannu dysgu o'r broses croesgyfeirio, ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer nodedig, gyda phartneriaid eraill dros y rhanbarth fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i'r Fframwaith Lles, Atal ac Angor a gymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar yr 8fed Mai 2026

TRAFODAETH

Eglurwyd bod y Siarter wedi'i seilio ar y gred y gall sefydliadau mawr cyhoeddus yr ardal ddefnyddio eu dylanwad i greu budd economaidd a chymdeithasol i gymunedau lleol. Aethpwyd ymlaen i nodi mai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n arwain ar y Siarter, fel rhan o waith ehangach y Fframwaith Lles, Atal ac Angor Rhanbarthol. Esboniwyd mai pwrpas yr adroddiad yw amlygu sut mae gwaith dydd i ddydd y Cyngor eisoes yn cyfrannu at amcanion y Siarter. Cynigiwyd efallai bod cyfle i edrych ar be all y Cyngor ei wneud i annog staff i wneud mwy yn eu cymunedau yn ogystal.

Datganwyd bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu'r Siarter. Tynnwyd sylw at yr hunanasesiad sydd wedi ei gwblhau o waith y Cyngor yn erbyn yr eitemau sydd yn y Siarter, ac amlygwyd bod rhan helaeth o'r sgoriau yn gyson ond bod un maes yn isel. Manylwyd ar hyn gan nodi bod sawl sefydliad yn rhoi amser i'w staff fynd i wirfoddoli, a chynhigiwyd bod hyn yn rhywbeth i'w ystyried wrth fynd ymlaen. Adroddwyd bod awydd i ddefnyddio'r wybodaeth a'r drafodaeth hon er mwyn galluogi i hyn fwydo i mewn i ystyriaethau strategol wrth fynd ymlaen.

Croesawyd Rheolwr Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod. Amlygwyd mai un o'r dangosyddion a gaiff eu hystyried gan y Tîm Iechyd Cyhoeddus wrth asesu iechyd y boblogaeth yw disgwyliad oes, ac esboniwyd bod y dangosydd hwn yn dirywio yng Ngogledd Cymru. Dywedwyd bod gwahaniaeth yn y dangosydd hwn rhwng y bobl hynny sydd fwyaf a lleiaf difreintiedig yn ein cymunedau. Er bod nifer o ffactorau yn chwarae rhan yma, nodwyd mai dangosyddion ehangach megis addysg, bod mewn swydd sy'n talu'n deg, byw mewn tŷ clyd a chymunedau diogel, sy'n cael y dylanwad mwyaf ar iechyd a lles ac felly mai dyma sydd wrth wraidd y gwaith hwn. Datgelwyd mai'r Cyngor yw'r cyntaf yng ngogledd Cymru i fynd drwy'r broses o hunanasesu, gan ategu y caiff llawer o'r gwaith sydd yn y Siarter ei wneud yn barod o fewn y Cyngor. Aethpwyd ymlaen i annog y Cyngor i edrych ar sut y gellir cryfhau'r agweddau hyn ymhellach, ac ystyried pa gyfleoedd sydd i rannu ymarfer nodedig tu allan i'r sefydliad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cydnabuwyd bod sgôr y Cyngor wrth annog a galluogi staff i gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol a gwirfoddol yn is na'r sgorau eraill yn yr hunanasesiad, ac awgrymwyd efallai ei fod yn rhywbeth gall y Cyngor ei ystyried wrth fynd ymlaen. Ategwyd y gall annog staff i wirfoddoli

gyfrannu at ymgais y Cyngor i gryfhau darpariaethau a chyfrannu'n gadarnhaol at ein cymunedau.

9. ADRODDIAD CHWARTEROL - CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN YMATEB (GORFFENNAF 2026)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad gerbron sef y pedwerydd adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

TRAFODAETH

Datganwyd mai bwriad ail gyflwyno'r Adroddiad i'r cyfarfod hwn yw derbyn cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, a chroesawyd y Cadeirydd i'r cyfarfod.

Eglurwyd mai dyma'r pedwerydd adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd, er mwyn diweddarau'r Cabinet ar waith y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

Cymerwyd y cyfle i gydnabod dewrder y dioddefwyr a goroeswyr, gan bwysleisio eu bod ar flaen meddyliau pob un wrth drafod y pwnc hwn.

Cadarnhawyd bod y Bwrdd wedi cyfarfod eto ers mis Gorffennaf, gan nodi presenoldeb ac ymgysylltiad uchel y Bwrdd, ynghyd ag ansawdd uchel y deunyddiau ysgrifenedig. Amlygwyd bod cynnydd wedi'i adrodd ymhob maes, gyda'r holl adroddiadau yn destun trafodaeth a chraffu gan arsylwyr annibynnol a'r aelodau Cabinet sy'n rhan o'r Bwrdd. Pwysleisiwyd bod aelodau'r Bwrdd yn cadw'r dioddefwyr yn ganolog i'w meddyliau, ac ategwyd yr angen i wneud newidiadau gwirioneddol i arferion er mwyn ad ennill ymddiriedaeth plant a phobl ifanc yng Ngwynedd.

Cydnabuwyd y cynnydd sydd wedi'i wneud yn Ysgol Friars a bod hyn i'w weld yn adroddiad diweddar Estyn. Adroddwyd ar y cynnydd a gaiff ei wneud mewn perthynas â'r Strategaeth Llais y Plentyn, gan gyfeirio'n benodol at ddatblygiad y Fforwm Ieuenctid. Yn ogystal, datganwyd bod cynnydd wedi bod wrth geisio sicrhau bod hyfforddiant diogelu ar gael mewn gwahanol fformatau er mwyn diwallu anghenion staff. Mynegwyd balchder bod trafodaethau Grŵp Ffocws pellach gyda gwahanol grwpiau o randdeiliaid wedi eu cynllunio, a bod y gwaith ar arferion cyfyngol yn dod yn fwy sefydledig yn dilyn derbyn archwiliad annibynnol o'r polisïau. Datgelwyd bod y Llywodraeth wedi ail sefydlu'r Grŵp Sicrwydd Gweinidogol yn ogystal. Nodwyd yr angen i ganolbwyntio ar fesur effaith a sicrhau y caiff newidiadau eu hymgorffori wrth fynd ymlaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i Gadeirydd y Bwrdd am ei gwaith parhaus, a chroesawyd bod holl ddogfennau'r Bwrdd bellach yn gyhoeddus fel bod modd i'r cyhoedd weld y gwaith sy'n mynd rhagddo. Pwysleisiwyd yr angen i fesur effaith y gwaith hwn maes o law, a gofynnwyd sut y mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hyn. Mewn ymateb, esboniwyd bod y Cyngor wrthi'n cyflawni'r gwaith ac yn ceisio gwreiddio'r newid hwn. Crybwyllwyd nad oedd modd mesur effaith y gwaith yn syth, ond erbyn hyn ei bod yn bosib symud ymlaen i edrych ar yr effaith. Soniwyd y bydd cyfle i wrando a derbyn barn rhanddeiliaid drwy grwpiau ffocws, a rhoi cyfle i bobl fynegi hyder yn nhrefniadau'r Cyngor.
Crybwyllwyd bod Cadeirydd y Bwrdd yn cyfarfod gyda swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd er mwyn rhoi mewnbyn i'r gwaith parhaus sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn. Nodwyd pwysigrwydd mesur effaith yn ogystal, a phwysigrwydd rhoi mesurau a all barhau dros amser ar waith fel bod modd mesur eu heffaith. Trafodwyd y cyfleoedd sydd i gymharu effaith y gwaith hwn ag awdurdodau lleol eraill drwy arolygon cenedlaethol i blant.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag a oes unrhyw gefnogaeth neu adnoddau pellach y mae'r Bwrdd ei angen gan y Cabinet er mwyn cynnal momentwm y gwaith, cadarnhawyd bod y Bwrdd yn rhedeg yn esmwyth a chanmolwyd safon yr adroddiadau a'r gefnogaeth a ddarperir i'r aelodau. Cyfeiriwyd at y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer y gwaith hwn, a chydabuwyd awydd y Cyngor i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol hyn.
- Mynegwyd balchder bod y Cabinet wedi sicrhau arian parhaol i'r maes hwn. Gobeithiwyd y bydd awdurdodau lleol eraill yn gallu blaenoriaethu'r gwaith hwn yn ogystal.

10. PRYDLESU HEN SAFLE YSGOL CWM Y GLO I FENTER FACHWEN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

Awdurdodi y Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo;

(a) i brydlesu safle cyn Ysgol Cwm y Glo yn uniongyrchol i Fenter Fachwen am rent enwol yn unol â Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003.

(b) yn amodol ar i'r Fenter sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer hwb cymunedol aml bwrpas i gytuno ar delerau ac amodau y denantiaeth a chwblhau y les.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan fanylu ar gynlluniau Menter Fachwen ar gyfer ail-dddefnyddio hen safle Ysgol Cwm y Glo er budd y gymuned leol.

Aethpwyd ymlaen i drafod gweledigaeth y Fenter, sy'n cynnwys ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau cymunedol, cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau, mentrau economi gylchol, ynghyd â darpariaeth fydd yn cefnogi iechyd, llesiant a chynhwysiant cymdeithasol.

Amlygwyd y newid i'r penderfyniad a geisir o'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad, ac adroddwyd y penderfyniad diwygiedig er eglurder.

Rhoddwyd cefndir i'r adroddiad gan esbonio i'r Cyngor dderbyn datganiad o ddiddordeb yn y safle gan Fenter Fachwen, yn unol â'r Polisi Ôl- Ddefnydd Ysgolion. Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai hyn yn galluogi'r Fenter i ehangu eu darpariaeth bresennol. Esboniwyd na fydd incwm ar gael i dalu rhent marchnad agored ar gyfer y safle, ac felly mae'r cais am brydles am rent enwol. Gofynnwyd i'r Cabinet fodloni bod y buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a fydd yn cael eu gwireddu o ganiatáu'r brydles yn gorbwyso'r golled ariannol.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes cyllid llawn na chaniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad ar hyn o bryd, ond mae gallu'r Fenter i ymgeisio am gyllid grant sylweddol yn ddibynnol ar fod wedi derbyn ymrwymiad y Cyngor i ddarparu'r brydles. Sicrhawyd y bydd gofyn i'r Fenter ddarparu cadarnhad o gyllid a hawl cynllunio i wireddu'r Hwb cyn y bydd y Cyngor yn rhoi prydles yn ei lle.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Croesawyd y datblygiad gan fynegi balchder y caiff hen safle ei defnyddio er budd ehangach.

11. MABWYSIADU POLISI CLUDIANT ADDYSG I'W WEITHREDU O FEDI 2027 YMLAEN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

PENDERFYNIAD

Yn ddarostyngedig i ystyried cynnwys yr Adroddiad a'r Atodiadau ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriadau ac ymgysylltu, penderfynu ar fabwysiadu Polisi Cludiant Addysg newydd a fydd yn dod i rym ar 1 Medi 2027.

Dirprwyo hawl awdurdod i'r Aelod Cabinet dros Addysg, mewn ymgynghoriad â Phennaeth yr Adran Addysg, i gadw'r Polisi dan adolygiad o fewn y fframwaith statudol cenedlaethol a gwneud newidiadau gweithredol a golygyddol yn ôl yr angen yn ddarostyngedig fod unrhyw fater sydd yn ddarostyngedig i ofyn ymgynghori i'w gyfeirio i'r Cabinet.

TRAFODAETH

Adnabuwyd ei bod yn amserol i adolygu a diweddarau'r Polisi Cludiant Addysg. Soniwyd am yr ymgynghori helaeth a wnaethpwyd mewn perthynas â'r Polisi, gan nodi bod addasiadau wedi eu gwneud yn sgil yr ymgynghori hwn.

Manylwyd ar y Cynllun Seddi Gweigion, gan esbonio bod seddi gwag wedi bod yn cael eu cynnig i ddysgwyr nad oedd ganddynt hawl i gludiant di-dâl os byddai argaeledd sedd ar gludiant, gan godi tâl am y sedd honno. Yn dilyn eglurder pellach gan Lywodraeth Cymru, cadarnhawyd bod sail fwy cadarn i barhau i gynnig y Cynllun Seddi Gweigion bellach, er bod rhai risgiau yn parhau.

Aethpwyd ymlaen i egluro bod mwy o gyd-destun o ran yr elfennau Preswylad Deuol ac Ysgolion Ffydd yn y Polisi gerbron. Ychwanegwyd bod yr elfen Cludiant Ôl-16 hefyd wedi'i gysoni fel bod mwy o eglurder. Nodwyd bod y Polisi gerbron yn cynnig darparu cludiant ôl-16 i'r ysgol ddalgylch/addas agosaf, ynghyd ag i'r safle coleg addas agosaf sy'n darparu'r cwrs hwnnw.

Amlygwyd mai mwy o fanylder ar rai rhannau sydd yma, nid newidiadau mawr i'r Polisi.

Croesawyd Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i'r cyfarfod.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am ei waith ac aethpwyd ymlaen i esbonio argymhellion y Pwyllgor Craffu. Mynegwyd balchder bod sylw penodol wedi'i roi i'r Cynllun Seddi Gweigion yn dilyn argymhellion y Pwyllgor, a bod ystyriaeth wedi'i roi i argymhellion eraill y Pwyllgor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mewn ymateb i gwestiwn am brif fanteision y Polisi Cludiant gerbron, esboniwyd bod y Cynllun Seddi Gweigion wedi'i gynnwys yn ôl yn y Polisi, gan hwyluso gallu teuluoedd sydd ddim yn gymwys i gludiant yn unol â'r gofynion statudol i allu manteisio ar y seddi gweigion hyn. Soniwyd bod canllawiau yn awgrymu'r angen i hyrwyddo'r ddarpariaeth i Ysgolion Ffydd, gan egluro bod hyn yn ychwanegiad i'r Polisi. Gobeithiwyd hefyd y bydd yr eglurder pellach yn y Polisi o ran Preswylad Deuol yn hwyluso trefniadau teuluoedd i fynd a'u plant i'r ysgol. Ategwyd bod eglurder pellach hefyd i'w weld wrth gyfeirio at Gludiant Ôl-16. Cadarnhawyd mai ym mis Medi 2027 bydd y Polisi hwn yn dod i rym, petai'n cael ei fabwysiadu.
- Cyfeiriwyd at yr angen i gyfathrebu'r newid hwn, a dywedwyd bod gwybodaeth ar wefan y Cyngor am yr holl elfennau hyn a bwriadwyd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd pobl ifanc yn ogystal. Cynhaliwyd sesiynau gyda dysgwyr Grŵp Llandrillo Menai fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn cael eu barn am y newid. Bwriadwyd ymgysylltu â phobl ifanc yn rheolaidd yng nghyd-destun cludiant er mwyn ceisio caglu barn yn ogystal â rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth gyda'r bobl ifanc.
- Nodwyd bod yr Adran wedi gwrthod argymhelliad y Pwyllgor Craffu i ddynodi plwyfi yn hytrach na phellter o ran cludiant i Ysgolion Ffydd yn dilyn trafodaeth gyda chynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig. Cadarnhawyd nad yw darparu cludiant ar sail pellter am gael effaith ar y rheiny sy'n

derbyn y cludiant, a'i fod hefyd yn gyson gyda gweddill y Polisi Cludiant Addysg.

12. YSGOL NEBO – ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones

PENDERFYNIAD

Ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, y crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a'r ymatebion a roddwyd i'r gwrthwynebiadau hynny, ac wedi gwneud hynny, gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol ag Adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

TRAFODAETH

Cydnabuwyd bod yr eitem gerbron yn hynod anodd, a soniwyd am rôl arbennig ysgolion gwledig o fewn eu cymunedau. Pwysleisiwyd nad yw'r cynnig hwn yn deillio o unrhyw fethiant yn ansawdd yr addysg yn yr Ysgol.

Eglurwyd am y newid yn nemograffeg y sir a olygai bod llai o blant oed cynradd bellach yng Ngwynedd o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl. Ymhelaethwyd ar hyn gan nodi bod yr her hon yn gyffredin ar draws y wlad, gyda lleihad mewn cyfraddau geni a ffactorau economaidd a chymdeithasol ehangach yn chwarae rhan yma. Cyfeiriwyd at ddyletswydd y Cyngor i gynllunio'n strategol ar gyfer anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Diolchwyd i holl gymuned Ysgol Nebo am eu cyfraniadau dros y blynyddoedd.

Croesawyd Aelod Lleol Ward Clynog i'r cyfarfod.

Deallwyd yr hyn sydd wedi arwain at gyflwyno'r eitem hon, gan gydnabod y niferoedd isel o ddisgyblion sydd yn yr Ysgol a'r gost uchel fesul disgybl.

Mynegwyd tristwch am y ffaith fod y disgyblion yn Ysgol Nebo yn gwneud cynnydd da yn y dosbarthiadau bach hyn, a chredwyd y dylid datblygu'r Ysgol fel darpariaeth i gefnogi plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, gobeithiwyd bod gan y Cyngor gynllun ar gyfer y plant hynny sydd angen darpariaeth fel hon, a chydabuwyd y pwysau sydd ar y gwasanaethau presennol yn y maes hwn. Pryderwyd hefyd am y cynnydd yn y niferoedd sy'n derbyn addysg gartref. Soniwyd am bwysigrwydd y cyswllt personol hwnnw rhwng yr adran Addysg â chymuned yr Ysgol wrth fynd drwy'r broses hon. Cyfeiriwyd yn ogystal at gyfraniadau O.P. Hughes i'r Ysgol. Diolchwyd i bawb sydd wedi ymwneud â'r Ysgol dros y blynyddoedd.

Talwyd teyrnged i staff a chymuned yr Ysgol, a chyfeiriwyd at urddas y ffordd y mae'r adran a'r Ysgol wedi gweithio gyda'i gilydd drwy'r broses. Manylwyd ar gyfrifoldeb yr awdurdod i adolygu stad ysgolion ac i sicrhau gwerth gorau am arian. Soniwyd am y prosesau sydd rhaid eu dilyn, gan gadarnhau y caiff y prosesau hyn eu hadolygu. Unwaith y mae penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud, sicrhawyd y bydd yr adran yn cyd-weithio gyda'r tîm adnoddau dynol i gefnogi staff, ac yn cefnogi'r plant drwy gynlluniau unigol. Nodwyd mai lles a chynaliadwyedd addysg i'r plant a phobl ifanc yw'r flaenoriaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag effaith cau'r Ysgol ar y Gymraeg yn y gymuned, cadarnhawyd bod asesiadau effaith ar y Gymraeg wedi eu llunio ar y cynnig a'u bod yn ystyried unrhyw dystiolaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg drwy gydol y broses. Adnabuwyd bod effaith ieithyddol posib ar y gymuned ac yn addysgol, ond aethpwyd ymlaen i nodi bod y Gymraeg yn gadarn yn yr ysgol amgen a bod anogaeth i'r ysgol amgen ehangu ei gweithgarwch i gynnwys cymuned Nebo.
- Nodwyd yr angen i resymoli stad ysgolion er mwyn gallu ceisio cynorthwyo plant y Sir i gyrraedd eu llawn botensial. Cyfeiriwyd at ddarpariaethau sydd ar gael mewn ysgolion eraill er mwyn cefnogi'r plant, a'r cyfuniad o geisio sicrhau tegwch a chysondeb o ran darpariaeth o fewn ysgolion y Sir a'r profiadau y caiff y plant.
- Wrth gyfeirio at y nifer o blant a gaiff eu haddysgu gartref a'r gefnogaeth sydd ar gael i blant â gwahanol anghenion, cydnabuwyd efallai nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn cyrraedd y nod ar bob achlysur. Nodwyd bod trafodaethau cenedlaethol yn mynd rhagddo ynglŷn â'r system fregus hon a'r angen am gyllid, er enghraifft. Soniwyd hefyd am y cyfrifoldeb i adeiladu cyfundrefn deg ar draws y Sir, ac ar gyfer y dyfodol.

13. YSGOL BALADEULYN – ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones.

PENDERFYNIAD

Ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, y crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a'r ymatebion a roddwyd i'r gwrthwynebiadau hynny, ac wedi gwneud hynny, gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol ag Adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018).

TRAFODAETH

Tynnwyd sylw at y ffaith bod Ysgol Baladeulyn wedi gwasanaethu'r ardal ers blynnyddoedd maith, ac felly bod y drafodaeth hon yn un anodd. Amlygwyd nad yw'r cynnig hwn yn deillio o unrhyw fethiant nac yn adlewyrchiad o ansawdd yr addysg a gynigir i'r disgyblion.

Cyfeiriwyd at y newid mewn demograffeg yn y Sir, y lleihad yn nifer y plant oed cynradd sydd bellach yn ein cymunedau, ac effaith hyn ar stad ysgolion. Soniwyd yn ogystal am y ffactorau cymdeithasol ac economaidd sydd wedi cyfrannu at y newid hwn mewn demograffeg, a'r angen felly i ymateb i realiti'r sefyllfa a chydabod yr heriau sydd wrth i ysgol wasanaethu cyn lleied o blant. Cydymdeimlwyd â chymuned yr ysgol a diolchwyd i holl staff yr ysgol.

Croesawyd Aelod Lleol Ward Llanllyfni i'r cyfarfod.

Pwysleisiwyd bod yr Ysgol yn rhan annatod o'r gymuned ac y bydd effaith pellgyrhaeddol o gau'r Ysgol. Amlygwyd bod y ddeiseb i gadw'r Ysgol yn agored wedi'i harwyddo gan 500 o bobl, ac ategwyd nad yw'r nifer disgyblion sydd yn yr Ysgol yn adlewyrchu gwerth yr Ysgol i'r gymuned wledig. Pryderwyd y bydd hyn yn arwain at lai o deuluoedd ifanc yn symud i'r ardal, ac effaith posib hyn ar y Gymraeg yn y gymuned. Awgrymwyd mai ffederaleiddio gyda Ysgol Talysarn i greu adran ADY fyddai'r opsiwn orau, a phwysleisiwyd yr angen i ystyried effaith hir dymor y cynnig ar y gymuned.

Talwyd teyrnged i blant, staff a chymuned yr Ysgol, a diolchwyd am y trafodaethau urddasol a gafwyd drwy gydol y broses. Cadarnhawyd bod yr adroddiad blaenorol yn dangos yr opsiynau posib, a bod ystyriaeth wedi'i roi i ffederaleiddio Ysgol Baladeulyn gydag ysgol arall ond na fyddai'r model hwnnw'n addas yma nac yn mynd i'r afael â'r prif heriau sydd yma o ran niferoedd plant. Amlygwyd mai ceisio sicrhau'r addysg orau i'r plant yw'r flaenoriaeth, a golygai hynny bod angen gwneud penderfyniadau anodd ar adegau er mwyn gallu symud y sector yn ei flaen. Manylwyd ar yr asesiad effaith a wnaethpwyd gan gydnabod effaith tebygol ar y Gymraeg a'r gymuned. Adnabuwyd mesurau lliniaru megis annog cymuned Talysarn i ehangu ei gweithgarwch i gynnwys cymuned Nantlle yn unrhyw weithgareddau. Sicrhawyd cadernid y Gymraeg yn Ysgol Talysarn yn ogystal, ac y gall yr Ysgol gynnig yr un profiadau addysgol a chymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Gofynnwyd am gapasiti Ysgol Talysarn petai Ysgol Baladeulyn yn cau. Mewn ymateb, amlygwyd bod asesiad wedi'i gwblhau fel rhan o'r broses a bod yr Adran yn hyderus bod capasiti digonol yn Ysgol Talysarn ar gyfer y plant hynny sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Baladeulyn. Ychwanegwyd mai'r drefn mynediad arferol fydd yn cael ei dilyn mewn perthynas ag unrhyw geisiadau o du allan i'r dalgylch.
- Holwyd am y cymorth a gaiff ei ddarparu i ddisgyblion Ysgol Baladeulyn. Sicrhawyd bod yr adran yn cynllunio ar gyfer anghenion bob plentyn gan sicrhau bod darpariaeth addas ar gael ar eu cyfer. Ategwyd y bydd llais y plentyn a llais y rhieni yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn ac y bydd camau er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r plant.
- Diolchwyd i gymuned Nantlle gan nodi fod pawb wedi ymdrin â'r broses yn barchus. Esboniwyd bod stad ysgolion y Sir yn wahanol erbyn hyn

oherwydd y nifer gostyngol o blant sydd yng Ngwynedd. Awgrymwyd yr angen i ail ddychmygu sut y caiff addysg ei gynnig yn y Sir.

14. ADRODDIAD CWYNION A GWELLA GWASANAETH CHWARTER 1 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r adroddiad a chynnig unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol am berfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion yn briodol ac yn amserol.

TRAFODAETH

Atgoffwyd bod perchnogaeth ymateb i gwynion yn eistedd o fewn yr Adrannau unigol, ond bod gweinyddu'r drefn gwynion bellach wedi trosglwyddo i'r tîm Cyswllt Cwsmer, ac eithrio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgolion sydd â threfniadau cwynion ar wahân.

Amlygwyd bod 69 Cwyn Ffurfiol Dilys a 49 Cwyn Ombwdsmon wedi eu derbyn yng nghyfnod yr adroddiad, sydd yn gynnydd o'r un cyfnod y llynedd. Aethpwyd ymlaen i adnabod mai nifer y dyddiau cyfartalog y cymerwyd i ymateb i gwyn yng nghyfnod 25/26 oedd 18.3 diwrnod, sydd hefyd yn gynnydd o'r flwyddyn flaenorol. Soniwyd mai prif gategori'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfnod hwn oedd diffyg ymateb neu weithredu, gyda'r nifer fwyaf o'r cwynion yn mynd i'r adran Amgylchedd neu'r adran Gyllid.

Cyfeiriwyd at y bwriad i gynnal adolygiad mewnol o sut y mae'r Cyngor yn ymateb i gwynion gan ddefnyddio arfer da'r Ombwdsmon fel sail i hyfforddi staff ac addasu systemau digidol, ar y cyd gyda hyfforddiant Gofal Cwsmer newydd i reolwyr. Mynegwyd balchder bod y Wal Lwyddiannau yn tyfu'n barhaus a bod hyn yn ffactor wrth godi morâl staff.

Ategwyd bod gwaith pellach yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r ffordd y mae'r cyhoedd yn cysylltu â'r Cyngor, a'r ymholiadau cyffredinol a gaiff eu gwneud yn ogystal. Ychwanegwyd bod wefan y Cyngor hefyd wedi'i diweddarau er mwyn cynorthwyo â'r gwaith hwn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Pwysleisiwyd bod cwynion yn werthfawr i'r Cyngor wrth geisio mynd ati i wella gwasanaethau. Holwyd am eglurder pellach o ran ffigyrau cwynion i'r Ombwdsmon. Mewn ymateb, esboniwyd mai setliad yw pan mae cytundeb rhwng y Cyngor a'r achwynydd ar ddatrysiad i gwyn neu'r ffordd ymlaen.

- Rhoddwyd enghreifftiau o wellhad mewn ffigyrau cwynion rhai adrannau o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a manylwyd ar y cyd-weithio a'r cyfathrebu sy'n digwydd rhwng yr adrannau a'r tîm.
- Cyfeiriwyd at Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon, gan egluro y caiff tabl ei gynnwys ynddo lle gellir cymharu perfformiad y Cyngor gydag awdurdodau eraill.

15.CAIS AM GYLLID I DDATBLYGU GWAITH HINSAWDD A NATUR CYNGOR GWYNEDD 2026/27 – 2029/30.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

PENDERFYNIAD

Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cais am gyllid i ariannu costau cynnal swyddi a chostau gweithredu prosiectau o fewn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur:

Costau cyflogaeth tan Mawrth 2030 - £416,383

Costau prosiectau - £7,275,160

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddatgan bod yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd wedi gorfod gadael y cyfarfod er mwyn mynychu cyfarfod arall.

Cyfeiriwyd at ddatganiad blaenorol y Cyngor o argyfwng hinsawdd a'r angen i weithredu ar frys, ac esboniwyd mai cynlluniau penodol i fynd i'r afael â'r gwaith hynny sydd gerbron.

Cywirwyd anghysondeb oedd yn yr adroddiad, gan nodi mai'r penderfyniad a geisir sydd yn y fersiwn Gymraeg o'r adroddiad sy'n cynnwys y ffigyrau cywir.

Rhybuddiwyd bod y ffynonellau ariannu eto i'w cadarnhau mewn perthynas â rhai o'r prosiectau. Aethpwyd drwy'r rhestr o brosiectau gan fanylu ar yr hyn a gaiff ei argymhell gan yr Adran Gyllid fel ffynonellau ariannu ar eu cyfer. Gyda rhai o'r prosiectau, amlygwyd mai benthyca drwy'r gyfundrefn Salix yw'r ffynhonnell ariannu a gaiff ei argymhell ond y byddai angen gwneud cais am yr arian hwnnw.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Eglurwyd bod y gofrestr risg ynghyd â thystiolaeth ehangach yn amlygu y bydd y gost o beidio a gweithredu yn y maes hwn yn llawer uwch na'r buddsoddiadau sydd yn yr adroddiad gerbron. Cadarnhawyd y bydd rhai o'r prosiectau yn arbed arian yn ogystal â lleihau allyriadau carbon, a manylwyd ar gyfraniadau rhai o'r prosiectau at symud tuag at sero net ac

arbed arian yn y tymor hir. Yn ogystal, cydnabuwyd y manteision o ddefnyddio Salix fel ffynhonnell ariannu ar fel rhai prosiectau.

- Cyfeiriwyd at y ffilm '*National Emergency Briefing*', a holwyd a oes unrhyw beth sy'n codi o'r ffilm y gallwn ei roi ar waith. Mewn ymateb, esboniwyd mai edrych ar yr hyn y gall llywodraeth yn ganolog ei wneud er mwyn newid polisïau y mae'r ffilm. Cefnogwyd y syniad i'r Cabinet ysgrifennu at Lywodraeth Prydain mewn perthynas ag arddangos y ffilm hollbwysig hon yn ehangach.

16. YMESTYN CYNLLUN DECHRAU'N DEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

PENDERFYNIAD

Cytuno i ehangu'r Rhaglen Grant Dechrau'n Deg o fewn y Grant Plant a Chymunedau gan ymestyn y cynllun llawn i ardal newydd sef ardal Pwllheli yn sgil gostyngiad yn y niferoedd cymwys i'r rhaglen bresennol.

TRAFODAETH

Amlygwyd mai adroddiad o newyddion da sydd gerbron, gyda'r bwriad o ehangu'r rhaglen i ardal Pwllheli.

Esboniwyd cynnwys y rhaglen a soniwyd bod y rhaglen eisoes wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus mewn 7 cymuned yng Ngwynedd. Ehangwyd ar hyn gan nodi bod capasiti a chyllid grant ar gael i ymestyn y rhaglen o ganlyniad i leihad yn y nifer o blant cymwys yn yr ardaloedd presennol.

Cadarnhawyd y byddai hyn yn galluogi i oddeutu 91 o blant ychwanegol gael mynediad at y Cynllun hwn.

Er bod y Rhaglen eisoes wedi ehangu i gynnwys mwy o ardaloedd, adnabuwyd bod lleihad yn y nifer o enedigaethau yn yr ardaloedd hynny ac felly nad oedd y Rhaglen yn cyrraedd y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Trafodwyd y buddsoddiad sylweddol fesul plentyn, a'r angen i gynyddu'r niferoedd o blant sy'n derbyn cefnogaeth y Rhaglen. Cadarnhawyd bod dadansoddiad o ddata wedi adnabod bod yr angen am y ddarpariaeth yn bresennol yn yr ardal dan sylw.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Croesawyd y bwriad i ehangu'r Rhaglen.

17. BLAENRAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd yr eitem gan nodi bod y flaenraglen wedi'i chynnwys er gwybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yh a daeth i ben am 4:55yh.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Strategaeth Llais y Plentyn
Aelod Cabinet:	Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg
Swyddog perthnasol:	Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Dyddiad y cyfarfod:	13 Hydref 2026

1. Y Penderfyniad a Geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

1. Gymeradwyo Strategaeth Llais y Plentyn Cyngor Gwynedd (**Atodiadau 1 - 5**)
2. Nodi y bydd Cynllun Gweithredu corfforaethol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu i gefnogi gweithrediad y Strategaeth ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

Mae'r Strategaeth yn sefydlu fframwaith corfforaethol ar gyfer sicrhau bod hawliau, barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n ystyrlon ar benderfyniadau, polisiâu a gwasanaethau ar draws Cyngor Gwynedd. Mae hefyd yn gosod disgwyliadau cyson ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac yn cryfhau atebolrwydd corfforaethol mewn perthynas â llais plant a phobl ifanc.

Mae mabwysiadu'r Strategaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu a gwreiddio trefniadau cyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws pob maes gwasanaeth. Bydd yn sicrhau dull corfforaethol cyson o wrando ar blant a phobl ifanc, defnyddio eu safbwyntiau wrth gynllunio a gwella gwasanaethau, a dangos sut mae eu cyfraniadau yn dylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor.

Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet er mwyn mabwysiadu'r Strategaeth fel fframwaith corfforaethol swyddogol y Cyngor a sefydlu'r trefniadau llywodraethu, monitro a gweithredu sy'n angenrheidiol i'w rhoi ar waith ar draws y sefydliad. Heb Strategaeth gorfforaethol glir, mae perygl y bydd arferion cyfranogiad yn parhau yn anghyson rhwng gwasanaethau ac y bydd hi'n anodd dangos yn systematig sut mae barn plant a phobl ifanc yn llywio penderfyniadau'r Cyngor.

3. Cyflwyniad

Mae hawl plant a phobl ifanc i gael eu clywed wedi'i gwreiddio yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ynghyd â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar y dyletswyddau hyn ac yn darparu dull corfforaethol o sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn rhan annatod o gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau, yn ogystal â wneud penderfyniadau ar draws y Cyngor.

Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth lle mae'r Cyngor yn gweithredu'n gyson ar sail hawliau plant, gan wreiddio Llais y Plentyn ym mhob agwedd o arweinyddiaeth, diwylliant, prosesau a systemau'r sefydliad.

Mae'r Strategaeth yn cael ei llywio gan saith addewid i blant a phobl ifanc, gan gynnwys ymrwymiad i sicrhau bod eu llais yn dylanwadu ar benderfyniadau, bod adborth yn cael ei ddarparu a bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gael ei glywed.

Mae'r Strategaeth hefyd yn sefydlu trefniadau llywodraethu clir drwy dri phrif lwybr cyfranogiad: Addysg, y Gwasanaeth Ieuencid a gwasanaethau corfforaethol eraill. Daw'r ffrydiau hyn ynghyd drwy Fforwm Ieuencid Gwynedd, sy'n darparu mecanwaith ffurfiol ar gyfer cyflwyno safbwyntiau plant a phobl ifanc i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol. Mae hyn yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn gyson o fewn trefniadau cynllunio, gwerthuso a gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

O fewn ysgolion, bydd cyrff llywodraethu yn parhau i gyflawni eu swyddogaethau statudol a'u rôl strategol annibynnol. Fel rhan o'u rôl fel cyfaill beirniadol, disgwylir iddynt geisio sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i wrando ar ddisgyblion ac i ystyried sut mae eu safbwyntiau'n llywio polisïau, cynlluniau a blaenoriaethau'r ysgol. Nid yw'r Strategaeth yn gosod dyletswyddau gweithredol newydd ar lywodraethwyr nac yn newid trefniadau llywodraethu presennol ysgolion.

Bydd gweithrediad y Strategaeth yn cryfhau gwaith y Cyngor drwy:

- Sicrhau cysondeb corfforaethol ar draws pob gwasanaeth.
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng cyfranogiad a gwneud penderfyniadau strategol.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth yn cael eu clywed.
- Cryfhau atebolrwydd a'r gallu i ddangos effaith.
- Datblygu diwylliant sefydliadol lle mae gwrandao ar blant yn rhan arferol o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Er bod nifer o fecanweithiau eisoes ar waith ar draws y Cyngor i gasglu barn plant a phobl ifanc, mae tystiolaeth o amrywiad rhwng gwasanaethau a risgiau o safbwynt

cysondeb ac atebolrwydd. Mae'r Strategaeth yn ymateb i'r heriau hyn drwy ddarparu disgwyliadau corfforaethol cyffredin ac egwyddorion gweithredu clir.

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio nad tasg i un gwasanaeth yn unig yw Llais y Plentyn ond cyfrifoldeb corfforaethol sy'n berthnasol i holl swyddogaethau'r Cyngor.

Datblygwyd y Strategaeth gyda mewnbwn gan blant a phobl ifanc, a bydd fersiwn hygyrch o'r ddogfen ar gael iddynt.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Mae'r Strategaeth yn darparu'r fframwaith strategol sydd ei angen i sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn gyson wrth ddatblygu polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau strategol.

Bydd mabwysiadu'r Strategaeth yn:

- Cefnogi dyletswyddau statudol y Cyngor mewn perthynas â hawliau plant.
- Cryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd corfforaethol.
- Egluro rôl strategol cyrff llywodraethu ysgolion wrth geisio sicrwydd bod llais y disgybl yn cael ei ystyried, heb newid eu swyddogaethau statudol na'u cyfrifoldebau presennol.
- Sicrhau bod profiadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cyfrannu at gynllunio a gwella gwasanaethau.
- Darparu sail glir ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd ar effaith cyfranogiad plant a phobl ifanc. Bydd y cynllun gweithredu'n cynnwys dangosyddion perfformiad a threfniadau adrodd rheolaidd i fesur effaith y Strategaeth.

5. Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Mae'r Strategaeth wedi'i datblygu drwy broses o gynnwys plant a phobl ifanc wrth lunio'r fframwaith, y blaenoriaethau a'r disgwyliadau sydd yn sail i'r ddogfen derfynol. Defnyddiwyd egwyddorion Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i'r gwaith, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i fynegi eu barn, herio syniadau ac effeithio ar gynnwys y Strategaeth. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r egwyddor a nodir yn y Strategaeth fod plant yn ddeiliaid hawliau a bod eu profiadau byw yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau.

Yn ystod y cyfnod datblygu, rhoddwyd cyfleoedd i blant a phobl ifanc herio'r cynnwys drafft, nodi meysydd i'w cryfhau a dylanwadu ar gynnwys y ddogfen derfynol. O ganlyniad, mae'r Strategaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a fynegwyd gan bobl ifanc eu hunain, gan gynnwys yr angen am ddylanwad gwirioneddol ar

benderfyniadau, adborth clir ar ganlyniadau eu cyfraniad, a sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gael ei glywed.

Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu pwrpasol gyda phlant a phobl ifanc i drafod y Strategaeth ddrafft a chanfod a oedd yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddynt. Yn hytrach na gofyn am gymeradwyaeth i ddogfen a oedd eisoes wedi'i chwblhau, defnyddiwyd y sesiynau i adnabod beth oedd ar goll, beth oedd angen ei gryfhau a beth fyddai'n dangos yn ymarferol bod y Strategaeth yn arwain at newid gwirioneddol. Roedd hyn yn sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei llywio gan brofiadau ac anghenion plant a phobl ifanc yn hytrach na safbwyntiau oedolion yn unig. Gweler **Atodiad 6** am grynodedd llawn o'r sesiynau ymgysylltu â'r bobl ifanc.

Mae dylanwad plant a phobl ifanc eisoes yn weladwy yn y Strategaeth derfynol. Mae'r saith addewid craidd wedi'u llunio yn uniongyrchol o'u geiriau a'u blaenoriaethau, gan gynnwys yr angen i sicrhau:

- bod eu llais yn dylanwadu ar benderfyniadau ac nid yn cael ei gasglu yn unig;
- bod pob plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan, nid y rhai mwyaf hyderus yn unig;
- bod adborth clir yn cael ei ddarparu ar yr hyn sydd wedi newid;
- a bod eu safbwyntiau yn cyrraedd y bobl sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae'r adborth a dderbyniwyd hefyd wedi dylanwadu ar nifer o elfennau craidd y Strategaeth, gan gynnwys y pwyslais ar gyfranogiad ystyrlon, cynhwysiant, tryloywder, atebolrwydd a'r angen i ddangos effaith. O ganlyniad, mae'r Strategaeth yn gosod disgwyliad clir mai llwyddiant fydd gallu dangos sut mae barn plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar benderfyniadau, polisiau a gwasanaethau, yn hytrach na mesur llwyddiant ar sail nifer y gweithgareddau ymgysylltu a gynhelir yn unig.

Nid yw cyfraniad plant a phobl ifanc yn dod i ben gyda mabwysiadu'r Strategaeth. Mae'r ddogfen yn ymrwymo'r Cyngor i gynnal dull parhaus o gyfranogiad drwy strwythurau sefydledig megis Fforwm Ieuenctid Gwynedd a'r Cabinet Pobl Ifanc, gan sicrhau y bydd plant a phobl ifanc yn parhau i gyfrannu at osod blaenoriaethau, monitro cynnydd a llywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, mae'r broses ddatblygu wedi adlewyrchu'r egwyddor ganolog sydd wrth wraidd y Strategaeth sef nad yw Llais y Plentyn yn ymwneud â chasglu barn yn unig, ond â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael dylanwad gwirioneddol ar y penderfyniadau, y polisiau a'r gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

6. Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae Asesiad Effaith Cyfansawdd wedi'i gwblhau ar gyfer Strategaeth Llais y Plentyn. Daeth yr Asesiad i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol wedi'u nodi mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Disgwylir i'r Strategaeth gael effaith gadarnhaol drwy gryfhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael eu clywed a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan roi sylw penodol i'r angen i sicrhau cyfranogiad cynhwysol a chynrychioliadol, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth.

Mae'r Asesiad hefyd yn dod i'r casgliad bod y Strategaeth yn cefnogi hawliau plant, yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn cyfrannu at leihau rhwystrau i gyfranogiad ac yn cydfynd â dyletswyddau'r Cyngor mewn perthynas â hawliau dynol, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Gellir gweld yr Asesiad Effaith Cyfansawdd llawn yn **Atodiad 7**.

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Strategaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at nifer o nodau llesiant y Ddeddf, yn arbennig Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, a Chymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'n cryfhau hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc, yn hyrwyddo cynhwysiant ac yn cefnogi trefniadau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r Strategaeth hefyd yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio drwy fabwysiadu dull hirdymor o wreiddio llais y plentyn yng ngwaith y Cyngor, hyrwyddo atal drwy ddeall profiadau plant a phobl ifanc yn gynharach, integreiddio cyfranogiad ar draws gwasanaethau, cydweithio â phlant a phobl ifanc a rhanddeiliaid perthnasol, a sicrhau bod cynnwys wrth wraidd y trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau.

8. Sylwadau Swyddogion Statudol

8.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir ac yn fodlon nad oes ymrwymiad ariannol ychwanegol yn deillio ohono.

8.2 Swyddog Monitro

Mae paragraffu agoriadol y Strategaeth yn tanlinellu natur traws Gyngor y fframwaith cyfreithiol sydd yn sylfaen i'r ddogfen bwysig yma. Mae lle cydnabyddedig i lais plant a phobl ifanc ar draws holl waith y cyngor sydd yn berthnasol neu yn effeithio arnynt. Drwy baratoi strategaeth eglur gosodir fframwaith gorfforaethol ddylai weithredu i amlygu y gofynion wrth gwrs ond, hefyd y disgwyliadau ar holl wasanaethau y Cyngor i roi lle priodol i'r hawliau yma. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 – Strategaeth Llais y Plentyn

Atodiad 2 – Llais y Dysgwr mewn Addysg

Atodiad 3 – Llais y Dysgwyr mewn Gwasanaethau Plant

Atodiad 4 – Fforymau Llais Plant a Phobl Ifanc

Atodiad 5 – Integreiddio a Llywodraethu Strategol

Atodiad 6 – Canlyniadau'r Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc

Atodiad 7 – Asesiad Effaith Cyfansawdd

Strategaeth Llais y Plentyn



gwynedd.llyw.cymru

Ffôn: 01766 771000

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw iaith neu ddiwyg arall,
e.e. print bras neu Braille, cysylltwch â'r Adran Addysg, Cyngor Gwynedd.

Tud. 27

Cynnwys

Pam mae'r Strategaeth yn bodoli?	3
Beth yw'r weledigaeth hirdymor?	3
Ein saith addewid i blant a phobl ifanc	4
Y cefndir, yr heriau, a'r cyfleoedd	4
Beth sy'n gyrru'r angen am y Strategaeth nawr?	4
Egwyddorion sylfaenol Strategaeth Llais Y Plentyn	5
Beth a wnawn ni – a beth na wnawn ni	6
Gwreiddio Llais Y Plentyn yng ngwaith y Gwasanaeth Plant	7
Llais Y Disgybl mewn Ysgolion a Chynghorau Ysgol	8
Rôl Cyrff Llywodraethu	10
Taith y Llais: O Brofiad i Weithredu	11
Strwythur Corfforaethol Cyfranogiad a Llywodraethu	12
Integreiddio Llais Y Plentyn mewn trefniadau corfforaethol a phenderfynu	14
Blaenoriaethau Strategol	15
Atebolrwydd Corfforaethol a Goruchwyliaeth Strategol	16

Pam mae'r Strategaeth yn bodoli?

Mae Strategaeth Llais y Plentyn yn sefydlu fframwaith corfforaethol clir ar gyfer sicrhau bod hawliau, barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n ystyrlon ar benderfyniadau, polisiâu a gwasanaethau ar draws Cyngor Gwynedd. Er bod dyletswyddau a ddarpariaethau statudol cryf eisoes ar waith — gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 — mae'r Strategaeth yn pwysleisio'r angen am drefniadau cyson a disgwyliadau sefydlog i sicrhau gweithredu llawn. Nid egwyddor foesol yn unig yw Llais y Plentyn, ond elfen graidd o lywodraethu ac o wneud penderfyniadau

Erthygl 12:

- 1. Rhaid i Barfion Gwladwriaethau sicrhau i'r plentyn sy'n gallu ffurfio ei farn ei hun hawl i leisio'r farn honno'n ddirwystr ym mhob mater sy'n effeithio arno, a bod pwys priodol yn cael ei roi ar farn y plentyn yn ôl ei oedran a'i aeddfedrwydd.**
- 2. At y diben hwn, rhaid rhoi cyfle i'r plentyn yn benodol i gael gwrandawriad mewn unrhyw weithdrefn farnwrol a gweinyddol sy'n effeithio arno, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gynrychiolydd neu gorff priodol, mewn modd sy'n gyson â rheolau gweithdrefnol y gyfraith genedlaethol.**

Beth yw'r weledigaeth hirdymor?

Y nod yw bod y Cyngor yn gweithredu'n gyson â dull sy'n seiliedig ar hawliau plant, gan wreiddio Llais y Plentyn ym mhob agwedd ar arweinyddiaeth, diwylliant, prosesau a systemau. Mewn sefydliad aeddfed, ystyrir hawl plant i gael eu clywed (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 12) fel egwyddor weithredol sy'n llywio cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau. Disgwylir i'r dull hwn feithrin ac arwain at well penderfyniadau, gwasanaethau mwy ymatebol, ac ansawdd uwch o ran canlyniadau llesiant.

Ein saith addewid i blant a phobl ifanc

Mae'r addewidion hyn wedi'u llunio o eiriau a blaenoriaethau pobl ifanc. Byddant yn arwain y ffordd y mae'r Cyngor yn gwrando, yn gweithredu ac yn rhoi adborth.

1. **Mae gennych hawl i gael eich clywed.**
2. **Bydd eich llais yn dylanwadu, nid yn cael ei gasglu'n unig.**
3. **Bydd pawb yn cael cyfle, nid y rhai mwyaf hyderus yn unig.**
4. **Byddwn yn dweud wrthych beth wnaethom gyda'ch barn.**
5. **Bydd eich llais yn cyrraedd y bobl sy'n gwneud penderfyniadau.**
6. **Byddwn yn defnyddio dulliau sy'n addas i chi.**
7. **Bydd gwrando arnoch yn helpu i'ch cadw'n ddiogel a gwella eich llesiant.**

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl pa mor glir y gall plant a phobl ifanc weld bod eu barn wedi dylanwadu ar benderfyniad, gweithred neu esboniad, nid yn

Y cefndir, yr heriau, a'r cyfleoedd

Mae deddfwriaeth a fframweithiau polisi yng Nghymru yn gosod disgwyliadau clir ar awdurdodau lleol i wrando ar blant a rhoi sylw i'w hawliau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pwysleisio gwneud penderfyniadau cynaliadwy ac ystyriol, tra bod Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cynnig meincnodau arfer da.

Er hynny, mae tystiolaeth o amrywiad sylweddol rhwng gwasanaethau, pwysau adnoddau a risg o dan-gynrychiolaeth plant ar y cyrion neu gyda phrofiadau cymhleth. Ar yr un pryd, mae cyfleoedd amlwg i gryfhau cysondeb, gwella ansawdd penderfyniadau a chodi aeddfedrwydd corfforaethol drwy ddefnyddio llais plant fel tystiolaeth strategol.

Beth sy'n gyrru'r angen am y Strategaeth nawr?

Mae cyfuniad o bwysau gweithredol, disgwyliadau statudol cynyddol a dysgu o arolygiadau ac adolygiadau ymarfer wedi tynnu sylw at risgiau sylweddol pan nad yw lleisiau plant yn cael eu clywed. Mewn cyd-destun o alw uwch ar wasanaethau cyhoeddus, mae perygl o weithredu anghyson heb gyfeiriad strategol cadarn. Mae'r strategaeth hon felly'n cynnig fframwaith i flaenoriaethu hawliau plant, dangos atebolrwydd a sicrhau gwelliant parhaus.

Egwyddorion sylfaenol Strategaeth Llais Y Plentyn

1. PLANT FEL DEILIAID HAWLIAU

Mae plant yn ddeiliaid hawliau llawn, gyda hawl statudol i gael eu barn wedi'i hystyried. Cydnabyddir eu statws nid fel derbynwyr gwasanaeth, ond fel unigolion y mae angen ymateb i'w lleisiau.

2. LLAIS Y PLENTYN FEL SAIL I ANSAWDD PENDERFYNIADAU

Mae profiadau byw plant yn elfen allweddol o wneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol. Disgwylir tystiolaeth glir o gyfraniad lleisiau plant i bob penderfyniad allweddol.

3. CYFRANOGIAD YSTYRLON

Mae cyfranogiad yn golygu bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd gwirioneddol i fynegi eu barn, cyfrannu at drafodaethau, a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'n sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, eu gwerthfawrogi, a'u defnyddio i lywio cynllunio, darpariaeth, a gwelliant.

Dim ond pan fo cyfranogiad yn ddifffuant, eglur ei bwrpas ac yn arwain at ddylanwad gwirioneddol ystyrir ei fod yn briodol. Mae'n rhaid i blant ddeall pam eu bod yn cael eu holi ac yn cael adborth ar effaith eu cyfraniad.

4. CYNHWYSIANT A DIM GWAHANIAETHU

Mae gan bob plentyn hawl gyfartal i gael ei glywed, waeth beth fo'i gefndir, gallu neu brofiadau bywyd. Mae hyn yn cynnwys cymryd amser i ddeall anghenion, dewisiadau a safbwyntiau plant di-eiriau a phlant cyn-eiriau. Caiff dulliau cyfathrebu eu haddasu i ddiwallu anghenion y plentyn, nid i ffitio i arfer y gwasanaeth.

5. ATEBOLRWYDD, ADBORTH A THRYLOYWDER

Mae gwrando ar blant yn cynnwys dyletswydd i esbonio sut y defnyddiwyd eu barn, sut y gellid ei defnyddio, neu pam nad oedd modd gweithredu arni. Mae tryloywder yn rhan o barch a hawliau.

6. CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL AR DRAWS Y CYNGOR

Nid tasg un gwasanaeth yw Llais y Plentyn. Mae'n ofyniad corfforaethol sy'n berthnasol i bob swyddogaeth, gan adlewyrchu dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth Cymru.

7. GWRANDO FEL SAIL I DDIOGELU A LLESIANT

Mae deall profiad y plentyn yn ganolog i ddiogelu a hyrwyddo llesiant. Mae tystiolaeth yn dangos bod methu â chlywed llais plentyn yn ffactor risg difrifol. Tud. 31

Beth a wnawn ni – a beth na wnawn ni

Rydym yn:

- Gwrando'n bwrpasol ac yn ystyrlon ar blant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Gweithio o fewn fframwaith hawliau plant ac yn rhoi sylw dyledus i hawliau statudol.
- Defnyddio dulliau addas, hygyrch a chynhwysol i alluogi pob plentyn i fynegi barn.
- Sicrhau eglurder ynghylch pwrpas, dylanwad ac adborth mewn pob proses ymgysylltu.
- Dangos yn glir sut mae barn plant wedi llywio penderfyniadau, neu'n egluro pam nad yw newid yn bosibl.
- Datblygu'r gweithlu i wrando'n foesegol ac yn hyderus.
- Integreiddio Llais y Plentyn yn llawn yn systemau a phrosesau corfforaethol.
- Cynnwys plant, lle bo modd, yn y broses o wneud penderfyniadau, gan eu galluogi i gymryd rhan wrth ystyried opsiynau a llywio canlyniadau, yn hytrach na thrwy ymgynghoriadau untro yn unig.

Ni wnawn:

- Casglu barn plant heb bwrpas clir nac at ddibenion syml o gydymffurfio.
- Creu disgwyliadau neu addewidion nas gellir eu cyflawni.
- Trin cyfranogiad fel gweithgaredd arwynebol neu gyfrifoldeb un gwasanaeth.
- Eithrio unrhyw blentyn rhag cael ei glywed oherwydd cyd-destun neu amgylchiadau.
- Wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc heb roi ystyriaeth briodol i'w safbwyntiau a'u profiadau.
- Gorfodi plant i ailadrodd eu stori neu gymryd rhan mewn prosesau sy'n tanseilio eu diogelwch emosiynol.

Gwreiddio Llais Y Plentyn yng ngwaith y Gwasanaeth Plant

Mae Gwasanaeth Plant yn gweithredu ar y sail bod llais y plentyn yn elfen hanfodol o ymarfer proffesiynol effeithiol, diogelu a gwneud penderfyniadau o ansawdd uchel. Mae deall profiad byw'r plentyn yn ganolog i bob agwedd ar asesu, cynllunio, ymyrraeth ac adolygu, ac nid yw'n weithgaredd ar wahân nac yn atodiad i'r broses broffesiynol.

Bydd gweithwyr proffesiynol yn cymryd camau rhagweithiol a phriodol i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle gwirioneddol i fynegi ei safbwyntiau, ei deimladau a'i brofiadau. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n briodol i oedran, datblygiad, iaith, gallu ac anghenion unigol y plentyn, a darparu cyfleoedd i'r plentyn gael ei glywed mewn amgylchedd sy'n ddiogel, yn gefnogol ac yn rhydd rhag pwysau amhriodol.

Bydd llais y plentyn yn cael ei gasglu, ei gofnodi a'i ddefnyddio'n systematig fel rhan o:

- **unrhyw ymchwiliad i honiadau yn erbyn person mewn sefyllfa o ymddiriedaeth;**
- **asesiadau llesiant a risg;**
- **cynlluniau gofal a chymorth;**
- **cyfarfodydd a chynadleddau aml asiantaeth;**
- **adolygiadau statudol;**
- **a phob penderfyniad sy'n effeithio ar fywyd, diogelwch a llesiant y plentyn.**

Bydd cofnodion proffesiynol yn dangos yn glir beth yw safbwynt y plentyn, sut y cafodd ei gasglu, a sut mae'r safbwynt hwn wedi cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau. Lle nad yw'n bosibl gweithredu ar ddewis neu ddymuniad y plentyn, bydd esboniad clir, gonest ac addas i'w oedran yn cael ei roi, a bydd hyn yn cael ei gofnodi'n briodol.

Mae cyfrifoldeb ar weithwyr proffesiynol i sicrhau nad yw llais y plentyn yn cael ei gymryd yn ganiataol nac yn cael ei hidlo'n anghymesur drwy ddehongliad oedolion. Lle bo'n briodol, bydd y plentyn yn cael cymorth i fynegi ei hun, gan gynnwys defnyddio eiriolaeth annibynnol, dulliau cyfathrebu amgen, neu gymorth gan weithwyr proffesiynol sydd â pherthynas ymddiriedus â'r plentyn.

Bydd rheolwyr yn darparu goruchwyliaeth broffesiynol effeithiol i sicrhau bod llais y plentyn yn elfen weladwy ac o ansawdd uchel o fewn ymarfer. Bydd hyn yn cynnwys adolygu cofnodion, archwilio penderfyniadau, a herio ymarfer lle nad yw safbwyntiau'r plentyn wedi'u hystyried yn ddigonol neu wedi'u cofnodi'n glir.

Yn ogystal, bydd adborth, cwynion, canmolïaeth a chyfraniadau ehangach gan blant a phobl ifanc yn cael eu defnyddio'n systematig i lywio gwerthuso a gwelliant gwasanaethau. Bydd y Gwasanaeth Plant yn gallu dangos sut mae profiadau a safbwyntiau plant wedi cyfrannu at ddatblygu ymarfer, gwella darpariaeth a chryfhau ansawdd gwasanaethau.

Trwy'r trefniadau hyn, bydd llais y plentyn yn cael ei wreiddio fel egwyddor weithredol sylfaenol o fewn diwylliant, systemau ac ymarfer y Gwasanaeth Plant, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei glywed, ei barchu, a'i ystyried fel unigolyn canolog yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar ei fywyd.

Llais Y Disgybl mewn Ysgolion a Chynghorau Ysgol

Mae ysgolion yn gweithredu ar y sail bod llais y disgybl yn elfen graidd o addysg effeithiol, llesiant cadarnhaol ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel. Mae gan bob disgybl hawl i gael ei glywed mewn materion sy'n effeithio ar ei brofiad addysgol, ei lesiant a'i ddatblygiad personol, ac mae'r hawl hon yn cael ei gwireddu drwy drefniadau systematig, cynhwysol ac ystyrlon.

Bydd ysgolion yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd, hygyrch a phriodol ar gael i ddisgyblion fynegi eu barn, eu safbwyntiau a'u profiadau. Bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o strwythurau ffurfiol ac anffurfiol, megis Cynghorau Ysgol, arolygon disgyblion, trafodaethau dosbarth, grwpiau ffocws a dulliau eraill sy'n briodol i oedran, gallu ac anghenion disgyblion.

Bydd Cynghorau Ysgol yn gweithredu fel mecanwaith cynrychiolaethol ffurfiol sy'n galluogi disgyblion i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd yr ysgol. Bydd ysgolion yn sicrhau bod Cynghorau Ysgol:

- yn gynrychioliadol o amrywiaeth y corff disgyblion;
- yn gweithredu mewn modd strwythuredig, rheolaidd ac effeithiol;
- yn cael cyfleoedd gwirioneddol i ddylanwadu ar benderfyniadau perthnasol;
- ac yn derbyn adborth clir ar effaith eu cyfraniad.

Yn ogystal â'r strwythurau sicrhau cynrychiolaeth yma, bydd ysgolion yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol mewn penderfyniadau unigol sy'n effeithio arnynt, yn unol â disgwyliadau statudol a'r egwyddor o barchu hawliau plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i gyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â'u hanghenion dysgu ychwanegol, eu cefnogaeth, eu llesiant a phrosesau ffurfiol megis gwaharddiadau, gan sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried yn briodol. Yn ogystal, bydd ysgolion yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyfranogiad pellach drwy grwpiau a mentrau megis grwpiau eco, grwpiau llesiant, mentrau cymorth cymheiriaid a grwpiau gweithredu eraill, gan alluogi disgyblion i gyfrannu'n weithredol at ddatblygu a gwella eu hysgol a'u cymuned.

Bydd arweinwyr ysgol yn sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei integreiddio'n llawn o fewn trefniadau arweinyddiaeth, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio safbwyntiau disgyblion fel ffynhonnell dystiolaeth wrth:

- werthuso ansawdd addysgu a dysgu;
- asesu llesiant ac ymdeimlad o berthyn;
- nodi cryfderau a meysydd ar gyfer datblygu;
- a llywio blaenoriaethau a chamau gweithredu gwella ysgol.

Bydd ysgolion yn gallu dangos yn glir sut mae safbwyntiau disgyblion wedi cael eu hystyried ac, lle bo'n briodol, wedi dylanwadu ar benderfyniadau, polisiau ac arferion. Lle nad yw'n bosibl gweithredu ar safbwyntiau disgyblion, bydd esboniad clir, rhesymol ac addas i'w hoedran yn cael ei roi.

Bydd sylw penodol yn cael ei roi i sicrhau bod disgyblion sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth—gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion bregus, neu'r rhai sy'n llai hyderus—yn cael cyfleoedd priodol a chefnogol i gael eu clywed. Bydd ysgolion yn cymryd camau rhagweithiol i ddileu rhwystrau i gyfranogiad ac i sicrhau cynhwysiant llawn.

Bydd cyrff llywodraethu yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei ystyried fel rhan o'u rôl goruchwyllo a sicrhau ansawdd. Bydd hyn yn cynnwys derbyn a chraffu ar dystiolaeth o gyfranogiad disgyblion, a sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i alluogi disgyblion i gyfrannu at werthuso a datblygu'r ysgol.

Trwy'r trefniadau hyn, bydd llais y disgybl yn cael ei wreiddio fel elfen weladwy ac ystyrion o ddiwylliant, arweinyddiaeth a gweithrediad yr ysgol, gan sicrhau bod disgyblion yn cael eu cydnabod fel cyfranogwyr gweithredol mewn siapio eu profiad addysgol a'u hamgylchedd dysgu.

Rôl Cyrff Llywodraethu

Mae cyrff llywodraethu yn chwarae rôl strategol allweddol wrth sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei gydnabod, ei barchu a'i integreiddio'n llawn o fewn arweinyddiaeth, llywodraethu a gweithrediad unrhyw ysgol. Fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol dros sicrhau ansawdd addysg, llesiant disgyblion ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth, bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod trefniadau cadarn ac effeithiol ar waith i alluogi disgyblion i fynegi eu safbwyntiau a dylanwadu ar benderfyniadau perthnasol.

Bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod aelod dynodedig â chyfrifoldeb clir dros hawliau plant, gan gynnwys hyrwyddo a goruchwyllo gweithrediad hawliau Erthygl 12, a sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei ystyried yn systematig fel rhan o drefniadau llywodraethu, sicrwydd a gwelliant yr ysgol.

Bydd cyrff llywodraethu yn darparu goruchwyliaeth strategol o'r trefniadau sydd ar waith i gasglu, ystyried a defnyddio llais y disgybl. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod arweinwyr ysgol yn gallu dangos tystiolaeth glir o sut mae safbwyntiau disgyblion wedi cael eu hystyried wrth werthuso darpariaeth, datblygu polisiau a gosod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Disgwylir i gyrff llywodraethu sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei ystyried fel ffynhonnell dystiolaeth berthnasol a gwerthfawr wrth gyflawni eu swyddogaethau craidd, gan gynnwys:

- **monitro ac adolygu perfformiad a llesiant disgyblion;**
- **gwerthuso effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth;**
- **craffu ar bolisiau a threfniadau sy'n effeithio ar brofiad disgyblion;**
- **a chyfrannu at brosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol.**

Bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gael i glywed yn uniongyrchol gan ddisgyblion, lle bo'n briodol, gan gynnwys drwy ymgysylltu â chynrychiolwyr Cyngor Ysgol a drwy dderbyn adroddiadau rheolaidd ar weithgarwch a blaenoriaethau'r disgyblion.


Bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod arweinwyr ysgol yn darparu adborth clir i ddisgyblion ar sut mae eu safbwyntiau wedi cael eu defnyddio, gan gryfhau tryloywder, parch ac atebolrwydd. Lle nad yw'n bosibl gweithredu ar safbwyntiau disgyblion, bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod rhesymau clir a phriodol yn cael eu darparu.

Fel rhan o'u rôl sicrwydd, bydd cyrff llywodraethu yn herio ac yn cefnogi arweinwyr ysgol i sicrhau bod cyfranogiad disgyblion yn ystyrlon, yn gynhwysol ac yn cael effaith weladwy ar fywyd a datblygiad yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi sylw penodol i sicrhau bod pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth, yn cael cyfle cyfartal i gael ei glywed.

Trwy gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod llais y disgybl yn elfen annatod o lywodraethu effeithiol, gan gyfrannu at well penderfyniadau, cryfhau atebolrwydd, a sicrhau bod yr ysgol yn ymatebol i anghenion a phrofiadau ei disgyblion.

Taith y Llais: O Brofiad i Weithredu

Bydd pob llwybr cyfranogiad yn dilyn proses gyson, syml a gweladwy:



Ar ddechrau'r broses, dylai plant a phobl ifanc wybod pwrpas y gweithgaredd, pwy fydd yn gwrando, beth all newid a phryd y cânt ddiweddariad. Bydd diweddariad yn cael ei roi hyd yn oed pan nad oes penderfyniad terfynol, a bydd yr ymateb terfynol yn defnyddio'r dull "Dywedoch chi - Gwnaethom ni - Beth newidiodd".

Blaenoriaethau a osodir gan bobl ifanc

Bydd plant a phobl ifanc yn gosod rhan o agenda flynyddol y trefniadau cyfranogiad. Bydd themâu cychwynnol y gweithdy yn cynnwys trafndiaeth a chludiant ysgol, mannau chwarae a mannau gwyrdd, llesiant, addysg ac adnoddau ysgolion, cyfleoedd gwledig, yr economi leol a'r amgylchedd. Bydd y blaenoriaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan bobl ifanc eu hunain.

Strwythur Corfforaethol Cyfranogiad a Llywodraethu

Er mwyn sicrhau dull cyson, cynhwysol a chynaliadwy o weithredu Llais y Plentyn ar draws Cyngor Gwynedd, defnyddir model corfforaethol strwythuredig sy'n cynnwys tair ffrwd gyfranogiad gyd gysylltiedig: Addysg, Gwasanaeth Ieuencid a Gwasanaethau Eraill. Darperir mecanwaith clir a ffurfiol drwy'r model hwn i gasglu, cynrychioli a throsglwyddo barn plant a phobl ifanc o lefel leol i lefel strategol, gan sicrhau bod eu lleisiau yn llywio penderfyniadau, cynllunio a darparu gwasanaethau.

Ffrwd Addysg

Drwy'r ffrwd Addysg, gall disgyblion leisio eu barn drwy strwythurau sefydledig megis Cynghorau Ysgol a fforymau disgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi disgyblion i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu profiadau dysgu, eu llesiant a'u hamgylchedd ysgol. Trosglwyddir y safbwyntiau hyn drwy strwythurau lleol, rhanbarthol a sirol, gan sicrhau bod llais y disgybl yn cyfrannu at gynllunio a gwella addysg ar draws y sir.

Ffrwd y Gwasanaeth Ieuencid

Cyfleoedd i gyfrannu drwy glybiau ieuencid, prosiectau cymunedol a fforymau ieuencid a ddarperir drwy'r ffrwd hon, gan alluogi pobl ifanc i leisio eu barn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau. Sicrheir cynrychiolaeth o ystod eang o bobl ifanc, gan gynnwys y rhai nad ydynt efallai'n ymgysylltu drwy addysg ffurfiol. Mae'r ffrwd hon yn cefnogi datblygiad pobl ifanc fel cyfranogwyr gweithredol ac yn sicrhau bod eu profiadau yn llywio datblygiad gwasanaethau.

Ffrwd Gwasanaethau Corfforaethol Eraill

Drwy'r ffrwd hon, sicrheir bod barn plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â gwasanaethau corfforaethol ehangach—gan gynnwys gwasanaethau gofal, llesiant a chymunedol—yn cael ei chasglu a'i defnyddio'n systematig. Mae hyn yn sicrhau bod profiadau byw plant a phobl ifanc yn cyfrannu at gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor.

Integreiddio a Llywodraethu Strategol

Daw'r tair ffrwd ynghyd ar ffurf Fforwm Ieuencid Gwynedd, sy'n darparu mecanwaith llywodraethu cydnabyddedig i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i arweinwyr, rheolwyr a'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau strategol y Cyngor.

Rhan annatod o'r strwythur hwn yw cyfranogiad aelodau etholedig, sydd ar wahoddiad yn eistedd ar Fforwm Ieuenctid Gwynedd ac yn darparu cyswllt democrataidd uniongyrchol rhwng pobl ifanc a'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Trwy'r trefniant hwn, gwrandewir yn uniongyrchol ar leisiau plant a phobl ifanc wrth lywio polisi, gosod blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau strategol, gan gryfhau atebolrwydd corfforaethol a sicrhau integreiddio llawn Llais y Plentyn o fewn strwythurau llywodraethu'r Cyngor.

Yn ei gyfanrwydd, mae'r model yn sicrhau bod Llais y Plentyn yn elfen systematig ac integredig o lywodraethu corfforaethol, wedi'i wreiddio fel egwyddor weithredol ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor.

Y berthynas rhwng Fforwm Ieuenctid Gwynedd a'r Cabinet Pobl Ifanc

Bydd Fforwm Ieuenctid Gwynedd yn parhau fel y prif fecanwaith sirol eang ar gyfer casglu, trafod a blaenoriaethu lleisiau o'r tair ffrwd. Bydd y Cabinet Pobl Ifanc yn grŵp gweithredol cynrychioliadol o fewn y Fforwm, gyda'r rôl o gyflwyno'r blaenoriaethau a gytunwyd yn uniongyrchol i uwch arweinwyr, aelodau etholedig a'r strwythurau penderfynu perthnasol.

Bydd y Cabinet yn cynnwys cynrychiolaeth ddadsefydliadol ac ystod o brofiadau. Caiff cyfrifoldebau eu rhannu, gan gynnwys trefniadau dirprwyo, fel nad yw'r pwysau'n disgyn ar un person. Bydd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn adrodd yn ôl i'r Fforwm ac i'r bobl ifanc a gynrychiolir ganddo.

Integreiddio Llais y Plentyn mewn Trefniadau Corfforaethol a Phenderfynu

Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio i sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisiau, strategaethau a gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt.

I gefnogi hyn, bydd y Cyngor yn:

- sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a fynegir drwy drefniadau cyfranogiad perthnasol, yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisiau, strategaethau a gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc;
- annog gwasanaethau i nodi, lle bo'n briodol ac yn gymesur, sut y mae safbwyntiau plant a phobl ifanc wedi llywio cynigion neu benderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- hwyluso cyfleoedd i safbwyntiau plant a phobl ifanc gael eu rhannu â'r trefniadau democrataidd a llywodraethu perthnasol pan fo hynny'n berthnasol i'r materion sy'n cael eu hystyried;
- sicrhau bod adborth priodol yn cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc ynghylch sut y cafodd eu safbwyntiau eu hystyried a sut y cyfrannodd eu mewnbyn at ddatblygu polisiau, gwasanaethau neu weithgareddau;
- sicrhau bod trefniadau cyfranogiad plant a phobl ifanc yn cyd-fynd â fframwaith ehangach y Cyngor ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltu â dinasyddion, gan osgoi dyblygu a hyrwyddo egwyddorion cyffredin o gyfranogiad ystyrlon.

Drwy'r trefniadau hyn, bydd Llais y Plentyn yn cael ei wreiddio'n ffurfiol o fewn systemau a phrosesau corfforaethol y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn rhan annatod o lywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau strategol.

Blaenoriaethau Strategol

Er mwyn symud o ddisgwyliadau ac egwyddorion at weithredu cyson ac aeddfed ar draws y Cyngor, bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar gryfhau'r meysydd canlynol:

Sicrhau cysondeb corfforaethol ar draws pob gwasanaeth

Er bod arferion cadarn eisoes yn bodoli, bydd y Cyngor yn cryfhau cysondeb er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei ystyried yn systematig ar draws pob gwasanaeth, nid mewn rhai meysydd yn unig. Bydd hyn yn lleihau amrywiad ac yn sicrhau dull corfforaethol clir a chyson.

Cryfhau'r cysylltiad rhwng cyfranogiad a gwneud penderfyniadau strategol

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ac yn weladwy ar benderfyniadau strategol, cynllunio gwasanaethau a gosod blaenoriaethau, gan symud o gyfranogiad fel gweithgaredd at gyfranogiad fel dylanwad.

Sicrhau bod pob plentyn, yn enwedig y rhai sydd mewn sefyllfaoedd bregus, yn cael eu clywed

Bydd ffocws penodol ar gryfhau cyfleoedd i glywed lleisiau plant sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth neu sydd â phrofiadau cymhleth, gan sicrhau cynhwysiant llawn a theg.

Cryfhau atebolrwydd a'r gallu i ddangos effaith

Bydd y Cyngor yn cryfhau trefniadau i ddangos yn glir sut mae barn plant wedi llywio penderfyniadau a gwasanaethau, gan sicrhau tryloywder, dysgu sefydliadol a gwelliant parhaus.

Datblygu gallu sefydliadol a diwylliant cynaliadwy

Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu gallu'r gweithlu, arweinyddiaeth a systemau er mwyn sicrhau bod gwrando ar blant yn rhan arferol, gynaliadwy ac annatod o ddiwylliant sefydliadol.

Atebolrwydd Corfforaethol a Goruchwyliaeth Strategol

Mae atebolrwydd clir yn hanfodol er mwyn sicrhau bod egwyddorion y strategaeth hon yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol ar draws y Cyngor.

Bydd goruchwyliaeth strategol o weithrediad y strategaeth yn cael ei darparu, a fydd yn:

- **derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd a gweithredu'r strategaeth;**
- **monitro effeithiolrwydd trefniadau cyfranogiad plant a phobl ifanc;**
- **nodi risgiau, bylchau neu anghysondebau mewn gweithredu;**
- **sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i gryfhau ymarfer lle bo angen.**

Bydd Penaethiaid Adran a rheolwyr perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod egwyddorion y strategaeth hon yn cael eu gweithredu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb, a bod tystiolaeth briodol o hyn yn cael ei chofnodi a'i hadrodd drwy drefniadau corfforaethol sefydledig.

Bydd aelodau etholedig yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu her, sicrwydd ac atebolrwydd democrataidd mewn perthynas â gweithredu'r strategaeth. Bydd adroddiad blynyddol ar weithrediad y Strategaeth a chynnydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o drefniadau atebolrwydd a goruchwyliaeth y Cyngor

Gweithredu a Chynllunio

Er mwyn cefnogi gweithrediad effeithiol y strategaeth hon, bydd Cynllun Gweithredu corfforaethol yn cael ei ddatblygu a'i gynnal.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn:

- **nodi camau gweithredu clir, amserlenni a chyfrifoldebau;**
- **cefnogi gweithredu cyson ar draws pob gwasanaeth perthnasol;**
- **sicrhau bod gweithredu'n realistig, yn gymesur ac yn gynaliadwy;**
- **galluogi monitro cynnydd a nodi meysydd ar gyfer gwelliant pellach.**

Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn effeithiol ac yn ymatebol i anghenion y Cyngor a phlant a phobl ifanc.

Monitro, Gwerthuso a Sicrwydd

Bydd trefniadau monitro ffurfiol yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod gweithrediad y strategaeth hon yn cael ei werthuso'n systematig ac yn dryloyw.

Bydd hyn yn cynnwys:

- **datblygu dangosyddion priodol i asesu gweithrediad ac effaith y strategaeth;**
- **casglu a dadansoddi tystiolaeth berthnasol, gan gynnwys adborth gan blant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol a strwythurau llywodraethu;**
- **nodi meysydd o gryfder ac unrhyw feysydd lle mae angen cryfhau gweithredu ymhellach;**
- **defnyddio canfyddiadau monitro i lywio gwelliant parhaus ar draws y Cyngor.**

Bydd sicrwydd corfforaethol mewn perthynas â gweithrediad y strategaeth yn cael ei ddarparu.

Adrodd a Thryloywder

Er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder, bydd adroddiadau cynnydd ar weithrediad y Strategaeth Llais y Plentyn yn cael ei baratoi.

Bydd yr adroddiad hwn yn:

- **crynhai cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a chamau gweithredu perthnasol;**
- **amlinellu tystiolaeth o effaith ar bolisiau, penderfyniadau a gwasanaethau;**
- **nodi unrhyw heriau neu risgiau perthnasol;**
- **amlinellu camau pellach i gryfhau gweithredu.**

Lle bo'n briodol, bydd gwybodaeth am weithrediad y strategaeth hefyd yn cael ei rhannu â phlant a phobl ifanc drwy strwythurau cyfranogiad sefydledig, gan sicrhau tryloywder ac adborth ystyrlon.

Safon Adborth ac Adrodd

Bydd pob mater sy'n symud ymlaen drwy'r trefniadau corfforaethol yn cael perchennog, statws, cam nesaf ac amserlen ar gyfer diweddariad. Bydd plant a phobl ifanc yn cael gwybod beth sydd wedi newid, beth sydd heb newid a pham. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi enghreifftiau hygyrch o "Dywedoch chi - Gwnaethom ni - Beth newidiodd".

Bydd fersiwn fer, hygyrch o'r Strategaeth ar gael i blant a phobl ifanc.

Adolygu'r Strategaeth

Bydd y Strategaeth Llais y Plentyn yn cael ei hadolygu'n gyfnodol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol, yn effeithiol ac yn adlewyrchu disgwyliadau statudol, blaenoriaethau corfforaethol a phrofiadau plant a phobl ifanc.



STRATEGAETH LLAIS Y PLENTYN



Cyngor
Gwynedd

Llais Y Dysgwr Mewn Addysg

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw iaith neu ddiwyg arall, e.e. print bras neu Braille, cysylltwch â'r Adran Addysg, Cyngor Gwynedd.

Cynnwys

Diben yr Atodiad	3
Datganiad Polisi	3
Egwyddorion Gweithredu	4
Sut mae llais y dysgwr yn bwydo i drefniadau addysg?	5
Rôl hunanwerthuso, monitro a sicrhau ansawdd	7
Beth ddylem ei weld mewn arfer effeithiol?	8
Mesur Effaith	8
Cwestiynau allweddol ar gyfer ysgolion a chyrff llywodraethu	9
Rolau a chyfrifoldebau	9
Crynodeb	10

LLAIS Y DYSGWYR MEWN ADDYSG

Diben yr atodiad

Diben yr atodiad hwn yw dangos, mewn ffordd glir ac ymarferol, sut mae llais, profiadau a safbwyntiau dysgwyr yn bwydo i drefniadau addysg yng Ngwynedd. Mae'r atodiad yn ategu'r Strategaeth Llais y Plentyn drwy osod allan y cysylltiad rhwng profiadau dysgwyr yn yr ysgol, datblygu'r cwricwlwm, addysgu a dysgu, llesiant, hunanwerthuso, cynllunio gwelliant, gwaith cyrff llywodraethu a threfniadau ehangach Cyngor Gwynedd.

Nid gweithgaredd unigol na strwythur ffurfiol yn unig yw llais y dysgwr. Mae'n egwyddor sy'n llywio'r ffordd y mae ysgolion yn gwrandao ar brofiadau dysgwyr, yn ystyried eu safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella profiadau dysgu a bywyd yr ysgol.

Datganiad polisi

Bydd ysgolion yng Ngwynedd yn gweithredu ar y sail bod llais y dysgwr yn elfen hanfodol o addysg gynhwysol, uchelgeisiol ac effeithiol. Nid yw llais y dysgwr yn weithgaredd ychwanegol nac yn ofyniad cydymffurfio ar wahân; mae'n rhan annatod o greu diwylliant ysgol, datblygu'r cwricwlwm, gwella addysgu a dysgu, hyrwyddo llesiant, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

- Bydd pob dysgwr yn cael cyfleoedd rheolaidd ac ystyrlon i fynegi ei safbwyntiau am ei ddysgu, ei lesiant, ei berthyn a'i brofiad o fywyd ysgol.
- Bydd ysgolion yn sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr yn cael eu ceisio'n weithredol, eu cofnodi'n briodol a'u defnyddio i lywio penderfyniadau perthnasol.
- Bydd strwythurau cyfranogiad democrataidd, gan gynnwys cynghorau ysgol a fforymau dysgwyr, yn cynrychioli ystod eang o brofiadau dysgwyr ac nid llais grŵp cul yn unig.
- Bydd llais y dysgwr yn cyfrannu at ddatblygu a mireinio'r cwricwlwm, profiadau dysgu a threfniadau llesiant o fewn cyd-destun Cwricwlwm i Gymru.
- Bydd ysgolion yn rhoi adborth clir i ddysgwyr ar beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cyfraniad, gan gynnwys esboniad pan nad yw newid yn bosibl.
- Bydd llais y dysgwr yn rhan o brosesau hunanwerthuso, monitro a chynllunio gwelliant yr ysgol, ac yn cael ei ystyried gan arweinwyr a chyrff llywodraethu fel rhan o atebolrwydd ysgol.

Egwyddorion gweithredu

Gweithredu ar sail hawliau

Mae dysgwyr yn ddeiliaid hawliau. Mae eu hawl i gael eu clywed yn berthnasol i benderfyniadau am eu profiadau dyddiol yn yr ysgol ac i benderfyniadau ehangach am addysg yng Ngwynedd.

Gwrando'n bwrpasol

Dylai fod pwrpas clir i bob gweithgaredd sy'n casglu barn dysgwyr. Dylai dysgwyr ddeall, cyn belled ag y bo'n bosibl, pam y gofynnir am eu barn, pwy fydd yn ei hystyried a sut y gall ddylanwadu.

Cynhwysiant

Bydd ysgolion yn defnyddio dulliau amrywiol i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyfrannu, gan gynnwys y rhai sy'n llai hyderus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr anabl, dysgwyr sy'n profi rhwystrau cymdeithasol neu emosiynol, a'r rhai nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn strwythurau ffurfiol.

Perthnasedd i ddysgu a llesiant

Bydd llais y dysgwr yn cael ei ddefnyddio i ddeall profiadau dysgu, perthyn, diogelwch, llesiant, tegwch a'r cwricwlwm. Dylai'r wybodaeth hon helpu ysgolion i wella profiad addysgol dysgwyr yn ymarferol.

Tryloywder ac adborth

Mae gwrando'n cynnwys dyletswydd i gau'r cylch. Bydd dysgwyr yn cael adborth priodol ar sut defnyddiwyd eu barn, pa gamau a gymerwyd, neu pam nad oedd modd gweithredu ar safbwynt penodol.

Atebolrwydd

Bydd tystiolaeth o lais y dysgwr yn cael ei chynnwys mewn trefniadau hunanwerthuso, cynlluniau gwella, cofnodion cynghorau ysgol, adroddiadau i gyrff llywodraethu a gwaith monitro perthnasol.

Sut mae llais y dysgwr yn bwydo i drefniadau addysg?

Mae'r llif canlynol yn dangos sut mae llais y dysgwr yn symud o brofiad unigol neu grŵp o ddysgwyr i benderfyniadau dosbarth, ysgol, corff llywodraethu ac, lle bo'n briodol, trefniadau sirol megis Llais Ni: Ysgolion a Fforwm Ieuenctid Gwynedd:

Ffynhonnell llais y dysgwr	Sut mae'n cael ei gasglu	Sut mae'n bwydo i benderfyniadau	Tystiolaeth sicrwydd ansawdd
Trafodaethau dysgu a llesiant gyda dysgwyr	Sgyrsiau dosbarth; trafodaethau unigol neu grŵp; amser cylch; gweithgareddau llesiant; dulliau creadigol neu ddigidol.	Yn helpu athrawon ac arweinwyr i ddeall profiad dyddiol dysgwyr, beth sy'n gweithio'n dda a beth sy'n rhwystro i ddysgu neu lesiant.	Nodiadau trafodaethau; themâu a gasglwyd; enghreifftiau o newidiadau i drefniadau dosbarth neu ysgol; adborth "Dywedoch chi - Gwnaethom ni".
Cyngor ysgol a fforymau dysgwyr	Etholiadau neu drefniadau cynrychioli; cyfarfodydd rheolaidd; casglu barn cyfoedion; eitemau agenda gan ddysgwyr neu arweinwyr.	Yn darparu llwybr democrataidd i ddysgwyr godi materion, cynrychioli safbwyntiau ehangach a dylanwadu ar fywyd yr ysgol.	Cofnodion cyngor ysgol; camau gweithredu; presenoldeb; tystiolaeth bod cynrychiolwyr wedi casglu ac adrodd yn ôl i gyfoedion.

Ffynhonnell llais y dysgwr	Sut mae'n cael ei gasglu	Sut mae'n bwydo i benderfyniadau	Tystiolaeth sicrwydd ansawdd
Adborth ar y cwricwlwm, addysgu a dysgu	Arolygon dysgwyr; trafodaethau ar ôl unedau gwaith; teithiau dysgu; gwrando ar ddysgwyr fel rhan o fonitro; adborth ar brofiadau dysgu.	Yn llywio mireinio'r cwricwlwm, dewis profiadau dysgu, strategaethau addysgu, cefnogaeth a her addas i ddysgwyr.	Cynlluniau cwricwlwm wedi'u haddasu; cofnodion hunanwerthuso; adroddiadau monitro; enghreifftiau o newidiadau i brofiadau dysgu.
Arolygon, holiaduron ac adnoddau digidol	Holiaduron ysgol; arolygon llesiant; dulliau dienw; platfformau digidol; gweithgareddau casglu barn ar faterion penodol.	Yn adnabod themâu ar draws grwpiau neu'r ysgol gyfan, gan helpu arweinwyr i flaenoriaethu camau gwella.	Dadansoddiad o ganlyniadau; themâu; cynlluniau gweithredu; adroddiadau i arweinwyr a llywodraethwyr.
Grwpiau penodol neu lais dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu tangynrychioli	Grwpiau llesiant; grwpiau ADY; trafodaethau gyda dysgwyr agored i niwed; cefnogaeth eiriolaeth neu ddulliau cyfathrebu amgen.	Yn lleihau'r risg bod penderfyniadau'n seiliedig ar lais dysgwyr mwyaf hyderus yn unig, ac yn helpu ysgolion i addasu darpariaeth i anghenion amrywiol.	Tystiolaeth o ddulliau cynhwysol; addasiadau rhesymol; cofnodion cefnogi; themâu o grwpiau targed; effaith ar gynlluniau cymorth.

Ffynhonnell llais y dysgwr	Sut mae'n cael ei gasglu	Sut mae'n bwydo i benderfyniadau	Tystiolaeth sicrwydd ansawdd
Hunanwerthuso a monitro ysgol	Gwranddo ar ddysgwyr fel rhan o deithiau dysgu, craffu ar waith, adolygiadau llesiant, monitro presenoldeb ac ymddygiad, a gweithgareddau sicrhau ansawdd.	Yn sicrhau bod barn a phrofiadau dysgwyr yn ffynhonnell dystiolaeth wrth arfarnu ansawdd darpariaeth a chynllunio gwelliant.	Adroddiadau hunanwerthuso; Cynllun Datblygu Ysgol; cofnodion monitro; camau gwella sy'n cyfeirio at lais dysgwyr.
Cwynion, canmoliaeth ac adborth anffurfiol	Sgyrsiau gyda staff; sylwadau gan ddysgwyr; adborth i fugeiliaid neu arweinwyr; patrymau sy'n dod i'r amlwg drwy drefniadau ysgol.	Yn gallu adnabod cryfderau, pryderon neu rwystrau cyn iddynt ddod yn faterion mwy ffurfiol.	Cofnodion priodol; dadansoddi themâu; camau ymateb; tystiolaeth o adborth i ddysgwyr.
Llais Ni: Ysgolion a Fforwm leuenctid Gwynedd	Themâu o ysgolion, cynghorau ysgol a fforymau dysgwyr yn cael eu rhannu, lle bo'n briodol, gyda threfniadau rhanbarthol neu sirol.	Yn galluogi profiadau dysgwyr mewn ysgolion i ddylanwadu ar flaenoriaethau addysg a phenderfyniadau sirol perthnasol.	Cofnodion fforymau; themâu sirol; camau gweithredu; adroddiadau neu ddiweddariadau i wasanaethau a phobl ifanc.

1. Gwranddo a chasglu

Bydd ysgolion yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr rannu barn ar eu dysgu, eu llesiant a'u profiad o fywyd ysgol. Dylai'r dulliau fod yn addas i oedran, datblygiad, iaith, gallu ac anghenion cyfathrebu dysgwyr.

2. Deall a dadansoddi

Dylai ysgolion ystyried beth mae dysgwyr yn ei ddweud ochr yn ochr â thystiolaeth arall megis data presenoldeb, llesiant, cynnydd, arsylwadau staff a barn rhieni neu bartneriaid lle bo hynny'n berthnasol. Dylai'r dadansoddiad nodi themâu, cryfderau, rhwystrau a meysydd i'w gwella.

3. Cynllunio a blaenoriaethu

Dylai safbwyntiau dysgwyr lywio blaenoriaethau'r ysgol, y Cynllun Datblygu Ysgol, datblygu'r cwricwlwm, cynlluniau llesiant a threfniadau cefnogi dysgwyr. Pan fo barn dysgwyr yn wahanol i'r hyn sy'n bosibl neu'n briodol, dylid cofnodi'r rhesymeg yn glir.

4. Gweithredu ac addasu darpariaeth

Dylai ysgolion allu dangos sut mae adborth dysgwyr wedi arwain at gamau gweithredu, newidiadau neu welliannau. Gall hyn gynnwys addasu profiadau dysgu, gwella cyfathrebu, cryfhau trefniadau llesiant, newid trefniadau ysgol neu ddatblygu cyfleoedd cyfranogiad newydd.

5. Adolygu effaith ac adborth

Dylai ysgolion adolygu a yw'r camau a gymerwyd wedi gwneud gwahaniaeth o safbwynt dysgwyr. Dylai dysgwyr gael adborth clir ar effaith eu cyfraniad, gan gynnwys drwy ddulliau syml megis "Dywedoch chi - Gwnaethom ni - Beth newidiodd".

Llwybr codi, cyfeirio ac uwchgyfeirio mater:

Dysgwr yn codi mater → aelod staff neu gyngor ysgol yn gwrando → mater yn cael ei gofnodi → arweinydd perthnasol yn ymateb → corff llywodraethu neu Llais Ni: Ysgolion os oes angen → adborth i'r dysgwr → gwirio'r effaith

Os nad yw mater yn cael ei ddatrys gan y cyngor ysgol neu ar lefel yr ysgol, dylid egluro sut y gellir ei gyfeirio at yr arweinydd perthnasol, y corff llywodraethu, y Gwasanaeth Addysg neu Llais Ni: Ysgolion. Dylid defnyddio teitlau swyddogaethol yn hytrach nag enwau unigolion.

Diogelwch, cyfrinachedd a chywirdeb

Bydd ysgolion yn cynnig dull cyfrinachol neu ddiennw o godi mater lle bo hynny'n briodol. Bydd dysgwyr yn gallu gwirio bod crynodeb o'u safbwynt yn adlewyrchu eu neges ac yn gallu cywiro camddealltwriaeth.

Diweddariadau ac adborth

Bydd dysgwyr yn cael gwybod bod y mater wedi'i dderbyn, pwy sy'n gyfrifol a phryd y disgwylir diweddariad. Bydd diweddariad yn cael ei roi cyn penderfyniad terfynol os yw'r broses yn parhau.

Cwestiwn sicrwydd ychwanegol: A all y dysgwyr eu hunain egluro beth ddigwyddodd i'w barn a pha wahaniaeth a wnaed?

Rôl hunanwerthuso, monitro a sicrhau ansawdd

Mae llais y dysgwr yn rhan o atebolrwydd ysgol ar bob lefel. Mae staff yn gyfrifol am wrando ar ddysgwyr a defnyddio'r wybodaeth hon i wella profiadau dysgu. Mae arweinwyr ysgol a chyrff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod llais y dysgwr yn cael ei ystyried yn systematig wrth arfarnu darpariaeth, cynllunio gwelliant a monitro effaith.

- Hunanwerthuso ysgol: defnyddio barn a phrofiadau dysgwyr fel rhan o dystiolaeth wrth arfarnu ansawdd addysgu, dysgu, llesiant, cynhwysiant a'r cwricwlwm.
- Cynllun Datblygu Ysgol: sicrhau bod blaenoriaethau gwella perthnasol yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd drwy wrando ar ddysgwyr.
- Monitro gan arweinwyr: cynnwys trafodaethau â dysgwyr, arolygon neu ddulliau eraill fel rhan o fonitro rheolaidd, gan osgoi dibynnu ar farn oedolion yn unig.
- Craffu gan gyrff llywodraethu: gofyn sut mae llais y dysgwr wedi cael ei gasglu, ei ddefnyddio a'i rannu yn ôl gyda dysgwyr.
- Ymgysylltiad Cyngor Gwynedd: ystyried safbwyntiau dysgwyr fel rhan o ddeialog gydag ysgolion, cefnogaeth i welliant a threfniadau sirol perthnasol.
- Dysgu system gyfan: defnyddio themâu o Llais Ni: Ysgolion, fforymau dysgwyr a Fforwm Ieuenctid Gwynedd i lywio blaenoriaethau addysg ehangach.

Beth ddylem ei weld mewn arfer effeithiol?

- Mae dysgwyr yn deall bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi ac yn gwybod sut i rannu safbwyntiau neu godi materion.
- Mae strwythurau cyfranogiad, gan gynnwys cynghorau ysgol a fforymau dysgwyr, yn weithredol, yn ddemocrataidd ac yn cynrychioli safbwyntiau ehangach dysgwyr.
- Mae ysgolion yn defnyddio dulliau amrywiol i glywed gan ddysgwyr nad ydynt bob amser yn cyfrannu drwy gyfarfodydd ffurfiol.
- Mae safbwyntiau dysgwyr yn dylanwadu ar ddatblygu'r cwricwlwm, addysgu a dysgu, llesiant, trefniadau ysgol a blaenoriaethau gwella.
- Mae tystiolaeth glir o'r cysylltiad rhwng yr hyn ddywedodd dysgwyr, y penderfyniadau a wnaed, a'r hyn a newidiodd.
- Mae dysgwyr yn gallu rhoi enghreifftiau o newidiadau neu welliannau a ddigwyddodd o ganlyniad i'w cyfraniad.
- Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn ystyried llais y dysgwr wrth fonitro darpariaeth a herio cynnydd.
- Mae themâu o lais dysgwyr yn bwydo i drefniadau sirol lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys Llais Ni: Ysgolion a Fforwm Ieuenctid Gwynedd.

Mesur effaith

Er mwyn dangos bod llais y dysgwr yn cael effaith wirioneddol, dylai ysgolion a'r Gwasanaeth Addysg allu dangos tystiolaeth ar dair lefel:

Lefel	Cwestiwn sicrwydd	Enghreifftiau o dystiolaeth
Dysgwr unigol	A yw'r dysgwr wedi cael cyfle ystyrlon i fynegi barn ac a yw ei brofiad wedi'i ddeall?	Trafodaethau dysgwyr; cofnodion cymorth; adborth unigol neu grŵp; enghreifftiau o addasiadau i ddysgu neu lesiant; tystiolaeth o adborth i'r dysgwr.
Dosbarth, grŵp neu ysgol	A oes arfer cyson i gasglu, dadansoddi a defnyddio llais dysgwyr i wella darpariaeth?	Cofnodion cyngor ysgol; arolygon; adroddiadau monitro; Cynllun Datblygu Ysgol; enghreifftiau "Dywedoch chi - Gwnaethom ni"; cofnodion hunanwerthuso.
Corff llywodraethu	A yw llywodraethwyr yn cael tystiolaeth berthnasol o lais dysgwyr ac yn ei defnyddio i graffu ar ansawdd ac effaith?	Adroddiadau pennaeth; cofnodion pwyllgorau; ymweliadau llywodraethwyr; cwestiynau her; cofnodion o drafodaethau neu gyflwyniadau gan ddysgwyr.
Strategol neu sirol	A yw themâu o leisiau dysgwyr yn dylanwadu ar gefnogaeth ysgolion, blaenoriaethau addysg neu benderfyniadau sirol perthnasol?	Themâu Llais Ni: Ysgolion; cofnodion Fforwm Ieuenctid Gwynedd; adroddiadau i wasanaethau neu dimau rheoli; newidiadau i ganllawiau, cefnogaeth neu flaenoriaethau.

Cwestiynau allweddol ar gyfer ysgolion a chyrrff llywodraethu

- A yw dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd ac ystyrlon i rannu barn am eu dysgu, eu llesiant a'u profiad o fywyd ysgol?
- A yw dulliau cyfranogiad yn cynnwys dysgwyr o wahanol oeddrannau, cefndiroedd, gallu, anghenion a hyder?
- A yw'r ysgol yn glir ynghylch pa faterion y gall dysgwyr ddylanwadu arnynt a pha faterion sydd â chyfyngiadau?
- A yw barn dysgwyr yn cael ei chofnodi a'i chrynhai heb golli ystyr eu neges?
- A oes tystiolaeth bod safbwyntiau dysgwyr wedi dylanwadu ar y cwricwlwm, addysgu a dysgu, llesiant neu drefniadau ysgol?
- A yw dysgwyr yn cael adborth ar beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cyfraniad?
- A yw'r Cynllun Datblygu Ysgol neu drefniadau hunanwerthuso yn adlewyrchu themâu o lais dysgwyr?
- A yw llywodraethwyr yn gofyn cwestiynau am ansawdd, cynrychiolaeth ac effaith llais y dysgwr?
- A oes trefn glir i godi materion ysgol i lefel ranbarthol neu sirol pan fo hynny'n briodol?
- A all yr ysgol ddangos enghreifftiau o "Dywedoch chi - Gwnaethom ni - Beth newidiodd"?

Rolau a chyfrifoldebau

Rôl	Cyfrifoldeb mewn perthynas â llais y dysgwr
Dysgwyr	Rhannu barn, profiadau a syniadau; cyfrannu at fywyd yr ysgol; helpu i adnabod beth sy'n gweithio'n dda a beth allai wella.
Cynrychiolwyr dysgwyr	Casglu barn cyfoedion, cynrychioli safbwyntiau ehangach, cyfrannu at gynghorau ysgol neu fforymau, a helpu i rannu adborth gyda dysgwyr.
Athrawon ac ymarferwyr	Creu cyfleoedd i ddysgwyr leisio barn; defnyddio adborth i addasu addysgu, dysgu a chefnogaeth; cofnodi themâu perthnasol a gweithredu arnynt.
Arweinwyr ysgol	Sicrhau bod trefniadau ysgol gyfan ar gyfer llais y dysgwr yn glir, cynhwysol ac effeithiol; defnyddio'r wybodaeth i lywio hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a datblygu'r cwricwlwm.
Cyrrff llywodraethu	Sicrhau bod llais y dysgwr yn cael ei ystyried fel rhan o arweinyddiaeth ac atebolrwydd; craffu ar dystiolaeth; gofyn sut mae dysgwyr wedi dylanwadu ar benderfyniadau a gwelliant.
Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Addysg	Cefnogi ysgolion i ddatblygu arferion effeithiol; defnyddio themâu perthnasol o lais dysgwyr wrth gefnogi gwelliant, datblygu polisi neu gynllunio blaenoriaethau addysg.
Fforwm Ieuenctid Gwynedd a Llais Ni: Ysgolion	Darparu llwybr i themâu o ysgolion symud i drefniadau sirol, a sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyfrannu at faterion addysg ehangach lle bo hynny'n briodol.
Partneriaid	Cefnogi cyfranogiad dysgwyr lle maent yn gweithio gydag ysgolion neu wasanaethau; rhannu themâu perthnasol a chyfrannu at gamau gwella pan fo hynny'n briodol.

Crynodeb

Mae'r atodiad hwn yn cadarnhau bod llais y dysgwr yn rhan greiddiol o addysg yng Ngwynedd. Mae'n cysylltu profiadau dysgwyr â datblygu'r cwricwlwm, addysgu a dysgu, llesiant, hunanwerthuso, cynllunio gwelliant, craffu gan gyrff llywodraethu a threfniadau sirol. Y prawf o lwyddiant yw bod modd dangos bod llais dysgwyr wedi gwella profiadau a chanlyniadau.



STRATEGAETH LLAIS Y PLENTYN



Cyngor
Gwynedd

Llais Y Dysgwr Mewn Gwasanaethau Plant

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw iaith neu ddiwyg arall, e.e. print bras neu Braille, cysylltwch â'r Adran Addysg, Cyngor Gwynedd.

Cynnwys

Diben yr Atodiad	3
Datganiad Polisi	3
Egwyddorion Gweithredu	4
Sut mae llais y dysgwr yn bwydo i drefniadau Gwasanaethau Plant	5
Gwybodaeth, adborth a hawl i gywiro	6
Rôl goruchwyliaeth a sicrhau ansawdd	7
Beth ddylem ei weld mewn arfer effeithiol?	7
Mesur Effaith	8
Cwestiynau allweddol ar gyfer archwilio achos	8
Rolau a chyfrifoldebau	9
Crynodeb	9

LLAIS Y DYSGWYR MEWN GWASANAETHAU PLANT

Diben yr Atodiad

Diben yr atodiad hwn yw dangos, mewn ffordd glir ac ymarferol, sut mae llais, profiad byw, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn bwydo i drefniadau Gwasanaethau Plant Cyngor Gwynedd. Mae'r atodiad yn ategu'r Strategaeth Llais y Plentyn drwy osod allan y cysylltiad rhwng gwaith uniongyrchol gyda phlant, cofnodion achos, goruchwyliaeth broffesiynol, gweithgareddau sicrhau ansawdd, adborth defnyddwyr gwasanaeth a threfniadau gwella gwasanaeth.

Datganiad polisi

Mae Gwasanaethau Plant yn gweithredu ar y sail bod llais y plentyn yn elfen hanfodol o ymarfer proffesiynol effeithiol, diogelu a gwneud penderfyniadau o ansawdd uchel. Nid yw llais y plentyn yn weithgaredd ychwanegol nac yn ofyniad cydymffurfio ar wahân; mae'n rhan annatod o asesu, cynllunio, gweithredu, adolygu, goruchwyllo a gwella gwasanaethau.

- Bydd pob plentyn yn cael cyfle gwirioneddol i fynegi ei safbwyntiau, ei deimladau, ei ddymuniadau a'i brofiadau mewn ffordd sy'n briodol i'w oedran, datblygiad, iaith, gallu ac anghenion cyfathrebu.
- Bydd barn y plentyn yn cael ei cheisio'n weithredol a'i chofnodi'n glir, gan gynnwys sut cafodd y wybodaeth ei chasglu, beth ddywedodd neu ddangosodd y plentyn, a sut y defnyddiwyd hynny wrth wneud penderfyniadau.
- Bydd llais y plentyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â barn broffesiynol, tystiolaeth risg, cyfrifoldebau diogelu a chyddestun ehangach lles y plentyn.
- Pan nad yw'n bosibl gweithredu ar ddymuniad neu ddewis plentyn, bydd y rhesymau'n cael eu cofnodi ac, lle bo'n briodol, eu hesbonio i'r plentyn mewn ffordd onest, sensitif ac addas i'w oedran.
- Bydd rheolwyr yn defnyddio goruchwyliaeth, archwiliadau achos a gweithgareddau sicrhau ansawdd i sicrhau bod llais y plentyn yn weladwy, yn ddigonol ac yn dylanwadu ar gynllunio a phenderfyniadau.

Egwyddorion gweithredu

Gweithredu ar sail hawliau

Mae plant yn ddeiliaid hawliau. Mae eu hawl i gael eu clywed yn berthnasol i benderfyniadau unigol am eu bywydau ac i benderfyniadau ehangach am wasanaethau.

Gwranddo'n bwrpasol

Dylai fod pwrpas clir i bob sgwrs, arsylwad neu weithgaredd ymgysylltu, a dylai'r plentyn ddeall, cyn belled ag y bo'n bosibl, sut y gall ei lais ddylanwadu.

Cynhwysiant

Bydd dulliau cyfathrebu'n cael eu haddasu i'r plentyn, nid y plentyn i'r broses. Mae hyn yn cynnwys plant cyn-eiriau, plant di-eiriau, plant anabl, plant ag anghenion dysgu ychwanegol, plant sydd wedi profi trawma a phlant sy'n llai hyderus wrth siarad ag oedolion.

Diogelwch emosiynol

Dylid lleihau'r angen i blant ailadrodd eu stori. Bydd ymarferwyr yn cynllunio sut i wrando mewn ffordd sy'n lleihau straen ac yn parchu perthnasoedd ymddiriedus.

Tryloywder ac adborth

Mae gwranddo'n cynnwys dyletswydd i esbonio beth sydd yn ddigwydd nesaf. Bydd plant yn cael adborth priodol ar sut defnyddiwyd eu barn neu pam nad oedd modd gweithredu arni.

Atebolrwydd

Bydd tystiolaeth o lais y plentyn yn cael ei chynnwys mewn cofnodion, cynlluniau, penderfyniadau, adolygiadau a gweithgareddau sicrhau ansawdd.

Sut mae llais y plentyn yn bwydo i drefniadau Gwasanaethau Plant?

Mae'r llif canlynol yn dangos sut mae llais y plentyn yn symud o brofiad unigol y plentyn i ymarfer achos, goruchwyliaeth, sicrhau ansawdd a gwelliant gwasanaeth:

Ffynhonnell llais y plentyn	Sut mae'n cael ei gasglu	Sut mae'n bwydo i benderfyniadau	Tystiolaeth sicrwydd ansawdd
Gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn	Sgyrsiau unigol; arsylwadau; offer cyfathrebu; gwaith chwarae neu weithgareddau creadigol; dulliau sy'n addas i oedran, iaith a datblygiad.	Yn llywio dealltwriaeth o brofiad byw, dymuniadau, teimladau, risgiau, cryfderau a'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn.	Cofnodion achos clir; cyfeiriadau penodol at lais y plentyn mewn asesiadau, cynlluniau a nodiadau goruchwyliaeth.
Asesiadau llesiant a risg	Ceisio barn y plentyn fel rhan o'r asesiad; ystyried beth mae'r plentyn yn ei ddweud, ei ddangos neu ei gyfleu drwy ymddygiad.	Yn siapio dadansoddiad risg, anghenion, cryfderau, canlyniadau personol a chamau nesaf.	Archwiliadau achos yn profi a yw'r asesiad yn adlewyrchu profiad y plentyn ac nid barn oedolion yn unig.
Ymchwiliadau diogelu a honiadau yn erbyn person mewn sefyllfa o ymddiriedaeth	Sicrhau bod plentyn yn cael ei glywed mewn ffordd ddiogel, sensitif a chymesur, heb achosi niwed pellach.	Yn llywio penderfyniadau am ddiogelwch, trefniadau amddiffyn, rheoli risg a gwaith amlasiantaethol.	Goruchwyliaeth reoli, trafodaethau strategaeth, cofnodion penderfyniadau a samplu achosion diogelu.
Cynlluniau gofal a chymorth	Trafod beth sy'n bwysig i'r plentyn, beth sy'n gweithio,	Yn dylanwadu ar amcanion y cynllun, ymyriadau,	Adolygiadau cynllun; cofnodion cynnydd; tystiolaeth bod camau gweithredu'n cysylltu â

	beth sy'n peri pryder, a beth fyddai'n helpu.	trefniadau cyswllt, lleoliadau, cefnogaeth a mesurau llwyddiant.	dymuniadau a lles y plentyn.
Cyfarfodydd ac adolygiadau statudol	Cynnwys y plentyn yn uniongyrchol lle bo'n briodol; defnyddio eiriolaeth, datganiadau, cynrychiolaeth neu ddulliau eraill pan nad yw presenoldeb yn briodol.	Yn sicrhau bod y cyfarfod yn ystyried profiad a dymuniadau'r plentyn wrth benderfynu ar gynlluniau a chamau gweithredu.	Cofnodion cyfarfodydd yn dangos sut y cafodd barn y plentyn ei chyflwyno, ei hystyried a'i hymgorffori.
Eiriolaeth a dulliau cyfathrebu amgen	Atgyfeirio neu gynnis eiriolaeth annibynnol; defnyddio adnoddau gweledol, symbolau, cyfathrebu drwy berson ymddiriedus neu ddulliau arbenigol.	Yn lleihau'r risg bod llais y plentyn yn cael ei hidlo drwy oedolion neu ei golli oherwydd rhwystrau cyfathrebu.	Cofnod o gynnis eiriolaeth, rhesymeg penderfyniadau a thystiolaeth bod anghenion cyfathrebu wedi'u hystyried.
Cwynion, canmoliaeth ac adborth	Casglu adborth uniongyrchol gan blant a phobl ifanc am eu profiad o'r gwasanaeth.	Yn nodi cryfderau, rhwystrau, themâu profiad byw a meysydd i wella.	Dadansoddi themâu adborth; camau gwellia; adrodd i dimau, rheolwyr a threfniadau llywodraethu perthnasol.
Gweithgareddau cyfranogiad ehangach	Fforymau, grwpiau trafod, arolygon, digwyddiadau cyfranogiad a chysylltiadau â ffrwd gorfforaethol llais plant.	Yn bwydo profiadau plant i gynllunio gwasanaethau, comisiynu, polisi, blaenoriaethau gwellia a gwerthuso effaith.	Adroddiadau cyfranogiad; enghreifftiau "Dywedoch chi - Gwnaethom ni"; cynlluniau gweithredu gwasanaeth.

1. Asesu

Wrth asesu anghenion plentyn neu deulu, rhaid i'r asesiad gynnwys tystiolaeth glir o brofiad byw'r plentyn. Dylai'r asesiad wahaniaethu rhwng barn y plentyn, barn rhieni neu ofalwyr, arsylwadau ymarferwyr a dadansoddiad proffesiynol. Dylai'r cofnod ddangos sut y cafodd llais y plentyn ei geisio, a beth oedd yr effaith ar y dadansoddiad.

2. Cynllunio

Dylai cynlluniau gofal a chymorth, cynlluniau diogelu, cynlluniau plentyn sy'n derbyn gofal a chynlluniau pontio ddangos cysylltiad clir rhwng yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'r camau a gytunir. Lle bo dymuniadau'r plentyn yn wahanol i'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ddiogel neu'n briodol, dylai'r cynllun gofnodi'r rhesymeg a'r ffordd y bydd hyn yn cael ei esbonio.

3. Gweithredu ac ymyrryd

Dylai ymyriadau ymateb i'r hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud neu'n ei ddangos am ei fywyd. Mae hyn yn cynnwys ystyried perthnasoedd pwysig, lleoliad, trefniadau cyswllt, profiad ysgol, iechyd emosiynol, hunaniaeth, diwylliant ac iaith.

4. Adolygu

Dylai adolygiadau brofi a yw'r cynllun yn gwneud gwahaniaeth o safbwynt y plentyn. Ni ddylid dibynnu ar fesurau proses yn unig. Dylai'r cwestiwn canolog fod: beth sydd wedi newid i'r plentyn, a sut rydym yn gwybod hynny gan y plentyn ei hun neu drwy dystiolaeth briodol arall?

5. Cau neu gamu lawr

Cyn cau achos neu gamu lawr i wasanaethau eraill, dylid ystyried a yw'r plentyn wedi cael cyfle i fynegi barn am y newid, a yw'r canlyniadau a oedd yn bwysig iddo wedi'u cyflawni, ac a yw trefniadau parhaus yn glir ac yn ddiogel.

Gwybodaeth, adborth a hawl i gywiro

Bydd y plentyn, mewn ffordd sy'n briodol i'w oedran a'i anghenion cyfathrebu, yn cael gwybod pwy sy'n gwneud y penderfyniad, beth fydd yn digwydd nesaf a phryd y bydd diweddariad ar gael.

Pan fo penderfyniad neu newid yn yr arfaeth, bydd diweddariadau priodol yn cael eu rhoi yn ystod y broses ac nid ar y diwedd yn unig. Bydd cofnod yn dangos pa adborth a roddwyd i'r plentyn, sut y'i rhoddwyd ac a oedd y plentyn yn deall y cam nesaf.

Bydd y plentyn yn cael cyfle, lle bo'n briodol, i gywiro neu herio crynodeb anghywir o'i safbwynt. Bydd gwahaniaeth rhwng geiriau'r plentyn, dehongliad oedolyn a barn broffesiynol yn parhau'n glir.

Mesur profiad uniongyrchol

Bydd sicrhau ansawdd yn cynnwys gofyn a oedd y plentyn yn teimlo ei fod wedi cael ei glywed, a oedd yn deall beth ddigwyddodd nesaf, ac a all weld sut yr ystyriwyd ei farn.

O brofiad unigol i welliant gwasanaeth

Bydd themâu dienw o waith achos, adborth, cwynion, canmoliaeth ac eiriolaeth yn cael eu rhannu â Llais Ni: Gwasanaethau a'r trefniadau llywodraethu perthnasol er

mwyn llywio gwella gwasanaethau, heb ddatgelu gwybodaeth bersonol.

Rôl goruchwyliaeth a sicrhau ansawdd

Mae llais y plentyn yn rhan o atebolrwydd proffesiynol ar bob lefel. Mae ymarferwyr yn gyfrifol am geisio, cofnodi a defnyddio llais y plentyn. Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson ac o ansawdd uchel. Mae gweithgareddau sicrhau ansawdd yn darparu tystiolaeth a her ynghylch pa mor weladwy ac effeithiol yw llais y plentyn mewn ymarfer.

- Goruchwyliaeth unigol: trafod beth mae'r plentyn wedi'i ddweud neu ei ddangos, sut mae hyn wedi llywio dadansoddiad a pha gamau sydd eu hangen nesaf.
- Goruchwyliaeth reoli a phenderfyniadau: sicrhau bod penderfyniadau allweddol yn nodi sut y cafodd llais y plentyn ei ystyried.
- Archwiliadau achos a samplu: gwirio ansawdd cofnodion, asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau o safbwynt llais y plentyn.
- Gwerthusiadau ymarfer a diagnosteg fîm: adnabod themâu ar draws timau a gwasanaethau, gan gynnwys cryfderau a bylchau mewn ymarfer.
- Adborth defnyddwyr gwasanaeth: defnyddio profiadau plant, pobl ifanc a theuluoedd i lywio gwelliant gwasanaeth.
- Dysgu amlasiantaethol: defnyddio dysgu o adolygiadau, arolygiadau, trafodaethau diogelu ac adborth partneriaid i gryfhau ymarfer.

Beth ddylem ei weld mewn arfer effeithiol?

- Mae cofnodion achos yn cynnwys llais uniongyrchol y plentyn lle bo hynny'n bosibl, ac yn egluro dulliau cyfathrebu pan nad yw'r plentyn yn mynegi barn ar lafar.
- Mae asesiadau'n cynnwys dadansoddiad o brofiad byw'r plentyn, nid disgrifiad o amgylchiadau'r oedolion yn unig.
- Mae cynlluniau'n dangos cysylltiad rhwng dymuniadau, teimladau ac anghenion y plentyn a'r camau gweithredu a gytunwyd.
- Mae penderfyniadau'n dangos sut y rhoddwyd pwys priodol ar farn y plentyn, gan ystyried oedran, dealltwriaeth, aeddfedrwydd, diogelwch a lles.
- Mae plant yn cael adborth priodol am ganlyniad eu cyfraniad, gan gynnwys pan nad yw newid neu ddewis penodol yn bosibl.
- Mae rheolwyr yn herio achosion lle nad yw llais y plentyn yn weladwy neu lle mae'n cael ei gynrychioli'n bennaf drwy safbwynt oedolyn.
- Mae themâu o adborth, cwynion, canmoliaeth ac archwiliadau'n cael eu defnyddio i wella ymarfer a darpariaeth.
- Mae tystiolaeth bod plant sydd mewn perygl o gael eu tangynrychioli wedi cael dulliau addas i alluogi cyfranogiad.

Mesur effaith

Er mwyn dangos bod llais y plentyn yn cael effaith wirioneddol, dylai'r gwasanaeth allu dangos tystiolaeth ar dair lefel:

Lefel	Cwestiwn sicrwydd	Enghreifftiau o dystiolaeth
Plentyn unigol	A yw'r plentyn wedi cael ei glywed ac a yw ei lais wedi dylanwadu ar benderfyniadau am ei fywyd?	Cofnodion gwaith uniongyrchol; asesiadau; cynlluniau; adolygiadau; cofnodion penderfyniadau; adborth i'r plentyn.
Tim neu wasanaeth	A oes arfer cyson ar draws gweithwyr, timau a gwasanaethau?	Archwiliadau sampl; goruchwyliaeth; diagnosteg fîm; themâu o adborth; cynlluniau gwella fîm.
Strategol	A yw profiadau plant yn dylanwadu ar bolisi, comisiynu, cynllunio gwasanaeth a blaenoriaethau gwella?	Adroddiadau sicrhau ansawdd; dadansoddi cwynion/canmolïaeth; themâu cyfranogiad; adroddiadau perfformiad; enghreifftiau "Dywedoch chi - Gwnaethom ni".

Cwestiynau allweddol ar gyfer archwilio achos

- A yw'r cofnod yn dangos bod y plentyn wedi cael ei weld neu ei glywed yn uniongyrchol? Os nad yw, a oes rheswm clir?
- A yw dull cyfathrebu'r plentyn wedi'i ystyried a'i addasu'n briodol?
- A yw'r cofnod yn gwahaniaethu rhwng geiriau'r plentyn, dehongliad oedolyn a barn broffesiynol?
- A yw'r asesiad yn disgrifio profiad byw'r plentyn ac effaith amgylchiadau'r teulu arno?
- A yw penderfyniadau allweddol yn nodi sut y cafodd barn y plentyn ei hystyried?
- A oes tystiolaeth bod y plentyn wedi cael adborth ar beth fydd yn digwydd nesaf?
- A oes tystiolaeth o eiriolaeth neu gymorth cyfathrebu pan oedd hynny'n briodol?
- A yw'r cynllun yn cynnwys camau sy'n ymateb i'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn?
- A yw goruchwyliaeth wedi trafod llais y plentyn ac wedi herio unrhyw fylchau?
- A oes tystiolaeth bod dysgu o'r achos yn bwydo i welliant ehangach lle bo hynny'n berthnasol?

Rolau a chyfrifoldebau

Rôl	Cyfrifoldeb mewn perthynas â llais y plentyn
Ymarferwyr	Ceisio, deall, cofnodi a defnyddio llais y plentyn mewn gwaith uniongyrchol, asesiadau, cynlluniau, cyfarfodydd ac adolygiadau.
Rheolwyr Tîm	Sicrhau bod llais y plentyn yn weladwy mewn goruchwyliaeth, cofnodion a phenderfyniadau; herio bylchau; cefnogi datblygiad ymarfer.
Rheolwyr Gwasanaeth	Adnabod themâu ar draws timau; defnyddio data, archwiliadau ac adborth i lywio gwelliant a datblygiad staff.
Uwch Arweinwyr	Sicrhau bod llais plant yn rhan o lywodraethu, cynllunio strategol, comisiynu, rheoli risg a blaenoriaethau gwella.
Partneriaid amlasiantaethol	Rhannu gwybodaeth berthnasol am brofiad y plentyn, cyfrannu at benderfyniadau cydlynol a sicrhau bod cynlluniau amlasiantaethol yn adlewyrchu llais y plentyn.
Plant a phobl ifanc	Cael cyfleoedd diogel, addas ac ystyrlon i rannu eu profiadau a gweld sut mae eu cyfraniad wedi cael ei ystyried.

Crynodeb

Mae'r atodiad hwn yn cadarnhau bod llais y plentyn yn rhan greiddiol o drefniadau Gwasanaethau Plant yng Ngwynedd. Mae'n cysylltu gwaith uniongyrchol gyda phlant â chofnodi, asesu, cynllunio, goruchwyllo, archwilio a gwella gwasanaethau. Y prawf o lwyddiant yw bod modd dangos sut y cafodd llais y plentyn ei ddeall, ei barchu, ei ystyried a'i ddefnyddio i wella penderfyniadau a chanlyniadau i blant.



STRATEGAETH LLAIS Y PLENTYN



Cyngor
Gwynedd

Fforymau Llais Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw iaith neu ddiwyg arall, e.e. print bras neu Braille, cysylltwch â'r Adran Addysg, Cyngor Gwynedd.

Cynnwys

Diben yr Atodiad	3
Datganiad Polisi	3
Egwyddorion Gweithredu	4
Sut mae'r strwythur yn gweithio?	5
Y cysylltiad â gwneud penderfyniadau	6
Y cylch gweithredu	7
Sut mae'r fforymau yn gwneud gwahaniaeth?	7
Beth ddylem ei weld mewn trefniadau effeithiol?	8
Mesur Effaith	8
Rolau a chyfrifoldebau	9
Model gweithredu'r Fforwm a'r Cabinet Pobl Ifanc	10

FFORYMAU LLAIS PLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD

Diben yr Atodiad

Diben yr atodiad hwn yw dangos sut mae fforymau llais plant a phobl ifanc Gwynedd yn gweithredu fel rhan o drefniadau corfforaethol Cyngor Gwynedd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu dylanwadu yn ystyrlon ar benderfyniadau, gwasanaethau a blaenoriaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r atodiad yn ategu'r Strategaeth Llais y Plentyn drwy osod allan y ffordd y mae barn, profiadau a blaenoriaethau plant a phobl ifanc yn cael eu casglu, eu trafod, eu cynrychioli, eu trosglwyddo i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac yn arwain at weithredu ac adborth.

Nid diben y fforymau yw cynnal ymgynghoriadau untro yn unig. Eu diben yw creu trefn barhaus, gynhwysol ac atebol lle mae plant a phobl ifanc yn cael lle diogel i leisio barn, cynulleidfa berthnasol i wrando arnynt, a llwybr clir i'w barn ddylanwadu ar newid.

Datganiad polisi

Bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal ac yn datblygu fforymau llais plant a phobl ifanc fel rhan greiddiol o'i drefniadau cyfranogiad, llywodraethu a gwella gwasanaethau.

Bydd y fforymau yn gweithredu ar y sail bod plant a phobl ifanc yn ddeiliaid hawliau, ac y dylid rhoi pwys priodol ar eu barn

mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd y trefniadau yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei gasglu mewn ffordd ystyrlon, ei gynrychioli yn deg, ei gyflwyno i'r bobl iawn, ac yn arwain at weithredu, adborth neu esboniad clir pan nad yw newid yn bosibl.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y fforymau yn:

- darparu cyfleoedd rheolaidd i blant a phobl ifanc leisio barn ar faterion sy'n bwysig iddynt;
- cynnwys ystod amrywiol o blant a phobl ifanc o wahanol ardaloedd, cefndiroedd, gwasanaethau a phrofiadau;
- cysylltu strwythurau lleol, rhanbarthol a sirol mewn ffordd glir;
- galluogi plant a phobl ifanc i godi materion eu hunain, yn ogystal ag ymateb i gwestiynau gan wasanaethau'r Cyngor;
- sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei rhannu â swyddogion, aelodau etholedig, timau rheoli a phwyllgorau perthnasol;
- arwain at gynlluniau gweithredu clir, lle bo hynny'n briodol;
- rhoi adborth i blant a phobl ifanc ar beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cyfraniad.

Egwyddorion gweithredu

Cyfranogiad ystyrlon

Bydd cyfranogiad drwy'r fforymau yn fwy na chyfle i leisio barn. Bydd yn cynnwys gwrando, trafod, cytuno ar flaenoriaethau, gweithredu ac adolygu effaith. Dylai plant a phobl ifanc allu gweld sut mae eu barn wedi cael ei defnyddio, neu ddeall pam nad oedd modd gweithredu arni.

Cynhwysiant

Bydd y trefniadau yn ceisio cynnwys plant a phobl ifanc o bob rhan o Wynedd, gan gynnwys y rhai nad ydynt bob amser yn cyfrannu drwy strwythurau ffurfiol. Bydd dulliau amrywiol yn cael eu defnyddio, gan gynnwys trafodaethau wyneb yn wyneb, arolygon, holiaduron, cyfleoedd digidol, grwpiau lleol a fforymau rhanbarthol.

O'r lleol i'r strategol

Bydd materion yn gallu symud o lefel leol i lefel ranbarthol ac yna i lefel sirol. Bydd hyn yn sicrhau bod profiadau plant a phobl ifanc mewn ysgolion, clybiau ieuenctid, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau arbenigol yn gallu dylanwadu ar gynllunio gwasanaethau a phenderfyniadau strategol.

Tryloywder ac adborth

Bydd y Cyngor yn glir gyda phlant a phobl ifanc ynghylch pwrpas pob gweithgaredd cyfranogi, pwy fydd yn gwrando, beth all newid, a beth na ellir ei newid. Bydd adborth yn rhan annatod o'r broses.

Atebolrwydd

Bydd cyfrifoldeb clir ar wasanaethau, rheolwyr a'r bwrdd gweithredu perthnasol i ystyried y materion a godir gan blant a phobl ifanc, ymateb iddynt, a chofnodi unrhyw gamau gweithredu neu resymau dros beidio â gweithredu.

Sut mae'r strwythur yn gweithio?

Mae trefniadau fforymau llais plant a phobl ifanc Gwynedd wedi'u seilio ar lif clir o'r lefel leol i'r lefel sirol.

1. Lefel leol

Ar lefel leol, gall plant a phobl ifanc rannu eu barn drwy ysgolion, cyngorau ysgol, clybiau ieuenctid, grwpiau cymunedol, gwasanaethau penodol, prosiectau partner neu gysylltiadau uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol.

- trafodaethau mewn ysgolion neu grwpiau dysgwyr;
- grwpiau ieuenctid lleol;
- grwpiau penodol megis grwpiau llesiant, grwpiau LHDTG+, grwpiau cymunedol neu grwpiau gwasanaeth;
- arolygon neu holiaduron ar bwnc penodol;
- sgysiau anffurfiol gyda gweithwyr y mae gan bobl ifanc berthynas ymddiriedus â hwy;
- dulliau digidol neu ddienw ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn dymuno siarad mewn cyfarfod.

Mae'r lefel hon yn bwysig oherwydd dyma lle mae profiadau byw plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn agos at eu cymunedau, eu hysgolion a'u gwasanaethau.

2. Lefel ranbarthol

Bydd fforymau rhanbarthol yn dod â chynrychiolwyr o wahanol grwpiau lleol ynghyd ar draws tair ardal Gwynedd.

- Arfon;
- Dwyfor;
- Meirionnydd.

Diben y fforymau rhanbarthol yw rhannu materion sy'n codi'n lleol, adnabod themâu cyffredin, trafod blaenoriaethau ardal, a chytuno pa faterion ddylai symud ymlaen i lefel sirol.

Bydd y fforymau hyn yn gallu cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, y Gwasanaeth Ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol, partneriaid trydydd sector, grwpiau cymunedol a gwasanaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

3. Lefel sirol

Bydd Fforwm Ieuenctid Gwynedd yn gweithredu fel y prif fecanwaith sirol ar gyfer dod â lleisiau plant a phobl ifanc at ei gilydd.

- Llais Ni: Ysgolion;
- Llais Ni: Gwasanaeth Ieuenctid;
- Llais Ni: Gwasanaethau.

Bydd y tair ffrwd yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei gasglu o amrywiaeth o brofiadau: profiad ysgol, profiad cymunedol ac ieuenctid, a phrofiad o wasanaethau penodol.

Diben Fforwm Ieuenctid Gwynedd fydd:

- trafod materion sydd wedi'u codi gan blant a phobl ifanc;
- adnabod blaenoriaethau sirol;
- cyflwyno safbwyntiau plant a phobl ifanc i'r Cyngor;
- cytuno ar gamau gweithredu gyda'r gwasanaethau perthnasol;
- derbyn adborth ar gynnydd;
- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu gweld effaith eu cyfraniad.

Y cysylltiad â gwneud penderfyniadau

Bydd y fforymau yn cysylltu â threfniadau gwneud penderfyniadau'r Cyngor drwy sawl llwybr.

Gall materion a godir gan blant a phobl ifanc gael eu cyflwyno i:

- dimau rheoli adrannol;
- gwasanaethau perthnasol;
- grwpiau gweithredu;
- aelodau Cabinet;
- aelodau etholedig;
- pwyllgorau perthnasol;
- trefniadau craffu neu lywodraethu pan fo hynny'n briodol.

Bydd gwasanaethau'r Cyngor hefyd yn gallu cyflwyno materion i'r fforymau er mwyn gofyn am farn plant a phobl ifanc cyn datblygu polisi, adolygu gwasanaeth neu wneud penderfyniad perthnasol.

Mae hyn yn creu llif dwyffordd:

O blant a phobl ifanc i'r Cyngor	O'r Cyngor i blant a phobl ifanc
Plant a phobl ifanc yn codi materion sy'n bwysig iddynt.	Gwasanaethau'n gofyn am farn ar bolisi, cynllun neu wasanaeth.
Fforymau lleol a rhanbarthol yn adnabod themâu.	Gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd hygyrch.
Fforwm Sirol yn cytuno ar flaenoriaethau.	Plant a phobl ifanc yn cael cyfle i herio, cwestiynu a chyfrannu.
Materion yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau neu aelodau.	Adborth yn cael ei roi ar beth sydd wedi newid neu pam nad yw newid yn bosibl.

Y cylch gweithredu

Bydd gwaith y fforymau yn dilyn cylch gweithredu clir:

1. Gwranddo

Mae plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i rannu barn, profiadau, pryderon a syniadau drwy ddulliau sy'n addas iddynt.

2. Casglu a deall

Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i thrafod er mwyn adnabod themâu, blaenoriaethau a materion sydd angen ymateb.

3. Trafod a chytuno

Mae plant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol, partneriaid a'r Cyngor yn trafod y canfyddiadau ac yn cytuno ar gamau gweithredu lle bo hynny'n briodol.

4. Gweithredu gyda'n gilydd

Mae gwasanaethau, adrannau neu bartneriaid yn cymryd camau i ymateb i'r materion a godwyd. Gall hyn gynnwys newid trefniadau, addasu gwasanaeth, datblygu adnoddau, codi ymwybyddiaeth neu gomisiynu gwaith pellach.

5. Adborth

Mae plant a phobl ifanc yn cael gwybod beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cyfraniad. Lle nad yw newid yn bosibl, bydd rhesymau clir ac onest yn cael eu rhoi.

6. Adolygu

Mae'r fforymau yn dychwelyd at y materion a godwyd er mwyn gwirio a yw'r camau gweithredu wedi gwneud gwahaniaeth, ac a oes angen gwaith pellach.

Sut mae'r fforymau yn gwneud gwahaniaeth?

Bydd y fforymau yn gwneud gwahaniaeth pan fo modd dangos bod barn plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar feddwl, penderfyniadau neu weithredu.

Gall hyn gynnwys:

- newid i bolisi neu weithdrefn;
- addasu ffordd y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu;
- adnabod rhwystrau i blant a phobl ifanc;
- gwella cyfathrebu rhwng y Cyngor a phobl ifanc;
- datblygu cyfleoedd hyfforddi neu wybodaeth i bobl ifanc;
- codi materion lleol i sylw strategol;
- gwella dealltwriaeth y Cyngor o brofiad byw plant a phobl ifanc;
- cryfhau hyder, sgiliau ac ymdeimlad pobl ifanc o berthyn a dylanwad.

Nid yw effaith bob amser yn golygu bod pob cais gan blant a phobl ifanc yn arwain at newid uniongyrchol. Weithiau, yr effaith fydd bod penderfyniad yn cael ei wneud ar sail gwell dealltwriaeth o brofiad pobl ifanc, neu fod rhesymau dros beidio â newid yn cael eu hesbonio'n gliriach.

Beth ddylem ei weld mewn trefniadau effeithiol?

Pan fo'r fforymau yn gweithio'n effeithiol, dylai fod tystiolaeth bod:

- plant a phobl ifanc yn deall pwrpas y fforwm a sut gall eu barn ddylanwadu;
- cynrychiolaeth o wahanol ardaloedd, gwasanaethau, cefndiroedd a phrofiadau;
- materion yn cael eu codi gan blant a phobl ifanc eu hunain, nid gan oedolion yn unig;
- barn pobl ifanc yn cael ei chofnodi'n glir ac yn cael ei chrynhai heb golli ystyr eu neges;
- camau gweithredu yn cael eu cytuno gyda chyfrifoldebau ac amserlenni;
- gwasanaethau'r Cyngor yn ymateb i'r materion a godwyd;
- aelodau etholedig a rheolwyr yn gwranddo'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc lle bo hynny'n briodol;
- adborth yn cael ei roi i bobl ifanc ar effaith eu cyfraniad;
- themâu o'r fforymau yn bwydo i gynllunio gwasanaethau, blaenoriaethau gwella ac adroddiadau perthnasol.

Mesur effaith

Er mwyn dangos bod y fforymau yn gwneud gwahaniaeth, dylid casglu tystiolaeth ar dair lefel:

Lefel	Cwestiwn sicrwydd	Enghreifftiau dystiolaeth ^o
Plentyn neu berson ifanc	A yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi cael cyfle ystyrlon i leisio barn ac i ddeall beth ddigwyddodd wedyn?	Cofnodion cyfranogiad; adborth gan bobl ifanc; presenoldeb mewn fforymau; enghreifftiau o adborth unigol neu grŵp.
Fforwm neu ranbarth	A yw'r fforwm wedi adnabod themâu, blaenoriaethau a chamau gweithredu clir?	Cofnodion cyfarfodydd; cynlluniau gweithredu; themâu rhanbarthol; cofnodion "Dywedoch chi - Gwnaethom ni".
Strategol	A yw lleisiau plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar bolisi, cynllunio gwasanaethau neu benderfyniadau'r Cyngor?	Adroddiadau i dimau rheoli neu bwyllgorau; newidiadau i bolisi neu ddarpariaeth; cofnodion penderfyniadau; diweddariadau i Fforwm leuenctid Gwynedd.

Rolau a chyfrifoldebau

Rôl	Cyfrifoldeb
Plant a phobl ifanc	Rhannu barn, profiadau a syniadau; cynrychioli safbwyntiau ehangach lle bo hynny'n briodol; cyfrannu at flaenoriaethau a chamau gweithredu.
Cynrychiolwyr fforymau	Casglu barn gan gyfoedion, cyfrannu at drafodaethau lleol, rhanbarthol a sirol, a helpu i rannu adborth.
Gweithwyr ieuenctid, ysgolion a gweithwyr gwasanaethau	Cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan, dileu rhwystrau, hyrwyddo pynciau llosg, a sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei gofnodi a'i rannu.
Cydlunydd y fforwm	Hwyluso'r trefniadau, cefnogi cyfarfodydd, cydlynw gwybodaeth, monitro cynnydd a sicrhau bod adborth yn cael ei rannu.
Rheolwyr gwasanaeth ac arweinwyr fîm	Ymateb i'r materion a godir, rhannu gwybodaeth o fewn eu gwasanaethau, cytuno ar gamau gweithredu a sicrhau cynnydd.
Bwrdd gweithredu neu grŵp llywodraethu	Goruchwyllo'r trefniadau, sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu monitro, a chryfhau atebolrwydd corfforaethol.
Aelodau etholedig	Gwrandao ar leisiau plant a phobl ifanc, darparu her ddemocrataidd, a sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau perthnasol.
Partneriaid	Cefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc o wahanol gymunedau a gwasanaethau, a rhannu gwybodaeth berthnasol i lywio gwelliant.

Model gweithredu'r Fforwm a'r Cabinet Pobl Ifanc

Aelodaeth a chynrychiolaeth

Bydd trefniadau dewis aelodau yn agored, yn hygyrch ac yn cael eu hegluro i bobl ifanc. Bydd cynrychiolaeth o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, ysgolion, y Gwasanaeth Ieuenctid, defnyddwyr gwasanaethau a phobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu drwy strwythurau ffurfiol. Bydd dulliau ychwanegol yn casglu barn pobl nad ydynt yn aelodau o fforwm.

Rhannu cyfrifoldebau

Bydd rolau megis cadeirydd, dirprwy gadeirydd ac ysgrifennydd yn cael eu rhannu neu eu dirprwyo. Bydd aelodau wrth gefn neu gyd-gynrychiolwyr yn gallu cefnogi'r prif gynrychiolydd er mwyn lleihau pwysau a sicrhau parhad.

Cyfarfodydd ac agenda

Bydd y Fforwm a'r Cabinet Pobl Ifanc yn cyfarfod yn rheolaidd drwy'r flwyddyn. Bydd mecanwaith syml i bobl ifanc gyflwyno eitemau agenda, a bydd rhan o bob agenda yn cael ei gosod gan bobl ifanc eu hunain.

Cofrestr gweithredu ac adborth

Bydd cofrestr weithredu hygyrch yn nodi'r mater, y perchennog, y cam nesaf, yr amserlen, y statws a'r adborth a

roddwyd. Bydd diweddariadau'n cael eu darparu hyd yn oed pan nad oes penderfyniad terfynol.

Y berthynas â'r Cabinet Pobl Ifanc

Bydd Fforwm Ieuenctid Gwynedd yn pennu'r blaenoriaethau sirol. Bydd y Cabinet Pobl Ifanc, fel grŵp gweithredol o fewn y Fforwm, yn cyflwyno'r blaenoriaethau hynny i benderfynwyr, yn gofyn am ddiweddariadau ac yn adrodd yn ôl i'r Fforwm.

Crynodeb

Mae fforymau llais plant a phobl ifanc Gwynedd yn darparu strwythur clir i symud llais plant o brofiad lleol i ddylanwad strategol. Maent yn cysylltu ysgolion, gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau'r Cyngor, partneriaid, rheolwyr ac aelodau etholedig mewn trefn sy'n galluogi plant a phobl ifanc i godi materion, trafod blaenoriaethau, dylanwadu ar weithredu a chael adborth.

Y prawf o lwyddiant yw nad yw llais plant a phobl ifanc yn aros mewn cyfarfod neu mewn cofnod, ond ei fod yn arwain at well dealltwriaeth, penderfyniadau gwell, gwasanaethau mwy perthnasol ac ymdeimlad cryfach ymysg plant a phobl ifanc bod eu barn yn cael ei chlywed, ei pharchu a'i defnyddio.



Cyngor
Gwynedd

STRATEGAETH LLAIS Y PLENTYN



Cyngor
Gwynedd

Integreiddio a Llywodraethu Strategol - Llais Y Plentyn

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw iaith neu ddiwyg arall, e.e. print bras neu Braille, cysylltwch â'r Adran Addysg, Cyngor Gwynedd.

Cynnwys

Diben yr Atodiad	3
Datganiad Polisi	3
Egwyddorion Llywodraethu	4
Y model corfforaethol	5
Y llif llywodraethu	5
Rôl Fforwm Ieuenctid Gwynedd	6
Rôl aelodau etholedig	6
Rôl arweinwyr, rheolwyr a gwasanaethau	7
Integreiddio â phenderfyniadau corfforaethol	7
Llwybrau cyfeirio ac uwchgyfeirio	8
Safonau ymateb, perchnogaeth ac uwchgyfeirio	8
Cofnodi, adrodd ac adborth	9
Beth ddylem ei weld mewn trefniadau llywodraethu effeithiol?	9
Cwestiynau sicrwydd i arweinwyr a llywodraethwyr corfforaethol	10
Crynodeb	10

INTEGREIDDIO A LLYWODRAETHU STRATEGOL

Diben yr Atodiad

Diben yr atodiad hwn yw egluro sut mae Llais y Plentyn yn cael ei integreiddio i drefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau strategol Cyngor Gwynedd. Mae'n ymateb yn benodol i'r elfen o'r strategaeth sy'n nodi bod y tair ffrwd gyfranogiad yn dod ynghyd drwy Fforwm leuenctid Gwynedd, a bod y fforwm hwn yn darparu mecanwaith cydnabyddedig i gyflwyno lleisiau plant a phobl ifanc yn uniongyrchol i arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig.

Mae'r atodiad yn disgrifio'r llif o leisiau plant a phobl ifanc o'r lefel leol i'r lefel strategol; rôl Fforwm leuenctid Gwynedd; cyfraniad aelodau etholedig; cyfrifoldebau swyddogion a gwasanaethau; a'r ffordd y bydd y Cyngor yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn rhan weithredol o bolisi, cynllunio, blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau.

Nid yw'r trefniadau hyn yn disodli cyfrifoldebau statudol na phrosesau penderfynu ffurfiol y Cyngor. Maent yn cryfhau'r prosesau hynny drwy sicrhau bod profiadau, safbwyntiau a blaenoriaethau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn systematig cyn, yn ystod ac ar ôl penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Datganiad polisi

Bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod Llais y Plentyn yn rhan weladwy, drefnus ac atebol o'i drefniadau llywodraethu corfforaethol. Bydd y Cyngor yn defnyddio Fforwm leuenctid Gwynedd fel y prif fecanwaith sirol i ddod â lleisiau plant a phobl ifanc at ei gilydd ar draws tair ffrwd gyfranogiad: Addysg, Gwasanaeth leuenctid a Gwasanaethau.

Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i godi materion sy'n bwysig iddynt, ymateb i faterion y mae'r Cyngor yn eu datblygu, a chyfrannu at flaenoriaethau strategol. Bydd arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig yn gwrandao ar y safbwyntiau hyn, yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau, ac yn darparu adborth clir ar yr hyn sydd wedi digwydd o ganlyniad i gyfraniad plant a phobl ifanc.

Egwyddorion llywodraethu

Llais fel rhan o lywodraethu, nid fel gweithgaredd ar wahân

Bydd llais plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried fel rhan o drefniadau penderfynu, cynllunio a gwerthuso'r Cyngor, nid fel ymgynghoriad atodol ar ddiwedd proses.

Llwybr clir o'r lleol i'r strategol

Bydd materion a godir mewn ysgolion, grwpiau ieuenctid, gwasanaethau a chymunedau yn gallu symud drwy fforymau lleol a rhanbarthol i Fforwm Ieuenctid Gwynedd ac, lle bo'n briodol, ymlaen i dîmau rheoli, aelodau etholedig neu bwyllgorau.

Cyswllt democrataidd uniongyrchol

Bydd aelodau etholedig yn chwarae rhan bwysig wrth wrando ar leisiau pobl ifanc, esbonio prosesau democrataidd, a sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau perthnasol.

Atebolrwydd ac adborth

Bydd materion a godir gan blant a phobl ifanc yn cael ymateb clir. Lle mae camau gweithredu'n bosibl, bydd cyfrifoldeb ac amserlen yn cael eu nodi. Lle nad yw newid yn bosibl, bydd rhesymau'n cael eu hesbonio'n onest ac yn briodol.

Cynhwysiant a chynrychiolaeth deg

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw penodol i sicrhau bod y trefniadau yn cynnwys plant a phobl ifanc o wahanol ardaloedd, cefndiroedd a phrofiadau, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael eu tangynrychioli.

Y model corfforaethol

Mae'r model corfforaethol yn seiliedig ar dair ffrwd gyfranogiad gydgyssylltiedig. Mae pob ffrwd yn darparu llwybr i blant a phobl ifanc leisio barn mewn cyd-destun sy'n berthnasol i'w profiad, ac mae pob ffrwd yn cyfrannu at Fforwm Ieuenctid Gwynedd ar lefel sirol.

Ffrwd	Prif ffynonellau llais	Sut mae'n cyfrannu at lywodraethu strategol
Llais Ni: Ysgolion	Cynghorau ysgol, fforymau dysgwyr, trafodaethau dosbarth, arolygon dysgwyr, grwpiau llesiant ac adborth drwy drefniadau ysgolion.	Yn sicrhau bod profiadau dysgwyr o ddysgu, llesiant, perthyn a bywyd ysgol yn gallu dylanwadu ar flaenoriaethau addysg, hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a phenderfyniadau sirol perthnasol.
Llais Ni: Gwasanaeth Ieuenctid	Clybiau ieuenctid, prosiectau cymunedol, fforymau ieuenctid lleol a rhanbarthol, arolygon, gweithgareddau anffurfiol a chyfleoedd digidol.	Yn sicrhau bod materion sy'n bwysig i bobl ifanc mewn cymunedau yn cael eu clywed, eu trafod a'u trosglwyddo i'r lefel sirol, gan gynnwys lleisiau pobl ifanc nad ydynt bob amser yn ymgysylltu drwy addysg ffurfiol.
Llais Ni: Gwasanaethau	Gwasanaethau gofal, llesiant, cyfiawnder ieuenctid, partneriaid trydydd sector, grwpiau arbenigol a gwasanaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.	Yn sicrhau bod profiadau plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau penodol yn cyfrannu at ddylunio, darparu, gwerthuso a gwella gwasanaethau ar draws y Cyngor.

Y llif llywodraethu

Mae'r trefniadau'n gweithio fel llif clir. Mae hyn yn sicrhau nad yw llais plant a phobl ifanc yn aros mewn grwpiau lleol, ond yn gallu teithio i'r mannau lle caiff penderfyniadau eu gwneud, ac wedyn dychwelyd at bobl ifanc drwy adborth.

Cam	Beth sy'n digwydd	Pwy sy'n gyfrifol
1. Casglu llais yn lleol	Plant a phobl ifanc yn rhannu barn drwy ysgolion, clybiau ieuenctid, grwpiau gwasanaeth, arolygon, gweithgareddau digidol neu drafodaethau gyda gweithwyr y maent yn ymddiried ynddynt.	Ysgolion, Gwasanaeth Ieuenctid, gwasanaethau perthnasol, partneriaid a gweithwyr uniongyrchol.
2. Trafod yn rhanbarthol	Fforymau rhanbarthol Arfon, Dwyfor a Meirionnydd yn adnabod themâu, blaenoriaethau a materion sydd angen eu codi ar lefel sirol.	Cydlynnydd y fforwm, gweithwyr ieuenctid, ysgolion, gwasanaethau a chynrychiolwyr pobl ifanc.
3. Cyflwyno i Fforwm Ieuenctid Gwynedd	Cynrychiolwyr y tair ffrwd yn dod ynghyd i drafod materion, herio, blaenoriaethu a chytuno beth ddylai symud ymlaen.	Fforwm Ieuenctid Gwynedd, pobl ifanc, partneriaid, swyddogion ac aelodau etholedig ar wahoddiad.
4. Cysylltu â llywodraethu corfforaethol	Materion perthnasol yn cael eu cyflwyno i dimau rheoli adrannol, penaethiaid gwasanaeth, aelodau Cabinet, pwyllgorau neu grwpiau gweithredu.	Bwrdd neu Grŵp Gweithredu, uwch swyddogion, gwasanaethau perthnasol ac aelodau etholedig.
5. Gweithredu neu esbonio	Gwasanaethau'n ymateb drwy weithredu, datblygu opsiynau, newid trefniadau, comisiynu gwaith pellach neu esbonio pam nad yw newid yn bosibl.	Penaethiaid gwasanaeth, rheolwyr, swyddogion arweiniol a phartneriaid perthnasol.
6. Adborth a dysgu	Plant a phobl ifanc yn derbyn adborth ar effaith eu cyfraniad. Mae themâu a dysgu'n cael eu defnyddio i gryfhau'r trefniadau.	Cydlynnydd y fforwm, gwasanaethau perthnasol, aelodau etholedig a'r Grŵp Gweithredu.

Rôl Fforwm Ieuenctid Gwynedd

Fforwm Ieuenctid Gwynedd yw'r prif bwynt integreiddio rhwng y tair ffrwd gyfranogiad a threfniadau llywodraethu strategol y Cyngor. Ei rôl yw dod â lleisiau plant a phobl ifanc at ei gilydd, sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu trafod mewn ffordd strwythuredig, a darparu llwybr i'r safbwyntiau hynny gyrraedd y bobl sy'n gallu gweithredu arnynt.

Bydd y Fforwm yn:

- derbyn materion a blaenoriaethau o'r tair ffrwd: Ysgolion, Gwasanaeth Ieuenctid a Gwasanaethau;
- rhoi cyfle i blant a phobl ifanc godi materion eu hunain yn ogystal ag ymateb i faterion y mae'r Cyngor yn eu datblygu;
- trafod themâu sy'n dod o lefelau lleol a rhanbarthol;
- cytuno pa faterion sydd angen eu trosglwyddo i dimau rheoli, pwyllgorau, aelodau Cabinet neu grwpiau gweithredu;
- derbyn diweddariadau ar gamau gweithredu sydd wedi'u cytuno;
- gofyn am eglurder pan nad yw camau gweithredu wedi symud ymlaen;
- rhannu adborth gyda phlant a phobl ifanc ar draws y sir.

Bydd y Fforwm yn gweithredu fel mecanwaith dylanwadu a llywodraethu, nid fel corff sy'n cymryd lle penderfyniadau statudol y Cyngor. Ei gryfder yw sicrhau bod y penderfyniadau hynny yn cael eu llywio gan leisiau plant a phobl ifanc mewn ffordd glir, bwrpasol ac atebol.

Rôl aelodau etholedig

Mae cyfranogiad aelodau etholedig yn rhan hanfodol o'r model oherwydd ei fod yn creu cyswllt democrataidd uniongyrchol rhwng plant a phobl ifanc a'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros flaenoriaethau, adnoddau a phenderfyniadau strategol y Cyngor.

Pan fydd aelodau etholedig yn cymryd rhan yn Fforwm Ieuenctid Gwynedd, eu rôl yw gwrandao, deall, gofyn cwestiynau, esbonio prosesau democrataidd, a sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu cario i'r mannau perthnasol o fewn trefniadau'r Cyngor.

Disgwylir i aelodau etholedig:

- fynychu Fforwm Ieuenctid Gwynedd neu gyfarfodydd perthnasol ar wahoddiad;
- wrando'n uniongyrchol ar safbwyntiau plant a phobl ifanc heb hidlo'r llais drwy oedolion yn unig;
- helpu pobl ifanc i ddeall sut mae penderfyniadau democrataidd yn cael eu gwneud;
- sicrhau bod materion a godir gan bobl ifanc yn cael eu cyfeirio at y Cabinet, pwyllgorau, craffu neu wasanaethau pan fo hynny'n briodol;
- rhoi adborth i'r Fforwm ar sut mae materion wedi cael eu hystyried;
- gweithredu mewn ffordd anwleidyddol, barchus ac addas i bwrpas cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Rôl arweinwyr, rheolwyr a gwasanaethau

Er mwyn i'r model wneud gwahaniaeth, rhaid i bob gwasanaeth perthnasol ddeall bod Fforwm leuenctid Gwynedd yn rhan o'r ffordd y mae'r Cyngor yn gwrando, yn cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau. Bydd disgwyl i wasanaethau dderbyn mewnbwn gan y Fforwm, cyflwyno materion i'r Fforwm pan fo barn plant a phobl ifanc yn berthnasol, ac ymateb i'r blaenoriaethau a godir.

Rôl	Cyfrifoldebau llywodraethu
Penaethiaid Adran	Sicrhau bod materion strategol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno i'r trefniadau cyfranogiad lle bo'n briodol; ymateb i themâu sy'n dod o'r Fforwm; sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau gwasanaeth neu raglenni gwaith.
Timau Rheoli Adrannol	Derbyn a thrafod themâu o Fforwm leuenctid Gwynedd; nodi cyfleoedd i gynnwys pobl ifanc cyn penderfyniadau; sicrhau bod gwasanaethau'n darparu ymateb clir.
Rheolwyr Gwasanaeth	Gweithredu ar gamau perthnasol; darparu gwybodaeth hygyrch i'r Fforwm; mynychu pan fo angen; darparu adborth ar gynnydd.
Cydlynnydd Fforwm leuenctid	Cydlynu'r llif rhwng fforymau lleol, rhanbarthol a sirol; cynnal cofnodion a chamau gweithredu; sicrhau bod adborth yn mynd yn ôl i bobl ifanc; cefnogi cynrychiolwyr pobl ifanc.
Bwrdd neu Grŵp Gweithredu	Monitro bod y trefniadau'n gweithio; sicrhau bod materion yn symud i'r mannau penderfynu cywir; herio diffyg cynnydd; adolygu themâu, presenoldeb, cynrychiolaeth ac effaith.
Partneriaid	Cefnogi plant a phobl ifanc i gyfrannu drwy eu gwasanaethau a'u cymunedau; rhannu themâu perthnasol; gweithio gyda'r Cyngor ar gamau gweithredu pan fo hynny'n briodol.

Integreiddio â phenderfyniadau corfforaethol

Bydd y Cyngor yn disgwyl i wasanaethau ystyried Llais y Plentyn fel rhan o ddatblygu polisiâu, cynlluniau, adolygiadau gwasanaeth a phenderfyniadau strategol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Ni ddylai llais plant ymddangos yn hwyr yn y broses yn unig. Dylai gael ei ystyried ar y cam lle mae opsiynau'n cael eu ffurfio ac wrth werthuso effaith penderfyniadau ar ôl eu gweithredu.

Cam yn y broses benderfynu	Sut dylai Llais y Plentyn gael ei integreiddio
Cyn datblygu polisi neu gynllun	Ystyried pa blant a phobl ifanc fydd yn cael eu heffeithio; penderfynu sut i glywed eu barn; defnyddio'r fforymau neu dulliau eraill i gasglu safbwyntiau.
Wrth lunio opsiynau	Defnyddio profiadau a blaenoriaethau plant a phobl ifanc i brofi a yw opsiynau'n realistig, yn deg ac yn debygol o wneud gwahaniaeth.
Wrth baratoi adroddiadau penderfynu	Cynnwys crynodeb clir o sut y cafodd llais plant a phobl ifanc ei ystyried, beth ddywedwyd, a sut y dylanwadodd hynny ar yr argymhelliad.
Wrth wneud penderfyniad	Sicrhau bod aelodau etholedig a swyddogion yn gweld tystiolaeth berthnasol o lais plant a phobl ifanc ochr yn ochr â thystiolaeth ariannol, gyfreithiol, risg a pherfformiad.
Ar ôl penderfyniad	Darparu adborth i blant a phobl ifanc ar y penderfyniad, yr effaith a gafodd eu cyfraniad, a'r rhesymau os nad oedd modd gweithredu ar eu safbwyntiau.

Llwybrau cyfeirio ac uwchgyfeirio

Dylai'r trefniadau fod yn ddigon clir i sicrhau bod materion yn mynd i'r lle cywir. Nid yw pob mater angen mynd i'r Cabinet neu bwyllgor; gall rhai gael eu datrys yn lleol neu drwy wasanaeth. Fodd bynnag, pan fo mater yn strategol, yn drawsadrannol neu'n ymwneud â hawliau plant yn ehangach, dylai fod llwybr clir i'w uwchgyfeirio.

Math o fater	Llwybr ymateb disgwylidig
Mater lleol neu weithredol	Gwasanaeth, ysgol, grŵp lleol neu reolwr perthnasol yn ymateb ac yn darparu adborth i'r bobl ifanc dan sylw.
Mater rhanbarthol neu batrwm sy'n codi mewn sawl ardal	Fforwm rhanbarthol yn ei drafod; os oes angen, caiff ei gyflwyno i Fforwm leuenctid Gwynedd neu i'r gwasanaeth perthnasol.
Mater sirol neu strategol	Fforwm leuenctid Gwynedd yn ei flaenoriaethu; caiff ei gyfeirio i Dîm Rheoli Adrannol, Pennaeth Gwasanaeth, aelod Cabinet, pwyllgor neu grŵp gweithredu.
Mater trawsadrannol	Bwrdd neu Grŵp Gweithredu yn nodi'r gwasanaethau perthnasol ac yn sicrhau bod ymateb cydlynol.
Mater diogelu neu risg uniongyrchol	Dilyn gweithdrefnau diogelu perthnasol ar unwaith. Nid yw'r fforwm yn disodli prosesau diogelu statudol.

Safonau ymateb, perchnogaeth ac uwchgyfeirio

Bydd pob mater a gyfeirir at wasanaeth neu strwythur penderfynu yn cael perchennog penodol, cam nesaf ac amserlen ar gyfer diweddariad. Bydd y gwasanaeth yn

cydnabod y mater, yn egluro'r broses ac yn darparu diweddariad hyd yn oed os nad oes penderfyniad terfynol.

Gall Fforwm leuenctid Gwynedd neu'r Cabinet Pobl Ifanc ofyn am ddiweddariad pan nad oes cynnydd amlwg. Bydd materion trawsadrannol yn cael eu dyrannu i arweinydd cydlynu sy'n gyfrifol am sicrhau un ymateb corfforaethol.

Cyswllt uniongyrchol â phenderfynwyr

Bydd sesiynau rheolaidd yn galluogi pobl ifanc i gyflwyno blaenoriaethau a chwestiynau'n uniongyrchol i uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Bydd cofnod o'r ymateb, y camau gweithredu a'r adborth yn cael ei rannu mewn fformat hygrych.

Adolygu'r model gyda phobl ifanc

Bydd pobl ifanc yn cyfrannu at adolygu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys pa mor hawdd yw codi mater, a yw'r mater yn cyrraedd y person cywir, ansawdd yr adborth a'r dystiolaeth o newid.

Cofnodi, adrodd ac adborth

Er mwyn sicrhau atebolrwydd, bydd angen cofnod clir o'r hyn a godwyd, beth oedd yr ymateb, pwy sy'n gyfrifol am gamau gweithredu, a sut y cafodd adborth ei roi i blant a phobl ifanc. Dylai cofnodi fod yn ddigonol i ddangos effaith, ond heb greu proses fiwrocrataidd sy'n tanseilio cyfranogiad naturiol.

Dylid cadw tystiolaeth o:

- faterion a godwyd gan blant a phobl ifanc;
- pa ffrwd neu ranbarth y daeth y mater ohono;
- pa wasanaeth, aelod neu grŵp gafodd y mater i'w ystyried;
- pa gamau gweithredu gafodd eu cytuno;
- pwy sy'n gyfrifol a pha amserlen sydd wedi'i nodi;
- pa adborth a roddwyd i blant a phobl ifanc;
- unrhyw enghreifftiau o newid, dysgu neu benderfyniad a gafodd ei ddylanwadu gan lais plant.

Bydd yr wybodaeth hon yn gallu bwydo i adroddiadau cynnydd, trefniadau hunanwerthuso, adroddiadau i bwyllgorau neu ddiweddariadau i blant a phobl ifanc. Dylai'r Cyngor ddefnyddio dull clir megis "Dywedoch chi - Gwnaethom ni - Beth newidiodd" lle bo hynny'n briodol.

Beth ddylem ei weld mewn trefniadau llywodraethu effeithiol?

- Mae'r tair ffrwd gyfranogiad yn cysylltu'n glir â Fforwm Ieuencid Gwynedd.
- Mae cynrychiolaeth o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, ac o ystod o brofiadau plant a phobl ifanc.
- Mae plant a phobl ifanc yn gallu codi materion eu hunain, nid ymateb i agenda oedolion yn unig.
- Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn gwrandao'n uniongyrchol ar bobl ifanc lle bo hynny'n briodol.
- Mae materion o'r Fforwm yn cael eu trafod gan y gwasanaethau neu'r strwythurau penderfynu perthnasol.
- Mae adroddiadau penderfynu perthnasol yn nodi sut mae llais plant a phobl ifanc wedi cael ei ystyried.
- Mae camau gweithredu'n cael eu monitro ac nid yn cael eu gadael heb berchennog.
- Mae plant a phobl ifanc yn cael adborth amserol ac addas ar effaith eu cyfraniad.
- Mae'r model yn arwain at well penderfyniadau, gwell cyfathrebu a mwy o ymddiriedaeth rhwng pobl ifanc a'r Cyngor.

Cwestiynau sicrwydd i arweinwyr a llywodraethwyr corfforaethol

- A yw'r materion sy'n cael eu trafod gan Fforwm Ieuenctid Gwynedd yn cyrraedd y bobl sydd â'r grym i weithredu?
- A oes tystiolaeth bod aelodau etholedig a swyddogion wedi gwrandao ar blant a phobl ifanc cyn gwneud penderfyniadau perthnasol?
- A yw gwasanaethau'n defnyddio'r Fforwm i brofi syniadau cyn datblygu polisi neu newid darpariaeth?
- A oes llwybr clir rhwng fforymau lleol, fforymau rhanbarthol, y Fforwm Sirol a threfniadau penderfynu'r Cyngor?
- A oes cofnod o gamau gweithredu, cyfrifoldebau ac adborth?
- A yw lleisiau plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu tangynrychioli yn cyrraedd y strwythurau strategol?
- A yw'r Cyngor yn gallu dangos enghreifftiau o benderfyniadau neu flaenoriaethau a gafodd eu dylanwadu gan y model hwn?
- A yw plant a phobl ifanc yn gallu gweld bod eu cyfraniad wedi gwneud gwahaniaeth?

Crynodeb

Mae'r atodiad hwn yn cadarnhau mai rôl Fforwm Ieuenctid Gwynedd yw gweithredu fel pont rhwng lleisiau plant a phobl ifanc a threfniadau llywodraethu strategol Cyngor Gwynedd. Mae'r tair ffrwd gyfranogiad yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei gasglu o wahanol gyd-destunau; mae'r Fforwm yn sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu trafod a'u blaenoriaethu; ac mae'r cysylltiad ag aelodau etholedig, timau rheoli, gwasanaethau a phwyllgorau yn sicrhau bod y lleisiau hynny'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau.

Y prawf o lwyddiant yw bod Llais y Plentyn yn rhan arferol o'r ffordd y mae'r Cyngor yn meddwl, yn cynllunio ac yn penderfynu: o'r lleol i'r strategol, ac o wrando i weithredu ac adborth.



Cyngor
Gwynedd

Atodiad 6

Sesiwn Ymgysylltu gyda Fforwm Plant a Phobl Ifanc Gwynedd – Mehefin 2026

1. Diben y Sesiwn

Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu gyda chynrychiolwyr Fforwm Plant a Phobl Ifanc Gwynedd er mwyn deall eu profiadau o gyfranogiad mewn ysgolion a gwasanaethau, asesu cryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol, a chasglu barn ar yr hyn ddylai gael ei gynnwys yn Strategaeth Llais y Plentyn.

2. Beth mae "Llais y Plentyn" yn ei olygu i bobl ifanc?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth oedd ystyr "llais y plentyn" iddynt. Roedd consensws clir mai hawl sylfaenol yw cael eu clywed a bod eu barn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Pwysleisiwyd hefyd y cysylltiad rhwng llais y plentyn a diogelwch, gyda rhai pobl ifanc yn nodi bod methu gwrando ar blant a phobl ifanc yn gallu cael effaith uniongyrchol ar eu llesiant a'u diogelwch.

3. Prif negeseuon

- Mae hawl gan blant a phobl ifanc i gael eu clywed.
- Mae eu barn yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniadau.
- Mae gwrando ar blant a phobl ifanc yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo llesiant.
- Profiadau o gynghorau Ysgol

Roedd trafodaeth sylweddol ar brofiadau pobl ifanc o gynghorau ysgol. Er bod enghreifftiau o arfer dda yn bodoli, roedd y drafodaeth yn amlygu amrywiad sylweddol rhwng ysgolion.

Roedd y bobl ifanc yn gadarnhaol am rai datblygiadau diweddar, gan gynnwys mwy o gynrychiolaeth drwy gynnwys cynrychiolwyr o bob dosbarth yn hytrach na phob blwyddyn yn unig. Fodd bynnag, mynegwyd pryder cyffredinol bod ysgolion yn rhoi pwyslais ar ethol cynghorau ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ond bod amllder, pwrpas ac effaith y cyfarfodydd yn dirywio dros amser.

4. Prif heriau

- Diffyg strwythur a diben clir i rai cyfarfodydd.
- Teimlad bod rhai cynghorau ysgol yn gweithredu fel ymarfer "tic-bocs".
- Diffyg adborth ar yr hyn sydd wedi digwydd o ganlyniad i sylwadau'r disgyblion.
- Diffyg tystiolaeth o ddylanwad gwirioneddol ar benderfyniadau ysgol.
- Diffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhai disgyblion am rôl a gwaith y Cyngor Ysgol.

Roedd consensws mai'r brif her oedd nad oedd pobl ifanc bob amser yn gweld tystiolaeth o newid neu weithredu o ganlyniad i'w cyfraniad.

5. Cynrychiolaeth a Chyfle Teg

Roedd y bobl ifanc yn teimlo'n gryf bod angen sicrhau prosesau ethol a dethol teg a chyson.

Rhannwyd enghreifftiau o arfer effeithiol, gan gynnwys prosesau ymgeisio strwythuredig lle mae disgyblion yn egluro eu rhesymau dros geisio bod ar y Cyngor Ysgol a'r newid yr hoffent ei weld. Teimlwyd bod y model hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar ymrwymiad ac arweinyddiaeth nag ar boblogrwydd.

Ar yr un pryd, codwyd pryderon am sefyllfaoedd lle:

- Mae disgyblion yn cael eu hallgáu oherwydd ymddygiad blaenorol.
- Mae prosesau'n dibynnu'n llwyr ar bleidlais poblogrwydd.
- Nid oes dull cyson ar draws ysgolion.

Roedd y bobl ifanc yn gweld tegwch a chynhwysiant fel elfennau allweddol o unrhyw drefniadau cyfranogiad.

6. Beth Sy'n Gwneud Cyngor Ysgol Effeithiol?

Canfu'r sesiwn fod pobl ifanc yn cysylltu cyngor ysgol effeithiol â phedair elfen allweddol:

- Cyfle gwirioneddol i ddylanwadu ar benderfyniadau.
- Adborth clir ar yr hyn sydd wedi digwydd o ganlyniad i gyfraniadau disgyblion.
- Cyfleoedd i gymryd cyfrifoldeb ac arwain.
- Strwythur clir a chyfarfodydd rheolaidd â phwrrpas pendant.

Roedd y bobl ifanc yn pwysleisio bod rhoi teitlau neu rolau ffurfiol yn unig yn annigonol os nad yw'r rôl yn dod gyda chyfrifoldeb neu ddylanwad ymarferol.

7. Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol

Edrychodd y sesiwn hefyd ymlaen at ddatblygiadau yn y dyfodol ac amlygwyd nifer o flaenoriaethau:

a) Canllawiau Cliriach i Ysgolion

Roedd consensws cryf nad yw pob ysgol yn deall sut i weithredu cyngor ysgol effeithiol. Roedd y bobl ifanc yn cefnogi datblygu canllawiau mwy clir a chyson i ysgolion ac yn awyddus i gyfrannu at lunio'r canllawiau hynny.

b) Cryfhau Cyfranogiad mewn Addysg Ôl-16

Nodwyd diffyg strwythurau cyfatebol o fewn colegau a mynegwyd awydd i weld cyfleoedd tebyg i gynghorau ysgol yn cael eu datblygu mewn lleoliadau addysg ôl-16.

c) Dysgu o Arfer Da mewn Ysgolion Cynradd

Roedd y bobl ifanc yn teimlo bod llawer o ysgolion cynradd yn dangos arferion cyfranogiad cryfach na'r hyn a welir weithiau mewn ysgolion uwchradd. Awgrymwyd bod hyn yn deillio o gymunedau llai, cysylltiadau agosach rhwng gwahanol grwpiau disgyblion a mwy o gyfleoedd i weld effaith uniongyrchol penderfyniadau.

8. Sut Ddylanwadodd y Sesiwn ar y Strategaeth?

Roedd negeseuon y sesiwn hon yn ddylanwad uniongyrchol ar nifer o elfennau'r Strategaeth, yn enwedig:

- Y pwyslais ar gyfranogiad ystyrion yn hytrach na chyfranogiad symbolaidd.
- Yr ymrwymiad i ddarparu adborth ar yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i leisiau plant a phobl ifanc.
- Y pwyslais ar gynhwysiant a chynrychiolaeth deg.
- Yr angen am strwythurau cyfranogiad gyda diben, dylanwad ac atebolrwydd clir.
- Y disgwyliad y bydd gwasanaethau ac ysgolion yn gallu dangos tystiolaeth o effaith llais plant a phobl ifanc ar benderfyniadau.

Gweithdy Strategaeth Llais y plentyn - Gorffennaf 2026

1. Diben y Gweithdy:

Cynhaliwyd gweithdy gyda phobl ifanc o bob rhan o Wynedd er mwyn trafod y Strategaeth ddrafft a sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf iddynt. Yn hytrach na cheisio cymeradwyo dogfen oedd eisoes wedi ei chwblhau, gofynnwyd i'r bobl ifanc herio'r cynnwys, nodi bylchau a chynnig newidiadau fyddai'n sicrhau bod y Strategaeth yn arwain at ddylanwad ac effaith wirioneddol.

Roedd y gweithdy yn canolbwyntio ar dri maes:

- Troi egwyddorion y Strategaeth yn iaith pobl ifanc.
- Diffinio sut dylai llais symud o brofiad i weithredu.
- Datblygu gweledigaeth ar gyfer strwythurau cynrychiolaeth pobl ifanc yn y dyfodol.

2. Prif Negeseuon

Daeth nifer o themâu cryf i'r amlwg ar draws yr holl weithgareddau.

Yn gyntaf, roedd consensws clir nad yw casglu barn yn unig yn ddigonol. Roedd y bobl ifanc yn awyddus i weld eu llais yn arwain at newid amlwg a mesuradwy. Roeddent yn glir mai'r hyn sy'n adeiladu ymddiriedaeth yw gweld penderfyniadau'n newid o ganlyniad i'w cyfraniad.

Yn ail, pwysleisiwyd pwysigrwydd adborth. Roedd galw cyson am wybodaeth glir ynghylch beth ddigwyddodd i'w barn, beth gafodd ei newid a pham na ellid gweithredu ar rai awgrymiadau.

Yn drydydd, roedd y bobl ifanc yn awyddus i sicrhau bod cyfranogiad yn gynhwysol. Roeddent yn pwysleisio bod angen clywed lleisiau'r rhai sydd yn llai hyderus yn ogystal â'r rhai sydd yn fwy parod i siarad.

Yn bedwerydd, pwysleisiwyd bod angen llwybrau eglur ar gyfer codi materion a gwybod pwy sy'n gyfrifol am wrando, gweithredu a rhoi adborth.

Yn olaf, codwyd cysylltiad cryf rhwng cael eu clywed a llesiant. Roedd y bobl ifanc yn gweld gwrando fel rhan o greu amgylcheddau mwy diogel, mwy cefnogol ac yn helpu i wella llesiant.

3. Datblygu'r Saith Addewid

Un o ganlyniadau pwysicaf y gweithdy oedd gwaith y bobl ifanc i ailddiffinio egwyddorion y Strategaeth yn eu geiriau eu hunain.

O'r gwaith hwn y datblygwyd y saith addewid sydd wrth wraidd y Strategaeth:

1. Mae gennym hawl i gael ein clywed.
2. Dylai ein llais ddylanwadu, nid cael ei gasglu'n unig.
3. Dylai pawb gael cyfle, nid y rhai mwyaf hyderus yn unig.
4. Dylai'r Cyngor ddweud beth wnaeth gyda'n barn.
5. Dylai ein llais gyrraedd penderfynwyr.

6. Dylai oedolion ddefnyddio dulliau sy'n addas i ni.
7. Dylai gwrandio ein cadw'n fwy diogel a gwella llesiant.

Mae'r addewidion hyn yn darparu crynodeb clir o'r hyn oedd bwysicaf i'r bobl ifanc ac maent yn cael eu hadlewyrchu drwy'r Strategaeth gyfan.

4. Sut Newidiodd yr Adborth y Strategaeth

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwnaeth cyfraniadau'r bobl ifanc ddylanwadu ar y Strategaeth derfynol.

Yr hyn a ddywedodd y bobl ifanc	Ymateb yn y Strategaeth
"Dylai ein llais ddylanwadu, nid cael ei gasglu'n unig."	Cryfhawyd y pwyslais ar ddylanwad a gwneud penderfyniadau, gan nodi'n glir mai'r nod yw sicrhau newid ac effaith, nid ymgysylltu yn unig.
"Dylai'r Cyngor ddweud beth wnaeth gyda'n barn."	Cryfhawyd yr adrannau ar adborth, tryloywder ac atebolrwydd.
"Dylai pawb gael cyfle, nid y rhai mwyaf hyderus yn unig."	Ychwanegwyd pwyslais ar gynhwysiant a sicrhau cyfranogiad gan blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o dangynrychiolaeth.
"Dylai ein llais gyrraedd penderfynwyr."	Datblygwyd trefniadau llywodraethu sy'n cysylltu cyfranogiad pobl ifanc â phrosesau penderfynu'r Cyngor.
"Dylai oedolion ddefnyddio dulliau sy'n addas i ni."	Cryfhawyd yr egwyddor o ddefnyddio dulliau hygyrch, priodol ac apelgar i blant a phobl ifanc.
"Dylai gwrandio ein cadw'n fwy diogel a gwella llesiant."	Rhodddwyd mwy o bwyslais ar y berthynas rhwng llais y plentyn, llesiant a diogelwch.
"Mae angen gweld beth sydd wedi newid."	Ychwanegwyd trefniadau monitro ac asesu effaith i fesur a dangos newid.

5. Taith y Llais: O Brofiad i Weithredu

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sut dylai llais symud drwy'r system o godi mater i weld newid.

Er bod yr enghreifftiau'n ymwneud â sefyllfaoedd mewn ysgolion, mewn cymunedau ac wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor, roedd pedair neges gyffredin yn ymddangos ym mhob enghraifft:

- Mae angen llwybrau syml a hygyrch i godi pryderon neu syniadau.
- Mae angen eglurder ynghylch pwy sy'n gwrandio a phwy sy'n gyfrifol am weithredu.
- Mae angen diweddariadau ac adborth amserol.
- Mae gweld tystiolaeth o newid yn hanfodol i adeiladu ymddiriedaeth.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi llywio'r adran "Taith y Llais" yn y Strategaeth derfynol.

6. Cabinet Pobl Ifanc

Fel rhan o'r gweithdy, datblygodd y bobl ifanc eu gweledigaeth ar gyfer strwythur cynrychiolaeth pobl ifanc ar lefel sirol.

Ymhlith y nodweddion allweddol a awgrymwyd oedd:

- Cynrychiolaeth eang o ardaloedd a diddordebau gwahanol.
- Rhannu cyfrifoldebau i leihau pwysau ar unigolion.
- Rolau clir megis Cadeirydd ac Ysgrifennydd.
- Cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.
- Canolbwyntio ar faterion sy'n bwysig i bobl ifanc megis addysg, yr amgylchedd, trafnidiaeth, llesiant a chyfleoedd economaidd.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi cyfrannu at y model llywodraethu a'r trefniadau cyfranogiad a amlinellir yn y Strategaeth.

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Asesiad Effaith Cyfansawdd – Strategaeth Llais y Plentyn

Awdur: Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg

Dyddiad: Medi 2026

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

Polisiau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Bwriad Strategaeth Llais y Plentyn yw sefydlu fframwaith corfforaethol clir i sicrhau bod hawliau, barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn systematig wrth gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau Cyngor Gwynedd. Nod y Strategaeth yw gwreiddio hawliau plant a chyfranogiad ystyrion ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, cryfhau atebolrwydd corfforaethol a sicrhau y gall plant a phobl ifanc weld tystiolaeth glir o sut mae eu safbwyntiau yn dylanwadu ar bolisiau, gwasanaethau a phenderfyniadau.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

- Plant a phobl ifanc Gwynedd.
- Fforwm Ieuenctid Gwynedd.
- Cabinet Pobl Ifanc Gwynedd.
- Cynghorau Ysgol.
- Rhieni a gofalwyr.
- Cyrff llywodraethu ysgolion.
- Penaethiaid ac uwch arweinwyr ysgolion.

- Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd.
- Gwasanaethau Plant Cyngor Gwynedd.
- Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd.
- Partneriaid perthnasol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Mae datblygiad y Strategaeth wedi cynnwys rhaglen o ymarferiadau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod cynnwys y Strategaeth yn adlewyrchu anghenion, profiadau a blaenoriaethau'r rhai y bydd yn effeithio arnynt. Defnyddiwyd y gwaith ymgysylltu hwn i brofi a herio'r Strategaeth ddrafft, nodi meysydd i'w cryfhau a sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gynnwys y ddogfen derfynol. Mae'r saith addewid sydd wrth wraidd y Strategaeth wedi'u llywio gan negeseuon a blaenoriaethau a godwyd gan bobl ifanc yn ystod y broses hon.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau cyfranogiad cynhwysol a chynrychioliadol, gan roi sylw penodol i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth neu sy'n wynebu rhwystrau i gyfranogiad. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses ddatblygu wedi helpu i lunio egwyddorion, trefniadau llywodraethu a blaenoriaethau'r Strategaeth.

Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau ymgysylltu hyn wedi darparu sail dystiolaeth gadarn, gytbwys a pherthnasol, sy'n dangos cefnogaeth gyffredinol i weledigaeth y Strategaeth ac yn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen yn hyderus i'w gweithredu.

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Sesiwn ymgysylltu gyda Fforwm Plant a Phobl Ifanc Gwynedd	Mehefin 2026	Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu gyda chynrychiolwyr Fforwm Plant a Phobl Ifanc Gwynedd er mwyn deall eu profiadau o gyfranogiad mewn ysgolion a gwasanaethau, asesu cryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol, a chasglu barn ar yr hyn ddylai gael ei gynnwys yn Strategaeth Llais y Plentyn.
Gweithdy Strategaeth Llais y Plentyn	Gorffennaf 2026	Cynhaliwyd gweithdy gyda phobl ifanc o bob rhan o Wynedd er mwyn trafod y Strategaeth ddrafft a sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf iddynt. Yn hytrach na cheisio cymeradwyo dogfen oedd eisoes wedi ei chwblhau, gofynnwyd i'r bobl ifanc herio'r cynnwys, nodi bylchau a chynnig newidiadau fyddai'n sicrhau bod y Strategaeth yn arwain at ddylanwad ac effaith wirioneddol. Defnyddiwyd yr adborth hwn i gryfhau'r Strategaeth derfynol a llunio'r saith addewid craidd.

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Mae'r Strategaeth yn mabwysiadu egwyddorion cynhwysiant a dim gwahaniaethu, gan sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i gael ei glywed waeth beth fo'i gefndir ethnig neu ddiwylliannol. Mae'r Strategaeth yn pwysleisio'r angen i gyrraedd plant sydd mewn perygl o dangynrychiolaeth a dileu rhwystrau i gyfranogiad Mae gan ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Mae gan bob ysgol eu polisiau gwrth-fwlio er mwyn diogelu plant sydd â nodweddion cydraddoldeb penodol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn "...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."	Effaith Gadarnhaol

Anabledd	Mae'r Strategaeth yn nodi'n benodol bod dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion y plentyn yn hytrach na disgwyl i'r plentyn addasu i drefniadau'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau a phlant sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu amgen Byddwn yn parhau â'r gwaith o weithredu gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn ogystal â'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Nod y Strategaeth ADYaCh yw sicrhau bod plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd a phrofiadau addysg a hyfforddiant sydd wedi eu cynllunio'n briodol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd a chyflawni eu potensial mewn lleoliadau addysg sy'n addas i'w anghenion.	Effaith Gadarnhaol
Rhyw	Bydd y Strategaeth yn sicrhau bod cyfleoedd cyfranogiad ar gael yn gyfartal i blant a phobl ifanc o bob rhyw a bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.	Effaith Gadarnhaol
Oedran	Mae'r Strategaeth wedi'i llunio'n benodol i hyrwyddo hawliau, llais a chyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae'n cryfhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u gwasanaethau.	Effaith Gadarnhaol

Crefydd a Chred	Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo cyfranogiad cynhwysol ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i gyfrannu waeth beth fo'i gred neu gefndir crefyddol. Mae gan ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiâu Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Mae gan bob ysgol eu polisiâu gwrth-fwlio er mwyn diogelu plant sydd â nodweddion cydraddoldeb penodol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn "...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."	Effaith Gadarnhaol
Cyfeiriadedd Rhywiol	Bydd y Strategaeth yn cefnogi dull cyfranogol cynhwysol sy'n galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael ei glywed a chyfrannu mewn ffordd ddiogel a pharchus. Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i	Effaith Gadarnhaol

	ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau.	
Ail-bennu rhywedd	Bydd y Strategaeth yn cefnogi dull cyfranogol cynhwysol sy'n galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael ei glywed a chyfrannu mewn ffordd ddiogel a pharchus. Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion Gwynedd fod yr ysgolion yn "...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."	Effaith Gadarnhaol
Priodas a Phartneriaeth Sifil		Cynamserol i adnabod unrhyw effaith
Beichiogrwydd a Mamolaeth		Cynamserol i adnabod unrhyw effaith
Iaith Gymraeg	Mae'r Strategaeth yn cefnogi gweledigaeth Cyngor Gwynedd o hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith naturiol gwasanaethau ac ymgysylltu. Bydd cyfleoedd cyfranogiad, adborth a chyfathrebu ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau hawl plant a phobl ifanc i gyfrannu yn eu	Effaith Gadarnhaol

	dewis iaith. Bydd fersiwn hygyrch o'r Strategaeth ar gael i blant a phobl ifanc.	
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau bod llais pob plentyn yn cael ei glywed, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth neu sy'n wynebu rhwystrau economaidd a chymdeithasol. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i ddeall effaith anghydraddoldebau ar blant a phobl ifanc ac i ymateb yn fwy effeithiol wrth ddatblygu gwasanaethau.	Effaith Gadarnhaol
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghys a'u Teuluoedd	Ein gweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg deg sydd yn cyfarch anghenion ein holl ddysgwyr ac sydd yn sicrhau bod pob un dysgwr yn cyrraedd ei lawn botensial.	Effaith Gadarnhaol
Hawliau Dynol	Mae'r Strategaeth wedi'i gwreiddio yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'n hyrwyddo hawliau plant fel egwyddor ganolog wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Strategaeth yn cryfhau gallu plant a phobl ifanc i gael eu clywed a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.	Effaith Gadarnhaol

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Nid oes unrhyw fylchau a fyddai'n atal mabwysiadu'r Strategaeth. Bydd gweithrediad y Strategaeth yn cynnwys datblygu trefniadau monitro a gwerthuso pellach er mwyn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ynghylch effaith y Strategaeth ar brofiadau plant a phobl ifanc a'u dylanwad ar benderfyniadau'r Cyngor. Bydd y wybodaeth hon yn llywio adolygiadau a gwelliannau yn y dyfodol.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol gronnus. Yn hytrach, disgwylir i'r Strategaeth ategu a chryfhau polisiâu a strategaethau eraill y Cyngor sy'n ymwneud â hawliau plant, cyfranogiad, llesiant, diogelu, Addysg a Gwasanaethau Plant. Bydd y Strategaeth yn cyfrannu at gryfhau'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli ar draws y Cyngor, gan sicrhau dull mwy cyson a chydlynol o wrando ar blant a phobl ifanc a defnyddio eu safbwyntiau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i gael ei glywed a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r Strategaeth yn cynnwys egwyddorion penodol sy'n ymwneud â chyfranogiad ystyrllon, cynhwysiant a dim gwahaniaethu, ac yn pwysleisio'r angen i wneud ymdrechion ychwanegol i gyrraedd plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth neu sydd yn wynebu rhwystrau i gyfranogiad. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb, lleihau rhwystrau a sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn adlewyrchu profiadau ystod eang o blant a phobl ifanc.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Mae'r Strategaeth yn cydnabod nad yw pob plentyn a pherson ifanc yn profi cyfleoedd cyfranogiad yn gyfartal a bod rhai grwpiau mewn mwy o berygl o gael eu tan-gynrychioli. Mae'r Strategaeth yn ymrwymo'r Cyngor i fabwysiadu dulliau cynhwysol a hygyrch sy'n galluogi plant a phobl ifanc o bob cefndir i gyfrannu at benderfyniadau. Trwy sicrhau bod safbwyntiau plant sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol yn cael eu clywed a'u defnyddio wrth gynllunio gwasanaethau, bydd y Strategaeth yn cynorthwyo'r Cyngor i ddeall ac ymateb yn well i anghydraddoldebau a rhwystrau sy'n effeithio ar eu bywydau.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae'r Strategaeth yn cefnogi nod Cyngor Gwynedd o hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith naturiol gwaith a gwasanaethau'r Cyngor. Bydd trefniadau cyfranogiad, ymgynghori ac adborth yn cael eu cynnal mewn modd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis. Bydd cyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg wrth drafod materion sy'n effeithio arnynt, gan gryfhau defnydd naturiol o'r iaith fel rhan o fywyd cymunedol a democrataidd y sir.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Nodau Llesiant:

Cymru lewyrchus - Bydd y Strategaeth yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau a pholisïau yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau plant a phobl ifanc, gan gyfrannu at ddatblygiad hirdymor unigolion a chymunedau.

Cymru gydnerth - Bydd gwranddo ar blant a phobl ifanc yn gwella gallu'r Cyngor i ddeall a chynllunio ar gyfer anghenion cymunedau yn y tymor hir.

Cymru iachach - Mae'r Strategaeth yn cryfhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfrannu at drafodaethau ynghylch eu llesiant, eu diogelwch a'r gwasanaethau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

Cymru sy'n fwy cyfartal - Mae'r Strategaeth yn rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant, tegwch a sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gael ei glywed.

Cymru o gymunedau gydlynus - Bydd y Strategaeth yn hyrwyddo cyfranogiad gweithredol mewn ysgolion, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus, gan gryfhau ymdeimlad o berthyn ac ymgysylltiad dinesig.

Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Bydd y Strategaeth yn cefnogi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg wrth gymryd rhan mewn prosesau cyfranogiad a gwneud penderfyniadau.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i hawliau plant a safonau rhyngwladol a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

5 ffordd o weithio:

Hirdymor - Mae'r Strategaeth yn sefydlu trefniadau cynaliadwy ar gyfer gwreiddio llais plant ym mhrosesau'r Cyngor.

Atal - Bydd deall profiadau plant a phobl ifanc yn gynharach yn galluogi'r Cyngor i nodi problemau a gweithredu'n rhagweithiol.

Integreiddio - Mae'r Strategaeth yn integreiddio hawliau plant a chyfranogiad ar draws gwahanol wasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor.

Cydweithio - Datblygwyd y Strategaeth gyda chyfraniad plant a phobl ifanc ac mae'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau, ysgolion, cymunedau a phobl ifanc.

Cynnwys - Mae cynnwys plant a phobl ifanc wrth wraidd y Strategaeth a'i threfniadau gweithredu.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na fydd.

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

Nid yw gweithredu'r Strategaeth yn dibynnu ar unrhyw drefniadau caffael penodol ar hyn o bryd. Os bydd unrhyw weithgarwch caffael yn codi yn y dyfodol mewn perthynas â gweithredu'r Strategaeth, bydd gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, Hawliau Dynol, Safonau'r Gymraeg a'r

Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn cael eu hystyried fel rhan o brosesau caffael perthnasol y Cyngor. Bydd disgwyl i unrhyw ddarparwyr weithredu mewn modd sy'n cefnogi egwyddorion cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau plant sydd wedi eu cynnwys yn y Strategaeth.

Partneriaeth:

Bydd gweithrediad y Strategaeth yn cael ei gyflawni drwy gydweithio gyda gwasanaethau'r Cyngor, ysgolion, cyrff llywodraethu, Fforwm Ieuenctid Gwynedd, y Cabinet Pobl Ifanc a phartneriaid perthnasol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Bydd disgwyl i'r partneriaid hyn weithredu mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion y Strategaeth, gan hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau plant, cyfranogiad cynhwysol a defnydd o'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol. Bydd trefniadau ymgysylltu a chyfranogiad yn ceisio sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth, yn cael cyfle cyfartal i gael eu clywed a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol: Disgwylir i'r Strategaeth gael effaith gadarnhaol sylweddol ar blant a phobl ifanc drwy gryfhau eu hawliau i gael eu clywed, gwella eu cyfranogiad mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn ymateb yn well i'w hanghenion a'u profiadau. Bydd y Strategaeth hefyd yn cryfhau cynhwysiant, atebolrwydd a thryloywder ar draws y Cyngor.

Effaith Negyddol Sylweddol: Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol sylweddol.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol fwriadol sy'n deillio o Strategaeth Llais y Plentyn.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol sy'n deillio o'r Strategaeth a fyddai'n cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Nid oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi'u nodi ar hyn o bryd y credir eu bod yn angenrheidiol i gryfhau'r Strategaeth ymhellach mewn perthynas â Dyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Strategaeth eisoes yn cynnwys egwyddorion cadarn sy'n hyrwyddo cyfranogiad ystyrlon, cynhwysiant, tegwch a dim gwahaniaethu, ynghyd ag ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth, yn cael cyfle cyfartal i gael eu clywed a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Nid oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi'u nodi ar hyn o bryd y credir eu bod yn angenrheidiol i gryfhau'r Strategaeth ymhellach. Mae'r Strategaeth eisoes yn cynnwys egwyddorion clir sy'n hyrwyddo cyfranogiad ystyrlon, cynhwysiant, tegwch a dim gwahaniaethu, ynghyd ag ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth, yn cael cyfle cyfartal i gael eu clywed a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Nid oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi'u nodi ar hyn o bryd y credir eu bod yn angenrheidiol i gryfhau'r Strategaeth ymhellach mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r Strategaeth eisoes yn cefnogi egwyddorion Safonau'r Gymraeg drwy sicrhau bod trefniadau cyfranogiad, ymgysylltu ac adborth yn galluogi plant a phobl ifanc i gyfrannu a mynegi eu barn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl eu dewis. Mae'r Strategaeth hefyd yn ymrwymo i ddarparu gwybodaeth ac adborth mewn ffyrdd hygrych, gan gynnwys cynhyrchu fersiwn hygrych i blant a phobl ifanc.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol.

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses o asesu effaith yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r asesiad effaith wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiâu/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol
Datblygu Cynllun Gweithredu corfforaethol ar gyfer gweithredu'r Strategaeth	O fewn 6 mis i'w mabwysiadu	Pennaeth Addysg
Sefydlu trefniadau monitro ac adrodd corfforaethol	Blynyddol	Pennaeth Addysg
Casglu adborth gan blant a phobl ifanc ynghylch effaith y Strategaeth	Blynyddol	Pennaeth Addysg
Adrodd ar gynnydd a gweithrediad y Strategaeth drwy drefniadau llywodraethu perthnasol	Blynyddol	Pennaeth Addysg

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol
Monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu	Chwarterol	Pennaeth Addysg
Adroddiad cynnydd ar weithrediad y Strategaeth	Blynnyddol	
Gwerthuso tystiolaeth o effaith cyfranogiad plant a phobl ifanc	Blynnyddol	
Adolygiad o'r Strategaeth	Bob 5 mlynedd	

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Adroddiad Blynyddol 2025-26, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Llio Owen, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol
Swyddog perthnasol:	Gwenno M Griffith, Swyddog Cydraddoldeb
Dyddiad y cyfarfod:	13 Hydref 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

Gofynnir i'r Cabinet nodi cynnwys a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2025-26, Cynllun Cydraddoldeb 2024-28.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Mae adrodd cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn flynyddol yn ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru. Mae hefyd yn ymarfer da o fewn y Cyngor i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r cynnydd.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir/Cyflwyniad

Bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud i Gynllun Gweithredu'r 5 Amcan Cydraddoldeb y gweithiwyd tuag atynt yn ystod 2025-26 fel sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2024-28. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnydd yna.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Pwrpas y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'n dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Prosiect Sicrhau Tegwch i Bawb (sef y Cynllun Cydraddoldeb) wedi ei adnabod fel un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor gan y Cabinet. Mae'n diwallu'r angen yn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau "Cymru mwy Cyfartal", ac yn cyd-fynd â'r 5 ffordd gynaliadwy o weithio trwy edrych i'r dyfodol, atal gwahaniaethu, cynnwys ein staff a'r cyhoedd, hybu tegwch a gweithio ar y cyd ar draws y Cyngor a gyda'r cyhoedd.

Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb 2024-28 ac mae'n adrodd yn erbyn y 5 amcan a nodir ynddo. Gellir nodi fod y rhan helaethaf o'r gwaith oedd wedi ei glustnodi ar gyfer y flwyddyn gyntaf wedi ei gyflawni.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys manylion ychwanegol yn unol â chanllawiau Deddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru, gan gynnwys adroddiad ar nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu.

Roedd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol wedi ei baratoi ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac ni adnabuwyd unrhyw reswm i'w newid yn ystod y flwyddyn.

3.3 Camau nesaf

Bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen y flwyddyn nesaf er mwyn cwblhau'r pwyntiau gweithredu a nodwyd.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb yn creu ymrwymïadau gwario ychwanegol. Rwyf yn cefnogi'r adroddiad, ac nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol

4.2 Swyddog Monitro

Rwy'n croesadwy'r Adroddiad Blynyddol ar berfformiad yn erbyn dyletswydd sydd yn berthnasol i holl weithgareddau'r Cyngor

Rhestr Atodiadau

Adroddiad Blynyddol 2025-26, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28
Gwybodaeth Cyflogaeth 2025-26

Rhestr Dogfennau Cefndir

[Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28](#)

Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2025/26

Rhagair

Dwi'n falch iawn o gael cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2025-26 ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-2028, sef yr ail adroddiad o'r Cynllun hwn.

Yn ystod y flwyddyn hon, dwi'n falch o ddweud fod llawer o'r gwaith hirdymor wedi gallu parhau, gyda fframwaith clir i'w ddilyn drwy weddill cyfnod y Cynllun.

Mae yn bleser gen i ddweud fod Fforwm Cydraddoldeb ar gyfer Staff y Cyngor yn parhau i ddatblygu gan gyfarfod yn rheolaidd ac adnabod materion pwysig o fewn y gweithle. Mae gwaith hefyd wedi symud ymlaen gyda creu dashfwrdd data cydraddoldeb sydd yn borth ar gyfer y holl ddata cydraddoldeb sydd gennym, i allu rhannu gyda staff.

Yn ogystal, mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cydraddoldeb wedi symud ymlaen hefo cynllun gweithredu clir a theitlau ychwanegol am feysydd penodol.

Rydwi hefyd yn falch o ddweud ers i'r templed asesiad effaith cydraddoldeb newydd fod mewn lle, mae'r swyddogion Cydraddoldeb wedi cychwyn ar y gwaith o hyrwyddo a codi ymwybyddiaeth.

Yn ychwanegol i'r amcanion yma, maer' Cynllun hefyd yn edrych ar wasanaethau gwahanol, gan gynnwys amgueddfeydd. Mae'n dda gen i allu dweud fod yna lawer o waith wedi ei wneud gan y gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn drwy ddefnyddio dulliau amgen i sicrhau profiad gwell i gyhoedd Gwynedd.

Rwyf yn edrych ymlaen nawr i weld y cynnydd yn parhau dros weddill y cyfnod Cynllun Cydraddoldeb Strategol, hyd at 2028.

Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-28, er mwyn parhau gyda'r gwaith o sicrhau tegwch i bawb. Mae hyn yn bodloni dyletswyddau'r sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf wedi ei chynllunio i leihau anghydraddoldeb rhwng grwpiau penodol drwy ofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Cynllun yn edrych ar degwch o ran 9 o nodweddion gwarchodedig sef:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil
(Deddf Cydraddoldeb 2010)

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn cynnwys y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol ers 2021. Y disgwyl yw i gyrff cyhoeddus ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

Mae'r Cynllun yma yn disgrifio'r gwaith fydd o flaenoriaeth i'r Cyngor ym maes cydraddoldeb am y pedair blynedd dan sylw (2024-28), sydd wedi i'w rhannu i bum amcan sef:

- Amcan 1: **Cyflogaeth - Gweithredu i wella cydraddoldeb y gweithle**
- Amcan 2: **Gwybodaeth - Gwellu ein data am bobl â nodweddion cydraddoldeb**
- Amcan 3: **Systemau - Sicrhau fod y Cyngor yn fudiad wrth-wahaniaethol trwy wella ein trefniadau mewnol**
- Amcan 4: **Gwasanaethau - Sicrhau cydraddoldeb o fewn ein gwaith bob dydd**
- Amcan 5: **Ysgolion - Gwellu cydraddoldeb o fewn maes addysg**

Mae un o'r amcanion yna, sef Amcan 1, ar gyflogaeth ac yn cynnwys pwyntiau gweithredu ar y bwlch tâl, fel mae'r ddyletswydd benodol yn gofyn i ni ei wneud.

Mae'r ddyletswydd benodol hefyd yn gofyn i ni gael amcanion ar bob nodwedd warchodedig. Ein penderfyniad ni yw gwneud amcanion thematig, ac mae pob amcan yn gweithio tuag at gydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn atal dyblygu ac yn ei gwneud yn haws i adnabod ffactorau sy'n dod o groesdoriadaeth (sef y rhwystrau ychwanegol mae pobl hefo mwy nag un nodwedd benodol yn ei wynebu).

Yn yr adroddiad yma rydym yn amlinellu, fesul amcan, beth yw'r pwyntiau gweithredu rydym wedi ymrwymo iddynt yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf, a be ydi'r gwahaniaeth ryda ni'n bwriadu ei wneud erbyn diwedd holl gyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028.

Amcan 1: Cyflogaeth: Gweithredu i wella cydraddoldeb y gweithle

Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn:

1.1 Sefydlu fforwm / fforymau staff sydd er mwyn trafod materion cydraddoldeb, fel bod ein gweithwyr yn gallu cyfrannu i'r maes cydraddoldeb o fewn y Cyngor.

1.3 Gosod y nod o weithio tuag at fod yn gyflogwr blaenllaw yn y maes hwn, gan gynnwys rhoi sylw i'r materion canlynol:

- Peidio rhoi gofynion sydd ddim yn angenrheidiol yn ein swydd ddisgrifiadau wrth hysbysebu swyddi er mwyn rhoi cyfle i gymaint o bobl â phosib i ymgeisio.
- Sut a ble rydym yn hysbysebu swyddi.
- Ein delwedd fel cyflogwr yn ein cymunedau – bod yn rhagweithiol wrth geisio denu pobl o bob rhan o gymdeithas i weithio i Gyngor Gwynedd.

1.4 Parhau i gymryd camau i ddatblygu ymwybyddiaeth rheolwyr a staff o'r maes hwn yn llawn, gan gynnwys cydraddoldeb, cynhwysiant, niwroamrywiaeth, aflonyddu rhywiol, parch ac urddas yn y gweithle

1.6 Cynnal archwiliad bwlch tâl yn flynyddol, gan ystyried pa gamau i'w cymryd i geisio cau'r bwlch. Cyrraedd sefyllfa lle rydym yn gallu cynnal archwiliad bwlch tâl ar sail anabledd a hil hefyd.

Beth rydym ni wedi ei wneud

Mae amcan 1 yn ymwneud gyda gwella cydraddoldeb o fewn y gweithle er budd staff ac ymgeiswyr swyddi, trwy sicrhau fod y Cyngor yn gyflogwr cyfle cyfartal. Un o'n prif flaenoriaethau ar gyfer blwyddyn gyntaf y Cynllun oedd dod i ddeall persbectif staff a derbyn eu hadborth mewn perthynas â materion cydraddoldeb, drwy sefydlu Fforwm Cydraddoldeb Staff. Erbyn hyn mae sawl cyfarfod wedi eu cynnal ac mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheoliad bob chwarter i drafod materion yn ymwneud â'r gweithle. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i sicrhau cefnogaeth i'r grŵp a chael mynychwyr ac eitemau i'w trafod mewn lle, a datblygu'r grŵp. Yn dilyn sefydlu'r grŵp hon, mae datblygiadau pellach wedi eu gwneud yn y maes gyda fforwm staff arall, sef y fforwm ethnig lleiafrifol, bellach wedi'i sefydlu'n ffurfiol. Mae'n darparu platform strwythuredig i gynrychioli profiadau a lleisiau cymunedau ethnig lleiafrifol dros Wynedd, Môn a Conwy. Bydd sgysiau pellach yn cael eu cynnal yn

ystod y flwyddyn weithredol nesaf am ddatblygiad parhaus y Fforwm Staff Cydraddoldeb, gyda swyddogion yn ei ail hysbysebu, ac yn chynnal sgysiau ynglŷn unrhyw fforwm staff arall fel mae angen.

Mae llawer o'r gwaith ynglŷn â bod yn gyflogwr blaenllaw yn disgyn o fewn sgôp rhaglen waith prosiect Cynllunio'r Gweithle'r Cyngor, sydd yn edrych ar holl elfennau'r broses o recriwtio a phenodi staff. Mae'r garreg filltir ynghlwm â'r prosiect hwn wedi llithro i'r flwyddyn 2026-27 oherwydd heriau capasiti, ond gyda gwaith wedi digwydd i lunio cynllun strategol drafft fydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer symud ymlaen a fydd yn cael ei arwain gan grŵp trawsadrannol o swyddogion. Ymhellach i hynny mae'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol wedi bod yn cydweithio gyda rhai gwasanaethau dros y flwyddyn er mwyn adnabod swyddi allweddol a dadansoddi proffil gweithlu'r timau ac adnabod y risgiau posib i lefelau staffio a anghenion sgiliau. Mae rhain yn bwydo mewn i gynlluniau gweithredu i'r gwasanaethau hynny ac bydd angen ffurfioli trefniadau wrth symud ymlaen gan unioni ac ehangu trefniadau ar draws y Cyngor.

Ymhellach i'r gwaith ynghlwm a fod yn gyflogwr blaenllaw, rydyn yn parhau i gymryd camau i ddatblygu ymwybyddiaeth rheolwyr a staff o'r maes hwn yn llawn, gan gynnwys cydraddoldeb, cynhwysiant ac yn y blaen. Fel rhan o hyn mae Polisi Canu'r Gloch diwygiedig wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor eleni sydd hefyd yn cynnwys aflonyddu rhywiol fel sail y gellir ei adrodd drwy ganu'r gloch. Mae hyn yn sicrhau y gallu i rhannu pryder difrifol am gamymarfer mewn ffordd diogel a cyfrinachol a hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd. Mae hefyd yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i unigolion yn unol a'r Ddeddf Hawliadau Cyflogaeth (2025)

Mae hefyd yn ddyletswydd benodol i'r Cyngor i gyhoeddi ystadegau nodweddion ein staff yn flynyddol, gan gynnwys y bwlch tâl rhwng y rhywiau, gan gynnal archwiliad ac ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i gau'r bwlch. Rydym wedi sefydlu trefniadau a systemau sydd yn ein galluogi i gynnal archwiliad yn amserol bob blwyddyn, ar sail rhyw yn y lle cyntaf. Mae'r Uned Gyflogau yn gweithio ar y data craidd er mwyn adrodd ffigwr bwlch tâl ar sail rhyw ar gyfer Mawrth 2026. Mae'r Cyngor yn edrych ar allu cryfhau'r data wrth symud i system gyflogau ac adnoddau dynol newydd dros y flwyddyn nesaf.

Nid oes archwiliad tal wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2025-26) a bydd yn llithro i'r flwyddyn weithredol nesaf. Bydd y Cyngor yn edrych i gomisiynu ymgynghorydd annibynnol yn i ymgymryd â'r gwaith.

Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y Ddeddf ?

Rydym yn edrych ar ein cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd, yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad, i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae'n ymateb yr ofynion penodol.

Mae parhau i ddatblygu'r fforwm cydraddoldeb ar gyfer staff yn elfen bwysig i ymateb i'r angen i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini sydd heb nodwedd o'r un fath, gan eu hannog i gymryd rhan ym mywyd cyhoeddus y gweithle. Mae dod a phobl sydd yn rhannu nodweddion amrywiol at ei gilydd yn creu ac yn cryfhau eu cysylltiadau ac yn rhoi'r cyfle cyfartal i adrodd yn ôl at y Cyngor ar faterion cydraddoldeb a meithrin perthynas dda.

Drwy edrych ar gynllunio ein gweithle ar gyfer y dyfodol, rydym yn ystyried sawl elfen o fewn y maes cyflogaeth. Fel enghraifft mae'r prosiect yn edrych ar adolygu gofynion swyddi, bod yn rhagweithiol yn denu amrywiaeth i'r gweithle, deall y rhwystrau mae ymgeiswyr yn wynebu ac ar ein prosesau recriwtio yn gyffredinol. Trwy lunio cynllun strategol drafft fydd yn gosod cyfeiriad gweithredol hirdymor, bydd y gwaith yn ei gyfanrwydd yn ymateb gofynion y tri nod uchod i sicrhau tegwch ar gyfer staff ac ymgeiswyr. Bydd hefyd yn cyfarch ystyriaeth amddifadedd economaidd-gymdeithasol trwy ceisio cefnogi pobl i'r gwaith ac yn y gwaith.

Mae cynnal archwiliad bwlch tâl, gan ystyried pa gamau i'w cymryd i geisio cau'r bwlch hefyd yn ymateb y gofynion drwy adael i ni edrych ar unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol systematig ac sicrhau fod sut mae lleihau'r bwlch yn drafodaeth barhaus. Mae'r adolygiad hwn yn gweithio tuag at yr amcan o hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig berthnasol, sef rhyw, ac yn arbennig yn ystyried lleihau'r bwlch anfantais economaidd gymdeithasol. Trwy fonitro'r bwlch tal mae'n sicrhau ein bod ni yn gallu adnabod a cheisio ymateb i unrhyw anfantais economaidd gymdeithasol.

Be ydi'r gwahaniaeth rydym ni'n disgwyl ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028?

Rydym wedi dechrau sefydlu camau lle y gall staff gymryd rhan a chynnig syniadau ar sut y gall Cyngor Gwynedd fel cyflogwr wella pethau ar gyfer pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb. Rydym hefyd yn sicrhau eu bod yn deall anghenion eraill drwy roi hyfforddiant ar nodweddion penodol. Rydym yn cymryd camau ymarferol i ddatblygu ein delwedd fel cyflogwr i bobl sydd â nodweddion cydraddoldeb, ac yn anelu, yn y tymor hir, i fod yn flaenllaw yn y maes. Byddwn hefyd yn sicrhau fod gan ein rheolwyr a staff fynediad at wybodaeth i'w cynorthwyo wrth ymdrin â materion cyflogaeth sydd yn gysylltiedig â'r maes.

Amcan 2: Gwybodaeth - Gwella ein data am bobl â nodweddion cydraddoldeb

Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn:

2.1 Diweddarau ein trefn ymgysylltu er mwyn osgoi dyblygu, drwy greu ffordd well o weithio a rhannu canlyniadau. Hefyd cryfhau amrywiaeth o fewn y Panel Trigolion

2.2 Creu trefn haws a mwy hygyrch o gadw ein data cydraddoldeb. Y bwriad yw ei wneud yn haws i'w ddefnyddio wrth newid polisïau a chreu cynlluniau.

2.3 Gwella a diweddarau'r data sydd gennym ar Wynedd yn y ddogfen Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru, gan lenwi unrhyw fylchau os yw hynny yn bosib.

2.4 Adnabod unrhyw fylchau yn yr wybodaeth rydym ni yn ei gasglu am ddefnyddwyr gwasanaethau gofal ac yna gweithio i'w llenwi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn casglu data mor gyflawn â phosib

Beth rydym ni wedi ei wneud

Mae Amcan 2 yn edrych yn benodol ar ddata a sut fedrwn fel Cyngor wella ein data am bobl â nodweddion cydraddoldeb. Erbyn hyn mae Swyddog Ymgysylltu wedi'i benodi ar ôl cyfnod o'r swydd yn wag, ac felly mae gwaith wedi gallu symud ymlaen o fewn yr amcan hwn. Mae gwaith wedi'i wneud i trefnu cael Grŵp Ymgysylltu trawsadrannol er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac i allu rhannu canlyniadau ac ymarferion da, wedi symud ymlaen. Ond, yn anffodus, ar ôl cyfnod o dreialu, sylweddolwyd nad yw'r Grŵp wedi cyflawni ei bwrpas. Felly penderfynwyd dirwyn y Grŵp i ben. Mae hynny'n caniatáu cychwyn trefniadau newydd sef mynychu cyfarfod Blaenraglen sydd yn adnabod ymgynghoriadau ar adroddiadau sy'n mynd i bwyllgor. Bydd y Swyddog Ymgysylltu yn sefydlu rhwydwaith o staff ar draws gwasanaethau'r Cyngor er mwyn cyfarfod yn rheolaidd â hwy i drafod gwaith ymgysylltu posib. Mae cynllunio ar gyfer hyn wedi cychwyn gyda'r Swyddog Ymgysylltu yn gwneud ymholiadau a threfniadau, a bydd yn trafod hyn ar lefel ymgynghoriadau unigol gyda swyddogion perthnasol wrth symud ymlaen.

Er mwyn cryfhau amrywiaeth o fewn y Panel Trigolion mae'r dadansoddiad presennol o aelodaeth y Panel wedi'i ddiweddarau, gyda'r bwriad o ddeall beth sydd angen ei wella. Cwblhawyd y gwaith o wirio aelodaeth y Panel yn ystod 2025 ond yn hytrach na chynyddu aelodaeth y Panel, mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i sefydlu 'panel' ar wahân drwy'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb y Cyngor, er mwyn gallu ymgysylltu â hwy ynghylch ymgynghoriadau.

Cychwynnwyd y gwaith o ddatblygu dashfwrdd data ar gyfer gwella a diweddarau'r data sydd gennym ar Wynedd, gan greu trefn haws a mwy hygyrch o gadw ein data cydraddoldeb, mae gwaith wedi cychwyn ar ddatblygu dashfwrdd data. Mae hyn yn cynnwys creu porth ar gyfer y holl ddata cydraddoldeb sydd gennym gan gychwyn ar ddefnyddio wybodaeth 'r cyfrifiad diwethaf ac adroddiadau gwybodaeth cydraddoldeb sydd eisoes ar gael

Mae dashfwrdd craidd wedi'i greu yn barod ond nid yw eto'n fyw, a bydd gwaith datblygu yn parhau yn y tymor hir, trwy gyfnod y Cynllun Strategol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i lywio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gwaith arall, gan sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i sicrhau bod ein polisiau a'n gweithdrefnau yn deg i bawb a gweld ble sydd angen gwella.

Mae'r pwynt gweithredu nesaf yn edrych yn benodol ar y maes gofal, gan gynnwys adnabod unrhyw fylchau yn yr wybodaeth rydym ni'n ei gasglu am ddefnyddwyr gwasanaethau gofal a'r gwaith i'w llenwi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn casglu data mor gyflawn â phosib a sicrhau bod gennym system gofnodi addas i allu adnabod nodweddion cydraddoldeb er mwyn sicrhau fod ein gwasanaethau yn hygyrch ac yn wrth-wahaniaethol. Mae tendr wedi'i wobrwyo ar gyfer system newydd i gadw data defnyddwyr gwasanaeth gyda chynllun gweithredu yn mynd rhagddo ar gyfer cynllunio'r system a mudo drosodd o'r system bresennol. Mae'r system newydd yn y broses o gael ei datblygu i ddisodli'r system bresennol erbyn y flwyddyn weithredol nesaf. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi cynnal trafodaethau gyda'n gweithwyr cymdeithasol er mwyn adnabod rhwystrau wrth ofyn a derbyn gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig derbynwyr gwasanaeth. Mae trafodaethau wedi bod am hyn fel rhan o waith i edrych ar ffurflenni, ond mae'r angen sgysiau pellach ar lefel gwasanaeth cyfan er mwyn gallu penderfynu beth yw'r modd mwyaf addas o ddarganfod yr wybodaeth yma. Mae trafodaethau hefyd wedi eu cynnal yn ehangach ar draws gwasanaethau Gofal i ddeall y ffordd orau i gofnodi'r wybodaeth, gyda'r bwriad o ailedrych ar ffurflenni yn eu cyfanrwydd wrth ddatblygu'r system gofal cymdeithasol newydd. Erbyn hyn mae'r penderfyniad wedi ei wneud i aros am arweiniad pellach arbenigol ac felly bydd y gwaith yn parhau

yn y flwyddyn weithredol nesaf, i gyd-fynd gyda chyflwyno system newydd ac addasu ffurflenni adolygu achosion fydd yn cynnwys cwestiynau am nodweddion cydraddoldeb.

Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf?

Rydym yn edrych ar ein cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae'n ymateb yr ofynion penodol.

Wrth ymateb i ofynion y ddeddf, mae'r amcan hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol drwy ganolbwyntio ar wella ansawdd, hygyrchedd a chysondeb data cydraddoldeb ar draws y Cyngor, gan ein galluogi i asesu cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd gymdeithasol, drwy ddarganfod y rhwystrau sydd yn bodoli a lle sydd angen sylw. Yn ogystal, mae'r gwaith o ddiweddarau dadansoddiad aelodaeth y Panel Trigolion ac ystyried sefydlu cyswllt ymhellach gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn cyfrannu at hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a meithrin perthnasau da, drwy sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu cynrychioli mewn ymgynghoriadau. Mae'r ffocws ar gryfhau amrywiaeth ac ar sicrhau dulliau ymgysylltu mwy cynhwysol yn adlewyrchu ymrwymiad i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn cynrychiolaeth neu gyfranogiad sydd yn ymateb bob elfen y ddyletswydd.

Mae datblygu dashfwrdd data cydraddoldeb yn gam allweddol sy'n ateb gofynion y dyletswyddau penodol drwy wella'r modd y caiff gwybodaeth berthnasol ei chasglu, ei threfnu, a'i defnyddio. Trwy greu porth canolog ar gyfer dal data, mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i nodi tueddiadau, asesu effaith polisiâu a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y dashfwrdd yn cefnogi Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ac yn galluogi'r Cyngor i adnabod unrhyw feysydd lle gallai unigolion â nodweddion gwarchodedig brofi anfantais neu wahaniaethu, gan gynnwys unrhyw gysylltiadau ag anfantais economaidd gymdeithasol, gan fydd hyn yn rhywbeth fydd yn cael i ychwanegu i'r dashfwrdd. Bydd modd edrych ar y cyswllt rhwng y nodweddion cydraddoldeb ac anfantais economaidd gymdeithasol yn ddyfnach.

Mae'r gwaith yn y maes gofal yn dangos ymrwymiad pellach i sicrhau bod data am ddefnyddwyr gwasanaethau yn gyflawn ac yn gywir, gan alluogi'r Cyngor i sicrhau hygyrchedd a thegwch yn y ddarpariaeth. Bydd hyn yn cyfannu at atal gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon yn yr hir dymor. Mae'r broses o ddatblygu system gofal cymdeithasol newydd, ynghyd â thrafodaethau gyda gweithwyr cymdeithasol i ddeall rhwystrau wrth gasglu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig, yn cyfrannu at wella ansawdd data a sicrhau bod gwasanaethau'n wrth-wahaniaethol.

Be ydi'r gwahaniaeth rydym ni'n disgwyl ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028?

Rydym ni'n bwriadu gwella'r data sydd gennym er mwyn ei ddefnyddio wrth greu neu newid polisi neu ffordd o weithio, a rhoi gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd gennym ni fewnbnw addas gan bobl â nodweddion cydraddoldeb, heb eu llethu drwy eu holi'n aml. Mae'n bwysig bod â throsolwg a dealltwriaeth glir o'r prif broblemau sy'n wynebu pobl â nodwedd warchodedig wahanol.

Amcan 3: Systemau: Sicrhau fod y Cyngor yn fudiad wrth-wahaniaethol trwy wella ein trefniadau mewnol

Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn:

3.1 Parhau gyda'r fframwaith hyfforddiant i roi'r adnoddau a'r hyder i'n staff ar bob lefel o fewn y Cyngor i barchu amrywiaeth a delio ag ystod o anghenion yn addas. Sicrhau fod y fframwaith hyfforddiant yn cael ei ymestyn i gynnwys amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb / pynciau eang.

3.2 Codi ymwybyddiaeth staff ar bob lefel yn y Cyngor o'r drefn Asesiad Effaith Cydraddoldeb newydd a rhoi cefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant i sicrhau safon y gwaith.

3.3 Gwneud ein gwefan yn fwy hygyrch drwy greu cynllun gweithredu a gweithredu arno. Bydd hyn yn cynnwys gweithio tuag at gael gwared ar y defnydd o ddogfennau PDF.

3.4 Parhau i weithio i leihau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Beth rydym ni wedi ei wneud

Mae amcan 3 yn edrych ar gydraddoldeb o fewn systemau mewnol y Cyngor a sut allwn ni barhau i fod yn fudiad wrth-wahaniaethol. Mae'r cam gweithredu cyntaf yn edrych ar systemau hyfforddiant mewnol ar gyfer ein staff. Mae dashfwrdd wedi ei greu, a bellach yn fyw, sy'n rhoi darlun byw i Benaethiaid Adran o'r nifer o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant mandadol, gan gynnwys yr hyfforddiant cydraddoldeb.

Mae canran unigolion sydd wedi cwblhau'r teitl Cydraddoldeb ers mis Mawrth 2025 wedi cynyddu o 35.5% i 62.8%. Mae hyn yn dilyn anogaeth i holl staff y Cyngor fod yn cwblhau teitlau hyfforddiant mandadol. Mae'r anogaeth yma yn parhau yn n sgil penodi swyddog newydd o fewn y gwasanaeth, ble y bydd yr Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol yn annog staff ar draws yr adrannau i fod yn cwblhau hyfforddiant mandadol a chefnogi staff gydag unrhyw rwysterau wrth wneud hynny.

Bydd gwaith yn parhau trwy gydol cyfnod y cynllun i sicrhau fod aelodau staff yn gwneud yr hyfforddiant.

Rydym ni hefyd yn adolygu cynnwys y rhaglen hyfforddiant yn rheolaidd i gynnwys cyrsiau ar amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb. Mae'r gwaith hwn yn barhaus er mwyn gweithio tuag at fod yn awdurdod arweiniol yn y maes yma. Yn ystod y flwyddyn weithredol hon, mae'r Cyngor wedi adnabod meysydd blaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru, sef gwrth hiliaeth, LHDTC+ ac anabledd, ac mae cynllun wedi ei baratoi i drefnu sesiynau yn y meysydd craidd yma.

Mae rheolwyr a staff yn parhau i gael y cynnig i fynychu'r hyfforddiant LGBTQ+, ac mae 9 sesiwn wedi yn ystod y flwyddyn weithredol dan sylw, sef 7 ar gyfer holl staff y Cyngor a 2 ar gyfer Aelodau Etholedig, gyda adborth cadarnhaol iawn ar sut mae'r sesiwn yn cynyddu hyder a ymwybyddiaeth staff. Mae'r sesiynau yma yn parhau ar gyfer y flwyddyn weithredol nesaf, gyda rhai dyddiadau wedi pennu yn barod.

Yn ystod y flwyddyn weithredol, roedd gwaith ar weddill y fframwaith hyfforddiant yn barhaus, gyda Swyddog Cydraddoldeb yn cyd weithio gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu i greu hysbysebion a briff i adnabod darparwyr ar gyfer hyfforddiant Anabledd a hyfforddiant Gwrth-hiliaeth. Erbyn hyn mae darparwr allanol wedi ei adnabod i redeg sesiwn peilot ar gyfer yr hyfforddiant Anabledd, gyda'r bwriad o gynnig cyfres o sesiynau ar gael i bob aelod o staff a rheolwyr os yn llwyddiannus. Pennwyd dau ddyddiad ar gyfer rhedeg y sesiwn peilot o fewn y flwyddyn weithredol ond yn anffodus, roedd angen ail drefnu'r ddau ddyddiad oherwydd amgylchiadau allan o reolaeth y Cyngor. Erbyn hyn mae dyddiad arall wedi ei bennu ar gyfer Mai 2026.

Aeth manyleb allan hefyd, drwy'r proses caffael, i gael hyfforddiant Gwrth- hiliaeth, ond yn anffodus nid oedd yr ymgeiswyr o'r safon ddisgwyliedig, felly roeddem yn methu symud ymlaen gyda'r hyfforddiant am gyfnod. Erbyn hyn rydym wedi penderfynu ail chwilio drwy gysylltiadau sydd gennym yn barod i allu adnabod darparwyr. Ond yn ystod mis Mawrth ychwanegwyd cwrs E-ddysgu Gwrth-hiliaeth gan Gofal Cymru ar ein mewnrwyd ar gyfer bob aelod o staff yn y cyfamser.

Yn ogystal, cynhaliwyd 2 sesiwn Rhagfarn Heb Wybod, sy'n bwysig i alluogi staff i adnabod ac osgoi rhagdybiaethau awtomatig sy'n gallu arwain at driniaeth anghyfartal. Unwaith eto roedd y rhain yn agored i bawb, gan gynnwys rheolwyr.

Nid oes hyfforddiant penodol ar gyfer rheolwyr wedi ei ddatblygu hyd yn hyn, ond fod pob cwrs hyfforddiant o fewn y fframwaith yn agored iddynt. Fodd bynnag, i gefnogi Rheolwyr ymhellach ar hyn, mae gwybodaeth ac adnoddau pellach ar gael iddynt ar y Hwb Arwain a Rheoli Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn parhau â'r sesiynau datblygol ar Ferched mewn Arweinyddiaeth hefo grŵp arall wedi cychwyn ym Medi 2025.

Mae'r ail bwynt gweithredu ar gyfer y flwyddyn hon yn benodol ar ein trefn asesu effaith cydraddoldeb sef creu trefn newydd, ei hyrwyddo a sicrhau cefnogaeth ar gyfer staff i gwblhau'r asesiadau'n effeithiol. Mae'r swyddogion cydraddoldeb wedi bod yn gweithio ar godi ymwybyddiaeth staff ar bob lefel yn y Cyngor o'r drefn Asesiad Effaith Cydraddoldeb newydd gan roi cefnogaeth a gwybodaeth i sicrhau safon y gwaith. Ymhellach i'r gefnogaeth sydd yn cael ei ddarparu yn barhaus ar lefel un i un, mae'r swyddogion cydraddoldeb wedi cychwyn ymweld ag adrannau i gyflwyno gwybodaeth i'r timau rheoli a rhai is-dimau, gyda mwy wedi trefnu ar gyfer y flwyddyn weithredol nesaf. Mae'r sesiwn yn rhoi gwybodaeth gefndirol ar gydraddoldeb, cyn canolbwyntio ar asesiadau effaith ac arddangos y drefn ddigidol newydd. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gallu gwneud newidiadau ar y system asesu effaith yn seiliedig ar adborth, pan fod angen, i sicrhau dealltwriaeth a chefnogaeth pellach.

Wrth barhau i edrych ar ein systemau mewnol, mae'r pwynt gweithredu nesaf yn edrych ar hygyrchedd a sut i wneud ein gwefan yn fwy hygyrch dros gyfnod y cynllun. Fel rhan o'r gwaith hwn, roedd Swyddog Hygyrchedd dros dro wedi'i benodi ar gytundeb 12 mis yn Ionawr 2025. Yn dilyn hyn mae'r gwaith wedi symud ymlaen ar ail-ddylunio tudalen gartref y wefan er mwyn cael gwared ar nifer o'r problemau hygyrchedd sydd wedi'u hadnabod ac i edrych yn fwy penodol ar hygyrchedd dogfennau PDFs. Mae hyn yn cynnwys sawl elfen sydd yn parhau i fod ar waith, fel cymeradwyo dyluniad ac edrych ar brofion defnyddwyr. Yn ystod y flwyddyn gweithredol nesaf bydd addasiadau'n dilyn profion defnyddwyr i adeiladu'r dudalen terfynol ac rhoi'r dudalen derfynol ar y wefan fyw. Y gobaith yw y bydd y gwaith yma wedi i gwblhau gyda'r wefan yn fyw erbyn y flwyddyn

weithredol nesaf. Fel ail rhan i'r pwynt gweithredu, mae cynnwys newydd wedi i greu ar y wefan i fod yn fwy hygyrch ac rydym wedi llwyddo i gael gwared ar tua 1,000 o ddogfennau PDF, drwy greu dogfennau o'r newydd neu eu dileu'n gyfan gwbl gan nad oeddent yn berthnasol bellach.

Gan edrych ar ein trefniadau mewnol, mae'r pwynt gweithredu olaf yn edrych ar ein cynllun Rhuban Gwyn sydd eisoes wedi bod yn rhan o gynlluniau strategol y cyngor ac wedi trosglwyddo o'r Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 er mwyn i ni barhau i weithio i leihau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r gwaith o flwyddyn diwethaf yn parau i annog staff i gwblhau hyfforddiant diogelu er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau diogelu. Mae'r hyfforddiant yma yn cael ei hysbysebu fel un sydd angen ei gwblhau fel rhan o waith hyrwyddo cyrsiau hyfforddi yn gyffredinol gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad. O fod wedi penodi Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol, mae'r gwaith yn mynd rhagddo i annog mwy o staff i fod yn cwblhau yr hyfforddiant Diogelu, gyda'r ffigwr wedi codi i 75.6%. Mae pedair adran wedi eu hadnabod sydd â ffigyrau is nag adrannau eraill ac mae adnabod y rhwystrau wrth gael staff rheng flaen i gwblhau hyfforddiant yn flaenoriaeth i'r Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol. Y cam cyntaf gyda hyn oedd creu fideo, sy'n rhoi'r un neges ac yn cael ei ddefnyddio fel dull hyfforddiant ychwanegol.

Fel rhan arall o'r gwaith o leihau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae swyddogion wedi ymchwilio i ddatblygu taflenni gwybodaeth diogelu a cham drin domestig mewn ieithoedd eraill, ac yn ymwybodol pa adnoddau ar gael, ond mae angen deall mwy'r angen ieithyddol yn lleol ac adnabod yr ieithoedd blaenoriaeth yn gyntaf, felly bydd y gwaith ymchwilio yn parhau i mewn i'r flwyddyn weithredol nesaf.

Mae'r cydweithio gyda partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn wedi parhau yn ystod 2025 a 2026, ac yn barhaol drwy gyfnod y cynllun. Fel y llynedd mae trais yn erbyn menywod yn flaenoriaeth o fewn cynllun blynyddol y bartneriaeth ac mae gwaith trawsadrannol dros y Cyngor yn hanfodol i hyn. Mae cydweithio wedi digwydd o ran maes hyfforddiant gyda swyddogion o Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn yn cyflwyno ar y cyd mewn hyfforddiant yn y maes Trais yn Erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer Aelodau Etholedig. Ynghyd a hynny mae cydweithio wedi digwydd ar gyfer Diwrnod Rhuban Gwyn, i godi ymwybyddiaeth a chymryd rhan yn yr ymgyrch. Yn y flwyddyn hon codwyd y faner ym mis Tachwedd gyda datganiad yn cael ei gyhoeddi a hyfforddiant Ymyrryd gan Wylwyr i staff y Cyngor wedi ei drefnu ar gyfer y diwrnod.

Ymhellach i'r hyn a nodwyd uchod bu i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn gynnal stondin yn Ysbyty Gwynedd. Rhannwyd negeseuon ymhlith aelodau staff y Cyngor a hefyd ymysg yr Aelodau Etholedig.

Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf ?

Rydym yn asesu'r cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae'n ymateb y gofynion penodol.

Mae Amcan 3 yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar wella systemau mewnol i sicrhau ei fod yn gweithredu fel sefydliad gwrth wahaniaethol.

Trwy barhau â fframwaith hyfforddiant cynhwysfawr sy'n cynnwys amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb gan gynnwys LHDTG+, anabled a gwrth-hiliaeth, mae'r cyngor yn rhoi'r adnoddau a'r hyder i staff ar bob lefel, i allu ymateb i amryw o anghenion. Mae hyn yn cryfhau'r ymdrech i atal gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon, ahyrwyddo cyfleoedd cyfartal, gan godi ymwybyddiaeth, a felly yn ymdrechu i feithrin cysylltiadau da.

Mae hyrwyddo'r broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb, yn enwedig i reolwyr a thimau rheoli, hefyd yn ateb y gofynion, gan sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gallu gwneud penderfyniadau cynhwysol, sydd yn edrych ar y tair elfen yma o'r ddeddf yn benodol ac ar anfantais economaidd gymdeithasol. Mae'r templed asesu effaith yn pwysleisio'r pwysigrwydd o ystyried unrhyw effaith anfantais economaidd yn ogystal ar nodweddion gwarchodedig ac felly yn diwallu'r angen i gydymffurfio ar ddyletswydd, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau strategol.

Yn ogystal, mae hyrwyddo ymgyrchoedd fel Diwrnod Rhuban Gwyn a pharhau i weithio i leihau Trais yn erbyn Menywod, yn meithrin perthnasau da, gan greu diwylliant rhagweithiol, sydd hefyd yn ceisio atgyfnerthu atal gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon ar sail rhyw.

Be ydi'r gwahaniaeth y byddwn ni'n ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028?

Ein bwriad yma yw sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn ystyried pob nodwedd cydraddoldeb a bod ein staff yn deall ac yn derbyn eu cyfrifoldebau yn y maes. Byddwn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o hawliau ac anghenion pobl ag amrywiol nodweddion drwy greu amrywiaeth o deitlau hyfforddiant. Yn ogystal, bod ystyriaeth o nodweddion cydraddoldeb yn cael y lle mae'n haeddu wrth greu a newid polisiâu a ffyrdd o weithio trwy ein trefn Asesu Effaith Cydraddoldeb. Byddwn yn sicrhau fod pobl yn derbyn yr wybodaeth maent ei angen drwy wneud ein gwefan yn haws i'w ddefnyddio. Bydd hyrwyddo'r cynllun Rhuban Gwyn hefyd yn rhoi cymorth i staff ddeall eu cyfrifoldeb yn y maes.

Amcan 4: Gwasanaethau: Sicrhau cydraddoldeb o fewn ein gwaith bob dydd

Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn:

4.1 Archwilio pa mor hygyrch ydi gwasanaethu'r Cyngor, wedyn creu cynllun gweithredu a gweithredu arno (system taliadau, cyd weithio gydag oed gyfeillgar)

4.2 Bydd Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn cefnogi cymunedau Gwynedd: Drwy ddarparu rhaglenni cynhwysol ar gyfer ein cymunedau amrywiol, boed yn arddangosfa, gweithgaredd, digwyddiadau, cyfleoedd hyrwyddo, prosiect a grantiau

4.3 Gwasanaethau'r Adran Tai ac Eiddo: Cyflawni gweithgareddau'r Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd sydd gyda'r nod o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

Beth rydym ni wedi ei wneud

O dan Amcan 4, mae'r pwynt cyntaf yn ymwneud ag edrych ar wasanaethau'r Cyngor a sut mae gwella hygyrchedd mynediad. Bu'r swyddogion cydraddoldeb yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gofal Cwsmer a Chofrestru gan mai dyma ydi'r "drws ffrynt" i aelodau'r cyhoedd. Edrychwyd ar yr heriau maent yn wynebu wrth gyd-weithio â gwasanaethau eraill wrth wasanaethu'r cyhoedd. Mae aelodau'r tîm wedi derbyn hyfforddiant wyneb-yn-wyneb ar faterion cydraddoldeb, oedd yn rhoi siawns iddynt drafod materion penodol.

Mae gweddill y pwyntiau gweithredu yn edrych ar dri gwasanaeth / adran penodol i sicrhau cydraddoldeb o fewn gwaith bob dydd. Y gwasanaeth cyntaf yw Amgueddfeydd. Trwy gydol cyfnod y cynllun, mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd wedi bod yn asesu pa mor hygyrch yw'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu, gyda'r nod o weithio tuag at gael gwared ar unrhyw rhwystrau. Mae hyn wedi rhoi sylw i faterion gweithredol sydd wedi codi mewn holiaduron cydraddoldeb cyffredinol a gyflwynwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun ac unrhyw faterion sydd wedi'u codi drwy gwynion neu adborth arall. Mae trafodaethau yn parhau ynglŷn â gwella hygyrchedd sydd yn codi o'r rhwystrau.

Mae cynllunio rhaglenni sy'n cynnwys amcanion cydraddoldeb yn rhan annatod o'r gwaith ac yn broses barhaus. Er enghraifft, fel rhan o raglen Storiol yn 2025/26 mae casgliad amgueddfaol ar gynllun "House of Memories", a gynlluniwyd i gefnogi unigolion â dementia o gefndiroedd diwylliannol amrywiol fel rhan o gynllun Gwrth Hiliol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, gyda chymorth grant gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau, trefnwyd gweithdy i archwilio treftadaeth amrywiol gan gynnwys India, Affrica a Mecsico, a arweiniodd at arddangosfa wedi'i churadu ar y cyd ar gyfer y gymuned, ynghyd â digwyddiad diwylliannol i ddathlu'r gwaith hwn. Mae'r sefydliad yn anelu at barhau â'r dull hwn o weithio i fod yn gynhwysol ac yn amrywiol.

Yn ogystal, mae derbyn hyfforddiant a mentora pellach yn parhau i fod yn elfen bwysig o ddatblygiad y gwasanaeth, gyda Storiol eisoes wedi cael hyfforddiant gan Our Visual World/BSL ac yn anelu at drefnu awdit gan Disability Arts Wales yn 2026. Mae'r holl waith hwn wedi eu cynorthwyo i adnabod elfennau sydd angen eu diwygio, megis datganiadau cenhadaeth y ddwy amgueddfa, a bydd hyn yn cael sylw yn 2026/27 gyda'r gwaith eisoes ar y gweill. Yn ogystal, mae prosiectau penodol yn cael eu datblygu sy'n gofyn am ymgeisio am grantiau a chyllid i wireddu gwahanol elfennau o'r gwaith; er enghraifft, mae grant SPF 2024/25 wedi cefnogi rôl Swyddog Ymgysylltu a Dysgu yn Storiol, ac mae grant pellach ar gyfer 2025/26 wedi'i sicrhau, gan ymestyn y gefnogaeth hon hyd at Fawrth 2026.

Yr ail wasanaeth / adran sydd yn rhan o'r amcan hon yw'r Adran Tai ac Eiddo. Maent yn gweithio ar y Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd sydd yn cyd-fynd gyda chyfnod y Cynllun Cydraddoldeb. Mae'r gwaith wnaeth ddechrau ym mlwyddyn weithredol cyntaf y cynllun o sefydlu Siop un Stop, i alluogi swyddogion y Cyngor i asesu anghenion cwsmeriaid ac i gyfeirio un ymholiad at nifer o unedau gwahanol yn ôl y cymorth y gall y Cyngor ei gynnig, bellach wedi'i gwblhau, gyda'r gwasanaeth yn weithredol ers 15 Medi 2025. Yn ogystal, mae'r gwaith o ddiweddarau'r wefan wedi'i gwblhau i gyd fynd a'r datblygiad. Mae 433 o unedau wedi'u hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol gyda'r Cyngor yn anelu i sicrhau fod tai Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd ac yn cynnig manteision effeithlonrwydd ynni i breswylwyr. Yn ogystal yn ystod y cyfnod hwn, dosbarthwyd 5,788 o dalebau ynni gwerth £239,565, ac mae 943 o eiddo wedi gweld cynnydd yn eu tystysgrif perfformiad ynni drwy'r cynllun ECO4, gyda 1,802 o geisiadau wedi'u cymeradwyo.

Sut mae'r amcanion yn ymateb gofynion y ddeddf ?

Rydym yn asesu'r cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae'n ymateb y gofynion penodol.

Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd gyda gofynion y Ddeddf drwy gyfrannu at bob un o'r tair elfen o'r ddyletswydd, yn ogystal ag ystyried anfantais economaidd gymdeithasol. Trwy asesu hygyrchedd gwasanaeth amgueddfeydd, ymateb i adborth ac adnabod rhwystrau, mae'r gwaith yn cefnogi'r ddyletswydd i ddileu gwahaniaethu ac i sicrhau bod gwasanaethau'n deg ac yn hygyrch i bawb. Mae'r rhaglenni a'r prosiectau sy'n canolbwyntio ar gynrychioli diwylliannau amrywiol trwy gyfrannu at gynllun "House of Memories", sydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal drwy sicrhau bod pobl o gefndiroedd amrywiol yn cael eu cynrychioli a'u cynnwys yn y gwaith diwylliannol. Yn ogystal, mae'r gweithgareddau hyn yn meithrin perthnasoedd da drwy feithrin dealltwriaeth rhwng cymunedau ac annog dathlu amrywiaeth. Mae'r ffocws ar hyfforddiant, mentora ac adolygu datganiadau cenhadaeth yn dangos ymrwymiad i wella arferion mewnol ac i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ddatblygu mewn ffordd gynhwysol a wrth-wahaniaethol. O ran anfantais economaidd-gymdeithasol, mae'r gwaith o sicrhau hygyrchedd, darparu rhaglenni cynhwysol a sicrhau cyllid grantiau yn helpu i leihau rhwystrau a galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gan sicrhau bod unigolion o bob cefndir yn gallu elwa ar y gwasanaethau.

Mae'r amcan nesaf hefyd yn cyd-fynd yn ofynion y Ddeddf drwy gyfrannu at bob un o'r tair elfen o'r ddyletswydd, yn ogystal ag ystyried anfantais economaidd gymdeithasol. Trwy ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Tai a sefydlu'r Siop Un Stop, mae'r Adran Tai ac Eiddo yn cyfrannu tuag at ddileu gwahaniaethu ac i sicrhau bod pob cwsmer yn cael mynediad cyfartal at gymorth, gan leihau'r risg o driniaeth anghyson rhwng gwahanol grwpiau. Mae'r dull hwn o asesu anghenion unigol ac o gyfeirio at ystod o wasanaethau yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael cymorth priodol ac amserol. Yn ogystal, mae'r gwaith o adeiladu unedau tai cymdeithasol, gwella effeithlonrwydd ynni, a dosbarthu miloedd o dalebau ynni, yn cyfrannu at leihau'r bwlch anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gefnogi trigolion mewn modd teg, cynhwysol ac ymatebol i'w hanghenion. Mae'r camau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at leihau'r pwysau ariannol ar aelwydydd incwm isel drwy wella safonau tai, lleihau costau ynni, a sicrhau bod cymorth yn hygyrch i bawb.

Be ydi'r gwahaniaeth ryda ni'n ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024 2028?

Byddwn yn edrych ar ba mor hygyrch yw ein gwasanaethau i bawb ac yn gweithio i leihau unrhyw rwystrau. Yn ogystal bydd ein Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn adeiladau ar hyn sydd yn ei le yn barod i sicrhau y gall cymunedau gyfrannu eu lleisiau i'r naratif yn ein hamgueddfeydd, i gael mwy o gyfleoedd, llai o rwystrau, cyfrannu mwy i'w diwylliant a chael mwynhad, dysgu a gwella eu hiechyd a llesiant. Mae pobl wedi dweud wrthym pa mor bwysig yw tai a thrafnidiaeth ar gyfer unigolion gyda nodweddion cydraddoldeb penodol a'r rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae gennym ni bwyntiau gweithredu yn y meysydd yma hefyd er mwyn gwella safonau byw pobl.

Amcan 5: Ysgolion: Gwella cydraddoldeb o fewn maes addysg

Pwyntiau gweithredu perthnasol am y flwyddyn:

5.1 Casglu, dadansoddi a gweithredu ar ddata yn ymwneud ag achosion o fwlio a throseddau casineb:

- Adnabod anghenion hyfforddiant i staff ysgolion drwy ddadansoddi data/tueddiadau o fwlio sydd yn cael eu hadrodd gan ysgolion.
- Cydweithio gyda swyddogion lles, gwasanaeth ieuencid, yr heddlu ac asiantaethau eraill i ymateb i ganfyddiadau / tueddiadau o fwlio trwy ddarparu hyfforddiant a gwaith ataliol i staff yr ysgolion.

Beth rydym ni wedi ei wneud

Y brif flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn hon roedd sefydlu trefn Awdurdod i gasglu data am y categorïau gwahanol o fwlio sy'n cael eu cofnodi yn yr ysgol. Mae ysgolion Gwynedd yn y broses o drosglwyddo i system data newydd. Yn dilyn hyn bydd pob ysgol yn defnyddio system electroneg a bydd modd i'r Adran Addysg gasglu a dadansoddi y data yn rhwydd. Oherwydd fod y rhan fwyaf o'r gwaith sylfaenol a strategol oedd wedi ei bennu yn y Cynllun wedi'i gwblhau yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Cydraddoldeb mae'r gwasanaeth bellach yn canolbwyntio ar gynnal, mireinio ac adeiladu ar y prosesau a'r systemau sydd eisoes ar waith, gan sicrhau parhad a chysondeb yn y ddarpariaeth. Mae gwaith yn parhau rŵan i edrych ar a dadansoddi'r holl waith ymchwil a chasglu data o'r flwyddyn flaenorol.

Sut mae'r amcanion yn ymateb i ofynion y ddeddf ?

Rydym yn asesu'r cynnydd yn erbyn tair elfen y ddyletswydd yn ogystal ag ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad i fesur llwyddiant yr amcanion a sut mae'n ymateb y gofynion penodol.

Mae sefydlu trefn ar draws yr awdurdod i gasglu data am wahanol fathau o fwlio yn ysgolion Gwynedd yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodi ac ymateb i ymddygiadau sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu neu aflonyddu. Bydd y system ddata newydd yn galluogi'r adran i fonitro patrymau, nodi ysgolion neu grwpiau lle mae risg uwch, a chymryd camau i leihau gwahaniaethu o unrhyw fath. Mae'r amcan hefyd sicrhau cyfleoedd cyfartal ar draws pob ysgol drwy sicrhau bod penderfyniadau polisi a chynllunio adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth, gan helpu i wella mynediad cyfartal a meithrin perthnasau da rhwng rhieni, disgyblion ac ysgolion drwy ddangos ymrwymiad i fonitro a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Be ydi'r gwahaniaeth ryda ni'n ei wneud erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2024 2028?

Ein bwriad yw sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff rhieni a gofawyr sy'n derbyn gwasanaethau o'n hysgolion, waeth beth bynnag eu nodweddion gwarchodedig a'u hanghenion. Wrth wella cydraddoldeb o fewn addysg byddwn yn datblygu diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth lle mae pob disgybl sy'n gysylltiedig ag ysgolion Gwynedd yn teimlo'n falch o'u hunaniaeth ac yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd ysgol. Bydd cyflawniad disgyblion yn cael ei fonitro a byddwn yn defnyddio'r data i gefnogi'r disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hwyluso a chefnogi ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio a stereoteipiau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at

bawb. Yng Ngwynedd credwn fod amrywiaeth yn gryfder, a ddylai gael ei barchu a'i ddathlu gan bawb o fewn a thu allan i'r ysgolion.

Gwybodaeth Bellach

Mae hi'n ofynnol i Gyngor Gwynedd, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i adrodd ar yr wybodaeth rydym yn ei gasglu ym maes cydraddoldeb yn flynyddol.

Monitro Manylion Cydraddoldeb Staff

Oherwydd bod llenwi'r ffurflen yn ddewisol (yn unol â'r canllawiau) nid oes digon o aelodau staff wedi ei lenwi. Rydym wedi adnabod hyn, ac yn gweithio i annog mwy o weithwyr i wneud hynny (Amcan 1, Pwynt Gweithredu 1.8). Pan fydd gennym wybodaeth ddigonol byddwn yn gallu adnabod bylchau cyflog yn fwy eang nag ar sail rhyw yn unig (Pwynt Gweithredu 1.6), er mwyn gweithredu i wella amrywiaeth ein gweithlu. Roedd 51.6% o'r gweithlu wedi cwblhau'r holiadur ar 31 Mawrth 2026 mae'r wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu i'w weld yn LINC

Cwynion a phryderon

Daeth 27 cwyn i sylw'r swyddogion cydraddoldeb oherwydd eu bod yn cynnwys honiadau o wahaniaethu, neu oherwydd rhyw gyswllt arall â materion cydraddoldeb. Ystyriwyd fod 7 o'r rhain yn ddilys (2 yn anffurfiol a 5 yn ffurfiol). Roedd y rhan fwyaf (6 ohonynt) yn ymwneud â materion anabledd – sef mynediad ar lan y môr, mynediad at wasanaeth y llyfrgelloedd, mwy o gefnogaeth yn y maes addysg a cael cyfathrebu gwell. Roedd materion anabledd yn codi ymysg y cwynion ystyriwyd yn annilys hefyd – fel parcio ac eto mynediad at lan y mor. Byddwn yn bwydo'r wybodaeth yma i'r gwaith fyddwn ni'n wneud ar fynediad yn Amcan 3 ac Amcan 4. Pwnc y cwyn dilys arall oedd ymwneud a prosesau cydraddoldeb yn ehangach. Roedd y rhai annilys eraill yn cwmpasu honiad o hiliaeth oherwydd cenedligrwydd am faterion tai a cyfathrebu, materion parcio yn ehangach, ymddygiad swyddog, mynediad at traethau ac cefnogaeth talu am dreth Cyngor.

Ymgysylltu

Mae casglu gwybodaeth, yn enwedig drwy ymgysylltu, yn amcan pwysig iawn o fewn y Cynllun Cydraddoldeb . Rydym eisiau sicrhau fod digon o wybodaeth ar gael yn hawdd i swyddogion wrth wneud asesiadau effaith, er mwyn sicrhau fod sylw dyledus yn cael ei roi i 3 nod y ddyletswydd gyffredinol a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol. Rydym hefyd eisiau sicrhau fod defnydd da yn cael ei wneud o'r wybodaeth a gesglir, felly mae'r gwaith ymgysylltu wnaethom ni ei wneud rhwng 2023 a 2024 wedi bwydo i mewn a llywio'r cynllun presennol, gyda dros 600 o bobl yn cymryd rhan. Rydym ni'n parhau i gydweithio hefo Grŵp Craidd Cydraddoldeb y Cyngor yn aml trwy gydol y flwyddyn i gasglu ei barn am nifer o bynciau gwahanol. Yn ychwanegol, yn y flwyddyn weithredu bresennol, rydym ni hefyd wedi dechrau ymgysylltu yn gyson gyda staff y Cyngor, drwy gyfrwng y fforwm staff. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r fforwm hwn drwy weddill cyfnod y Cynllun.

Data Meintiol

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol yn cynnwys amcan penodol ar ddata meintiol. Mae gwaith yn symud ymlaen i greu dashfwrdd ar lefel lleol ar gyfer Gwynedd i allu adeiladu a datblygu ein cynlluniau. Bydd y data yma ar gael ar gyfer staff hefyd i'w ddefnyddio ar gyfer asesiadau effaith, ffurfio polisiau a gwella gwasanaethau. Rydym wedi cynnwys yr Amcan yma gan ein bod yn adnabod pa mor bwysig ydi cael data addas ar gyfer gwella gwasanaethau fel hyn. Rydym eisoes yn casglu

gwybodaeth am wahaniaethau tâl yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig ac yn ei gyhoeddi'n flynyddol, gweler yr atodiad. Rydym hefyd yn anelu i wneud awdit ar fwch tâl ar sail rhyw bob tair blynedd. Fel rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru rydym wedi comisiynu'r ddogfen "Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Dogfen Ddata a Thystiolaeth" gan ein Gwasanaeth Data a Gwybodaeth, sydd wedi dod a gwybodaeth eang at ei gilydd i allu ffurfio'r Cynllun presennol ac i roi dealltwriaeth well i ni o gydraddoldeb yng Ngogledd Cymru. Rydym yn defnyddio'r ddogfen yma fel sail i'r dashfwrdd data (gweler uchod).

Gwybodaeth Cyflogaeth 2025-26

Mae gan y Cyngor ddyletswydd, yn ôl Cynllun Cydraddoldeb 2010, i ddarparu gwybodaeth cyflogaeth yn flynyddol. Dyma'r wybodaeth am 2025-26.

I. Manylion y gweithlu yn gyffredinol

Mae **51.6%** o staff y Cyngor wedi llenwi'r holiadur cydraddoldeb dewisol, ac mae'r ffigyrau isod wedi eu seilio ar y rhain os nad ydym yn nodi'n wahanol. Mae'r wybodaeth am y nodweddion cydraddoldeb fel â ganlyn:

Rhyw :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Benyw	70.9	36.6
Gwryw	28.3	14.6
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	0.2	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	0.6	0.3
Cyfanswm	100.0	51.6

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Albanwr / Albanes	0.2	0.1
Cymro / Cymraes	88.3	45.6
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	<0.1	<0.1
Prydeiniwr / Prydeines	6.4	3.3
Sais / Saesnes	3.3	1.7
Arall	1.2	0.6
Gwell gennyf beidio â dweud	0.6	0.3
Cyfanswm	100.0	51.6

Hil :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Gwyn	98.2	50.7
Du – Caribiaidd	-	-
Du – Affricanaidd	<0.1	<0.1
Du – Arall	-	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-	-
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	<0.1	<0.1
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	0.2	0.1
Cymysg – Arall	<0.1	<0.1
Asiaidd – Indiaidd	<0.1	<0.1
Asiaidd - Pacistanaidd	0.1	<0.1
Asiaidd – Bangladesiaidd	0.1	<0.1
Asiaidd – Tseineaidd	0.1	<0.1
Asiaidd – Arall	0.2	0.1
Arall	0.5	0.3
Gwell gennyf beidio â dweud	0.6	0.4
Cyfanswm	100.0	51.6

Cyfeiriadedd Rhywiol :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Deurywiol	0.8	0.4
Dyn Hoyw	0.6	0.3
Dynes Hoyw / Lesbian	0.6	0.3
Heterorywiol neu 'Strêt'	95.3	49.2
Arall	0.4	0.2
Gwell gennyf beidio â dweud	2.3	1.2
Cyfanswm	100.0	51.6

Crefydd :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Anffyddiwr	2.5	1.3
Bwdhaidd	0.1	<0.1
Cristion	50.9	26.3
Dim crefydd	38.9	20.1
Mwslim	0.1	0.1
Iddewig	-	-
Hindŵ	<0.1	<0.1
Arall	2.1	1.1
Gwell gennyf beidio â dweud	5.4	2.7
Cyfanswm	100.0	51.6

Statws Priodasol :

Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydw	44.9	23.2
Ydw	51.8	26.8
Gwell gennyf beidio â dweud	3.3	1.6
Cyfanswm	100.0	51.6

Anabledd :

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydw	94.5	48.8
Ydw	2.7	1.4
Gwell gennyf beidio â dweud	2.8	1.4
Cyfanswm	100.0	51.6

Hunaniaeth Rhywedd :

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydi	97.0	50.1
Ydi	1.8	0.9
Gwell gennyf beidio â dweud	1.2	0.6
Cyfanswm	100.0	51.6

Oedran :

	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
16-19	0.6	0.3
20-24	4.5	2.3
25-29	6.8	3.5
30-34	9.7	5.0
35-39	11.5	5.9
40-44	12.4	6.4
45-49	13.0	6.7
50-54	14.2	7.4
55-59	14.0	7.2
60-64	9.3	4.8
65-69	2.6	1.4
70+	0.6	0.3
Gwell gennyf beidio â dweud	0.8	0.4
Cyfanswm	100.0	51.6

2. Natur Swyddi

Dim ond nodwedd cydraddoldeb **rhyw** sydd angen ei nodi yma.

a) Y nifer â gyflogir yn ôl swydd :

Dadansoddiad ddim ar gael

b) Nifer â gyflogir yn ôl graddfa cyflog :

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Graddfa Sylfaenol (GS)	28.9	6.5	0.1	0.2	35.8	18.5
Swyddogion (S)	19.1	10.4	<0.1	0.2	29.7	15.3
Uwch Swyddogion (PS)	11.4	8.2	0.1	0.2	19.9	10.3
Uwch Reolwyr (UR)	0.4	0.4	<0.1	-	0.8	0.4
Prif Swyddogion	0.2	0.2	-	-	0.4	0.2
Athrawon (Cynnwys heb gymhwyso a llanw)	8.2	1.8	-	-	10.0	5.1
Prifathrawon / Dirprwy Brifathrawon	2.1	0.6	-	-	2.7	1.4
Soulbury	0.6	0.2	-	-	0.8	0.4
Cyfanswm	70.9	28.3	0.2	0.6	100.0	51.6

c) Nifer â gyflogir fesul amrediad cyflog :

Hyn ar sail cyflog pe byddai'r unigolion yn Gyfwerth Amser Llawn (FTE), ac nid o reidrwydd y gwir gyflog maent yn ei dderbyn.

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
£20,000 - £29,999	29.3	6.6	0.1	0.2	36.3	18.7
£30,000 - £39,999	19.0	10.5	<0.1	0.2	29.8	15.3
£40,000 - £49,999	17.4	7.8	0.1	0.1	25.3	13.1
£50,000 - £59,999	2.3	1.8	-	0.1	4.2	2.2
£60,000 - £69,999	1.0	0.8	<0.1	-	1.8	0.9
£70,000 - £79,999	1.7	0.6	-	-	2.3	1.2
£80,000+	0.2	0.2	-	-	0.3	0.2
Cyfanswm	70.9	28.3	0.2	0.6	100.0	51.6

ch) Nifer â gyflogir yn ôl math o gytundeb

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Cyfnod Penodol	2.2	0.8	-	<0.1	3.0	1.5
Achlysurol	3.9	0.9	<0.1	<0.1	4.8	2.5
Parhaol	64.8	26.7	0.2	0.5	92.2	47.6
Cyfanswm	70.9	28.3	0.2	0.6	100.0	51.6

d) Nifer â gyflogir yn ôl patrwm gwaith

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Llawn Amser	37.5	24.7	0.1	0.4	62.6	32.3
Rhan Amser	33.4	3.6	0.1	0.2	37.4	19.3
Cyfanswm	70.9	28.3	0.2	0.6	100.0	51.6

3. Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Nodyn : ymgeiswyr sydd wedi ceisio am swydd ar lein yn unig ydi'r rhain - ddim yn cynnwys y rhai sydd wedi gwneud cais ar bapur. Mae'n cynnwys pobl sydd eisoes yn gyflogedig gan yr Awdurdod yn ogystal ag ymgeiswyr allanol. Gall person fod wedi ymgeisio am fwy nac un swydd ac felly yn ymddangos ddwywaith yn y data.

Rhyw	Nifer
Benyw	3,125
Gwryw	1,779
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	3
Gwell gennyf beidio â dweud	23
Cyfanswm	4,930

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	2
Cymro / Cymraes	4,104
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	4
Prydeiniwr / Prydeines	307
Sais / Saesnes	228
Arall	265
Gwell gennyf beidio â dweud	20
Cyfanswm	4,930

Hil	Nifer
Gwyn	4,593
Du – Caribiaidd	-
Du – Affricanaidd	88
Du – Arall	1
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	1
Asiaidd – Indiaidd	118
Asiaidd - Pacistanaidd	12
Asiaidd – Bangladesiaidd	6
Asiaidd – Tseineaidd	2
Asiaidd – Arall	20
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	4
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	9
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	11
Cymysg – Arall	12
Arall	14
Gwell gennyf beidio â dweud	39
Cyfanswm	4,930

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	74
Dyn Hoyw	45
Dynes Hoyw / Lesbian	41
Heterorywiol neu 'Strêt'	4,617
Arall	7
Gwell gennyf beidio â dweud	146
Cyfanswm	4,930

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	139
Bwdhaidd	5
Cristion	1,870
Dim crefydd	2,505
Hindŵ	80
Iddewig	3
Mwslim	34
Arall	43
Gwell gennyf beidio â dweud	251
Cyfanswm	4,930

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	3,003
Ydw	1,776
Gwell gennyf beidio â dweud	151
Cyfanswm	4,930

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	4,603
Ydw	204
Gwell gennyf beidio â dweud	123
Cyfanswm	4,930

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	4,715
Ydi	171
Gwell gennyf beidio â dweud	44
Cyfanswm	4,930

Oedran	Nifer
16-19	365
20-24	713
25-29	697
30-34	594
35-39	529
40-44	372
45-49	264
50-54	210
55-59	143
60-64	67
65-69	23
70-74	1
75+	-
Gwell gennyf beidio â dweud	952
Cyfanswm	4,930

4. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am swydd wahanol o fewn yr awdurdod

Rhan o'r ffigyrau uchod.

5. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer fu'n llwyddiannus

O'r 4,443 aelod o staff wnaeth gais am hyfforddiant, bu pob aelod o staff heblaw am 16 yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau am hyfforddiant.

6. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn llwyddiannus

Bu i 4,427 aelod o staff gwblhau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn, boed yn hyfforddiant traddodiadol neu yn fodiwl e-ddysgu. O'r rhain 2,595 oedd wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb.

Rhyw	Nifer
Benyw	1,827
Gwryw	747
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	6
Gwell gennyf beidio â dweud	15
Cyfanswm	2,595

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	5
Cymro / Cymraes	2,306
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	-
Prydeiniwr / Prydeines	154
Sais / Saesnes	86
Arall	30
Gwell gennyf beidio â dweud	14
Cyfanswm	2,595

Hil	Nifer
Asiaidd - Pacistanaidd	3
Asiaidd – Tseineaidd	2
Asiaidd – Indiaidd	1
Asiaidd – Bangladesiaidd	1
Asiaidd – Arall	4
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	1
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	4
Cymysg – Arall	1
Gwyn	2,547
Du – Caribiaidd	-
Du - Affricanaidd	-
Du – Arall	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-
Arall	14
Gwell gennyf beidio â dweud	17
Cyfanswm	2,595

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	20
Dyn Hoyw	16
Dynes Hoyw / Lesbian	13
Heterorywiol neu 'Strêt'	2,471
Arall	11
Gwell gennyf beidio â dweud	64
Cyfanswm	2,595

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	72
Bwdhaidd	3
Cristion	1,283
Dim crefydd	1,038
Mwslim	2
Iddewig	-
Hindŵ	1
Arall	58
Gwell gennyf beidio â dweud	138
Cyfanswm	2,595

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	1,173
Ydw	1,338
Gwell gennyf beidio â dweud	84
Cyfanswm	2,595

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	2,449
Ydw	74
Gwell gennyf beidio â dweud	72
Cyfanswm	2,595

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	2,517
Ydi	50
Gwell gennyf beidio â dweud	28
Cyfanswm	2,595

Oedran	Nifer
16-19	19
20-24	125
25-29	188
30-34	255
35-39	302
40-44	312
45-49	339
50-54	377
55-59	344
60-64	239
65-69	64
70+	11
Gwell gennyf beidio â dweud	20
Cyfanswm	2,595

7. Aelodau o staff sydd wedi bod yn rhan o'r weithdrefn gwyno naill ai fel achwynydd neu fel y sawl y gwnaethpwyd cŵyn yn eu herbyn

Mae 29 unigolyn wedi bod yn rhan o weithdrefn gwyno. Roedd 15 ohonynt wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb. Nid yw'n bosib dadansoddi'n bellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion.

8. Aelodau staff sydd wedi bod drwy'r weithdrefn ddisgyblaethol

Mae 142 unigolyn wedi eu disgyblu yn ystod y flwyddyn. O'r rhain 59 oedd wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb. Nid yw'n bosib dadansoddi'n bellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion.

9. Aelodau staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor

Bu i 653 unigolyn adael cyflogaeth y Cyngor yn ystod 2025/26. O'r rhain, 281 ohonynt oedd wedi ateb yr holiadur cydraddoldeb.

Rhyw	Nifer
Benyw	189
Gwryw	88
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	4
Cyfanswm	281

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	-
Cymro / Cymraes	225
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	-
Prydeiniwr / Prydeines	32
Sais / Saesnes	17
Arall	3
Gwell gennyf beidio â dweud	4
Cyfanswm	281

Hil	Nifer
Asiaidd - Pacistanaidd	-
Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Bangladesiaidd	-
Asiaidd – Tseinieg	-
Asiaidd – Arall	-
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	1
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	1
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	-
Cymysg – Arall	1
Gwyn	272
Du – Caribiaidd	-
Du - Affricanaidd	-
Du – Arall	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-
Arall	1
Gwell gennyf beidio â dweud	5
Cyfanswm	281

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	4
Dyn Hoyw	5
Dynes Hoyw / Lesbian	3
Heterorywiol neu 'Strêt'	253
Arall	3
Gwell gennyf beidio â dweud	13
Cyfanswm	281

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	7
Bwdhaidd	-
Cristion	155
Dim crefydd	98
Mwslim	1
Iddewig	1
Hindw	-
Sic	-
Arall	8
Gwell gennyf beidio â dweud	11
Cyfanswm	281

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	124
Ydw	144
Gwell gennyf beidio â dweud	13
Cyfanswm	281

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	263
Ydw	9
Gwell gennyf beidio â dweud	9
Cyfanswm	281

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	271
Ydi	4
Gwell gennyf beidio â dweud	6
Cyfanswm	281

Oedran	Nifer
16-19	1
20-24	15
25-29	26
30-34	18
35-39	25
40-44	18
45-49	24
50-54	27
55-59	48
60-64	41
65-69	32
70+	1
Gwell gennyf beidio â dweud	5
Cyfanswm	281



CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Adroddiad Blynnyddol - Gweithlu
Aelod Cabinet:	Cyng. Llio Elenid Owen
Swyddog perthnasol:	Eleri Jones, Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol
Dyddiad y cyfarfod:	13eg o Hydref 2026

1. PENDERFYNIAD A GEISIR:

Cymeradwyaeth o'r adroddiad blynnyddol ar gyfer 2025/26.

2. BETH YW'R RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD:

Ar gyfer adlewyrchu ar y strategaeth gorfforaethol yn y maes allweddol hwn i'r dyfodol.

3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r prif weithgareddau ym maes cyflogaeth o fewn y Cyngor yn ystod 2025/26. Mae'r wybodaeth hefyd yn rhoi trosolwg cyffredinol o nodweddion ein gweithlu, ac yn rhoi sylwadau ar sut y mae hynny yn llywio rhai elfennau o'n strategaeth staffio.

GWEITHLU'R CYNGOR

Nodir yn y tabl isod y niferoedd a gyflogwyd ar sail llawn-amser a rhan-amser o fewn y Cyngor dros y bum mlynedd diwethaf. Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio yn ein hysgolion ond nid y staff hynny a gyflogir yn achlysurol yn ystod cyfnodau gwyliau / salwch y gweithlu sefydlog.

	31/3/21	31/3/22	31/3/23	31/3/24	31/3/25	31/03/26
Llawn amser	3,073	3,258	3,306	3,354	3,334	3,269
Rhan amser	2,776	2,650	2,689	2,648	2,561	2,525
Cyfanswm	5,849	5,908	5,995	6,002	5,895	5,794

Fel y gwelir, bu gostyngiad pellach yn nifer y staff yn ystod 2025/26, gyda chyfanswm y gweithlu yn disgyn o 5,895 i 5,794 o unigolion. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 101 aelod staff dros y flwyddyn. Roedd y gostyngiad yn amlwg ymhlith staff llawn amser a rhan amser fel ei gilydd.

Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r pwysau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yn gyffredinol. Mae gwasanaethau wedi gorfod parhau i adolygu eu trefniadau staffio a'u blaenoriaethau er mwyn ymateb i'r heriau ariannol sylweddol a wynebir. Er bod gostyngiadau mewn niferoedd staff yn anochel yn rhai meysydd, mae'r Cyngor yn parhau i geisio cynnal gwasanaethau effeithiol i drigolion y sir.

Yn ogystal, dyma'r flwyddyn gyntaf lle nad yw data GwE a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'u cynnwys fel rhan o weithlu Cyngor Gwynedd, yn dilyn y newidiadau sefydliadol a adroddwyd y llynedd.

RHANIAD Y GWEITHLU YN ÔL RHYW

Gwelir yma ddadansoddiad pellach o'r nifer dynion a merched a gyflogwyd yn llawn amser ac yn rhan amser yn ystod yr un cyfnod. Mae patrwm y gweithlu yn parhau'n debyg iawn i flynyddoedd blaenorol gyda nifer sylweddol uwch o ferched yn gweithio i'r Cyngor. Ar 31 Mawrth 2026 roedd 71% o weithlu'r Cyngor yn fenywod a 29% yn ddynion.

Mae nifer sylweddol uwch o'r merched hynny yn cael eu cyflogi ar sail rhan amser ac o fewn gwasanaethau megis Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Addysg. Mae'r rhaniad hwn wedi bod yn thema gyson, nid yn unig yn Ngwynedd ond hefyd o fewn llywodraeth leol yn gyffredinol.

Er bod balans rhyw yn parhau i fod yn anwastad mewn rhai meysydd gwasanaeth, mae hyn yn adlewyrchu patrymau recriwtio a dewisiadau gyrfa sydd wedi datblygu dros gyfnod hir o amser. Mae'r Cyngor yn parhau i geisio denu ymgeiswyr o bob rhyw i bob maes gwaith.

Rhaniad dynion / merched

a) Cyngor cyfan – 3 mlynedd diwethaf

		31/3/23	31/3/24	31/3/25	31/3/26
Llawr amser	Dynion	1,462	1,501	1,480	1,431
	Merched	1,844	1,853	1,854	1,838
Rhan amser	Dynion	264	259	247	250
	Merched	2,425	2,389	2,314	2,275
Cyfanswm	Dynion	1,726	1,760	1,727	1,681
	Merched	4,269	4,242	4,168	4,113
Cyfanswm %	Dynion	28.8%	29.3%	29.3%	29%
	Merched	71.2%	70.7%	70.7%	71%


Gweler ymhellach ddadansoddiad o'r rhaniad dynion a merched yn adrannau'r Cyngor fel ag yr oedd yn ymddangos ar 31 o Fawrth 2026.

b. Rhaniad merched / dynion staff Cyngor Gwynedd fesul Adran, 31 Mawrth 2026 (ar sail prif swydd pob unigolyn)

	Merched	Dynion	Cyfanswm
Addysg (Canolog)	658 (89%)	78 (11%)	736
Amgylchedd	85 (23%)	285 (77%)	370
Gwasanaethau Gorfforaethol	137 (84%)	27 (16%)	164
Cyllid	103 (47%)	115 (53%)	218
Economi a Chymuned	102 (60%)	67 (40%)	169
Oedolion, Iechyd a Llesiant	796 (89%)	100 (11%)	896
Plant a Chefnogi Teuluoedd	348 (89%)	42 (11%)	390
Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	57 (14%)	360 (86%)	417
Tai ac Eiddo	95 (51%)	90 (49%)	185
Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol	76 (78%)	21 (22%)	97
Ysgolion	1,606 (83%)	321 (17%)	1,927
Is-gyfanswm	4,063 (73%)	1,506 (27%)	5,569

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	50 (22%)	175 (78%)	225
Cyfanswm – cyson efo'r hyn adroddir i Data Cymru	4,113 (71%)	1,681 (29%)	5,794

Uchod ar ffurf siart:



PROFFIL OEDRAN STAFF Y CYNGOR

Mae proffil manwl o broffil oedran y Cyngor yn **Atodiad 1**. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig gan ei bod yn sail dda ar gyfer gweithgareddau cynllunio gweithlu'r Cyngor. Er mwyn ein galluogi i sicrhau bod y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol ar gael o fewn gweithlu'r Cyngor, mae'n bwysig bod gennym ddealltwriaeth o gynlluniau hirdymor cydweithwyr; pwy sy'n ystyried ymddeol dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf a pha risgiau allai fod o ran darparu gwasanaethau o ganlyniad? Mae'r math hwn o wybodaeth a thrafodaethau o fewn timau yn galluogi adrannau i gynllunio a datblygu eu gweithlu yn rhagweithiol i fynd i'r afael â risgiau o'r fath.

Ers sawl blwyddyn, adroddwyd fod y patrwm o broffil oedran ar gyfer staff yn dangos fod y mwyafrif o'r gweithlu dros eu 40 mlwydd oed, a bod hyn yn peri risg o ran cadw gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau. Roedd y ffigyrau yn gyson eto ar gyfer 2025/26, gyda 66% dros 40 oed a 42% dros 50 mlwydd oed.

Nid yw hyn yn broblem ynddo'i hun. Mewn gwirionedd, mae'r proffil hwn yn golygu fod gan y Cyngor weithlu sydd â phrofiad helaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth gwerthfawr. Fodd bynnag, mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd cynllunio gweithlu effeithiol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau hanfodol yn cael eu trosglwyddo cyn i aelodau profiadol o staff adael y sefydliad.

Mae hon yn her sylweddol i ni fel cyflogwr, ond hefyd i lywodraeth leol a'r sector gyhoeddus yn ehangach. Dyna pam, er enghraifft, fod yna ymdrechion yn y maes gofal cymdeithasol yn genedlaethol i geisio gwella delwedd rhai elfennau o'r maes hwnnw, a hefyd pam bod yna drafodaethau yn cael eu cynnal ar lefel Cymru ynghylch a oes angen edrych ar gysoni cyflogau a thelerau gwaith gweithwyr cymdeithasol ar draws Cymru.

Mae'r rhain yn gamau mawr a chymhleth, ond cymaint yw'r her sydd yn wynebu cyflogwyr mae rhaid ceisio ystyried pob opsiwn wrth edrych ymlaen dros heriau'r blynyddoedd sydd i ddod. Gwaith tymor hir yw hyn i gyd, ond mae'n allweddol i barhad ac effeithiolrwydd gwasanaethau i'r dyfodol. Un enghraifft o'r gwaith yw'r pwyslais parhaus sydd yna ar fuddsoddi i fuddsoddi mewn cynlluniau prentisiaeth, hyfforddeion proffesiynol a datblygu staff mewnol er mwyn sicrhau cyflenwad o dalent ar gyfer y dyfodol.


TROSIANT STAFF


Mae'r cyfradd trosiant staff o 9.3% yn parhau yn uchel mewn cymhariaeth a rhai o'r blynyddoedd blaenorol ond mae wedi gostwng rhywfaint yn ystod 2025/26 o gymharu gyda 2024/25 (9.9%) ac wedi newid rhywfaint ar y tueddiad lle mae mae cynnydd graddol wedi bod dros y blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn awgrymu rhywfaint o sefydlogi o bosib.

Dyma'r lefelau blynyddol ers 2020/21:

2020/21	6.8%
2021/22	8.5%
2022/23	8.1%
2023/24	8.9%
2024/25	9.9%
2025/26	9.3%

Graff yn dangos patrwm rhai Adrannau vs cyfanswm y Cyngor (Adrannau gyda'r canrannau trosiant uchaf a lleiaf yn 2025/26)





Mae yna amrywiaeth hefyd yn y sefyllfa ar draws adrannau'r Cyngor. Roedd y trosiant ar ei uchaf eleni yn yr adrannau Economi a Chymuned (19.6%), Gwasanaethau Corfforaethol (12.1%), Addysg (9.9%) ac Oedolion, Iechyd a Llesiant (9.3%) gyda'r canrannau hynny rhywfaint uwch na chyfartaledd y Cyngor.

Mae yna gyswllt rhwng lefel trosiant yr adran Economi a Chymuned a'r dull o ariannu nifer sylweddol o gytundebau gwaith yno; mae nifer o staff yn gweithio i gytundebau gwaith sydd yn cael eu hariannu trwy grantiau o du allan i Gyngor Gwynedd. Mae trefniadau gwaith o'r fath yn gallu creu ansicrwydd mawr i staff wrth gwrs, gan er enghraifft greu rhwystr gyda phrynu cartref. Er bod y grantiau yn aml iawn yn rhai sydd yn cael eu hadnewyddu yn flynyddol (gan felly olygu ymestyn cyflogaeth am flwyddyn arall), mae yn hwyr iawn yn y dydd ar benderfyniadau o'r fath yn cyrraedd y Cyngor, ac felly mae'n creu ansicrwydd mawr i staff sydd yn cael eu heffeithio.

Yn ystod 2025/26 roedd trosiant ar ei lefel isaf yn Nhîm Arweinyddiaeth Corfforaethol (3.9%), Cyllid (4.6%), Plant a Chefnogi Teuluoedd (6.9%) a Tai ac Eiddo (7.2%).

Fel y nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae trosiant staff yn gallu bod yn beth naturiol ac iach o fewn sefylliad. Mae'n ymddangos nad oes angen pryderu yn ormodol mewn sefyllfa lle nad oes patrwm a rhesymau cyson dros adael; mae'n rhaid parchu fod staff am fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen.

Mae'n bosib treiddio ymhellach i'r ystadegau lefel uchel yma, er mwyn deall yn well beth yw'r rhesymau dros drosiant uchel ac isel, ac er mwyn gweld a oes modd dysgu oddi ar unrhyw ffactor benodol. Mae'r math yma o wybodaeth, law yn llaw â dadansoddiad o'r arolwg staff, yn gallu rhoi arweiniad i benaethiaid adrannau ar sut i geisio dylanwadu ar lefelau trosiant.

ABSENOLDEBAU SALWCH

Mae lefel yr absenoldebau salwch wedi cynyddu ychydig yn ystod y flwyddyn 2025/26. Gweler isod dabl syml sydd yn dangos y lefel o salwch yn y Cyngor dros y dair mlynedd ddiwethaf, sydd yn cael ei ddangos fel y cyfartaledd nifer o ddyddiau o absenoldeb salwch y pen dros y flwyddyn dan sylw.

2023/24	2024/25	2025/26
---------	---------	---------

10.29	12.94	13.01
-------	-------	-------

Er mai cynnydd cymharol fach yw hwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae'r lefel yn parhau yn uwch na'r hyn a welwyd dros y blynyddoedd cyn hynny. Mae'r sefyllfa felly yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol.

Un rheswm all fod yn cyfrannu tuag at y tueddiad yma yw bod gwelliant wedi ei gyflwyno yn ystod 2024/25 i'r drefn cofnodi salwch gan wasanaethau ar draws y Cyngor pan gyflwynwyd modiwl cyfrifiadurol o'r newydd i reolwyr ar system Hunanwasanaeth y Cyngor, sydd yn eu galluogi i gofnodi sgysiau gyda staff. Mae'r system hefyd yn tywys rheolwyr trwy bolisi a'r trefniadau rheoli absenoldebau salwch. Credwn o'r data sydd gennym fod cyflwyno'r system hon wedi golygu gwella yn safon y cofnodi; roedd yn gam mawr ymlaen o'r hen drefniadau papur oedd yn bodoli am flynyddoedd lawer. Yn ogystal, mae ymdrech sylweddol a pharhaus gan adrannau a nifer o wasanaethau cefnogol i ymdrin ag absenoldebau salwch o fewn gwasanaethau.

Mae cefnogaeth ychwanegol ar gael trwy'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol sydd yn cynnig ystod o gefnogaeth a chyngor arbenigol i staff a rheolwyr. Mae trefniadau adolygu achosion unigol mewn lle gyda rhai adrannau penodol sydd yn profi lefelau uchel o absenoldebau salwch. Yn ogystal, mae cefnogaeth i reoli achosion unigol trwy drefniadau paneli medrusrwydd gyda'r pwyslais ar gefnogi staff i wella'u hiechyd a dychwelyd i'r gwaith.

Un her gyda'r rhaglen waith uchod fodd bynnag ydi ceisio sicrhau cysondeb gweithredu ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Mae gofyn i reolwyr feddu ar sgiliau penodol er mwyn ymdrin ag absenoldebau salwch mewn modd sydd yn ofalgar ond sydd hefyd yn cymryd penderfyniadau anodd pan fo wirioneddol angen gwneud hynny. Mae cyngor ar gael i reolwyr mewn sefyllfaoedd felly, ond wrth gwrs wrth i lefelau salwch gynyddu mae'r galw am y cyngor hwnnw yn mynd yn uwch.

Mae'r canlynol yn rhannu'r absenoldeb salwch i salwch tymor hir a thymor byr. Diffinnir salwch tymor hir fel 28 neu fwy diwrnod olynol o salwch.

Tymor Hir/ Tymor Byr

	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Tymor Hir	62%	71%	57%	53%	51%	56%	62%
Tymor Byr	38%	29%	43%	47%	49%	44%	38%

Nodyn - Diffiniad tymor hir "28 diwrnod calendr yn olynol neu fwy."

Er mwyn gallu dadansoddi yn ystyrlon, cyfrifir y ffigyrau Hir/ Byr ar ddiwedd blwyddyn.

Hyn oherwydd,

er ein bod wedi gwella ein hamser adrodd dangosydd i fod yn fisol, mae'n golygu fod rhai achosion yn cael eu hadrodd fel tymor byr yn gychwynnol, cyn iddynt yna ymestyn ymhellach na'r mis snapshot ac yna newid i fod yn dymor hir.


Fe welir fod yna newid yn y ganran salwch tymor hir a thymor byr yn ystod 2025/26 o'i gymharu a'r blynyddoedd blaenorol gyda'r canran absenoldeb tymor hir yn parhau ar gynnydd (6% yn uwch na 2024/25). Eto, gellir cysylltu hyn â gwelliant mewn cofnodi, ond rhaid cofio hefyd am y cyd-destun. Mae lefelau salwch ar gynnydd ar draws gwahanol sectorau'r economi. Gwyddom hefyd, o'r achosion unigol rydym ni yn ymdrin â nhw, fod problemau'r gwasanaeth iechyd yn effeithio ar ein lefelau salwch; mae nifer o staff yn aros am driniaeth ar y rhestrau aros ac nid oes amheuaeth fod hyn yn cael effaith ar ein lefelau salwch tymor hir.

O'r holl staff fu'n gyflogedig gan y Cyngor yn 2025/26, 52% ohonynt a gymerodd unrhyw gyfnod(au) o absenoldeb salwch. Golyga hyn na fu 48% o staff y Cyngor yn absennol o g

oherwydd salwch. Ni fu 45% o staff y Cyngor yn absennol o gwbl oherwydd salwch yn 2024/25, felly wedi cynyddu 3% eleni.

Mae'r tabl dilynol yn arddangos lefelau yr absenoldebau salwch, fis wrth fis, yn ystod y flwyddyn diwethaf ac yn dangos tueddiad tebyg iawn i'r blynyddoedd blaenorol gyda salwch ar ei uchaf dros y gaeaf ac ar ei isaf dros y haf.

Patrwm dyddiau salwch fesul mis




Fesul Adran

Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer o ddyddiau y pen a gollwyd i salwch, ar gyfartaledd, o fewn adrannau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Roedd y salwch **uchaf** yn 2025/26 yn y Oedolion, Iechyd a Llesiant (18.75 dydd), Amgylchedd (15.58 dydd), Addysg – Canolog (14.83 dydd) ac Addysg – Ysgolion (13.26 dydd).


Roedd y salwch **isaf** yn 2025/26 yn Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol (6.21 dydd), Economi a Chymuned (6.91 dydd), Cyllid (7.14 dydd) ac Tai ac Eiddo (9.70 dydd).



Salwch fesul categori

Mae'r siart canlynol yn dadansoddi y math o salwch sydd wedi'i gofnodi ar gyfer absenoldebau dros y bum mlynedd ddiwethaf.

Dadansoddiad absenoldeb salwch fesul categori bob blwyddyn i 2025/26



Mae lefel y categori "Sâl Arall" wedi gostwng ymhellach eleni (-1.5%), sy'n awgrymu bod ymdrechion i wella ansawdd cofnodi a dadansoddi gwybodaeth salwch yn parhau i gael effaith gadarnhaol gyda'r system bellach yn golygu bod mwy o opsiynau ar gael i staff allu cofnodi'r cyflwr. Ar y llaw arall, fe welwch hefyd fod y lefelau straen yn parhau i gynyddu ac yn cyfrannu tuag at 28.3% o'r holl absenoldebau (+1.6%), sy'n amlwg yn bryderus.

Fodd bynnag, er yr lefelau uwch o straen mae cael cofnodi cywir yn un cam cadarnhaol ymlaen i'n galluogi i adnabod y broblem. Tra bod yr wybodaeth yn yr adroddiad yma yn canolbwyntio ar roi dadansoddiad lefel uchel iawn, ar lefel Cyngor cyfan ac adrannau, rydym yn defnyddio data ar lefel mwy manwl er mwyn ei ddefnyddio gyda'r adrannau hynny sydd angen ceisio datrys sefyllfaoedd penodol o fewn eu gwasanaethau.

STRWYTHUR TÂL A CHYFLOG

Cymeradwywyd Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2025/26 gan y Cyngor llawn yn unol â'r gofynion statudol. Mae'r polisi yn nodi trefniadau tâl y Cyngor, gan gynnwys y berthynas rhwng cyflogau'r gweithlu ehangach a chyflogau uwch reolwyr.

Fel rhan o'r trefniadau cenedlaethol, mae cyflogau'r mwyafrif helaeth o staff yn parhau i gael eu pennu drwy gytundebau tâl cenedlaethol llywodraeth leol. Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu unrhyw gytundebau cyflog perthnasol a gytunir yn genedlaethol, gan sicrhau bod staff yn cael eu talu'n gywir ac yn amserol yn unol â'u telerau ac amodau gwasanaeth. Roedd y cytundeb ar gyfer 2025/26 yn golygu cynnydd o 3.20% ar bob pwynt cyflog ar y strwythur tâl.

RECRIWTIO A PHENODI

Gweler isod fanylion ystadegol ynglŷn â'r nifer o swyddi a hysbysebwyd gan y Cyngor yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf ynghyd â'r nifer ceisiadau a dderbyniwyd ac hefyd y nifer o swyddi a ail hysbysebwyd. Mae dadansoddi'r manylion hyn eto yn cyfrannu at ein gallu i adnabod meysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt yng nghyswllt datblygu arbenigeddau a chynllunio'r gweithlu i'r dyfodol, e.e. cryfhau ein dealltwriaeth er mwyn helpu i gynllunio olyniaeth, adnabod cynlluniau yfory/prentisiaethau perthnasol, cyfleon secondiad ayb.

Blwyddyn	Nifer o swyddi a hysbysebwyd	Nifer ceisiadau	Nifer o swyddi a ail hysbysebwyd	Nifer ceisiadau yn dilyn yr ail hysbysebu
2018 / 2019	555	3281	57	240
2019 / 2020	586	2726	101	249
2020 / 2021	486	2112	77	227
2021 / 2022	515	2394	114	369
2022 / 2023*	1054	3402	259	315
2023 / 2024	848	3608	195	471
2024 / 2025	855	3038	163	254
2025 / 2026	946	4386	180	322

***noder fod y ffigyrau ers 2022 /23 ymlaen yn cynnwys swyddi ein hysgolion, sy'n egluro'r gwahaniaeth mewn rhifau o gymharu â blynyddoedd blaenorol.**

PERTHYNAS CYFLOGAETH

Rydym ers blynyddoedd yn ymfalchïo yn y berthynas adeiladol sydd yna rhwng yr undebau yn lleol a ninnau fel swyddogion. Mae'r pwyslais ar geisio cydweithio er mwyn sicrhau perthynas esmwyth rhwng rheolwyr a staff, ac mae yna gydweithio da rhyngom yn sicr.

Wedi dweud hynny, rhaid cydnabod fod yna sefyllfaoedd dyrys i'w trafod ar adegau, ond credwn fod yna werthfawrogiad o'r ddwy ochr o'r cymhlethdod all fod yn y berthynas rhwng staff a'r cyflogwr, ac oherwydd hynny mae yna wirioneddol awydd i gydweithio er lles pawb sydd yn gweithio i'r sefydliad. Mae'r berthynas yn cael ei meithrin trwy gyswllt a thrafodaethau cyson rhyngom fel swyddogion a swyddogion yr undebau, gyda'r bwriad yn y pen draw o geisio datrys materion cyflogaeth cyn i sefyllfaoedd ddirywio i'r fath raddau fel bod y berthynas waith rhwng unigolion yn torri i lawr.

Rydym yn cyd-gyfarfod fel Grŵp Cyswllt yn fisol fel rheol, ac mae yna hefyd drefniant yn ei le i gyfarfod y swyddogion undeb yn unigol ar sail misol, er mwyn ceisio datrys unrhyw sefyllfaoedd sydd yn unigryw i'r undeb honno. Mae yna gyswllt cadarn rhwng y swyddogion undeb a timau rheoli rhai adrannau unigol hefyd, ond mae lle i ddatblygu mwy ar hynny eto.

Cryfhawyd ein ymdrechion eleni i weithio ar sail Partneriaeth Gymdeithasol, sef i ymgynghori a chydweithio gyda'r undebau ar faterion allweddol a strategol. Cynhaliwyd gyfarfodydd rhwng Prif Swyddogion o fewn y Cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr a Cyfarwyddwyr, a'r Undebau gan drafod rhai o'r prif faterion sy'n effeithio'r awdurdod er enghraifft Cynllun y Cyngor

a'r Gyllideb. Mae yna bellach rhaglen o gyfarfodydd mewn lle dwy waith y flwyddyn, neu yn ôl yr angen, er mwyn meithrin y berthynas yma a chyrraedd dyheadau Llywodraeth Cymru yn unol a'r Ddeddf Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Yn ogystal a'r uchod, rydym yn parhau i sicrhau cyllid i'n galluogi i gefnogi'r undebau i ryddhau staff er mwyn ymgymryd â gweithgareddau undebau. Mae hyn yn rhoi mwy o sicrwydd y gellir rhyddhau staff o'u swyddi er mwyn ymgymryd â'u rolau gyda'r undebau.

Wedi dweud hyn oll, mae'n anorffod fod yn rhaid i reolwyr y Cyngor ymdrin ag achosion unigol anodd weithiau, ac mae gan swyddogion y Gwasanaeth Adnoddau Dynol rôl allweddol yn cynghori a rhoi arweiniad ar sefyllfaoedd o'r fath. Mae'r canlynol yn crynhoi'r nifer o achosion ffurfiol y bu rheolwyr y Cyngor a swyddogion y tîm yn ymwneud â nhw dros y flwyddyn a fu. Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys staff ein hysgolion hefyd.

Achosion unigol 2025/26

Ymchwiliadau disgyblu	148
Cwynion	19
Diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol (<i>voluntary and compulsory redundancy</i>)	22

Mae'r ffigyrau yn parhau i ddangos cynnydd eleni mewn achosion o gymharu a llynedd gyda 148 o ymchwiliadau disgyblu o'r newydd (117 – 2024/25) a 19 cwyn (15 – 2024/25). Nid oes patrwm amlwg o gwbl ynghanol yr achosion hynny, ond nid oes amheuaeth fod sefyllfaoedd o'r fath yn gallu bod yn anodd i bawb sydd ynghlwm â nhw, yn staff sydd yn wynebu'r achosion, ond hefyd y rheolwyr sydd yn cynnal ymchwiliadau a'r gwasanaeth adnoddau dynol sydd yn cynghori a chefnogi. Mae adolygiad rheolaidd o'r amgylchiadau tu ôl i'r achosion hyn ac adlewyrchu os oes ffyrdd o wella neu ddatrys achosion ynghynt.

SIARTER IAITH Y TUC

Dros y flwyddyn 2025/26 fe wnaeth Cyngor Gwynedd atgyfnerthu ei safle fel sefydliad sy'n arwain y ffordd o ran meithrin diwylliant sy'n rhoi'r Gymraeg yn ganolog i'w waith, gan fod y gweithle cyntaf yng Nghymru i lofnodi a mabwysiadu Twf – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith.

Penderfynwyd Cabinet Cyngor Gwynedd fis Rhagfyr 2025 i fwrw mlaen i fabwysiadu'r siarter a cynhaliwyd digwyddiad arbennig yn Siambr Cyngor Gwynedd yn dilyn hynny i ddathlu llofnodi'r siarter yng nghwmni cynrychiolwyr y TUC, undebau Unsain, GMB ac Unite yn ogystal â Lowri Williams, Cyfarwyddwr Strategol Comisiynydd y Gymraeg.

Mae TUC Cymru wedi datblygu a mabwysiadu Siarter Twf i helpu gweithwyr, canghennau eu hundebau llafur a chyflogwyr i gydweithio i greu gweithleoedd dwyieithog. Mae pwyslais penodol hefyd ar sicrhau cynnydd yn nefnydd y Gymraeg yn y gwaith ac ar sicrhau fod gan weithwyr fynediad i gynrychiolaeth gan undebau llafur yn eu dewis iaith.

Wrth gytuno i fabwysiadu ac arwyddo'r siarter, mae'r undebau llafur a Chyngor Gwynedd fel cyflogwr yn ymrwmo i gydweithio ar sail pedair egwyddor graidd, sef:

- Twf a hawliau'r Gymraeg – ymrwymiad i dyfu'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cynhwysiant a chyfiawnder ieithyddol – creu diwylliant gwaith sydd yn gefnogol i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Arweinyddiaeth ac atebolrwydd – gwreiddio ethos a diwylliant dwyieithog gweladwy a chynhwysol.
- Dysgu parhaus a meithrin hyder – rhoi cefnogaeth barhaus i staff ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg.

Mae hybu a chefnogi defnydd o'r Gymraeg gan staff – a sicrhau fod pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg – yn un o flaenoriaethau'r Cyngor ers ei sefydlu. Caiff hyn ei

adlewyrchu yng Nghynllun y Cyngor, ym mholisi iaith yr awdurdod a'r ffaith fod 99.1% o staff y Cyngor yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg.

FFORWM CYDRADDOLDEB STAFF

Un o'n prif flaenoriaethau ar gyfer blwyddyn gyntaf y Cynllun Cydraddoldeb oedd dod i ddeall persbectif staff a derbyn eu hadborth mewn perthynas â materion cydraddoldeb, drwy sefydlu Fforwm Cydraddoldeb Staff. Dros y flwyddyn 2025/26 cynhaliwyd sawl cyfarfod ac mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheoliad bob chwarter. Trwy ddod â thrawstoriad o staff ynghyd o wahanol adrannau, mae'r fforwm yn darparu cyfle gwerthfawr i ddeall profiadau a safbwyntiau'r gweithlu. Mae'r agenda yn cael ei llywio gan yr aelodau eu hunain, gyda thrafodaethau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cynllunio gweithlu, ymgynghori ar bolisiau cyflogaeth a materion ehangach sy'n effeithio ar brofiad staff yn y gweithle. Yn dilyn sefydlu'r grŵp hon, mae datblygiadau pellach wedi eu gwneud yn y maes gyda fforwm staff arall, sef y fforwm ethnig lleiafrifol, bellach wedi'i sefydlu'n ffurfiol.

ADOLYGIAD AMODAU GWAITH

Ymhellach i'r gwaith ynghlwm a fod yn gyflogwr blaenllaw, rydym yn parhau i gymryd camau i ddatblygu ymwybyddiaeth rheolwyr a staff o'r amodau gwaith yn llawn, gan gynnwys cydraddoldeb, cynhwysiant ac yn y blaen. Fel rhan o hyn mae Polisi Canu'r Gloch diwygiedig wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor eleni sydd hefyd yn cynnwys aflonyddu rhywiol fel sail y gellir ei adrodd drwy ganu'r gloch. Mae hyn yn sicrhau y gallu i rhannu pryder difrifol am gamymarfer mewn ffordd diogel a cyfrinachol a hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd. Mae hefyd yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i unigolion yn unol a'r Ddeddf Hawliadau Cyflogaeth (2025).

CYNLLUNIAU PRENTISIAID A CHYNLLUN HYFFORDDEION GRADDEDIG

Mae'r cynlluniau hyn yn elfen bwysig o ddenu a datblygu talent y dyfodol, fel rhan o ymdrechion ehangach y Cyngor i gynllunio'r gweithlu. Dyma'r ystadegau am y flwyddyn a fu:

Trosolwg

- Mae'r cynlluniau yn mynd o nerth i nerth. Mae 2026 wedi bod y blwyddyn mwyaf llwyddiannus hyd yn hyn.
- Hyd at 29 o swyddi wedi eu llenwi (24 ar hyn o bryd)
- Rydym wedi derbyn 375 o geisiadau am y swyddi flwyddyn yma (cynnydd o 120% o 2025). Mae hyn yn dilyn cynllun marchnata ac ymgysylltu cynhwysfawr llwyddiannus.
- Yn ychwanegol i hyn, mae 16 o unigolion wedi eu ychwanegu i'r pwl talent. Mae'r pwl talent wedi ei sefydlu i ni allu cadw gwybodaeth am yr ymgeiswyr rheini sydd wedi cymryd rhan yn y broses recriwtio ac wedi disgleirio ond heb fod yn llwyddiannus.

Cynllun Prentisiaethau:

- Mae'r Cynllun wedi rhoi cyfle i 104 o brentisiaid ers ei lansio
- 21 prentis o'r newydd wedi eu penodi ar gyfer eleni, yn y meysydd Cyllid, Peirianeg Sifil, Digidol, Busnes, Trydanol, Llwybrau a mynediad a choedyddiaeth i enwi dim ond rhai.
- Mae dros 50% o'r penodiadau yn ferched a nifer mewn meysydd technegol.
- Dros 80% o brentisiaid sydd wedi cychwyn yn 16 i 20 mlwydd oed.

Cynllun Yfory (Cynllun Graddedigion y Cyngor):

- Ers 2017, mae'r Cyngor wedi penodi 52 hyfforddai proffesiynol, gyda dros 95% o'r hyfforddeion wedi cael cynnig swydd ar y diwedd.
- 8 hyfforddai proffesiynol newydd wedi eu penodi yn y meysydd Cyllid a Cyfrifeg, cynnal tiroedd lechyd, Diogelwch a Llesiant, Marchnata, Peirianeg i enwi dim ond rhai.

SYSTEM ADNODDAU DYNOL A CHYFLOGAU

Bydd system adnoddau dynol a chyflogau newydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor dros y misoedd nesaf. Mae'r angen hwnnw wedi codi wrth i'r system dalu cyflogau presennol ddd i

ben yn ngaeaf 2026. O safbwynt data ar faterion adnoddau dynol, mae'r datblygiad hwn yn un cyffrous ac fe fydd yn gam mawr ymlaen; bydd yr hyn sydd gan y math yma o systemau i'w cynnig yn hwyluso gwaith rheolwyr a timau sy'n eu cefnogi, a hefyd yn golygu y bydd modd i ni adrodd ar benawdau gwybodaeth o'r newydd i chi maes o law. Mae'r prosiect yn uchelgeisiol o ran amserlen, ac mae yn wir flaenoriaeth am y 12 mis sydd i ddod.

Casgliadau

Gwybodaeth lefel uchel iawn sydd yn yr adroddiad hwn, ond mae'r math yma o wybodaeth ar lefel mwy manwl yn gymorth i reolwyr a'r swyddogion hynny sydd yn eu cynghori i gynllunio gwasanaeth ac adnabod yn amserol y materion hynny sydd angen ymchwilio ymhellach a gweithredu arnynt.

Y prif negeseuon yw:

- Gostyngiad pellach yn nifer y staff cyflogedig.
- Patrwm rhywedd y gweithlu yn parhau yn gyson.
- Gweithlu gyda phroffil oedran sy'n amlygu pwysigrwydd cynllunio gweithlu hir dymor.
- Gostyngiad bychan yn y gyfradd trosiant staff.
- Lefelau absenoldeb salwch yn aros yn uchel, yn enwedig salwch tymor hir.
- Straen yn parhau i fod yn brif achos absenoldebau salwch

Bydd y ffactorau hyn yn parhau i lywio blaenoriaethau'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol dros y flwyddyn sydd i ddod. Drwy adlewyrchu ar ddata'r gweithlu dros y cyfnod sydd wedi bod mae'n atgyfnerthu ac yn llywio penderfyniadau strategol y dyfodol – hynny am ein gwasanaethau, ein cyllidebau a chapasiti ein gweithlu i ymdopi a gofynion i ddod. Bydd y Gwasanaeth yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol er mwyn ceisio mynd i'r afael a hynny:

1. **Cynllunio Gweithlu:** Datblygu cynllun gweithlu strategol i gefnogi cynllunio olyniaeth, datblygu sgiliau a sicrhau bod gan y Cyngor y capasiti a'r arbenigedd angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.
2. **System Adnoddau Dynol / Cyflogau Integredig:** Cefnogi gweithrediad llwyddiannus y system newydd a manteisio ar gyfleoedd i wella prosesau, gwybodaeth reoli a defnydd o ddata.
3. **Polisiau a Hyfforddiant:** Adolygu polisiau a threfniadau cyflogaeth er mwyn ymateb i newidiadau deddfwriaethol (e.e. Deddf Hawliau Cyflogaeth) gan sicrhau bod rheolwyr yn cael y gefnogaeth a'r hyfforddiant priodol i weithredu'r newidiadau hynny'n gyson ac yn effeithiol.
4. **Presenoldeb, Iechyd a Llesiant:** Parhau i ddatblygu trefniadau sy'n cefnogi presenoldeb cadarnhaol yn y gwaith, gyda ffocws arbennig ar leihau absenoldebau tymor hir, cefnogi iechyd meddwl a llesiant staff, a sicrhau bod rheolwyr yn meddu ar yr offer a'r hyder i reoli achosion yn effeithiol ac yn sensitif.
5. **Cyflog Cyfartal:** Symud ymlaen â gwaith sy'n ymwneud â chyflog cyfartal ac adolygu trefniadau gwerthuso swyddi er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb.
6. **Partneriaeth Gymdeithasol:** Cryfhau ymhellach y berthynas adeiladol gyda'r undebau llafur a datblygu trefniadau partneriaeth gymdeithasol ar draws y Cyngor.
7. **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Gweithredu'r camau gweithredu perthnasol o'r Cynllun Cydraddoldeb 2024-28, gan sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar waith y gwasanaeth a phenderfyniadau cyflogaeth y Cyngor.

4. SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL.

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth defnyddiol ar gyfer ymdrin â materion cyflogaeth a datblygu gweithlu'r Cyngor. Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol.

4.2 Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg pwysig o sefyllfa cyflogaeth a staffio o fewn yr Cyngor. Nid oes gennyf sylwadau pellach i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.


ATODIAD 1

A) Proffil oedran staff y Cyngor ar draws adrannau

Dyma ddangos proffil oedran yr adrannau gyda'i gilydd mewn un tabl fel canran cyfanswm yr adran. Mae'r 'heatmap' ar sail colofnau, hy dangos yr uchaf o fewn adran benodol (lليw tywyllach yn dynodi'r canrannau uchaf).

		Adrannau												
		Addysg - Canolog	Addysg - Ysgolion	Amgylchedd	Asiant Cefnffyrdd	Cyllid	Economi a Chymuned	Gwasanaethau Corfforaethol	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC	Tai ac Eiddo	Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol	Cyngor Gwynedd
Bandiau Oedran	Hyd at 19	0.3%	0.5%	0.0%	0.9%	0.9%	0.0%	1.2%	1.2%	0.7%	0.2%	0.9%	2.0%	0.6%
	20-24	1.8%	6.2%	6.9%	4.9%	9.2%	7.3%	6.1%	4.7%	9.0%	5.7%	0.9%	5.1%	5.4%
	25-29	3.8%	8.4%	6.4%	5.8%	9.2%	6.2%	12.7%	3.9%	13.2%	9.0%	11.7%	7.1%	7.4%
	30-34	7.6%	10.2%	5.0%	10.7%	15.6%	6.2%	7.9%	7.8%	11.2%	6.6%	10.8%	7.1%	9.0%
	35-39	11.4%	12.3%	10.1%	16.0%	10.1%	9.0%	10.3%	10.0%	14.7%	10.9%	2.2%	11.1%	11.3%
	40-44	11.7%	13.3%	11.1%	13.8%	11.5%	10.1%	15.2%	9.5%	11.5%	9.9%	12.1%	13.1%	12.0%
	45-49	10.0%	13.8%	11.7%	10.7%	11.9%	15.7%	10.3%	10.2%	13.7%	9.5%	9.4%	14.1%	12.0%
	50-54	11.1%	14.3%	17.2%	12.4%	11.5%	16.9%	17.0%	15.8%	8.5%	12.5%	12.1%	15.2%	13.6%
	55-59	19.2%	11.8%	17.2%	15.6%	13.3%	11.2%	11.5%	16.2%	10.0%	14.2%	16.1%	8.1%	14.1%
	60-64	14.1%	6.3%	8.8%	7.6%	6.4%	9.0%	7.3%	14.4%	5.2%	14.2%	17.0%	12.1%	9.7%
	65-69	6.4%	2.1%	4.5%	1.8%	0.5%	6.2%	0.6%	5.2%	2.2%	5.9%	4.0%	5.1%	3.6%
	70-74	2.2%	0.6%	0.8%	0.0%	0.0%	1.7%	0.0%	0.7%	0.0%	1.2%	1.8%	0.0%	0.9%
	75 ac uwch	0.4%	0.4%	0.3%	0.0%	0.0%	0.6%	0.0%	0.4%	0.0%	0.2%	0.9%	0.0%	0.3%
		100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%

ATODIAD 1



Mae’r graff uchod yn cymharu patrwm oedran adrannau – dangosir y ddwy Adran “ieuengaf” / “hynaf” o gymharu a’r Cyngor cyfan (ar sail %) gyda’r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd gyda’r gweithlu ieuengaf ar y cyfan a’r Adran Addysg efo’r gweithlu hynaf.

ATODIAD 1

B) Bandiau oedran ar draws bandiau cyflog

Dyma ddangos bandiau oedran ar draws bandiau cyflog gyda'i gilydd mewn un tabl fel canran cyfanswm band cyflog. Mae'r 'heatmap' ar sail colofnau, hy dangos yr uchaf o fewn band cyflog benodol (lliw tywyllach yn dynodi'r canrannau uchaf).

		Bandiau Cyflog					
		GS	S	PS	UR	Penaethiaid ac Uwch	Cyngor Gwynedd
Bandiau Oedran	Hyd at 19	1.17%	0.07%	0.00%	0.00%	0.00%	0.61%
	20-24	7.73%	6.21%	0.26%	0.00%	0.00%	5.40%
	25-29	5.54%	12.96%	7.14%	0.67%	1.30%	7.40%
	30-34	7.00%	10.32%	13.06%	4.03%	2.60%	9.03%
	35-39	9.34%	12.35%	14.80%	14.77%	5.19%	11.35%
	40-44	9.51%	11.61%	17.25%	16.78%	11.69%	11.96%
	45-49	10.33%	11.07%	14.99%	22.82%	22.08%	11.99%
	50-54	12.31%	12.82%	15.89%	22.15%	27.27%	13.65%
	55-59	15.99%	12.96%	10.55%	12.75%	23.38%	14.07%
	60-64	13.22%	7.42%	4.83%	4.70%	6.49%	9.72%
	65-69	5.75%	1.96%	1.03%	1.34%	0.00%	3.65%
	70 ac uwch	2.10%	0.27%	0.19%	0.00%	0.00%	1.18%
		100%	100%	100%	100%	100%	100%

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 13/10/26
Aelod Cabinet: Cyngorydd Llio Elenid Owen
Swyddog Cyswllt: Ian Jones
Rhif cyswllt: 01286 679335
Teitl yr Eitem: Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Llesiant

1 GOFYN PENDERFYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel bod gan aelodau drosolwg hanfodol o'r prif faterion iechyd a diogelwch a gododd yn ystod 2025/26.

2 Y RHESWM PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Nid oes angen penderfyniad penodol. Yn hytrach, cyflwynir yr adroddiad hwn gan fod angen i aelodau'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn, a chael trosolwg strategol o'r sefyllfa bresennol at ddibenion rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol o fewn y Cyngor.

3 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif bwyntiau yr ydych chi fel Aelodau'r Cabinet angen bod yn ymwybodol ohonynt mewn perthynas â pherfformiad y Cyngor ar faterion iechyd a diogelwch. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r prif faterion a gododd yn ystod y flwyddyn.

4 UNRHYW YMGYNGHORIADAU CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Swyddogion Statudol

Prif Swyddog Cyllid –

“Mae'r adroddiad yn cyfleu gwybodaeth i'r Cabinet a nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Swyddog Monitro -

“Mae'r adroddiad yn esbonio fod y Cabinet a rôl o fewn ein fframwaith iechyd a diogelwch. Mae'n briodol ei fod yn derbyn y wybodaeth sydd yma er yn rhoi sicrwydd ynglŷn a'n trefniadau yn y maes pwysig yma.”

Cyflwyniad a Rhesymeg

Mae'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gweithwyr a rheolwyr Cyngor Gwynedd, gan hyrwyddo diwylliant lle mae iechyd, diogelwch a llesiant yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn cynllunio, rheoli a darparu gwasanaethau.

Yn ystod 2025/26, bu ffocws penodol ar gryfhau trefniadau llywodraethu, gwella'r defnydd o ddata a datblygu diwylliant mwy rhagweithiol o ran rheoli risg. Er bod nifer yr adroddiadau damweiniau a digwyddiadau wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, mae nifer y digwyddiadau mwyaf difrifol wedi gostwng. Mae hyn yn awgrymu gwell ymwybyddiaeth a mwy o barodrwydd ymhlith staff i adrodd am ddigwyddiadau a methiannau agos, gan ddarparu gwybodaeth fwy cyflawn i gefnogi gwelliannau.

Mae gwaith y Modelau Diogelu wedi parhau ar draws gwasanaethau'r Cyngor, gyda dadansoddiadau'n cael eu rhannu gyda rheolwyr er mwyn adnabod cryfderau, meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at ddealltwriaeth fwy cyson o gyfrifoldebau iechyd a diogelwch ac wedi helpu gwasanaethau i gynllunio eu rhaglenni gwaith yn fwy effeithiol.

Yn ogystal, cyflwynwyd system ddigidol newydd ar gyfer adrodd damweiniau a digwyddiadau, gan roi mynediad gwell at wybodaeth reoli a galluogi adnabod tueddiadau a risgiau yn fwy amserol. Cynhaliwyd hefyd beilot o brofion alcohol a chyffuriau ar hap fel rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i sicrhau amgylchedd gwaith diogel a chefnogol.

Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus, cryfhau trefniadau rheoli iechyd a diogelwch, a chefnogi llesiant gweithwyr er mwyn darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol i bobl Gwynedd.


Ystadegau Damweiniau 2025/26

Yn ystod 2025/26, derbyniodd y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant gyfanswm o 4,347 o adroddiadau am ddigwyddiadau. Mae hyn yn parhau'r duedd o gynnydd graddol yn nifer yr adroddiadau a welwyd ers 2022/23.

Er bod y cynnydd hwn yn ymddangos yn sylweddol ar yr olwg gyntaf, mae'n debygol ei fod yn adlewyrchu gwell diwylliant adrodd ar draws y Cyngor yn hytrach na chynnydd cyfatebol mewn digwyddiadau difrifol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn codi ymwybyddiaeth, datblygu sgiliau rheolwyr a hyrwyddo pwysigrwydd cofnodi digwyddiadau a methiannau agos.

Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn, gan gynnwys ailgychwyn rhaglenni hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel yn dilyn y pandemig, gwaith parhaus i annog adrodd digwyddiadau treisgar o fewn gwasanaethau perthnasol, yn enwedig o fewn ysgolion, a'r hyfforddiant a ddarparwyd i reolwyr fel rhan o weithrediad y system adrodd digwyddiadau newydd yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.

Mae'r cynnydd yn nifer yr adroddiadau yn rhoi darlun mwy cyflawn o'r risgiau a'r digwyddiadau sy'n digwydd ar draws y Cyngor, gan alluogi gwasanaethau ac arweinwyr i adnabod tueddiadau, targedu mesurau rheoli a chefnogi gwelliant parhaus mewn iechyd a diogelwch.




Siart 1: Nifer y Digwyddiadau Fesul Blwyddyn


Gellir gweld yn Siart 1 hefyd nifer y digwyddiadau mwyaf difrifol, sef y rhai sy'n adroddiadwy dan Reoliadau Adrodd Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR). Yn ystod 2025/26, cofnodwyd 41 digwyddiad o'r fath.

Er bod cyfanswm nifer yr adroddiadau wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, nid yw'r cynnydd hwn wedi'i adlewyrchu yn nifer y digwyddiadau mwyaf difrifol. Yn wir, mae nifer yr adroddiadau RIDDOR wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod y cynnydd mewn adroddiadau yn debygol o adlewyrchu gwell ymwybyddiaeth a diwylliant adrodd cryfach ar draws y Cyngor, yn hytrach na chynnydd cyfatebol mewn digwyddiadau difrifol.

Yn dilyn cais gan aelodau'r Cabinet yn yr adroddiad blynyddol blaenorol, mae gwybodaeth fanwl bellach wedi'i chynnwys am niferoedd y digwyddiadau ar lefel adrannol. Mae Siart 2 yn dangos cyfanswm nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd o fewn pob adran, tra bod Siart 3 yn dangos nifer y digwyddiadau adroddiadwy o dan RIDDOR. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo i adnabod tueddiadau o fewn gwasanaethau unigol ac yn cefnogi'r broses o dargedu adnoddau, hyfforddiant a mesurau rheoli lle bo angen.



Siart 2: Nifer yr adroddiadau fesul adran a blwyddyn




Siart 3: Nifer yr adroddiadau RIDDOR fesul adran a blwyddyn

O ran y math o ddigwyddiadau sy'n cael eu hadrodd, gweler y ddwy siart ganlynol. Mae Siart 4 yn dangos y categorïau RIDDOR a ddefnyddiwyd i adrodd digwyddiadau yn ystod 2025/26, mewn cymhariaeth â'r blynyddoedd blaenorol.


Ar y cyfan, nid oes newid sylweddol yn y patrwm o flwyddyn i flwyddyn, gyda'r prif categorïau yn parhau'n gymharol gyson. Mae hyn yn awgrymu nad oes unrhyw risg newydd neu duedd anarferol wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, ac mae natur y digwyddiadau mwyaf difrifol yn debyg i'r hyn a welwyd yn hanesyddol.

Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod adnoddau, hyfforddiant a mesurau rheoli yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd risg sydd wedi bod yn gyson dros gyfnod o amser.



Siart 4: Categoriâu adroddiadau RIDDOR fesul blwyddyn

Yn **Siart 5**, gellir gweld y prif categorïau o ddigwyddiadau sy'n arwain at adroddiadau RIDDOR.



Siart 5: Categoriâu mwyaf cyffredin o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd o dan RIDDOR

Ym mis Tachwedd 2025, cychwynnwyd peilot ar gyfer y System Adrodd Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch newydd. Yn dilyn cyfnod llwyddiannus o dreialu, cyflwynwyd y system ar draws pob gwasanaeth ym mis Ionawr 2026. Er mwyn cefnogi'r gweithrediad, darparodd yr Uned Iechyd a Diogelwch hyfforddiant i 449 o reolwyr ac arweinyddion tîm, gyda rhagor o sesiynau wedi'u trefnu yn ystod 2026/27.

Mae'r system newydd yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen yn y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn monitro digwyddiadau iechyd a diogelwch. Mae'n darparu proses fwy syml a hygyrch ar gyfer adrodd digwyddiadau, yn gwella mynediad at wybodaeth reoli ac yn galluogi adnabod tueddiadau a meysydd risg yn fwy effeithiol.

Bwriedir recordio'r sesiynau hyfforddi er mwyn sicrhau bod y deunydd ar gael i reolwyr nad ydynt wedi gallu mynychu'r sesiynau byw, a bydd y cynnwys hefyd yn cael ei gynnwys yn rhaglen IOSH Rheoli'n Ddiogel ar gyfer rheolwyr newydd. Yn unol â'r cynllun gweithredu, y bwriad yw trosglwyddo'n llawn i'r system newydd o 1 Ebrill 2026, gyda'r system bapur a'r system ddigidol yn rhedeg ochr yn ochr tan hynny.

Mae'r system yn cynnwys nifer o nodweddion sydd wedi'u cynllunio i wella trefniadau rheoli digwyddiadau ar draws y Cyngor, gan gynnwys:

- ffurflenni adrodd ar-lein ar gael i bob aelod o staff drwy eu cyfrif Hunanwasanaeth;
- y gallu i adrodd damweiniau, digwyddiadau treisgar a digwyddiadau eraill sydd wedi cael effaith ar aelodau staff neu'r cyhoedd;
- trefniadau symlach ar gyfer adrodd methiannau agos a pheryglon, gan gefnogi dull mwy rhagweithiol o adnabod a rheoli risg;
- dangosfyrddau rheoli sy'n galluogi rheolwyr i fonitro digwyddiadau o fewn eu timau a'u gwasanaethau;
- proses ymchwilio safonol ar gyfer rheolwyr; a
- chyfleuster i gofnodi a monitro gweithredoedd gwella yn dilyn ymchwiliadau.

Gorfodaeth a Chydymffurfio

Yn ystod 2025/26, cynhaliodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) un ymweliad â Chyngor Gwynedd fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o fewn llywodraeth leol.

Roedd yr ymweliad yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â deddfwriaeth sy'n ymwneud â storio a defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion. Ymwelodd swyddogion AGID â Pharc Padarn, Parc Glynllifon a Gwasanaeth Cynnal Tiroedd yng Nghibyn er mwyn adolygu trefniadau storio, defnyddio a rheoli plaladdwyr.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys adolygu addasrwydd y storfeydd, cymhwysedd unigolion sy'n defnyddio'r cynhyrchion, trefniadau cadw cofnodion, cyflwr offer perthnasol a chydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol cysylltiedig.

Ar y cyfan, roedd canlyniad yr arolygiad yn gadarnhaol ac ni godwyd unrhyw faterion sylweddol oedd yn golygu bod angen camau gorfodi ffurfiol. Rhoddwyd cyngor llafar ar nifer fach o faterion gweinyddol ac ymarferol er mwyn cryfhau trefniadau ymhellach.

Roedd y prif argymhellion yn ymwneud â:

- arwyddion storio plaladdwyr;
- argaeledd offer brys, gan gynnwys golchi llygaid;
- darparu pecynnau gollyngiadau priodol;
- gwaredu cynnyrch heb ei labelu;
- sicrhau cysondeb mewn cofnodion chwistrellu.
- Mae gan Gyngor Gwynedd fis i weithredu'r cyngor llafar gan mai dim ond mân ganfyddiadau oeddynt.

Mae'r holl gamau gweithredu perthnasol wedi'u hadnabod a'u gweithredu o fewn yr amserlen a nodwyd gan AGID. Mae canlyniad yr arolygiad yn darparu sicrwydd bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli cynhyrchion diogelu planhigion yn gyffredinol yn effeithiol ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

Datblygu Capasiti a Chynaliadwyedd y Gwasanaeth

Yn ystod 2025/26, parhaodd y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant i ymateb i bwysau capasiti a'r galw cynyddol ar draws ystod eang o feysydd gwaith. Er gwaethaf newidiadau o fewn y gweithlu yn ystod y flwyddyn, mae'r gwasanaeth wedi parhau i gyflawni ei raglen waith a datblygu capasiti ar gyfer y dyfodol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, bu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus mewn cais am gyllid i sefydlu swydd Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Llesiant ychwanegol i gefnogi'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd y swydd newydd yn cryfhau capasiti'r gwasanaeth, yn darparu cefnogaeth fwy penodol i wasanaethau sy'n gweithredu mewn amgylcheddau cymhleth a gyda lefel uchel o gyfrifoldebau iechyd, diogelwch a llesiant.

Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi parhau i fuddsoddi mewn datblygu'r gweithlu drwy gefnogi hyfforddion proffesiynol o fewn y timau Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol. Mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu arbenigedd mewnol, cynllunio olyniaeth a sicrhau bod gan y gwasanaeth y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ymateb i ofynion y dyfodol.

Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus i sicrhau bod gan y gwasanaeth y capasiti, yr arbenigedd a'r gwydnwch angenrheidiol i gefnogi'r Cyngor wrth reoli ei gyfrifoldebau iechyd, diogelwch a llesiant.

Rhaglen Waith y Gwasanaeth: Iechyd a Diogelwch

Yn ystod 2025/26, parhaodd yr Uned Iechyd a Diogelwch i ddatblygu a chryfhau trefniadau iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor. Roedd y rhaglen waith yn cynnwys adolygu polisiau a gweithdrefnau, darparu hyfforddiant, datblygu systemau newydd a chefnogi gwasanaethau i reoli risgiau yn effeithiol. Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn.

Adolygu Polisiau a Gweithdrefnau

Yn ystod 2025/26, parhaodd yr Uned Iechyd a Diogelwch i adolygu a diweddarau polisiau a gweithdrefnau allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol, yn adlewyrchu arfer da, ac yn darparu canllawiau ymarferol i reolwyr a staff.

Cyflwynwyd y gweithdrefnau canlynol i'r Panel Iechyd, Diogelwch a Llesiant Corfforaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur, aelodau etholedig a swyddogion perthnasol o bob rhan o'r Cyngor:

- **Peiriannau ac Offer:** Gweithdrefn newydd sy'n egluro cyfrifoldebau rheolwyr a gweithwyr o ran defnyddio, archwilio a chynnal offer yn ddiogel, gan roi ffocws ar asesu risg, hyfforddiant a chydymffurfiaeth.
- **Lles Meddyliol:** Adolygwyd a chyfunwyd canllawiau presennol i greu un weithdrefn gynhwysfawr sy'n cyd-fynd â Chynllun Llesiant Staff y Cyngor ac sy'n cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i weithwyr a rheolwyr.

- **Gweithio o Uchder:** Diweddarwyd y weithdrefn yn sylweddol i gynnwys mwy o arweiniad ymarferol, enghreifftiau a mesurau rheoli sydd wedi'u cynllunio i helpu rheolwyr i leihau'r risg o anafiadau difrifol a marwolaethau.
- **Asesu Risg:** Adolygwyd y weithdrefn er mwyn darparu canllawiau cliriach ar gynnal asesiadau risg, defnyddio mesurau rheoli ac ystyried asesiadau risg deinamig.

Yn ogystal â'r gwaith uchod, adolygwyd nifer o weithdrefnau eraill gyda mân ddiwygiadau a diweddariadau, gan gynnwys:

- Gweithfannau Cyfrifiadurol
- Rheoli Contractwyr
- Ymyrraeth a Grym Rhesymol
- Profion PAT

Mae'r gwaith hwn yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn parhau i gefnogi rheolaeth effeithiol o iechyd a diogelwch, gan ddarparu canllawiau clir, cyson a chyfredol i reolwyr a gweithwyr ar draws y sefydliad.

Hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn parhau i fod yn elfen allweddol o raglen waith yr Uned, gan gefnogi rheolwyr a staff i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch. Yn ystod 2025/26, darparwyd amrywiaeth o gyrsgiau a sesiynau datblygu ar draws y Cyngor, gan ganolbwyntio ar gryfhau sgiliau rheoli risg, gwella cydymffurfiaeth a chefnogi diwylliant cadarnhaol o iechyd a diogelwch.

Dyma'r gyrsgiau a ddarparwyd yn 2025/26 a'r niferoedd a gafodd eu hyfforddi:

- **IOSH: Rheoli'n Ddiogel**

Mae IOSH: Rheoli'n Ddiogel yn parhau i fod yn gwrs craidd i reolwyr a goruchwylwyr, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o gyfrifoldebau iechyd a diogelwch a'u gallu i reoli risgiau yn effeithiol.

Yn ystod 2025/26:

- Cynhaliwyd 8 cwrs llawn a 4 cwrs diweddarau;
- Cymhwyswyd 147 o reolwyr;
- Mae 70% o reolwyr a staff perthnasol bellach yn meddu ar dystysgrif ddilys.

Un o'r prif heriau sy'n parhau yw sicrhau bod rheolwyr yn gallu neilltuo amser i fynychu hyfforddiant gorfodol ac argymelledig yng nghyd-destun pwysau gweithredol a chapasiti gwasanaethau. Er bod darpariaeth hyfforddiant ar gael, nid yw pob cwrs yn cael ei redeg i'w gapasiti llawn. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i fonitro lefelau presenoldeb ac yn gweithio gyda Phenaethiaid Adran i sicrhau bod datblygu cymhwysedd iechyd a diogelwch yn cael ei ystyried yn elfen hanfodol o reolaeth effeithiol a lleihau risgiau gweithredol.

- **I-Act**

Mae hyfforddiant I-Act yn parhau i fod yn elfen bwysig o ymrwymiad y Cyngor i gefnogi iechyd meddwl a llesiant yn y gweithle. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i ddatblygu sgiliau rheolwyr ac arweinwyr tîm i adnabod arwyddion cynnar o bryderon llesiant ac i gynnal sgysgiau cefnogol gyda staff pan fo angen.

Yn ystod 2025/26:

- Cynhaliwyd 8 cwrs;
- Cymhwyswyd 78 o reolwyr ac arweinwyr tîm;

Mae 49% o'r rheolwyr a staff perthnasol bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn parhau i gydweithio â'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu er mwyn hyrwyddo'r rhaglen yn ehangach a chynyddu lefelau cyfranogiad ar draws y sefydliad.

Mae'r hyfforddiant hwn yn cyfrannu at ddatblygu diwylliant lle mae iechyd meddwl a llesiant yn cael eu hystyried yn rhan annatod o reoli pobl yn effeithiol, gan roi mwy o hyder i reolwyr wrth gefnogi aelodau eu timau.

• **Rheoli Safle**

Darperir y cwrs Rheoli Safle ar y cyd â'r Adran Tai ac Eiddo ac mae'n canolbwyntio ar reoli risgiau safle allweddol megis tân, asbestos a chlefyd y llengfilwyr.

Yn ystod 2025/26:

- Cynhaliwyd 7 cwrs;
- Cwblhaodd 41 o reolwyr yr e-ddysgu diweddar;
- Cymhwyswyd 142 o reolwyr;
- Mae 60% o'r rheolwyr perthnasol wedi cwblhau'r hyfforddiant neu'r diweddariad o fewn y tair blynedd diwethaf.

• **Symud a Thrin**

Parhaodd yr Uned i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant symud a thrin er mwyn lleihau'r risg o anafiadau i staff a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ystod 2025/26:

- Cynhaliwyd 42 cwrs symud a thrin gwrthrychau;
- Cynhaliwyd 47 cwrs symud a thrin pobl;
- Cynhaliwyd 1 cwrs symud a thrin mewn argyfwng;
- Cymhwyswyd cyfanswm o 648 aelod o staff.

Mae'r niferoedd hyn yn parhau i ddangos lefel uchel o alw am yr hyfforddiant ar draws y Cyngor.

• **Adrodd Digwyddiadau (Damweiniau a Methiannau Agos)**

Yn dilyn cyflwyno'r System Adrodd Digwyddiadau newydd, datblygwyd rhaglen hyfforddi benodol i sicrhau bod rheolwyr ac arweinwyr tîm yn gallu defnyddio'r system yn effeithiol a chefnogi eu timau i adrodd digwyddiadau.

Yn ystod 2025/26:

- Cynhaliwyd 29 sesiwn hyfforddi;
- Hyfforddwyd 458 o reolwyr ac arweinwyr tîm.

Mae'r hyfforddiant hwn wedi bod yn elfen allweddol o weithrediad llwyddiannus y system newydd ac wedi cyfrannu at gryfhau'r diwylliant adrodd ar draws y Cyngor.

Yn gyffredinol, mae'r rhaglen hyfforddi wedi parhau i gefnogi datblygiad sgiliau a chymhwysedd rheolwyr a staff ar draws y Cyngor. Mae'r lefel uchel o gyfranogiad yn dangos ymrwymiad parhaus i gryfhau trefniadau iechyd a diogelwch a sicrhau bod

gweithwyr yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau yn ddiogel ac effeithiol.

System Ddigidol Iechyd a Diogelwch

Mae cam cyntaf y System Ddigidol Iechyd a Diogelwch bellach wedi'i weithredu ar draws y Cyngor. Mae'r system yn galluogi pob aelod o staff i adrodd digwyddiadau ar-lein drwy Hunanwasanaeth Staff, tra bod rheolwyr a phenaethiaid yn gallu monitro gwybodaeth a thueddiadau perthnasol drwy ddangosfyrddau rheoli pwrpasol.

Yn dilyn cyflwyno'r system yn chwarter olaf 2025/26, gwelwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau a adroddwyd (gweler Siart 1). Fodd bynnag, ni welwyd cynnydd cyfatebol yn nifer y digwyddiadau mwyaf difrifol, gyda nifer y digwyddiadau RIDDOR yn gostwng yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn awgrymu bod y system newydd wedi cyfrannu at gryfhau'r diwylliant adrodd ar draws y Cyngor, gan ei gwneud yn haws i staff gofnodi digwyddiadau a methiannau agos yn brydlon.

Mae'r system hefyd yn darparu gwell mynediad at wybodaeth reoli, gan alluogi gwasanaethau i adnabod tueddiadau, monitro perfformiad ac ymateb yn fwy effeithiol i risgiau iechyd a diogelwch.

Y cam nesaf fydd datblygu ail ran y system er mwyn darparu lle canolog ar gyfer rheoli asesiadau risg, archwiliadau a gwybodaeth iechyd a diogelwch arall. Bydd amserlen y datblygiad hwn yn ddibynnol ar flaenoriaethau ehangach y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn ystod 2026/27. Fodd bynnag, mae'r sylfeini bellach wedi'u gosod ar gyfer datblygu system gorfforaethol fwy integredig a fydd yn cefnogi trefniadau rheoli iechyd a diogelwch y Cyngor yn y tymor hir.

Gweithio'n Unig

Yn ystod 2025/26, parhaodd y grŵp gweithio'n unig i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor i adnabod a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithwyr sy'n cyflawni eu dyletswyddau ar eu pennau eu hunain. Cafodd adolygiad corfforaethol ei gynnal ar draws adrannau'r Cyngor i adnabod swyddi lle nad oedd yn bosibl dileu neu leihau'r holl risgiau i lefel dderbyniol drwy fesurau rheoli arferol.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, nodwyd bod angen darparu 131 o ddyfeisiau diogelwch personol ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Penderfynwyd ar hyn yn dilyn adolygiad o'r risgiau gweddilliol sy'n parhau mewn rhai gweithgareddau, er gwaethaf mesurau rheoli priodol. Mewn nifer o achosion, bydd y dyfeisiau'n cael eu rhannu rhwng gweithwyr yn hytrach na'u dyrannu i unigolion penodol, gan adlewyrchu anghenion gweithredol y gwasanaethau perthnasol.

Fel rhan o ddyletswydd gofal y Cyngor, bu gwaith i adnabod datrysiad addas fyddai'n galluogi gweithwyr i alw am gymorth yn gyflym mewn argyfwng a darparu trefniadau monitro priodol. Yn dilyn gwerthusiad o nifer o ddarparwyr, penderfynwyd cydweithio â Chyngor Conwy i weithredu system sy'n diwallu anghenion y ddau awdurdod ac sy'n darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r trefniadau gweithredol bellach yn cael eu cwblhau, gyda hyfforddiant i reolwyr wedi'i drefnu a'r broses o gyflwyno'r dyfeisiau yn mynd rhagddi. Disgwylir y bydd y datblygiad hwn yn cryfhau trefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu gweithwyr sy'n wynebu'r risgiau mwyaf wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Modelau Diogelwch

Yn ystod 2025/26, parhaodd gwaith y Modelau Diogelwch fel rhan o'r ymdrech ehangach i gryfhau diwylliant iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor. Cynhaliwyd dadansoddiad o'r holiadur Modelau Diogelwch, gyda'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r rhan fwyaf o adrannau'r Cyngor erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r gwaith wedi darparu darlun cliriach o gryfderau presennol, meysydd i'w datblygu a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gefnogi gwelliant pellach. Mae hefyd wedi helpu gwasanaethau i asesu eu trefniadau presennol yn erbyn safonau'r Modelau Diogelwch a nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Mae cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei fonitro drwy'r Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Er mwyn cryfhau trefniadau monitro a sicrhau trosolwg corfforaethol o gynnydd, cytunwyd i gofnodi'r prosiect a'r gweithredoedd cysylltiedig drwy Microsoft Planner. Bydd hyn yn galluogi gwasanaethau a'r Fforwm Corfforaethol i olrhain cynnydd, rhannu arfer da a monitro datblygiadau mewn modd mwy cyson ar draws y sefydliad.

Disgwylir i'r gwaith hwn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi newid diwylliannol hirdymor, gan helpu gwasanaethau i ddatblygu trefniadau mwy aeddfed ac effeithiol ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch a chyrraedd y safonau a nodir o fewn y Modelau Diogelwch.

Alcohol a Chyffuriau

Yn ystod 2025/26, parhaodd y gwaith o weithredu'r Polisi Alcohol a Chyffuriau, a ddatblygwyd drwy broses gydweithredol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur o gamau cynnar yr adolygiad. Roedd y dull partneriaeth hwn yn allweddol wrth sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu anghenion y gwasanaethau, y gweithlu a chyfrifoldebau'r Cyngor fel cyflogwr.

Yn dilyn cymeradwyaeth y polisi gan y Panel Iechyd, Diogelwch a Llesiant Corfforaethol, bu gwaith pellach i sicrhau bod categorïau swyddi perthnasol yn cael eu hadolygu a'u cofnodi o fewn systemau'r Cyngor. Yn ystod 2025, cynhaliwyd cyfnod pellach o ymgysylltu a chyfathrebu gyda rheolwyr er mwyn cefnogi gweithrediad cyson y trefniadau newydd ar draws gwasanaethau.

Fel rhan o'r broses weithredu, cynhaliwyd peilot o brofion alcohol a chyffuriau ar hap. Roedd y peilot yn llwyddiannus ac yn darparu gwybodaeth werthfawr ynghylch gweithrediad y trefniadau newydd. Yn ogystal, bu'r peilot yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o'r polisi ac yn creu cyfleoedd i weithwyr gael gwell dealltwriaeth o'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu i gefnogi iechyd, diogelwch a lesiant yn y gweithle.

Lle nodwyd bod angen cefnogaeth neu gyngor ychwanegol, roedd trefniadau priodol ar waith i gyfeirio unigolion at wasanaethau perthnasol, gan gynnwys yr Uned Iechyd Galwedigaethol. Mae hyn yn adlewyrchu egwyddorion craidd y polisi, sef hyrwyddo amgylchedd gwaith diogel tra'n sicrhau bod cymorth priodol ar gael i weithwyr pan fo angen.

Mae'r gwaith hwn wedi helpu i gryfhau trefniadau'r Cyngor yn y maes hwn drwy gyfuno mesurau rheoli risg gyda dull cefnogol sy'n rhoi pwyslais ar lesiant, ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd.

Symud a Thrin Pobl

Ar y cyd â'r Gwasanaeth Datblygu Gweithlu yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, mae'r Hyfforddwr Symud a Thrin wedi cyfrannu at brosiect i gryfhau safonau hyfforddiant symud a thrin pobl, gan ganolbwyntio'n benodol ar y Gwasanaeth Preswyl gyda'r bwriad o ddatblygu'r dull yn ehangach ar draws y Cyngor.

Fel rhan o'r gwaith hwn, bu'r Adran Oedolion yn buddsoddi mewn hyfforddiant BTEC Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gyfer gweithwyr allweddol o fewn cartrefi preswyl. Roedd hyn yn gyfle i ddatblygu arbenigedd lleol o fewn y gwasanaethau, gan gynyddu'r gallu i gefnogi a datblygu staff yn y gweithle.

Er mwyn sicrhau cysondeb o ran safonau a chynnwys yr hyfforddiant, bu'r Hyfforddwr Symud a Thrin yn cydweithio â'r Arweinydd Tîm Therapyddion Galwedigaethol i ddatblygu canllawiau safonol ar gyfer gweithgareddau symud a thrin cyffredin. Mae'r gwaith hwn yn darparu fframwaith cyson ar gyfer hyfforddi, asesu cymhwysedd a chefnogi arferion gwaith diogel ar draws gwasanaethau.

Yn ystod 2026/27, bwriedir cyflwyno ffolder hyfforddi safonol i'r gweithwyr allweddol hyn, gyda'r deunydd yn cael ei ddatblygu ymhellach dros amser. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu arweiniad ymarferol i staff newydd, cynnal gwiriadau cymhwysedd a chyfrannu at ddatblygu asesiadau risg symud a thrin cyson a chadarn.


Disgwylir i'r gwaith hwn gryfhau trefniadau llywodraethu a sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y mae hyfforddiant symud a thrin pobl yn cael ei ddarparu ar draws y gwasanaethau perthnasol.

Rhaglen Waith y Gwasanaeth: Iechyd Galwedigaethol

Mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth gefnogi iechyd a llesiant gweithwyr Cyngor Gwynedd.

Yn ystod 2025/26, derbyniodd yr Uned gyfanswm o 1,079 o gyfeiriadau, o'i gymharu â 1,052 yn ystod 2024/25. Mae hyn yn cynrychioli'r ail flwyddyn yn olynol o gynnydd yn y nifer o gyfeiriadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth.

Mae'r cynnydd yn y nifer o gyfeiriadau yn debygol o adlewyrchu defnydd cynyddol o'r gwasanaeth gan reolwyr, ynghyd â gweithrediad y system salwch staff sydd yn annog ac yn atgoffa rheolwyr i wneud cyfeiriadau ar adegau priodol. Mae hyn wedi cyfrannu at sicrhau bod gweithwyr yn cael mynediad at gyngor a chefnogaeth yn fwy amserol.



Cyfeiriadau Iechyd Galwedigaethol 2021/22 - 2025/26

Er bod y cynnydd mewn cyfeiriadau yn dangos bod gweithwyr a rheolwyr yn manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael, mae hefyd wedi dod law yn llaw â chynnydd yng nghymhlethdod rhai achosion. Roedd 36% o'r cyfeiriadau yn ymwneud â straen personol a 13% yn ymwneud â straen sy'n gysylltiedig â gwaith.

Mae materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, llesiant a straen yn parhau i gyfrif am gyfran sylweddol o waith yr Uned, gyda nifer o achosion yn gofyn am gefnogaeth ac ymyrraeth dros gyfnod estynedig.

Mae'r cynnydd mewn cyfeiriadau a chymhlethdod rhai achosion yn adlewyrchu heriau ehangach sy'n cael eu profi gan gyflogwyr ledled Cymru a Phrydain. Mae ystadegau cenedlaethol yn dangos bod straen, iselder a gorbryder sy'n gysylltiedig â gwaith yn parhau i gynyddu ac yn cynrychioli'r categori mwyaf o salwch sy'n gysylltiedig â gwaith ym Mhrydain.

Mae'r duedd hon yn atgyfnerthu pwysigrwydd y gwaith ataliol sy'n cael ei wneud ar draws y Cyngor mewn perthynas â llesiant staff, datblygu rheolwyr a chynnal trefniadau cymorth effeithiol i'r gweithlu.

Gwylidwriaeth Iechyd

Mae profion gwylidwriaeth iechyd yn parhau i fod yn elfen hanfodol o waith statudol yr Uned, gan sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac yn diogelu iechyd y gweithlu.

Yn ystod 2025/26, cyflawnwyd carreg filltir bwysig i'r gwasanaeth gyda'r penderfyniad i sefydlu swydd y Swyddog Iechyd Galwedigaethol ar sail barhaol. Mae hyn yn darparu sefydlogrwydd hirdymor i'r gwasanaeth ac yn cryfhau gallu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol ym maes gwylidwriaeth iechyd.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd 439 o unigolion brofion gwylidwriaeth iechyd. Yn dilyn newidiadau i'r gofynion a'r canllawiau perthnasol, mae angen galw 350 o unigolion yn ôl

am brofion clyw ychwanegol yn gynt nag a ragwelwyd yn flaenorol. Mae hyn yn cyfateb i tua 79% o'r unigolion a gafodd eu cynnwys yn y rhaglen.

Mae cynnal rhaglen wylidwriaeth iechyd gadarn yn parhau i fod yn elfen bwysig o gyfrifoldebau statudol y Cyngor. Mewn ymateb i'r galw cynyddol a'r angen i gynnal trefniadau effeithiol yn y tymor hir, mae'r Uned wedi cryfhau ei phrosesau gweinyddol a monitro, gwella trefniadau cofnodi a chynyddu capasiti er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei gweithredu'n effeithiol ac yn gynaliadwy.

Mae sefydlu swydd y Swyddog Iechyd Galwedigaethol ar sail barhaol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'r gwasanaeth ymhellach a sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn y maes hwn.

Llesiant Staff

Mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi parhau i gydweithio'n agos gydag Adnoddau Dynol ac adrannau gwasanaeth i gefnogi iechyd a llesiant gweithwyr ar draws y Cyngor.

Yn ystod 2025/26, bu ffocws penodol ar ddefnyddio gwybodaeth am absenoldebau salwch i adnabod gwasanaethau a lleoliadau lle'r oedd lefelau salwch yn uwch na'r disgwyl. Mewn ymateb, cynhaliwyd ymweliadau wedi'u targedu gan y gwasanaeth i ddarparu gwiriadau iechyd a chodi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i weithwyr.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd sesiynau mewn nifer o ysgolion, gan gynnwys Ysgol Friars, Ysgol Tryfan ac Ysgol y Moelwyn, yn dilyn trafodaethau gyda'r gwasanaethau perthnasol ac adolygu data absenoldebau lle bo hynny'n briodol.

Yn ogystal â'r gwaith uniongyrchol hwn, parhaodd yr Uned i gefnogi'r rhaglen Llesiant gorfforaethol drwy gyfrannu at ymgyrchoedd cyfathrebu ac ymwybyddiaeth staff, gan gynnwys:

- Mis Ymwybyddiaeth Straen a Chodi Ymwybyddiaeth Canser (Ebrill 2025)
- Wythnos Iechyd Meddwl (Mai 2025)
- Ymwybyddiaeth Hyrwyddwyr Llesiant (Mehefin 2025)
- Hyrwyddo gwasanaeth MEDRA a'r trefniadau cyfeirio newydd (Gorffennaf 2025)
- Ymgyrch "Know Your Numbers" a gwiriadau pwysedd gwaed (Medi 2025)
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd (Hydref 2025)
- Wythnos Ymwybyddiaeth Straen (Tachwedd 2025)
- Ionawr Sych ac Ionawr Glas (Ionawr 2026)
- Ymwybyddiaeth o raglenni sgrinio cenedlaethol (Chwefror 2026)

Mae'r gwaith hwn yn rhan o ymdrech ehangach i gefnogi iechyd a llesiant gweithwyr, gwella mynediad at wybodaeth a chefnogaeth, a helpu gwasanaethau i fynd i'r afael â materion a all gyfrannu at absenoldebau salwch.

Yn ogystal â'r gwaith a gyflawnir ar ran Cyngor Gwynedd, llwyddodd y Gwasanaeth i sicrhau estyniad pellach i'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o'r trefniant hwn, mae'r Uned yn darparu gwasanaethau iechyd Galwedigaethol i'r awdurdod, gan gynnwys cynnal dau glinig wythnosol ar safleoedd Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r trefniant yn adlewyrchu'r hyder parhaus yn ansawdd a phroffesiynoldeb y gwasanaeth a ddarperir gan y tîm.

Mae'r rhaglen waith hon yn adlewyrchu dull integredig o gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant gweithwyr y Cyngor. Mae'r cydweithio rhwng Iechyd Galwedigaethol, Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu yn parhau i fod yn ffactor allweddol wrth

ymateb i anghenion newidiol y gweithlu a datblygu diwylliant sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd, diogelwch a llesiant.

Archwiliadau Systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch

ISO 45001

Mae achrediad ISO 45001 yn parhau i fod yn gydnabyddiaeth bwysig o safonau rheoli iechyd, diogelwch a llesiant o fewn Cyngor Gwynedd. Ar hyn o bryd, mae'r system yn cael ei gweithredu o fewn yr Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC, gyda BSI yn cynnal archwiliadau allanol a monitro'r system bob chwe mis.

Yn ystod 2025/26, llwyddodd yr Adran i gynnal ei hachrediad ISO 45001, ac ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol yn ystod yr archwiliadau allanol. Yn ogystal, parhaodd yr Adran i gynnal rhaglen o archwiliadau mewnol, adolygiadau rheolaidd o'r gofrestr risg, a thrafodaethau drwy'r fforymau perthnasol er mwyn sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch yn parhau i fod yn effeithiol.

Er i'r archwiliadau nodi rhai meysydd lle gellid cryfhau trefniadau ymhellach, gweithredwyd camau priodol i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr Adran i welliant parhaus a chynnal safonau uchel o reoli iechyd a diogelwch.

Mae'r system ISO 45001 yn parhau i ddarparu sicrwydd annibynnol bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yr Adran yn gweithredu'n effeithiol, tra hefyd yn cefnogi'r gwaith ehangach o ddatblygu a gwella trefniadau iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor.

Rheoli Safle Preswyl

Yn ystod 2025/26, cynhaliodd swyddogion archwiliadau o'r trefniadau rheoli safle o fewn cartrefi preswyl y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys adolygu cynnwys y "bocsys glas", sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol a dogfennaeth berthnasol ar gyfer rheoli risgiau safle megis tân, asbestos a chlefyd y llengfilwyr.

Ar y cyfan, roedd yr archwiliadau yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau rheoli safle yn effeithiol, gyda'r rhan fwyaf o'r dogfennau, cofnodion a gwiriadau statudol yn gyfredol ac yn cael eu cynnal fel sy'n ofynnol.

Fodd bynnag, nodwyd nifer fechan o feysydd lle'r oedd angen cryfhau trefniadau ymhellach. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod rhai polisiau a chynlluniau rheoli yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n brydlon, ynghyd â sicrhau cysondeb yn y broses o gwblhau a chofnodi rhai gwiriadau tân a chlefyd y llengfilwyr.

Rhodddwyd adborth ac argymhellion i'r rheolwyr safle perthnasol, a rhannwyd adroddiad cryno o'r canfyddiadau gyda'r rheolwyr ardal. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i gefnogi gwelliant parhaus a sicrhau bod safonau rheoli safle yn parhau'n gyson ar draws y gwasanaeth.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd



Teitl yr eitem:	Adroddiad Monitro Blynnyddol - Cynllun Datblygu Lleol 2025-26
Aelod Cabinet:	Cyng. Craig ab Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd
Swyddog perthnasol:	Gareth Jones, Pennaeth Adran Gynorthwyol
Dyddiad y cyfarfod:	13 Hydref, 2026

1. PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cabinet yn derbyn Adroddiad Monitro Blynnyddol 8 (Atodiad 1) a chytuno i gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2026.

2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 2.1 Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan yr angen i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn flynyddol ac i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynnyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref yn flynyddol.
- 2.2 Fel gyda'r ddau Adroddiad Monitro Blynnyddol blaenorol, gan fod trefniant cyd-weithio rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar faterion Polisi Cynllunio bellach wedi dod i ben, mae cynnwys yr AMB yma yn canolbwyntio ar dystiolaeth sydd yn benodol berthnasol i Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dystiolaeth werthfawr i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i Wynedd.
- 2.3 Mae'r Adroddiad yn cyflwyno'r wythfed Adroddiad Monitro Blynnyddol sydd yn berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026 ynghyd a sylwadau'r Gweithgor Polisi Cynllunio ar y ddogfen.

3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG



3.1 Cefndir

Y Fframwaith Fonitro (Pennod 7 yn y Cynllun)

- 3.1.1 Mae'r AMB yn sail tystiolaeth bwysig ar gyfer adolygu'r CDLI ar y Cyd a dros amser gall AMB ddangos tueddiadau, adnabod unrhyw bolisiâu sydd yn cyflawni ai peidio, ac amlygu unrhyw wagle neu ddiffyg o ran polisi. Mae gan CDLI ar y Cyd Gwynedd a Môn fframwaith fonitro sydd wedi ei gytuno efo'r

Arolygydd yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus. Mae'r fframwaith i'w weld ym mhennod 7 o'r CDLI ar y Cyd. Mae 70 o ddangosyddion, sydd yn adrodd ar y 5 thema sydd yn y CDLI ar y Cyd.

- 3.1.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiâu ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Symbol	Disgrifiad	Nifer o Ddangosyddion
	Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau.	29
	Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi.	19
	Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyledig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi.	5
	Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin.	2
Dangosyddion sydd wedi ei gyflawni		12
Dangosyddion nad oes angen adrodd arnynt (perthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn)		3

- 3.1.3 Mae yna ddisgwyliad i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion craidd yn ymwneud â'r canlynol:

Dangosyddion Craidd

Dangosydd craidd	Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro
Dosbarthiad gofodol datblygiad tai	D25
Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyledig.	D47

Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronol disgwyledig.	D44
Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun.	D47
Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth).	Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd.
Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau.	D32 & D33
Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai.	D50
Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai.	D45 & D46*
Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol.	Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd.
Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu.	D56*, D57 & D58
Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2.	D18

*Ddim yn cael ei adrodd arnynt, gan eu bod yn benodol berthnasol i Ardal Awdurdod cynllunio Lleol Cyngor Sir Ynys Môn.

3.1.4 Mae gweddill y dangosyddion sydd i'w gweld yn Fframwaith Fonitro'r CDLI ar y Cyd yn rhai sydd yn benodol i ardal y CDLI y Cyd.

3.1.5 Mae'r tabl isod yn nodi'r weithred sydd yn y Fframwaith Fonitro. Gall gweithrediadau eraill fod yn berthnasol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, e.e. diwygio Canllaw Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd. Mae gweithred wedi cael ei nodi yn erbyn bob un dangosydd yn yr AMB fel rhan o'r dadansoddiad. Mae ambell ddangosydd wedi derbyn y lliw llwyd gan fod y dangosydd wedi cael ei chyflawni e.e. mabwysiadu CCA. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r gweithredu yn dilyn asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro:

Asesiad	Gweithred	Nifer o ddangosyddion yn y categori
Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisiau CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol	Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro	42

Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisiâu yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir	Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod	0
Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol.	Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol.	0
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod.	Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun.	13
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu	Adolygu'r polisi yn unol â hynny	0
Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu	Adolygu'r Cynllun	0
Targed wedi ei gyflawni.	Dim angen gweithrediad pellach.	15

3.1.6 Casgliadau Allweddol yr AMB

1. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 215 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2025/26. Gweler dosbarthiad y caniatadau hyn yn Atodiad 2 o'r AMB. Roedd 145 uned (67.4%) ar gyfer tai fforddiadwy.
2. Cwblhawyd 118 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma.
3. Cwblhawyd 91 o unedau tai fforddiadwy yn 2025-26 sydd yn 77% o'r holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn

cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun.

4. Nodir bod 2805 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2025/26, tra bod y taflwybr yn y Cynllun (wedi ei gyfleu i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd) yn nodi ffigwr cwblhau o 3712 o unedau erbyn y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 24.4% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
5. Mae 52.1% o'r unedau tai¹ a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynnyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 21.4% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 26.5% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
6. Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynnyddol (2025-26), mae 32.2% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
7. Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod y cyfnod AMB yw 19.93 o unedau fesul hectar.
8. Caniatawyd 5 safle eithrio tai fforddiadwy yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynnyddol (cyfanswm o 46 uned ar y safleoedd a ganiatawyd).
9. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw uned marchnad leol o'r newydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynnyddol. Ni chwblhawyd yr un uned marchnad leol yng nghyfnod yr AMB hwn o fewn yr ardal hon.
10. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 80% o ganiatadau tai ar safleoedd o'r newydd (heb gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi cynnwys y lefel ddisgwyliedig o dai fforddiadwy ar y safle.
11. Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy yn 55.8%.
12. Derbyniodd y Cyngor 18 Apêl yn ystod y cyfnod monitro efo 7 yn cael ei ganiatáu. Mae 3 o'r apelïadau a ganiatawyd yn ymwneud a materion dylunio ac effaith y bwriad ar fwynderau cyfagos. Rhain felly yn faterion goddrychol ac felly ddim yn tanseilio unrhyw bolisi yn y Cynllun. Mae un penderfyniad arall wedi ei ganiatáu ar sail yr ystyrir y bwriad i fod yn uned is-rannol i'r tŷ presennol ac felly ddim yn creu uned annibynnol yng nghefn gwlad. Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau presennol y Cynllun. Roedd un penderfyniad wedi caniatáu darparu uned fwy yn lle'r uned i'w ddymchwel ar sail na fyddai yn cael effaith weledol arwyddocaol, gyda penderfyniad arall yn gwyro oddi ar y CDLI ar y Cyd ar sail peidio gorfod darparu uned fforddiadwy mewn bwriad i newid defnydd yng nghefn

¹ Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

gwlad. Credir felly bydd angen ystyried goblygiadau'r dyfarniadau hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Yn yr un modd byddai angen ystyried y penderfyniad apêl a nododd nad oedd niwed sylweddol i'r iaith Gymraeg o fwriad preswyl o gofio pwysigrwydd y mater hwn wrth baratoi Cynllun newydd.

13. Un o amcanion strategol y CDLI ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig. Mae'r amcan hynny wedi bod yn weddol llwyddiannus yn ystod cyfnod AMB, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer ambell i ddefnydd cyflogaeth sy'n cynnwys swyddfeydd masnachol, defnydd swyddfa ac unedau swyddfa symudol (a lle parcio ar gyfer staff).
 14. O'r ceisiadau cafodd ei gyflwyno efo datganiad neu asesiad ieithyddol, cafodd 3 cais ei wrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a chafodd 8 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.
- 3.1.7 Bydd casgliadau'r AMB yma ynghyd a'r Adroddiadau Monitro Blyneddol blaenorol yn darparu sail tystiolaeth bwysig wrth baratoi CDLI Newydd. Fel yr amlinellir uchod ac yn yr Adroddiad yn Atodiad 1 nid yw rhai targedau polisi yn cael eu cyrraedd, fodd bynnag, mae rhan helaeth o'r hyn yn ymwneud â materion sydd y tu allan i reolaeth y CDLI ar y Cyd. Mae'r CDLI ar y Cyd yn darparu fframwaith polisi i gefnogi datblygiadau priodol o fewn ardal y cynllun. Ble nad yw'r targed wedi ei gyflawni, mae hyn yn bennaf oherwydd ffactorau sydd tu hwnt i reolaeth y CDLI ar y Cyd. Fel sydd wedi ei osod allan yng nghasgliad yr Adroddiad Monitro Blyneddol fe fydd yr holl faterion sydd yn cael ei drafod yn yr AMB yn cael ei ystyried wrth baratoi'r sail tystiolaeth a fydd yn cefnogi polisiâu newydd y Cynllun Datblygu Lleol.

Adolygu'r Cynllun

- 3.1.8 Fel y mae'r aelodau'n ymwybodol mae gwaith wedi cychwyn ar baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Bydd tystiolaeth a chasgliadau'r AMB yn ffurfio rhan o'r sail tystiolaeth a fydd yn cyfrannu at baratoi'r cynllun newydd. Mae'r AMB hwn yn dilyn yr un fformat â'r rhai blaenorol ond mae'n adrodd ar berfformiad ACLI Gwynedd yn unig.
- 3.1.9 Ni fydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2017, yn rhan o'r cynllun datblygu statudol wedi'r 31 Rhagfyr 2026, oherwydd bydd ei gyfnod (2011-2026) wedi dod i ben o dan y darpariaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. O 1 Ionawr 2027, tan y caiff CDLI Gwynedd 2024-2039 ei fabwysiadu, bydd Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn gynllun datblygu statudol Gwynedd a rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â hi oni bai fod ystyriaethau materol yn nodi fel arall. Er na fydd gan y CDLI ar y Cyd statws cynllun datblygu

mwyach, bydd ei bolisiau'n dal yn ystyriaethau cynllunio materol os ydynt yn cyd-fynd â nodau a pholisiau Cymru'r Dyfodol.

Barn gyffredinol gan Weithgor Polisi Cynllunio

3.1.10 Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan aelodau'r Gweithgor. Mae cofnod llawn o sylwadau'r Gweithgor ynghyd a ymateb swyddogion iddynt i'w weld yn Atodiad 2.

1. Yr angen am fwy o gyd-destun a chymhariaeth dros amser

Nodwyd yr angen i gymharu canlyniadau'r AMB yn fwy cyson â blynyddoedd blaenorol er mwyn adnabod tueddiadau a materion sy'n gofyn am sylw. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i egluro'r camau nesaf, y prif risgiau a'r ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu ar berfformiad y Cynllun.

Awgrymwyd y dylai'r adroddiad roi mwy o sylw i'r ffactorau allanol a'r amgylchiadau ehangach sydd wedi dylanwadu ar y canlyniadau, megis sefyllfa prosiect Wylfa, er mwyn darparu darlun mwy cyflawn o'r rhesymau dros unrhyw fethiannau neu ddiffyg cynnydd yn erbyn y targedau.

2. Dangosydd D19

Gofynnwyd am eglurhad pellach ynghylch dangosydd D19 yr AMB, sy'n ymwneud â datblygiadau newydd ar safleoedd tir llwyd. Yn benodol, gofynnwyd pam fod statws y dangosydd wedi'i nodi mewn lliw oren (h.y. nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi) wrth ystyried fod yr Adroddiad yn nodi fod y wybodaeth ddim ar gael. Nid yw'n bosib dweud un ffordd neu'r llall, h.y. o bosib fod y dangosydd yn cyflawni, ond does dim gwybodaeth ar gael.

3. Priodoldeb targedau ac adolygu perfformiad y Cynllun

Nodwyd nad yw rhai o dargedau'r CDLI ar y Cyd ar gyfer twf poblogaeth a chyflogaeth wedi'u cyflawni. Nodwyd y dylid ystyried a yw rhai canlyniadau'n adlewyrchu diffygion yn y Cynllun neu'r rhagdybiaethau gwreiddiol yn hytrach na methiant wrth ei weithredu.

Tra nodwyd pwysigrwydd o gydnabod methiant dangosydd neu bolisi, amlygwyd hefyd fod dangosyddion yr AMB yn hollol ffeithiol. Amlygwyd bod canran uwch o unedau tai fforddiadwy wedi'u darparu nag a ragwelwyd, sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi amcanion strategol y Cyngor.

4. Goblygiadau ar gyfer y CDLI newydd a materion polisi

Trafodwyd goblygiadau perfformiad y Cynllun presennol ar gyfer paratoi'r CDLI newydd, gan gynnwys agweddau o safbwynt y Gymraeg, tai fforddiadwy, dwysedd datblygiadau preswyl, a'r berthynas rhwng twf economaidd, cyflogaeth a'r angen am dai. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod polisiau a thargedau'r Cynllun newydd yn adlewyrchu'r dystiolaeth yn realistig.

Gweithredu yn dilyn cyfarfod y Gweithgor

3.1.11 Yn sgil sylwadau'r Gweithgor, nodir yr ymateb canlynol gan gynnwys un diwygiad i'r AMB:

1. Mae perfformiad a llwyddiant y dangosyddion yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae angen adolygu canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynnyddol blaenorol yn eu cyfanrwydd wrth adnabod y meysydd hynny sydd angen eu diweddu neu eu hailystyried o fewn y CDLI newydd.
2. Gan nad oes dull clir ar hyn o bryd o fonitro na mesur llwyddiant dangosydd D19, ystyrir bod angen adolygu a chryfhau'r dangosydd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu sail fwy cadarn ar gyfer monitro perfformiad wrth symud ymlaen gyda'r CDLI newydd. Mae'r testun canlynol wedi ei ychwanegu i'r AMB i gyfarch y sylw hwn:

Gan nad yw'r wybodaeth ofynnol ar gael, nid yw'n bosibl asesu a yw'r dangosydd yn cael ei gyflawni ai peidio.

Bydd angen mynd i'r afael â'r mater hwn yn adroddiadau monitro'r CDLI newydd.

3. Mae amgylchiadau sy'n dylanwadu ar y CDLI ar y Cyd yn gallu newid ac mae proses statudol mewn lle i ddelio efo newidiadau a wynebwr. Noder bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi dangos ei allu i ymateb i amgylchiadau a newidiadau annisgwyl, gan gyfeirio at lwyddiant y ddarpariaeth tai fforddiadwy fel enghraifft o hyn. Amlygwyd bod polisiau cynllunio yn ddigon hyblyg i ddelio gyda amgylchiadau annisgwyl.
4. Cytuno bod angen ailedrych ar gynnwys y CDLI ar y Cyd presennol a'i holl bolisiau wrth baratoi Cynllun newydd. Mae'r AMB hwn ynghyd a'r ystod o rai blaenorol yn darparu gwybodaeth ffeithiol a fydd yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth wrth baratoi Cynllun newydd.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Mae'r Adroddiad Monitro Blynnyddol yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Bydd yn rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol

newydd. Fel sydd wedi nodi yn rhan 2 o'r adroddiad yma mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan yr angen i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn flynyddol ac i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynnyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref yn flynyddol.

3.3 Camau nesaf

- 3.3.1 Yn dilyn unrhyw newidiadau gall ddeillio o'r drafodaeth neu unrhyw fan newidiadau golygyddol bydd ei angen er gyfer cywirdeb, bydd fersiwn terfynol o'r Adroddiad Monitro Blynnyddol yn cael i baratoi a'i yrru i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2026.

4.0 Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

4.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynnyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2025-2026.

Atodiad 2 – Cofnodion Gweithgor Polisi Cynllunio (dyddiedig 16 Medi, 2026) mewn perthynas â'r eitem hon



Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Gwynedd a Môn
2011 - 2026

**8fed Ardoddiad Monitro Blynnyddol
GWYNEDD
1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026**




Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	1
Casgliadau Allweddol yr AMB.....	4
Adolygu'r Cynllun	6
Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC).....	6
PENNOD 1: CYFLWYNIAD	7
Beth yw'r AMB?	8
Dangosyddion	8
Trothwyon	9
Camau gweithredu	10
Adolygu'r Cynllun	11
Strwythur a chynnwys.....	12
PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL.....	13
Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL	13
CASGLIAD.....	16
PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION.....	17

CRYNODEB GWEITHREDOL



- i. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017. Mae ardal y CDLI ar y Cyd yn cynnwys Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Nid yw'n cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.



- ii. Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisiau, gweithredu polisiau, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLL ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 70¹ o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisiau. Mae'n cynnwys cyfres o dargedau ac yn diffinio trothwyon sy'n sbardun i arwain at weithredu pellach, pan fydd angen hynny. Cafodd y Fframwaith Monitro ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a ystyriwyd yn yr Archwiliad Cyhoeddus o'r CDLL ar y Cyd.
- iii. Fel rhan o broses statudol y Cynllun Datblygu, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB). Y Fframwaith Monitro yw sylfaen yr AMB. Bydd yr AMB yn cofnodi'r gwaith o asesu'r dangosyddion ac unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar weithredu'r CDLL ar y Cyd. Dros gyfnod amser mae'n gyfle i'r Cyngor asesu effaith y CDLL ar y Cyd ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Cynllun.
- iv. Hwn yw'r wythfed AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLL ar y Cyd gael ei fabwysiadu. Mae'r AMB hwn yn edrych ar y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2025 hyd at 31 Mawrth 2026 ac yn canolbwyntio'n benodol ar Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, gweler para 1.13 – 1.15. Mae'n ofynnol cyflwyno'r Adroddiad i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31 Hydref, 2026.
- v. Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Symbol	Disgrifiad	Nifer o Ddangosyddion
	Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau.	29
	Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi.	20

¹ Bydd AMB 7 yn adrodd ar 55 o ddangosyddion. Mae'r targed ar gyfer 5 o'r dangosyddion wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB1, 5 arall wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB2, 1 wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB3 ac 1 wedi ei gyrraedd yn ystod AMB6. Ymhellach roedd 3 o'r dangosyddion gwreiddiol yn berthnasol i ardal Cyngor Sir Ynys Môn yn benodol - nid oes angen parhau i fonitro'r dangosyddion yma.

	Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyledig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi.	5
	Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin.	1
	Dangosyddion sydd wedi ei gyflawni	12
	Dangosyddion and oes angen adrodd arnynt (perthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn)	3

vi. Ceir crynodeb byr o'r canlyniad o asesu'r dangosyddion yn y tabl canlynol:

Tabl A: Crynodeb o gasgliadau'r asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro

Asesiad	Gweithred	Nifer o ddangosyddion yn y categori
Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisiâu CDLL yn cael eu gweithredu'n effeithiol	Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro	42
Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisiâu yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir	Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod	0
Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol.	Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol.	0
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod.	Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar	13

	wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun.	
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu	Adolygu'r polisi yn unol â hynny	0
Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu	Adolygu'r Cynllun	0
Targed wedi ei gyflawni.	Dim angen gweithrediad pellach.	15

- vii. Fel y gwelir uchod, nid yw'r mwyafrif y dangosyddion angen unrhyw weithred bellach ar wahân i barhau i fonitro. Mae rhai dangosyddion wedi eu lliwio mewn llwyd gan eu bod wedi'u cyflawni. Gan nad oes angen unrhyw weithredu pellach nid ydynt wedi'u nodi uchod. Bydd y wybodaeth sydd yn deillio o'r AMB hyn ar rhai blaenorol yn sail tystiolaeth hanfodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- viii. Mae nifer bach o ddangosyddion yn ymwneud â pharatoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), a gweler nad yw'r gyfres o CCA wedi eu paratoi erbyn y dyddiad targed. Ym mhob achos, fodd bynnag, cofnodir rhesymau i gyfiawnhau'r oedi wrth baratoi'r CCA a dangosir byddant yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ble fo dangosydd yn ymwneud â CCA sydd wedi ei fabwysiadu mae'r weithred wedi ei liwio'n llwyd gan nad yw unrhyw weithredu pellach yn angenrheidiol mewn perthynas â'r dangosydd.
- ix. Wrth asesu perfformiad y CDLI ar y Cyd, yn ogystal ag ystyried y dangosyddion, mae rhaid i'r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid hefyd ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLI ar y Cyd.

Casgliadau Allweddol yr AMB

1. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 215 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2025/26. Gweler dosbarthiad y caniatadau hyn yn Atodiad 2 o'r AMB. Roedd 145 uned (67.4%) ar gyfer tai fforddiadwy.
2. Cwblhawyd 118 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma.
3. Cwblhawyd 91 o unedau tai fforddiadwy yn 2025-26 sydd yn 77% o'r holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun.

4. Nodir bod 2805 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2025/26, tra bod y taflwybr yn y Cynllun (wedi ei gyfleu i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd) yn nodi ffigwr cwblhau o 3712 o unedau erbyn y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 24.4% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
5. Mae 52.1% o'r unedau tai² a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 21.4% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 26.5% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
6. Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (2025-26), mae 32.2% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
7. Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod y cyfnod AMB yw 19.93 o unedau fesul hectar.
8. Caniatawyd 5 safle eithrio tai fforddiadwy yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol (cyfanswm o 46 uned ar y safleoedd a ganiatawyd).
9. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw uned marchnad leol o'r newydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Ni chwblhawyd yr un uned marchnad leol yng nghyfnod yr AMB hwn o fewn yr ardal hon.
10. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 80% o ganiatadau tai ar safleoedd o'r newydd (heb gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi cynnwys y lefel ddisgwyliedig o dai fforddiadwy ar y safle.
11. Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy yn 55.8%.
12. Derbyniodd y Cyngor 18 Apêl yn ystod y cyfnod monitro efo 7 yn cael ei ganiatáu. Mae 3 o'r apeliadau a ganiatawyd yn ymwneud a materion dylunio ac effaith y bwriad ar fwynderau cyfagos. Rhain felly yn faterion goddrychol ac felly ddim yn tanseilio unrhyw bolisi yn y Cynllun. Mae un penderfyniad arall wedi ei ganiatáu ar sail yr ystyrir y bwriad i fod yn uned is-rannol i'r tŷ presennol ac felly ddim yn creu uned annibynnol yng nghefn gwlad. Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau presennol y Cynllun. Roedd un penderfyniad wedi caniatáu darparu uned fwy yn lle yr uned i'w ddymchwel ar sail na fyddai yn cael effaith weledol arwyddocaol, gyda penderfyniad arall yn gwyro oddi ar y CDLL ar y Cyd ar sail peidio gorfod darparu uned fforddiadwy mewn bwriad i newid defnydd yng nghefn gwlad. Credir felly bydd angen ystyried goblygiadau'r dyfarniadau hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Yn yr un modd byddai angen ystyried y penderfyniad apêl a nododd nad oedd niwed sylweddol i'r iaith Gymraeg o fwriad preswyl o gofio pwysigrwydd y mater hwn wrth baratoi Cynllun newydd.

13. Un o amcanion strategol y CDLL ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig. Mae'r amcan hynny wedi bod yn weddol llwyddiannus yn ystod cyfnod AMB, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer ambell i ddefnydd cyflogaeth sy'n cynnwys swyddfeydd masnachol, defnydd swyddfa ac unedau swyddfa symudol (a lle parcio ar gyfer staff).
14. O'r ceisiadau cafodd ei gyflwyno efo datganiad neu asesiad ieithyddol, cafodd 3 cais ei wrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a chafodd 8 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.

Adolygu'r Cynllun


- x. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, mae'n rhaid adolygu Cynlluniau pob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Cafodd y cynllun presennol ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cafodd Adroddiad Adolygu ei baratoi. Casgliad yr Adroddiad Adolygu oedd gwneud Adolygiad Llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd. Yn dilyn hyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn oedd dirwyn y trefniant cydweithio i ben rhwng y ddau Gyngor a pharatoi Cynlluniau Datblygu ar wahân. Daeth y trefniant cydweithio i ben ar 31 Mawrth 2023 a sefydlwyd timau polisi newydd ar gyfer y ddau Gyngor. Fe fydd casgliadau'r holl AMB yn rhan o'r sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol newydd i'r ddau Gyngor. Er bod penderfyniad i baratoi CDLL ar wahân ar gyfer y ddau Gyngor, mae'r AMB hwn yn dilyn yr un fformat â'r rhai blaenorol, fodd bynnag mae AMB 6 - 8 yn canolbwyntio'n benodol ar Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad hwn yn ddefnyddiol fel tystiolaeth ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC)

- xi. Mae Atodiad 1 yn darparu asesiad manwl o berfformiad y CDLL yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nodwyd dangosyddion manwl i ddarparu tystiolaeth fwy penodol ar gyfer perfformiad y CDLL yn erbyn yr Amcanion AC a amlinellwyd yn y CDLL.

PENNOD 1: CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI ar y Cyd) a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017 yn darparu fframwaith defnydd tir a fydd yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu yn ardal y Cynllun ac o fewn oes y CDLI ar y Cyd (hyd at 2026). Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.



- 1.2 Mae Isadran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sydd yn berthnasol i'w CDLL ar ôl ei fabwysiadu a chadw llygad rheolaidd ar bob mater y disgwylir y bydd yn effeithio ar ddatblygiad ardal y CDLL ar y Cyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar beth ddylid ei gynnwys mewn AMB. Bydd angen cyflwyno'r AMB i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLL ar y Cyd, cyn belled bod blwyddyn ariannol gyfan (1 Ebrill - 31 Mawrth) wedi mynd heibio ers dyddiad mabwysiadu'r CDLL ar y Cyd.
- 1.3 Dyma'r wythfed AMB i'w baratoi ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae'r AMB hwn yn edrych y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2025 hyd at 31 Mawrth 2026. Mae'n ofynnol fod yr AMB yma (AMB8) yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2026.

Beth yw'r AMB?

- 1.4 Mae'r AMB yn darparu cyfle i gofnodi asesiadau o faterion pwysig a allai ddylanwadu ar y gallu i gyflawni'r CDLL ar y Cyd a chasgliadau'r gwaith hwnnw, yn ogystal â hygyrdd y CDLL ar y Cyd o safbwynt cynaliadwyedd. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i'r dadansoddiad parhaus o'r CDLL ar y Cyd. Fe fydd casgliadau'r AMBau yn rhan o sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi CDLL newydd. Mae Adolygiad wedi cael ei gynnal ag Adroddiad Adolygu wedi cael ei baratoi mae gwybodaeth bellach ym mharagraff 1.12 isod.
- 1.5 Y Fframwaith Monitro yw prif sylfaen yr AMB. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLL ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 69 (wedi ei ddiwygio i 70, gweler para 1.6 isod) o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisiau.

Dangosyddion

- 1.6 Mae yna ddisgwyliad o fewn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3) i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion allweddol yn ymwneud a'r canlynol:-

Tabl 1: Dangosyddion Craidd

Dangosydd craidd	Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro
Dosbarthiad gofodol datblygiad tai	D25

Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig.	D47
Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronol disgwyliedig.	D44
Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun.	D47
Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth).	Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd.
Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau.	D32 & D33
Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai.	D50
Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai.	D45 & D46*
Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol.	Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd.
Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu.	D56*, D57 & D58
Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2.	D18

*Ddim yn cael ei adrodd arnynt, gan eu bod yn benodol berthnasol i Ardal Awdurdod cynllunio Lleol Cyngor Sir Ynys Môn.

- 1.7 Mae'r Fframwaith Fonitro hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cynghorau sy'n ymwneud â chyd-destun ardal y CDLI ar y Cyd a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.
- 1.8 Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r llall. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bydd eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

Trothwyon

- 1.9 Mae gan bob un o'r dangosyddion drothwy penodol sy'n nodi ar ba adeg gallai fod angen rhoi ystyriaeth bellach i weithrediad y polisi a/neu ei asesu. Gallai hyn olygu bod rhaid cyflawni cynllun erbyn dyddiad penodol, os yw'r cynnydd yn syrthio o dan y gofyniad cronol dros gyfnod penodedig, neu os caniateir datblygiad yn groes i'r fframwaith polisi.

Unwaith cyrhaeddir y trothwy, mae'n rhaid ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i geisio unioni'r sefyllfa (gweler isod).



Camau gweithredu

- 1.10 Mae'r Fframwaith Monitro'n nodi ystod o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg casglu data neu ganlyniadau annisgwyl. Fe allai methiant a chyflawni targed penodol olygu fod y polisi hwnnw (neu'r Cynllun cyfan) angen bod yn destun adolygiad.
- 1.11 Mae Tabl 2 isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r monitro ac fe'u nodir yn y Fframwaith Monitro sydd ym Mhennod 7 y CDLI ar y Cyd. Mae sawl opsiwn posibl i helpu i ymdrin â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o beidio â chyflawni'n unol â'r disgwyl. Er mwyn cynorthwyo gyda'r dehongli ar y monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml, a ddangosir yn Nhabl 3 isod, i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio.

Tabl 2: Camau gweithredu posibl

Asesiad	Gweithred
Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol	Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro
Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir	Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod
Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol.	Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol.
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod.	Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun.
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu	Arolygu'r polisi yn unol â hynny
Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu	Arolygu'r Cynllun
Targed wedi ei gyflawni	Dim angen gweithrediad pellach

Tabl 3: Symbolau monitro

	Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau.
	Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi.
	Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyledig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi.
	Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin.

Adolygu'r Cynllun

- 1.12 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, mae'n rhaid adolygu Cynlluniau pob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Cafodd y cynllun presennol ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cafodd Adroddiad Adolygu ei baratoi. Casgliad yr Adroddiad Adolygu oedd gwneud Adolygiad Llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd. Yn dilyn hyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn oedd dirwyn y trefniant cydweithio i ben rhwng y ddau Gyngor a pharatoi Cynlluniau Datblygu ar wahân. Daeth y trefniant cydweithio i ben ar 31 Mawrth 2023 a sefydlwyd timau polisi newydd ar gyfer y ddau Gyngor. Fe fydd casgliadau'r holl AMB blaenorol yn rhan o'r sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol newydd i'r ddau Gyngor.

Cynnwys AMB 8

- 1.13 Gan fod y cytundeb cyd-weithio rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd ar faterion Polisi Cynllunio wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023, a chan fo'r awdurdodau cynllunio lleol bellach yn mynd ati i baratoi Cynllun Datblygu Lleol unigol ar gyfer eu hardal Awdurdod Cynllunio Lleol unigol, mae'r Adroddiad Monitro Blyneddol hyn (AMB 8) yn canolbwyntio'n benodol ar Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

- 1.14 Oherwydd diffyg mynediad i ddata sydd yn berthnasol i Ynys Môn, nid yw'n bosib adrodd yn unol â gofyn y dangosyddion ym mhob achos. Ymhellach nodir na fyddai'n briodol adrodd ar faterion yn ymwneud ac Awdurdod Cynllunio Lleol arall o gofio mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blyneddol hwn.
- 1.15 Ymhellach, ni ystyrir yn fanteisiol adrodd ar faterion sydd yn ymwneud ag Ynys Môn gan y gallai rhoi'r cam argraff o lwyddiant neu fethiant y dangosyddion a phriodoldeb ceisio ymateb i'r pryder hynny wrth edrych tua'r dyfodol a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig.

Strwythur a chynnwys

- 1.16 Dyma strwythur gweddill yr AMB hwn.

Tabl 5: Strwythur yr AMB

Pennod	Cynnwys yn fras
2: Dadansoddi newid cyd-destunol sylweddol	Crynodeb ac adolygiad o faterion cyd-destunol ehangach o fewn yr hyn mae'r CDLL yn gweithredu ynddo, e.e. deddfwriaeth/ strategaethau/polisiau allanol.
3: Dadansoddiad o ddangosyddion	Manylion canfyddiadau'r gwaith o fonitro Dangosyddion y CDLL ar y Cyd (yn nhrefn y CDLL ar y Cyd)
4: Casgliad ac argymhellion	Adnabod newidiadau gofynnol i'r cynllun yn ystod adolygiad statudol neu a sbardunwyd yn gynharach, os yw'n briodol.
5: Atodiadau	1. Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd 2. Dosbarthiad caniatadau preswyl. 3. Darpariaeth o dir ar gyfer tai.

- 1.17 Dylai strwythur yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn ei gwneud yn rhwydd gallu cymharu un gyda'r blaenorol/olynol. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar amrywiaeth eang o wybodaeth ystadegol a ffeithiol a gyrchir gan y Cyngor a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu beidio bod yn gyfoes.

PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL

- 2.1 Yn ystod y cyfnod monitro, mae dogfennau polisi/canllawiau newydd/diweddariad wedi'u eu cyhoeddi a deddfwriaeth yn cael ei gyflwyno. Mae'n bwysig deall y gwahanol ffactorau a all effeithio ar berfformiad y CDLL ar y Cyd, o'r lefelau byd-eang a chenedlaethol, i lawr i bolisiau a chanllawiau lleol y Cynghorau eu hunain. Mae rhai newidiadau yn amlwg yn hollol allan o reolaeth y Cyngor. Mae'r Bennod hon yn rhoi trosolwg cryno o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gafodd ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'n cynnwys cynlluniau, polisiau a strategaethau ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ble'n briodol, amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol ar yr CDLL ar y Cyd. Mae tueddiadau economaidd cyffredinol sydd wedi digwydd yn ystod cyfnod yr AMB yma hefyd yn cael eu hadnabod. Rhoddir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol yn y CDLL ar y cyd yn adran dadansoddi polisi perthnasol er hwylustod ac felly nid yw'n cael ei ailadrodd yma.

Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (25/03/2026)

- 2.2 Mae fersiwn newydd wedi'i diweddaru o Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol wedi'i chyhoeddi ac nawr mae'n adlewyrchu'r Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ac yn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir ar draws y dogfennau yn gyson â'r Ddeddf.

Rhestr ddiwygiedig Adran 7 o rywogaethau a chynefinoedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

- 2.3 Mae rhestr Adran 7 yn gofrestr statudol o rywogaethau a chynefinoedd o brif bwysigrwydd at ddibenion cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r rhestr ddiwygiedig yn cynrychioli ehangiad sylweddol, gyda 1,322 o rywogaethau a 69 o gynefinoedd bellach wedi'u rhestru.
- 2.4 Mae Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i awdurdodau cynllunio hefyd roi sylw i'r rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau o brif bwysigrwydd i Gymru, a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- 2.5 Rhaid i awdurdodau cynllunio ddilyn dull cam i gynnal a gwella bioamrywiaeth, adeiladu rhwydweithiau ecolegol gwydn a darparu manteision net i fioamrywiaeth (NBB). Rhaid sicrhau gwella trwy ddarparu budd bioamrywiaeth yn bennaf ar y safle neu'n union gyfagos i'r safle.

- 2.6 Wrth ystyried cyfleoedd i NBB mewn perthynas â'r rhywogaethau adar newydd ar y rhestr, bydd yn bwysig sicrhau darpariaeth addas ar gyfer nythu, a allai gynnwys gosod mesurau fel brics gwenoliaid fel rhan o wead adeiladau newydd.

Datganiad Polisi Cynllunio Interim ar Ddatblygu yn Afonydd ACA

- 2.7 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi cynllunio interim a chanllawiau cynllunio ymarferol ar ddatblygu mewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yr effeithir arnynt gan ffosforws, ar 5 Awst 2025. Mae'r datganiad polisi cynllunio interim wedi'i amlinellu yn llythyr 'Annwyl Brif Swyddog Cynllunio ' dyddiedig (05/08/2025) a bwriedir mewnosod hwn fel adran newydd ym Mhennod 6 pan fydd Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei ddiweddarau nesaf.

Parc Cenedlaethol Newydd - (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Hydref - Rhagfyr 2024

- 2.8 Yn mis Mawrth 2026, yn dilyn cyflwyno'r Gorchymyn Dynodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i benodi Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol er mwyn ystyried y sylwadau a'r gwrthwynebiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.
- 2.9 Daeth CNC i'r casgliad bod yr ardal arfaethedig yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer dynodi Parc Cenedlaethol, gan gynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â harddwch naturiol a chyfleoedd hamdden awyr agored.
- 2.10 Bydd yr ymchwiliad yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd o blaid ac yn erbyn y dynodiad cyn y gwneir unrhyw benderfyniad pellach ynghylch sefydlu'r Parc Cenedlaethol Glyndŵr a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol arfaethedig.

Y CYD-DESTUN LLEOL

Cynllun Gweithredu Tai

- 2.11 Ar y 13 Mai, 2025 penderfynodd Cyngor Gwynedd ymestyn cyfnod y Cynllun Gweithredu Tai am ddwy mlynedd bellach hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2028/29.
- 2.12 Cymeradwyd y cynllun gwreiddiol yn 2020 ac mae'n cynnwys 33 o brosiectau ar draws pum maes allweddoler mwyn sicrhau bod gan bobl Gwynedd gartrefi addas, fforddiadwy ac o safon.

Gwynedd, Ynni Ardal Leol Gwynedd

- 2.13 Yn mis Medi 2025 benderfynodd Cyngor Gwynedd i gefnogi Prif Adroddiad ac Adroddiad Technegol Cynllun Ynni Ardal Leol.

- 2.14 Mae Cynllun Ynni Ardal Leol Cyngor Gwynedd (CYAL) yn edrych ar y dulliau mwyaf effeithlon a chost effeithiol o ddadgarboneiddio system ynni gyflawn i Wynedd erbyn 2050. Mae'r CYAL yn edrych ar pob agwedd o'r systemau ynni lleol: beth yw'r galw am ynni, sut mae'n cael ei gynhyrchu a sut mae'n cael ei ddosbarthu.

Cyfarwyddyd Erthygl 4

- 2.15 Ar 27 Tachwedd 2025, yn ystod gwrandawriad yn yr Uchel Lys ac yn dilyn ei ddyfarniad blaenorol, cadarnhaodd y barnwr (Ustus Eyre) orchymyn i ddiddymu penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd ar 16 Gorffennaf 2024 i gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4. Bu i'r Cyngor wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i apelio'r penderfyniad i'r Llys Apêl a bu i'r Gwir Anrhydeddus Ustus Lewisam wrthod y cais ar 6 Chwefror 2026. O ganlyniad, gan fod y penderfyniad ar 16 Gorffennaf 2024 wedi ei ddiddymu, nid yw'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol yn Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.
- 2.16 Yn sgîl diddymu'r penderfyniad i Gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, mae newidiadau defnydd materol a oedd wedi'u cyfyngu gan y Cyfarwyddyd Erthygl 4 bellach yn hawl datblygu a ganiateir. Felly, nid oes angen derbyn caniatâd cynllunio er mwyn ymgymryd â'r newidiadau defnydd materol hyn.

Apeliadau

- 2.17 Derbyniodd y Cyngor 18 apêl yn ystod y cyfnod monitro 2025/26. Gwrthodwyd 11 ohonynt a chaniatawyd 7. Mae manylion bras yr apeliadau a ganiatawyd fel y ganlyn:
- Cartref Nyrsio Penisarwaun. Gwrthododd y Cyngor y cais oherwydd pryderon ynghylch yr effaith ar amodau byw trigolion cyfagos o ran sŵn ac aflonyddwch. Caniatawyd drwy apêl ar sail na fyddai'r datblygiad yn niweidio amodau byw preswyl cyfagos o ran sŵn ac aflonyddwch ac ni fydd yn gwrthdaro a pholisïau PCYFF 2 a TWR 2 yn y CDLL.
 - Newid defnydd 'The Old Cow Sheds' i defnydd preswyl a cadw'r adeilad a elwir 'Little Barn' fei llety gwyliau yn Pentrefelin. Gwrthodwyd y cais ar sail nad oedd y Cyngor o'r farn bod y cynnig yn dderbyniol o ystyried polisïau cynllunio lleol a cenedlaethol i warchod y cefn gwlad. Caniatawyd yr apêl gan fod yr Old Cow Shed yn adeilad sy'n bodoli eisoes ac mae ganddo ddefnydd preswyl sefydledig, ac er y byddai'r cynnig yn arwain at annedd barhaol a llety gwyliau cysylltiedig, ni fyddai'n arwain at unrhyw ymyrraeth ffisegol ychwanegol gan ffurf adeiledig i gefn gwlad agored, nac unrhyw newid sylweddol i gymeriad neu gynaliadwyedd presennol y safle.
 - Diwygio amod o ganiatâd cynllunio er mwyn cyfeirio at gynlluniau diwygiedig fel rhan o gais s73 yn hytrach na cynlluniau a gyflwynwyd yn flaenorol. Cais yn ymwneud â dymchwel byngalo presennol a chodi tŷ newydd yn Llanbedrog. Gwrthodwyd y cais ar sail y byddai'r datblygiad yn arwain at niwed annerbyniol i amodau byw meddianwyr cyfagos ond caniatawyd yr apêl ar sail na chredwyd y byddai yn arwain at y niwed annerbyniol hynny a bod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi PCYFF 2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.




- Dymchwel adeilad allanol presennol a chodi caban pren fel llety rhandy yn Rhoslan. Gwrthodwyd y cais gwreiddiol ar sgil pryderon p'un a fyddai datblygiad yn dderbyniol o ystyried polisiâu cynllunio lleol a chenedlaethol i reoli datblygiadau preswyl yng nghefn gwlad agored. Caniatawyd yr apêl ar sail nad ydyw y creu uned hunangynhaliol newydd ac ei fod yn gysylltiedig â'r prif annedd.
- Cynnig i codi 18 o anheddau fforddiadwy ynghyd a datblygiadau cysylltiedig yn Botwnnog. Gwrthodwyd y cais ar sail effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg. Caniatawyd yr apêl ar sail diffyg tystiolaeth ynglŷn a niwed sylweddol i'r iaith Gymraeg a'i fod yn cyd-fynd â Pholisi PS 1 yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- Ailadeiladu bwthyn i gynnwys estyniadau ochr deulawr ac estyniad cefn un llawr yn Llanbedrog. Gwrthodwyd y cais gwreiddiol ar sail effaith y datblygiad ar gymeriad ac ymddangosiad Ardal o Harddwch Eithriadol y Llŷn. Caniatawyd yr apêl ar sail nad yw'r datblygiad yn niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a bod y bwriad yn cwrdd â'r amgylchiadau eithriadol sydd ofynnol gan faen prawf 7 Polisi TAI 13 i gyfiawnhau annedd fwy ar sail nad yw'n arwain at effaith weledol sylweddol fwy na'r adeilad presennol.
- Estyniad i dŷ annedd yn Edern. Apêl wedi ei ganiatáu yn raddol o ran yr elfen hon o'r bwriad (elfen sied hofrennydd a helipad wedi ei wrthod). Caniatawyd y rhan hon o'r apel ar sail bod yr estyniad yn cydymffurfio â Pholisi PCYFF 3 y CDLL ar y Cyd sy'n dweud, ymhlith pethau eraill, y bydd disgwyl i bob cynnig ategu a gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle, yr adeilad neu'r ardal o ran lleoliad, ymddangosiad, graddfa, uchder, màs a thriniaeth drychiad.

CASGLIAD

- 2.18 Fel y nodir uchod, gwelwyd deddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisiâu a strategaethau cenedlaethol a lleol yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mi fydd angen rhoi ystyriaeth lawn i'r hyn sydd wedi ei osod allan uchod wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION

- 3.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno asesiad o berfformiad y polisiau strategol a pholisiau eraill o fewn y CDLI ar y Cyd gan nodi os ydynt yn cael eu gweithredu ategol fel y bwriadwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y CDLI ar y Cyd yn cael eu cyflawni. Mae'r tablau unigol yn y bennod hon yn rhoi casgliadau a chymau priodol (lle bo angen) i fynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd drwy'r broses fonitro.
- 3.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Symbol	Disgrifiad
	Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau.
	Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi.
	Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwylidig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi.
	Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin.

- 3.3 Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth o ran y dangosyddion o fewn y Fframwaith Fonitro ble mae targed y dangosydd wedi ei gyflawni yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blyneddol blaenorol. Gan hynny, nid oes angen adrodd ar y dangosyddion hyn yn yr Adroddiadau Monitro Blyneddol olynol:-

Rhif Dangosydd	Disgrifiad	Dyddiad cyflawni targed (Cyfnod AMB)
D4	Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy	AMB 2

D9	Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud a darparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd	AMB 1
D10	Paratoi Canllawiau Cynllunio atodol yn ymwneud â rhwymedigaethau Cynllunio	AMB 2
D13	Y nifer o geisiadau a ganiateir o fewn safleoedd/ ardaloedd wedi'u diogelu ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth (ardaloedd gwelliannau yng Ngwynedd I gyd wedi ei cwblhau)	AMB 6
D14	Cyflenwi Ffordd Gyswllt Llangefni (cam 4)	AMB 1
D15	Cyflawni gwelliannau i'r A5025	AMB 1
D16	Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy	AMB 2
D30	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio atodol diwygiedig yn ymwneud a Wylfa Newydd.	AMB 1
D34	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth	AMB 3
D51	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai fforddiadwy.	AMB 2
D54	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai marchnad leol.	AMB 1
D55	Paratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Lleol (LHMA) i Wynedd	AMB 2

- 3.4 Yn sgil y ffaith fod yr Adroddiad Monitro Blynnyddol hwn bellach yn adrodd ar faterion sydd yn ymwneud a Chyngor Gwynedd yn unig, ni ystyrir yn briodol adrodd ar y dangosyddion hynny sydd yn benodol berthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn yn unig. Gan hynny ni adroddir ar y dangosyddion canlynol yn AMB 8:

Rhif Dangosydd	Disgrifiad
D28	Nifer o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd

D46	Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn fel % o'r ddarpariaeth dai cyffredinol
D56	Nifer o leiniau Teithwyr ar gyfer llety preswyl a ddarperir ym Mhenhesgyn, Ynys Môn.

Nodyn: Yn dilyn derbyn [llythyr](#) gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mae Dangosydd D43 wedi cael ei ddisodli gan D43A a D43B.

DRAFT

Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

Mae ffigyrau'r Cyfrifiad 2021 ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer Cymru gyfan, Awdurdodau Lleol Cymru a fesul pob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA).

Yng Nghymru roedd y nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 17.8% sydd yn ostyngiad o 1.2% ers 2011 yn wir fe gafwyd gostyngiad mewn 18 allan o'r 22 Awdurdod Lleol Cymru efo'r gostyngiad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin (-4.0%) ar gynnydd mwyaf i'w weld yng Nghaerdydd (+1.1%).

Yng Ngwynedd ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021 roedd 73,560 o bobl (3+ oed) yn gallu siarad Cymraeg sy'n cyfateb i 64.4%. Yn 2011 roedd y ganran gyfatebol yn 65.4% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg 3+ oed yn 2011 yn 77,000. Felly mae'r gyfran wedi gostwng 1% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 3,440.

Mae natur ceisiadau tai eleni ar safleoedd o'r newydd sydd wedi cael caniatâd ers mabwysiadu'r Cynllun yn dangos canran sylweddol o dai fforddiadwy sef 67.4% (cynyddu i 84% wrth ystyried ceisiadau oedd yn cyrraedd y trothwy am dai fforddiadwy). Yn wir ar gyfer yr 8 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2025 i 2026 mae 5 o'r rhain yn darparu safleoedd 100% fforddiadwy.

Golyga hyn fod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma, o ystyried bod angen cyflwyno tystiolaeth gyda cheisiadau cynllunio i ddangos yr angen am y cymysgedd a'r math o dai yn ogystal â chynnwys canran uchel o dai fforddiadwy, yn helpu i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

Dangosydd D1

% Siaradwyr Cymraeg n 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd

Amcan:

SO1: Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned

Targed:

Datblygiadau newydd yn cyfrannu at gynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd

(Noder: Mae effaith uniongyrchol datblygiad newydd ar y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau unigol ac ardal y Cynllun yn faes anodd ei fonitro, o gofio na all y Cynllun wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol. Mae'r Cynghorau o'r farn bod angen cyfuniad o ddulliau er mwyn monitro effeithiolrwydd polisiau, gan gynnwys y dangosyddion a nodir dan y thema hon.)

Polisiau perthnasol:

PS1

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB 8	—

Lefel sbardun:

Naratif bob dwy flynedd am gynlluniau perthnasol a gwblhawyd, e.e. o dan Bolisi PS 1, Polisi TAI 1 – Polisi TAI 7, erbyn 2019

Dadansoddiad:

Mae rôl cynllunio'n gyfyngedig i geisio creu'r amgylchiadau gorau posib drwy Bolisïau'r Cynllun er mwyn hwyluso datblygiadau cynaliadwy a all gynyddu'r canran o siaradwyr Cymraeg.

Ceir nifer o bolisïau yn y Cynllun sydd yn helpu i hwyluso datblygiadau cynaliadwy sef:

- Polisi TAI 5 'Tai Marchnad Leol' yn atal unrhyw dai marchnad agored o fewn yr aneddleoedd arfordirol a restrir;
- Polisi TAI 15 'Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad' yn gofyn am elfen fforddiadwy ar gyfer datblygiadau o 2 neu fwy o unedau tai yn y Canolfannau a'r Pentrefi;
- Polisi TAI 16 'Safle Eithrio' yn cefnogi datblygiadau 100% tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 6 'Clystyrau' a TAI 7 'Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl' dim ond yn cefnogi bwriadau ar gyfer tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 8 'Cymysgedd Briodol o Dai' yn sicrhau fod pob datblygiad preswyl yn cyfrannu tuag at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan;
- Polisi CYF 1 'Gwarchod, Dynodi ac Amddiffyn Tir ac Unedau ar gyfer defnydd Cyflogaeth' yn sicrhau fod yna ddigon o diroedd ar gyfer cyfleoedd gyflogaeth yn cael ei ddarparu o fewn y Cynllun.

Mae 'Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth' sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Y ffigyrau diweddaraf yw Ebrill 2026 sydd yn datgan fod yna 844,300 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ar gyfer Gwynedd mae'n datgan fod yna 91,300 yn gallu siarad Cymraeg sef 76% o boblogaeth y Sir. Mae nifer yma wedi gostwng yn yr adroddiad diweddaraf fodd bynnag mae gwahaniaeth dal i fod rhwng y ffigyrau yma ag ffigyrau'r Cyfrifiad. Felly mae casgliad y Adroddiad Monitro Blynyddol 7 dal i sefyll h.y. ni chredir y dylid rhoi unrhyw bwysau i'r cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg a welir yng Ngwynedd o fewn 'Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth' Rhagfyr 2024.

Yn AMB 5 fe edrychwyd ar y newidiadau o fewn gwahanol gymdogaethau Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) gan nodi fod yna nifer o ffactorau yn effeithio ar y newidiadau rhwng 2011 a 2021 yn y canran ar nifer o siaradwyr Cymraeg ynddynt.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran ar nifer o siaradwyr efo datblygiadau eithaf mawr breswyl, eraill wedi gweld cynnydd yn y nifer ond gostyngiad yn y canran.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran er bod gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, mae hyn ar sail gostyngiad uwch yn y nifer di-gymraeg. I rai cymdogaethau gall hyn fod ar sail colled o unedau o'r stoc dai i ddefnydd fel ail gartrefi / llety gwyliau.

Yn nifer o'r cymdogaethau sydd wedi gweld y lleihad mwyaf o ran canran y siaradwyr Cymraeg ychydig iawn o dwf tai newydd sydd wedi bod trwy'r Cynllun Datblygu ar y Cyd.

Mae elfen fawr o'r newidiadau sydd yn effeithio ar ardaloedd y Cynllun yn dod allan o newidiadau i'r stoc dai presennol.

PENNOD 6.1: CYMUNEDAU DIOGEL, NODEDIG, IACH A BYWIOG

Yn y flwyddyn o'r 1 Ebrill 2025 hyd at 31 Mawrth 2026 mae yna 215 o unedau tai o'r newydd (h.y. safleoedd nad oedd efo caniatâd ar ddiwrnod mabwysiadu'r Cynllun) wedi cael caniatâd cynllunio. Mae hyn drwy ganiatâd am dŷ unigol ar 26 o safleoedd efo'r gweddill ar 15 safle yn mynd o safle efo 2 uned hyd at safle o 48 o unedau. Allan o'r ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy i gael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau neu o fewn Clwstwr neu drosi adeilad allanol sef 182 o unedau tai, fe gafwyd 145 o unedau fforddiadwy ganiatâd unai trwy amod neu gytundeb cyfreithiol, sydd y golygu canran fforddiadwy o 80%.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa ar gyfer ceisiadau sydd wedi cael caniatâd cynllunio a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun:

Cyfnod	Nifer o Unedau sydd wedi cael caniatâd a'u cwblhau yng nghyfnod y Cynllun	Nifer o rain sy'n Dai Fforddiadwy	Canran o Dai Fforddiadwy
AMB 1	56	35	62.5%
AMB 2	90	45	50%
AMB 3	125	55	44%
AMB 4	205	87	42.4%
AMB 5	231	117	50.6%
AMB 6*	126	68	54%
AMB 7*	208	141	67.8%*
AMB 8*	118	91	77%
CYFANSWM	1,159	639	55.1%

* Noder ffigyrau Gwynedd yn unig yw rhain

Mae'r canran o dai fforddiadwy yn y tabl uchod wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn bennaf oherwydd datblygiadau sydd wedi cael ei gwblhau gan cymdeithasau tai yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 80% o ganiatâdau tai o'r newydd ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi bod ar gyfer tai fforddiadwy. Yn ogystal o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy hefyd ychydig yn uwch na 55% (55.1%) (sydd yn uwch na'r trothwyon 10%, 20% a 30% ar gyfer y gwahanol ardaloedd). Golyga hyn fod caniatâdau newydd o dan y Cynllun hyd yma, drwy baratoi canran uchel o dai fforddiadwy sydd yn help i gyfarch anghenion lleol a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

Mae'r ffactorau a gyfeirir tuag atynt uchod yn amlygu sut mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod datblygiadau o'r newydd yn cyfarch anghenion y gymuned leol. Fel y gwelir o dadansoddiad o ganlyniadau'r Cyfrifiad mae llawer o'r newidiadau lleol yn deillio o symudiadau o fewn y stoc dai presennol sydd y tu allan i reolaeth y Cynllun Fe fydd angen adlewyrchu'r newidiadau cenedlaethol i ddosbarthiadau defnydd ar gyfer tai wrth lunio polisïau tai i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ogystal ag diweddarau'r tystiolaeth sydd yn cefnogi'r Polisi Tai Marchnad Lleol i ymestyn yr ardal ble mae'n berthnasol.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D2

Caniatáu ceisiadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg

Amcan:

SO2: Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned

Targed:

Lle bo angen, osgoi neu liniaru niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned yn unol â Pholisi PS 1

Polisiau perthnasol:

PS1

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
<u>AMB8</u>	

Lefel sbardun:

Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol yn groes i Bolisi PS 1.

Dadansoddiad:

Fel yr amlygir yn yr ymateb i Ddangosydd D1 yn y flwyddyn 2025/26 mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer 215 o unedau tai newydd (h.y. ar safleoedd nad oedd efo caniatâd cynllunio ar ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun).

Mae'r unedau yma wedi cael caniatâd ar safleoedd o'r maint a amlygir yn y tabl isod:

PENNOD 6.1: CYMUNEDAU DIOGEL, NODEDIG, IACH A BYWIOG

Maint Ceisiadau Tai	Nifer o Safleoedd	Cyfanswm Unedau
1 uned	26	26
2 i 5 uned	7	20
6 i 10 uned	1	8
11+ uned	8	161

Cafwyd 3 Asesiad ieithyddol a 11 Datganiadau ieithyddol efo ceisiadau gafodd ei phenderfynu ble yr oeddynt yn cyfarch y trothwyon o fewn Polisi PS 1 (gweler Dangosydd D3 ar gyfer manylion y math o geisiadau gafodd y rhain ei chyflwyno efo). Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na throthwy'r rhai y mae angen Datganiad neu Asesiad ffurfiol arnynt.

Cafodd 3 cais ei wrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol canlynol:

- Cais preswyl am 8 tŷ fforddiadwy oherwydd ni dderbyniwyd gwybodaeth digonol o fewn yr Asesiad ar yr iaith Gymraeg i allu asesu os yw'r bwriad yn cwrdd â gofynion maen prawf 1c o Bolisi PS1. Ar y sail yma, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei argyhoeddi na fyddai'r bwriad yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn ardal y cynllun;
- 1 cais i addasu adeilad i 14 fflat gan nad oedd gwybodaeth ddigonol na chyfredol wedi ei gyflwyno gyda'r cais.
- 1 cais preswyl ar gyfer un uned preswyl oherwydd ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ynglŷn ac effaith y datblygiad ar yr iaith.

Cafodd 8 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol sef:

- 5 cais preswyl efo amod rhaid darparu enw Cymraeg ar gyfer yr annedd a ganiateir drwy hyn (Dylai unrhyw enw newydd ddeillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal lle'n bosib.) (rhain ar gyfer cyfanswm o 103 uned preswyl);
- 5 cais efo amod bod rhaid i unrhyw arwyddion sy'n hysbysebu ac yn hyrwyddo'r datblygiad o fewn ac oddi allan y safle fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg (Cais ar gyfer codi 4 uned diwydiannol ym mharc Bryn Cegin, 4 cais codi cyfanswm o 58 uned preswyl)

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D3

Amcan:

SO1; Nifer o geisiadau cynllunio gyda Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Targed:

Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol i fod â Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, sy'n ymdrin â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned fel y nodir yn y Canllawiau Dylunio Atodol.

Polisiau perthnasol:

PS1

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Un Datganiad iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg mewn unrhyw flwyddyn unigol nad yw'n ymdrin â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

Dadansoddiad:

Yn ystod y cyfnod monitro, cyflwynwyd cyfanswm o 11 Datganiad iaith Gymraeg yng Ngwynedd. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na'r trothwy sy'n gofyn am Ddatganiad neu Asesiad ffurfiol. Derbyniwyd 3 Asesiad leithyddol gyda cheisiadau preswyl.

Ystyrir, felly, fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

DRAFT

Dangosydd D5

Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir lle cafwyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr

Amcan:

SO2; Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad.

Targed:

Lle bo'n briodol, bydd datblygiadau newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau drwy ddarparu seilwaith newydd neu well yn unol â Pholisi ISA1.

Polisiau perthnasol:

ISA1, ISA2, ISA4, ISA5

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	—
AMB3	✓
AMB4	✓
AMB5	✓
AMB6	✓
AMB7	✓
AMB8	✓

Lefel sbardun:

Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 mewn unrhyw flwyddyn unigol.

Dadansoddiad:

Mae Polisiâu'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod y ddarpariaeth isadeiledd yn ddigonol ar gyfer datblygiadau newydd. Pan nad yw hyn yw'r achos, gellir ceisio am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i wneud yn siŵr fod capasiti isadeiledd digonol yn bodoli.

Cafwyd caniatâd ar gyfer 3 chais cynllunio lle roedd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr. Roedd y rhain oll ar gyfer darparu mannau agored a/neu gyfraniadau ariannol.

Ni chafodd unrhyw gais ei gymeradwyo oedd yn gyferbyniol i Bolisi ISA1 dros y cyfnod monitro. Mae'r targed i rwystro datblygiadau gael eu caniatáu ble nad oes seilwaith digonol mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D6

Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau cymunedol

Amcan:

SO2: Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad.

Targed:

Cadw cyfleusterau cymunedol hyfyw yn unol â Pholisi ISA 2.

Polisiau perthnasol:

ISA1, ISA2, ISA4, ISA5

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	✓
AMB3	✓
AMB4	✓
AMB5	✓
AMB6	✓
AMB7	✓
<u>AMB8</u>	✓

Lefel sbardun:

Colli un cyfleuster cymunedol hyfyw yn groes i Bolisi ISA 2 mewn unrhyw flwyddyn unigol.

Dadansoddiad:

Mae Polisi ISA 2 yn anelu i warchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd lle bo hynny'n briodol. Caniatawyd 0 cais cynllunio oedd yn golygu colli cyfleuster cymunedol yn ystod y cyfnod 2025-2026.

PENNOD 6.1: CYMUNEDAU DIOGEL, NODEDIG, IACH A BYWIOG

Mae'r targed i rwystro colled cyfleuster cymunedol hyfyw mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Llecynnau Agored

Mae swyddogaeth bwysig llecynnau agored o fewn cymunedau yn ardal y Cynllun wedi'i adlewyrchu yn y CDLI ar y Cyd sy'n ceisio diogelu'r llecynnau agored presennol ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu llecynnau agored i ddiwallu anghenion deiliaid datblygiadau tai newydd.

Ers i'r Cynllun cael ei fabwysiadu mae'r polisiau wedi gwarchod llecynnau agored mewn cymunedau a hefyd wedi sicrhau bod llecynnau agored newydd yn cael ei greu, cynnal a gwella.

DRAFT

Dangosydd D7

Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau amgen mewn llecynnau agored

Amcan:

SO2; Sicrhau bod y seilwaith cymunedol neu ffisegol briodol yn ei le e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu fod modd ei ddarparu (e.e. drwy gyfrwng cyfraniadau datblygwyr) i ymdrin â phob math o ddatblygiad.

Targed:

Cyfanswm y llecynnau agored (ha) mewn aneddleoeedd unigol a gedwir yn unol â Pholisi ISA 4.

Polisiau perthnasol:

ISA 4

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	✓
AMB3	✓
AMB4	✓
AMB5	✓
AMB6	✓
AMB7	✓
<u>AMB8</u>	✓

Lefel sbardun:

Llecynnau agored a gollir mewn unrhyw Ganolfan neu Bentref mewn unrhyw flwyddyn sy'n arwain ar ostyngiad net yn y cyflenwad yn y Ganolfan honno neu'r Pentref hwnnw yn groes i Bolisi ISA 4.

Dadansoddiad:

5 cais wedi'u cymeradwyo ar lecynnau agored a nodir yn y cynllun (ar y map cynigion) fel llecynnau agored wedi'u hamddiffyn. Mae'r holl geisiadau'n cydymffurfio â meini prawf y polisi:

- 1 cais ar rannau o gae chwarae ysgol sydd ddim yn tanseilio defnydd y tir fel caeau chwarae (codi ffens newydd).
- 2 gais am gwaith trin coed.
- 1 cais i codi tŷ newydd ar darn bach o'r safle sydd ddim yn tanseilio defnydd y safle fel llecyn gwyrdd.
- 1 cais am gosod llifoleuadau.

Ystyrir bod Polisi ISA 4 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D8

Llecynnau agored (ha) a gafwyd mewn perthynas â datblygiad preswyl o 10 neu fwy o unedau

Amcan:

SO2; Sicrhau bod y seilwaith cymunedol neu ffisegol briodol yn ei le e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu fod modd ei ddarparu (e.e. drwy gyfrwng cyfraniadau datblygwyr) i ymdrin â phob math o ddatblygiad.

Targed:

Darparu llecyn agored newydd os yw safonau meincnod Fields in Trust (FiT) yn nodi fod yna ddiffyg llecyn agored yn unol â Pholisi ISA 5

Polisiau perthnasol:

ISA5

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Un cais cynllunio wedi'i gymeradwyo mewn unrhyw flwyddyn nad yw'n cyfrannu at ddiwallu anghenion preswylwyr tai newydd am lecyn agored yn unol â diffiniad safon meincnod FiT yn groes i Bolisi ISA 5.

Dadansoddiad:

5 cais llawn am 10 neu fwy o dai wedi cael eu cymeradwyo yn y cyfnod AMB hwn.

PENNOD 6.1: CYMUNEDAU DIOGEL, NODEDIG, IACH A BYWIOG

- Roedd cyfanswm y ddarpariaeth o lecynnau agored wedi ei greu yn 215.79m².
- Cyfraniad ariannol o £13,344.47.

Ystyrir bod Polisi ISA 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd

Dangosydd D11

Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio

Amcan:

SO3; Gwella a chynnal rhwydweithiau trafndiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafndiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.

SO4; Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:

Prif ganlyniadau:

- Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;
- Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;
- Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trêen;
- Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.

Targed:

Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun

Polisiau perthnasol:

TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—

AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun

Dadansoddiad:

Nid yw'r targed polisi wedi'i gyflawni ar hyn o bryd fel y rhagwelwyd ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithredu polisi.

Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Safonau Parcio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 2 yn 2018/19. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLI.

Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'r Cynlluniau Datblygu Unedol, a gall hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.

Gan fod y polisi CDLI newydd ar Safonau Parcio yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriad yng nghyflwyniad CCA newydd wedi bod yn niweidiol yn y broses gwneud penderfyniad.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D12

Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio

Amcan:

SO3; Gwella a chynnal rhwydweithiau trafndiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafndiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.

SO4; Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:

Prif ganlyniadau:

- Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;
- Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;
- Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trênn;
- Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.

Targed:

Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol sydd uwchlaw'r trothwyon perthnasol a nodwyd ym Mholisi TRA 1 i gynnwys Asesiad Teithio

Polisiau perthnasol:

TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4

Deiliant:

Cyfnod AMB	Deiliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	

AMB8



Lefel sbardun:

Un cais cynllunio a gyflwynir mewn unrhyw flwyddyn unigol heb Asesiad Teithio fel sy'n ofynnol gan Bolisi TRA 1

Dadansoddiad:

Cefnogwyd cyfanswm o 3 cais am ddatblygiadau tai mawr ac 1 ar gyfer datblygiad cyflogaeth gan Asesiad Trafnidiaeth. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau heb Asesiad Teithio pan oedd angen.

Mae'r polisi'n glir, ac yn gofyn am asesiad ar sail y trothwyon a osodir yn 'Nhabl 6: Graddfa'r datblygiad sy'n gofyn am asesiad trafndiaeth'. Mae swyddogion yn gofyn am asesiad wrth wneud ymholiad cyn gwneud cais neu ar y cam gwneud cais cynllunio os nad yw wedi ei gynnwys fel rhan o'r ymholiad/cais.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D17

Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir gan categori NCT 15 mewn ardaloedd gorlifdir C1

Amcan:

SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.

SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:

- sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;
- lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;
- hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;
- defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;
- rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.

Targed:

Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C1 heb gwrdd â'r holl brofion a amlinellir yn NCT15

Polisiau perthnasol:

PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol o fewn ardaloedd gorlifdir C1 nad yw'n cwrdd â holl brofion NCT15.

Dadansoddiad:

Ar 31/03/2025 daeth Nodyn Cyngor Technegol newydd 15 (Datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol) i rym, ynghyd â Map Llifogydd newydd yng Nghymru sy'n cynnwys y 'Parthau Llifogydd Cynllunio' canlynol:

- Parth Llifogydd 1
- Parth Llifogydd 2
- Parth Llifogydd 3
- Parthau a Amddiffynnir TAN 15

At ddibenion yr AMB ystyrir bod y Parth Llifogydd 2 newydd yn cyd-fynd yn agos â'r hen barth llifogydd C1. Fodd bynnag, dylid nodi bod ceisiadau a ddilyswyd cyn 31 Mawrth 2025 ac unrhyw apelïadau dilynol i'w penderfynu o dan y TAN15 blaenorol (2004). Mae hyn er mwyn caniatáu cyfnod gras a phenderfyniad yn erbyn y fframwaith polisi a oedd mewn grym ar yr adeg y cawsant eu cofrestru.

Caniatawyd 31 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn Parth Llifogydd 2; roedd 14 o'r rhain yn geisiadau deilydd tŷ. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio, casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y ceisiadau cynllunio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol); penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion y profion sydd wedi'u gosod yn NCT 15.

Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLI ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D18

D18 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2.

Amcan:

SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad

SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:

- sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;
- lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;
- hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;
- defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;
- rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir

Targed:

Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2

Polisiau perthnasol:

PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	

AMB8



Lefel sbardun:

Caniatáu un ar gyfer datblygiad sy’n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 mewn unrhyw flwyddyn unigol.

Dadansoddiad:

Ar 31/03/2025 daeth Nodyn Cyngor Technegol newydd 15 (Datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol) i rym, ynghyd â Map Llifogydd newydd yng Nghymru sy’n cynnwys y canlynol 'Cynllunio parthau llifogydd':

- Parth Llifogydd 1
- Parth Llifogydd 2
- Parth Llifogydd 3
- Parthau a Amddiffynnir TAN 15

At ddibenion yr AMB ystyrir bod y Parth Llifogydd 3 newydd yn cyd-fynd yn agos â'r hen barth llifogydd C2. Fodd bynnag, dylid nodi bod ceisiadau a ddilyswyd cyn 31 Mawrth 2025 ac unrhyw apelïadau dilynol i'w penderfynu o dan y TAN15 blaenorol (2004). Mae hyn er mwyn caniatáu cyfnod gras a phenderfyniad yn erbyn y fframwaith polisi a oedd mewn grym ar yr adeg y cawsant eu cofrestru.

Caniatawyd 51 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn Parth Llifogydd 3; roedd 21 o'r rhain yn geisiadau deilydd tŷ. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer y math o ddatblygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn 'Datblygiad bregus iawn' yn unol â Ffigwr 4 Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol). Ar ben hynny, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/llwyr) o fewn Parth Llifogydd 3 yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn NCT 15.

Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLI ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D19

D19 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn

Amcan:

SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.

SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:

- sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;
- lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;
- hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;
- defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;

rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir

Targed:

Cynnal neu gynyddu'r gyfran o ddatblygiadau newydd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) o'i gymharu â'r % cyfartalog a gofnodwyd yn ystod 2015/ 2016 – 2016/ 2017.

Polisiau perthnasol:

PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—

AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Gostyngiad yn y gyfran o ddatblygiadau a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) am 2 flynedd yn olynol.

Dadansoddiad:

Oherwydd natur wledig yr ardal, mae cyfleoedd i ddatblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen wedi ei gyfyngu i nifer o safleoedd llai. Tra bo datblygiadau'n cael eu cyfeirio at y safleoedd hyn yn y lle cyntaf, mae'r pwysau i adeiladu ar dir gwyrdd yn anochel, yn enwedig oherwydd natur cynigion e.e. cynlluniau ynni adnewyddol, tai ar safleoedd eithrio, cynlluniau arallgyfeirio gwledig a datblygiadau twristiaeth. Mae'r gyfran o ddatblygiadau ar dir llwyd yn Gwynedd fel a ganlyn:

% o ddatblygiadau ar dir a ddatblygwyd o'r blaen:

- Gwynedd 2015-2016 = 14.54ha (44%);
- Gwynedd 2016-2017 = nid oes data ar gael oherwydd roedd cofnodi'r data hwn yn cael ei adolygu ar y pryd.
- Gwynedd 2017-2018 = 12.82ha (64%);
- Gwynedd 2018 i'r presennol – gwybodaeth perthnasol ddim yn cael ei gasglu. Methu adrodd ar y dangosydd.

Gan nad yw'r wybodaeth ofynnol ar gael, nid yw'n bosibl asesu a yw'r dangosydd yn cael ei gyflawni ai peidio.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Bydd angen mynd i'r afael â'r mater hwn yn adroddiadau monitro'r CDLI newydd.

Dangosydd D20

D20 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir tu allan i ffiniau datblygu.

Amcan:

SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.

SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:

- sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;
- lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;
- hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;
- defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;
- rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.

Targed:

Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad ydynt yn cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun.

Polisiau perthnasol:

PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Caniatáu un cais cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad yw'n cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun mewn unrhyw flwyddyn unigol.

Dadansoddiad:

Mae yna gyfanswm o 356 o geisiadau cynllunio sydd wedi cael caniatâd tu allan i'r ffiniau datblygu yn ystod cyfnod yr 8fed AMB sy'n cynrychioli 56% o bob cais a ganiatawyd. datblygiad.

Mae dadansoddiad o'r mathau o geisiadau cynllunio a ganiatawyd y tu allan i ffiniau datblygu fel a ganlyn:

- Amaethyddiaeth a Choedwigaeth – 18.6%
- Cyflogaeth – 5.3%
- Cymunedol – 1.1%
- Cymysg – 1.4%
- Deilydd Tŷ – 36.9%
- Hamdden – 0.4%
- Hysbysebion – 1.0%
- Isadeiledd a Thrafnidiaeth – 1.4%
- Manwerthu – 1.1%
- Tai – 6.7%
- Twristiaeth – 8.1%
- Mwynau a Gwastraff – 2.9%
- Ynni – 3.9%
- Man newidiadau – 11.2%

Fel y gwelir, roedd y mwyafrif o geisiadau cynllunio a ganiatawyd y tu allan i ffiniau datblygu yn rai deilydd tŷ neu'n geisiadau ar gyfer man newid amodau ar gyfer ceisiadau cynllunio sydd eisoes wedi eu cymeradwyo. O ran datblygiadau tai, 'roedd y rhain yn cynnwys datblygiadau mewn clystyrau, tai menter wledig a thai a ail-adeiladwyd a oedd yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun. Ni ganiatawyd unrhyw gais cynllunio ar gyfer tai marchnad agored y tu allan i ffin ddatblygu. Nodir hefyd fod nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau gwledig, gan gynnwys, er enghraifft, twristiaeth, ynni adnewyddol, priffyrdd a datblygiadau amaethyddol sydd oherwydd eu natur yn fwy tebygol o gael eu lleoli y tu allan i ffiniau datblygu. Ni chymeradwywyd unrhyw gais oedd yn groes i Bolisi PCYFF 1.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

DRAFT

Dangosydd D21

D21 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol a ganiateir, fesul Technoleg, ardal (Ardal awdurdod Cynllunio Lleol Môn a Gwynedd) ac allbwn ynni a gofnodir (GWh)

Amcan:

SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.

SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:

- sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;
- lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;
- hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;
- defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;
- rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.

Targed:

50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (1,113.35 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am drydan

100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (2,226.7 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am drydan

50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (23.65 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres

100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (47.3 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am wres

Polisiau perthnasol:

PS 1

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	X

AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Swm allbwn ynni a gofnodir o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn 10% neu fwy islaw'r gofynion yn y Targed Polisi

Dadansoddiad:

Mae'r polisiâu a gynhwysir yn y CDLI ar y Cyd yn cefnogi ceisiadau ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy priodol.

Nid yw'r sail tystiolaeth wnaeth adnabod cyfleoedd posib o ynni adnewyddadwy o fewn ardal y Cynllun yn gwahaniaethu rhwng cyfleoedd o fewn Ardal Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Oherwydd hyn nid oes modd asesu'r dangosydd yma ar gyfer Ardal Cynllunio Lleol Gwynedd yn unigol ac felly mae'n ystyried y sefyllfa yn erbyn y ffigyrau diweddaraf ar gyfer Ardal y Cynllun cyfan.

Yn y cyfnod monitro hwn cafodd un gais masnachol ynni adnewyddol o'r newydd ganiatâd cynllunio, sef Alaw Môn Solar Farm (Enso Energy) (160MW) (caniatawyd yn Awst 2025).

Mae tablau 7 ac 8 o fewn y CDLI ar y Cyd yn nodi capasiti gosodedig o 159.6 (MWe) a 12.4 (MWt) o fewn ardal y cynllun yn 2016. Y fersiwn diweddaraf 'Cynhyrchu Ynni yng Nghymru' (ffigyrau 2026) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, cyfanswm capasiti gwres a thrydan sydd wedi'i osod ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd oedd 265MW. Serch hynny, mae'r targed o fewn y Cynllun i'r dangosydd yma yn cyfeirio tuag at ffigyrau GWh ac mewn blynnyddoedd blaenorol mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r wybodaeth gyfatebol mewn GWh yn hytrach na MWe a MWth. Yn anffodus, nid yw wedi bod yn bosibl cael y wybodaeth yma ar gyfer y cyfnod AMB8.

Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2025 dim ond 119.6 GWh yn ychwanegol i'r ffigyrau yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLI ar y cyd sydd wedi cael ei ddarparu. Felly nid yw'r targed o 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a trydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni.

Mae Prosiect Maen Hir (gynt yn cael ei alw yn Fferm Solar Môn) (Lightsource BP) (350MW) wedi'i dynnu'n ôl yn ffurfiol o gam cyn ymgeisio'r broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO). Mae'r penderfyniad hwn wedi'i wneud fel cam rhagofalus ac mae ymrwymiad i'r Prosiect o hyd. Byddai'r cynllun hwn yn darparu 306.6GWh.

Mae'r datblygiadau canlynol wedi derbyn caniatâd:

- Parc Solar Traffwll (35MW) (Low Carbon) – amodau cyn dechrau wedi cael ei rhyddhau a gwaith gosod cebl i'r safle yn cymryd lle.
- Fferm Gwynt Tryslgwyn (5.6MW) (Ventient Energy Ltd) wedi derbyn caniatâd i ymestyn cyfnod gweithredol hyd at 29 Mehefin 2031.
- Fferm Wynt Llyn Alaw (20.4MW) (Ventient Energy Ltd) ar gyfer ymestyn cyfnod gweithredol hyd at 22 Hydref 2032.
- Uned biomas 299MW yn Caergybi, mae tystysgrif o ddefnydd cyfreithiol wedi cael ei roi yn cadarnhau fod y datblygiad wedi cael ei ddechrau.
- Fferm Solar Porth Wen (49.99MW) (EDF) y safle bellach yn weithredol.
- Morlais (240MW) (Menter Môn) araeau lluosog o ddyfeisiau ynni llanw yn parhau yn y cyfnod adeiladu.
- Alaw Môn Solar Farm (Enso Energy) (160MW) – caniatawyd yn Awst 2025.
- Glyn Rhonwy Hydro wedi ei bwmpio (100MW) dim manylion wedi ei derbyn ar gyfer dyddiad gweithredu'r caniatâd.

Mae gan y cynlluniau a ganiateir, fel yr amlygwyd uchod, botensial ar gyfer ynni a gynhyrchir o 3,421.60GWh. Byddai hyn yn cyrraedd y targed o fewn y Cynllun ond mae rhai o'r cynigion wedi cael caniatâd ers peth amser e.e. cynlluniau Biomas Caergybi a Hydro Glyn Rhonwy gyda chynllun llanw Morlais, oherwydd y dechnoleg a ddefnyddir, yn debygol o gymryd nifer o flynyddoedd i'w gweithredu. Mae'n amlwg felly bod methu â chyflawni'r targed o fewn y Cynllun mewn perthynas â gweithredu cynlluniau yn hytrach na methiant ym Mholisiau Ynni Adnewyddadwy y Cynllun.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd y polisïau Ynni Adnewyddol angen cael ei adolygu a bydd unrhyw botensial rhanbarthol neu lleol sydd wedi ei adnabod ar gyfer technoleg o'r fath angen ei ystyried fel rhan o baratoi'r Cynllun newydd.

Dangosydd D22

D22 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol.

Amcan:

SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.

SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:

- sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;
- lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;
- hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;
- defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;
- rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.

Targed:

Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun.

Polisiau perthnasol:

PS7

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun.

Dadansoddiad:

Bu oedi yn yr amserlen ar gyfer darparu'r CCA yma oherwydd yr angen i roi blaenoriaeth i CCA eraill wnaeth gymryd yn hirach i'w paratoi a'u hadrodd trwy Bwyllgorau'r ddau Gyngor.

Mae cyhoeddiad o Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ynghyd a thargedau diwygiedig yn Polisi Cynllunio Cymru yn golygu newidiadau cyd-destunol sylweddol ar gyfer technoleg ynni adnewyddol. Bydd adolygiad o bolisiâu ynni adnewyddol sydd yn y Cynllun yn cael ei gynnal yng ngoleuni'r newidiadau cyd-destunol yma ynghyd a'r gwaith o ddarparu Cynllun Ynni Ardal Lleol (LAEP) a bydd yn galluogi gwerthusiad o'r angen am a chynnwys CCA annibynnol yn y dyfodol sydd yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Yn dilyn paratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol i Wynedd bydd angen rhoi ystyriaeth i'r angen ar gyfer CCA Ynni Adnewyddol ar wahân.

Dangosydd D23

D23 - Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir yn ardal y Cynllun

Amcan:

SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy tra'n parchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.

SO6: Lleihau, addasu a lliniaru effeithiau newid hinsawdd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- sicrhau bod datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn cael eu cyfeirio oddi wrth ardaloedd o berygl llifogydd lle bynnag y bo modd;
- lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill mewn datblygiadau;
- hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel yn yr ardal;
- defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau na ddefnyddir neu rai na ddefnyddir i'w llawn gapasiti, ble byddant ar gael;
- rheoli, diogelu a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr.

Targed:

Isafswm dwysedd net cyfartalog o 30 o unedau tai yr hectar a gyflawnwyd yn gyffredinol yn ardal y Cynllun

Polisi perthnasol:

PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	✓
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Methu â chyflawni isafswm dwysedd net cyfartalog cyffredinol o 30 o unedau tai yr hectar yn ardal y Cynllun am ddwy flynedd yn olynol, oni bai ei fod yn cael ei gyfiawnhau gan Bolisi PCYFF 2.

Dadansoddiad:

Caniatâd newydd - Pob caniatâd (ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig) ¹

Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd = 215 uned / 10.79 ha = 19.93 Unedau yr hectar

Caniatâd newydd: Safleoedd gyda 5 neu fwy o unedau newydd (ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd = 174 uned/8.53 ha = 20.3 uned yr hectar

Yn seiliedig ar yr holl ddatblygiadau cymwys cymeradwy, mae'r dwysedd cyfartalog ar gyfer pob caniatâd yn sylweddol is na'r targed o 30 uned yr hectar. Mae'r lefel sbardun yn cyfeirio at fethiant i ddarparu dwysedd cyffredinol o 30 uned yr hectar am ddwy flynedd yn olynol. Sylwch fod gwybodaeth o gyfnod AMB 7 ar gyfer Gwynedd yn unig hefyd yn is na'r lefel darged. Fodd bynnag, nodir bod y dwysedd cyfartalog ar gyfer cyfnod AMB 7 ychydig yn is na'r lefel darged. Mae dwysedd cyfartalog datblygiadau tai eleni yn 9.6 uned yr hectar yn llai na'r cyfnod AMB blaenorol, tra hefyd yn nodi bod datblygiadau tai newydd wedi cynyddu o 40 uned o'i gymharu â gwybodaeth y llynedd.

Dwysedd cyfartalog yr holl unedau unigol perthnasol a ganiateir yng Ngwynedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn (26 uned ar 1.55 hectar) yw 16.8 uned yr hectar. Mae'r gallu i fynnu dwysedd uwch ar leiniau unigol yn fwy heriol yn seiliedig ar agweddau fel dwysedd datblygiadau cyfagos a chymeriad anheddiad ynghyd â siâp y safle mewn rhai achosion.

Ni ellir nodi, fodd bynnag, mai datblygiadau ar leiniau unigol yw'r rheswm pam fod y dwysedd cyfartalog yn is na lefel y trothwy ar gyfer cyfnod yr AMB hwn gan fod y dwysedd cyfartalog ar safleoedd preswyl mawr (sef y rhai ar gyfer 5 uned neu fwy), sef 20.3 uned yr hectar, hefyd yn is na'r ffigwr o 30 uned yr hectar.

¹ Mae'r wybodaeth ar gyfer y dangosydd hwn yn berthnasol ar gyfer caniatâd a cheisiadau newydd i ailystyried neu ymestyn dyddiad dod i ben caniatâd blaenorol. Mae'r rhain i gyd yn geisiadau lle byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Felly, nid yw'n ystyried ceisiadau am faterion a gedwir yn ôl lle roedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi'i roi, nac yn ystyried tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ailadeiladu tai, h.y. lle nad oes cynnydd yn nifer yr unedau. Sylwch hefyd nad yw'r wybodaeth hon yn cynnwys caniatâd ôl-weithredol na chaniatâd sy'n diwygio amodau'r caniatâd sy'n bodoli (ac felly'n ymestyn y caniatâd pum mlynedd ymhellach) lle nad yw caniatâd wedi ailystyried cynnwys y CDLI ar y Cyd yn benodol.

O'r 10 safle a gafodd ganiatâd ar gyfer 5 neu fwy o unedau yn y cyfnod hwn, nodir bod y dwysedd ar ddau yn unig o'r safleoedd hyn yn fwy na 30 uned yr hectar. Ar yr wyth safle arall, nodwyd bod rhesymau penodol wedi'u cyflwyno o blaid darparu dwysedd is:

Cae Incline Fields, Bangor (C25/0686/11/LL) - Roedd gan Cadw bryderon sylweddol am yr effaith andwyol y byddai'r datblygiad yn ei gael ar Heneb Gofrestredig Rheilffordd Chwarel Lechi Penrhyn a lleoliad Castell Penrhyn, parc hanesyddol a gardd gofrestredig Gradd II* o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddylunio i oresgyn y pryderon hyn, ac mae'r Datganiad Cynllunio yn nodi y bydd dwysedd tai is yn cael ei gynnig y tro hwn i barchu gwerth yr asedau treftadaeth sy'n ffinio â'r safle.

Tir oddi ar Ffordd Caernarfon, Pwllheli – Llain Ddwyreiniol (C23/0673/45/AM) - Mae arwynebedd y safle y gellir ei ddatblygu wedi'i gyfyngu'n sylweddol gyfyngedig gan y topograffi ac mae'r llystyfiant sy'n amgylchynu'r ffin orllewinol yn drwchus. Mae clawdd pridd hefyd yn rhedeg i lawr at Ffordd Caernarfon ac felly'n cyfyngu'r potensial i ddatblygu'r safle. Mae'r cyfyngiadau sy'n rhan o dopograffeg a llystyfiant sefydledig y safle yn arwain at ran gul o dir datblygu, sy'n esbonio'r cynllun hir a gynigir. Yn ogystal â'r topograffi, mae materion sy'n ymwneud ag ecoleg / bioamrywiaeth a draenio sy'n golygu dwysedd is na 30 uned yr hectar.

Cefn Capel, Botwnnog (C24/0205/32/LL) - Y rheswm dros gynnig llai o dai na'r cyfanswm a nodir yn y dyraniad yw'r angen i sicrhau digon o le o fewn y safle i ddarparu llain chwarae/agored ac er mwyn sicrhau ardal ddigonol ar gyfer y system ddraenio gynaliadwy.

Tir ger Ffordd Glanffynnon, Llanrug (C25/0651/23/LL) - Mae gwybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais yn nodi bod y dwysedd yn is na'r hyn sy'n ofynnol gan Bolisi PCYFF 2 oherwydd cyfyngiadau safle a'r angen i ddarparu ar gyfer nodweddion ac ardaloedd SuDS ar gyfer gwella ecoleg.

Tir oddi ar Ffordd Caernarfon, Pwllheli – Llain Orllewinol (C23/0671/45/AM) Mae ardal ddatblygu'r safle wedi'i chyfyngu'n sylweddol gan ei thopograffi sydd ar lethr o'r gogledd tuag at ganol y safle, gyda chlawdd serth i'r ochr ogleddol. Yn ogystal â'r topograffi, mae materion sy'n ymwneud ag ecoleg / bioamrywiaeth a draenio sy'n golygu dwysedd is na 30 uned yr hectar.

Tir ger Maes Llwyd, Llanystumdwy (C25/0204/41/LL) - Nodir bod yr ymgeisydd wedi nodi 'ystyried bod cymeriad a dwysedd y datblygiad yn gyffredinol yn gyson â nodweddion uniongyrchol o fewn anheddiad Llanystumdwy. O gofio hyn, mae'r math o dai arfaethedig yn dangos dwysedd sy'n gyson â dwysedd sy'n cael ei ystyried yn dderbyniol fel y nodir gan bolisiâu lleol a chenedlaethol tra hefyd yn gwneud y defnydd gorau o'r tir tai sydd ar gael fel yr argymhellir gan Bolisi Cynllunio Cymru'. Mae hyn yn cael ei gydnabod a'i ystyried yn gyfiawnhad digonol i'r dwysedd sy'n cael ei gynnig ac felly yn cydymffurfio â gofynion y polisi.

Tir ger Llys yr Eifl, Trefor (C25/0824/37/LL) - Nododd gwybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais fod yr angen i ddarparu ar gyfer nodweddion SuDS, seilwaith gwyrdd, plannu, a seilwaith arall gan gynnwys y ffordd fynediad a'r blaenau troi yn cyfiawnhau gostyngiad mewn dwysedd yn unol â'r bwriad.

Nodir bod Polisi PCYFF 2 yn cyfeirio at isafswm dwysedd o 30 o unedau tai yr hectar oni bai bod amgylchiadau lleol neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is. Credir bod amgylchiadau penodol yn bodoli, ar leiniau unigol yn ogystal â rhai safleoedd mwy, sydd wedi golygu datblygiad ar ddwysedd sy'n is na'r ffigwr hwn.

Tir gyferbyn â Deunant, Aberdaron (C25/0418/30/LL) - Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais yn nodi bod yr angen i ddarparu ar gyfer nodweddion SuDS, seilwaith gwyrdd, plannu, a seilwaith arall gan gynnwys y ffordd fynediad a'r blaenau troi yn cyfiawnhau gostyngiad mewn dwysedd.

Nodir bod Polisi PCYFF 2 yn cyfeirio at isafswm dwysedd o 30 o unedau tai yr hectar oni bai bod amgylchiadau lleol neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is. Credir bod amgylchiadau penodol yn bodoli, ar leiniau unigol yn ogystal â nifer o safleoedd mwy, sydd wedi golygu datblygiad ar ddwysedd sy'n is na'r ffigwr hwn.

Nodir bod amgylchiadau'n newid o flwyddyn i flwyddyn mewn perthynas â safleoedd sy'n derbyn caniatâd cynllunio. Nodir bod ffigyrau dwysedd wedi bod yn llawer uwch yn y blynnyddoedd blaenorol. Felly, ni chredir bod y ffigwr ar gyfer cyfnod yr AMB hwn yn achos pryder, ond credir y gellir edrych ar yr agwedd hon ymhellach wrth baratoi'r Cynllun newydd.

Gweithred

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D24

D24 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio

Amcan:

SO7: Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol.

Targed:

Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio o fewn 12 mis o fabwysiadu

Polisiau perthnasol:

PCYFF 2, PCYFF3 & PCYFF4

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu

Dadansoddiad:

Nid yw'r targed polisi wedi'i gyflawni ar hyn o bryd fel y rhagwelwyd ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithredu polisi.

Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Ddylunio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 4 yn 2017/18. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLI ar y Cyd.

Fodd bynnag, mae'r awdurdod cynllunio lleol yn parhau i ddefnyddio CCA sydd yn deillio o'r Cynllun Datblygu Unedol, a gall hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.

Gan fod polisi y CDLI ar y Cyd ar Ddylunio yn cydymffurfio â Canllawiau Cenedlaethol, ni ystyrir fod y llithriad mewn paratoi CCA newydd yn niweidiol i'r broses o wneud penderfyniadau.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Yn dilyn paratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol i Wynedd bydd angen rhoi ystyriaeth i'r angen ar gyfer paratoi CCA Dylunio.

Dangosydd D25

D25 - Nifer y tai newydd a ganiateir fesul categori yn yr Hierarchaeth Aneddiadau a nodir ym Mholisi PS 17, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd y flwyddyn

Amcan:

SO8: Sicrhau bod aneddiadau'n gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu holl anghenion eu cymunedau yn unol â'u rôl yn yr hierarchaeth aneddiadau:

Targed:

O'r dyddiad mabwysiadu, nifer yr unedau tai a ganiateir fesul categori anheddiad, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, yn unol â gofynion Polisi PS 17, sydd fel a ganlyn:

Canolfan Is-ranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol = 53%

Canolfannau Gwasanaeth Lleol = 22%

Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad = 25%

Polisi perthnasol:

PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4 a PS17

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	✓
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

O'r dyddiad mabwysiadu, nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, yn y:

PENNOD 6.2: BYW'N GYNALIADWY

- Canolfannau Is-ranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol a'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn disgyn yn is na'r gofyniad %;
- Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad yn uwch na'r gofyniad %

Dadansoddiad:

Gwybodaeth ar gyfer 2025-26 - Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig – Pob caniatâd

*Nodir bod safleoedd eithriad yn cael eu hystyried yn seiliedig ar yr anheddiad y mae'n ffinio ag ef, yn hytrach na fel lleoliad yng nghefn gwlad.

Haen	Nifer yr unedau a gymeradwywyd	Canran o'r holl ganiatâd preswyl	Dosbarthiad Targed
Canolfan Is-ranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol	112	52.1%	53%
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	46	21.4%	22%
Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad	57	26.5%	25%
Cyfanswm	215	-	

Gwybodaeth ar gyfer 2025/26 ar gyfer caniatâd newydd yn unig h.y. eithrio'r 1 uned sy'n destun estyniad o gyfnod caniatâd blaenorol.

Haen	Nifer yr unedau a gymeradwywyd	Canran o'r holl ganiatâd preswyl	Dosbarthiad Targed
Canolfan Is-ranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol	112	52.3%	53%
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	46	21.5%	22%
Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad	56	26.2%	25%
Cyfanswm	214	-	-

Mae'r lefel sbardun sy'n gysylltiedig â'r dangosydd yn nodi y dylid ystyried nifer yr unedau tai a gymeradwywyd dros ddwy flynedd yn olynol. Wrth gyfuno gwybodaeth ar gyfer AMB 7 ac AMB 8 gyda'i gilydd (1 Ebrill 2024-31 Mawrth 2026), nodir y wybodaeth isod (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig):

Gwybodaeth wedi'i chyfuno ar gyfer cyfnod AMB 7 ac AMB 8 – Pob caniatâd

Haen	Nifer yr unedau a gymeradwywyd	Canran o'r holl ganiatâd preswyl	Dosbarthiad Targed
Canolfan Is-ranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol	173	44.6%	53%
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	63	16.2%	22%
Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad	152	39.2%	25%
Cyfanswm	388	-	-

Gwybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 7 ac AMB 8 ar gyfer caniatâd newydd yn unig h.y. ac eithrio caniatâd i ymestyn cyfnod amser caniatâd blaenorol.

Haen	Nifer yr unedau a gymeradwywyd	Canran o'r holl ganiatâd preswyl	Dosbarthiad Targed
Canolfan Is-ranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol	173	49.7%	53%
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	63	18.1%	22%
Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad	112	32.2%	25%
Cyfanswm	348	-	-

AMB 8 Cyfnod yn unig – Mae'n amlwg bod dosbarthiad caniatâd cynllunio ym mhob haen dai yn cyfateb yn effeithiol iawn i'r lefelau targed. Mae pob canran o fewn 2% o'r targed a nodwyd ar gyfer yr hierarchaeth aneddeleodd hynny (ar gyfer pob caniatâd a chaniatâd newydd). Fodd

bynag, mae'n bwysig peidio ag ystyried y wybodaeth am un flwyddyn, ac mae angen ystyried cyfnodau ehangach i gael darlun llawn o'r sefyllfa o ran y dangosydd hwn.

Dwy flynedd yn olynol (cyfnod AMB 7 ac AMB 8 ar y cyd) - Wrth gymharu'r lefelau sbardun rhwng y cyfnod o ddwy flynedd gyda'i gilydd, gellir nodi bod nifer yr unedau newydd a gafodd caniatâd yng nghyfnod AMB 8 wedi dod â'r cyfanswm dwy flynedd yn agosach at y lefel darged o'i gymharu â'r ffigyrau a adroddwyd yn AMB 7. Mae hyn ar gyfer pob caniatâd a hefyd caniatâd newydd yn unig. Felly, credir bod y wybodaeth ar gyfer y cyfnod hwn yn cyfleu cydymffurfiaeth gliriach â'r dosbarthiad targed.

Mae'n bwysig ystyried y gall y sefyllfa newid o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar wahanol agweddau megis dyheadau datblygwyr a chyfleoedd posibl sy'n codi. Fodd bynnag, byddai'n sicr angen ystyried hyn yn ofalus wrth baratoi'r Cynllun newydd a'r ffordd y bydd y twf tai yn cael ei ddosbarthu.

Gweler atodiad 2 am fapiau sy'n dangos dosbarthiad caniatâd cynllunio ar gyfer unedau preswyl yn 2025/26 ynghyd â nifer y caniatâd cronrus ers mabwysiadu'r Cynllun.

Gweithred

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Prosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol a Datblygiadau Perthynol

Wylfa Newydd

Cyflwynwyd Horizon gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) er mwyn datblygu atomfa niwclear (Wylfa Newydd) ar y 1af o Fehefin, 2018. Roedd y cais yn destun archwiliad gan Banel o Arolygwyr Cynllunio a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben (cau) ar 23ain Ebrill 2019. Ar ddiwedd yr archwiliad, roedd gan y Panel 3 mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu eu casgliadau a'u hargymhelliaid ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd i'r bwriad, gyda'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar neu cyn y 23 Hydref 2019 (6 mis ar ôl dyddiad cau'r archwiliad).

Ailbennwyd y dyddiad gwneud penderfyniad i 31 Mawrth 2020 er mwyn caniatáu derbyn rhagor o wybodaeth am effeithiau amgylcheddol a materion eraill a oedd heb eu datrys.

Yn dilyn y cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig firws Covid-19 penderfynwyd yr Ysgrifennydd Gwladol ailbennu'r dyddiad cau statudol ar gyfer y cais hwn i 30 Medi 2020, gan nad oedd y Senedd yn eistedd. Y bwriad oedd y byddai datganiad yn cadarnhau'r dyddiad cau newydd ar gyfer penderfyniad yn cael ei wneud i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unol ag adran 107(7) o Ddeddf Cynllunio 2008 cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Senedd ailddechrau.

Ar yr 22ain o Fedi, 28ain o Fedi a 18fed o Ragfyr 2020 fe anfonwyd Horizon ohebiaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohriad i benderfyniad Cais Gorchymyn Datblygu (DCO) Wylfa Newydd. Nodwyd mai y rheswm am ofyn i ohirio'r penderfyniad oedd yn sgil trafodaethau oedd yn mynd rhagddi hefo thrydydd partïon oedd wedi mynegi diddordeb mewn bwrw ymlaen â datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl. Ar yr 27ain o Ionawr 2021 fe dynnwyd y Cais Gorchymyn Datblygu yn ôl gan Horizon Nuclear Power. Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil diffyg buddsoddwr i'r prosiect ynghyd a'r diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth. O'r herwydd fe olygai fod Hitachi wedi penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021. O ganlyniad i hyn, ystyriwyd yn briodol fod y Cais Gorchymyn Datblygu yn cael ei dynnu'n nôl.

Dangosydd D26

D26 - Cam yn y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) mewn perthynas â Wylfa Newydd

Amcan:

SO9: Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.

Targed:

Cais am GCD i Wylfa Newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo erbyn Rhagfyr 2017.

Cymeradwyo'r cais am GCD i Wylfa Newydd erbyn Rhagfyr 2018.

Polisiau perthnasol:

PS8, PS9, PS10, PS11, PS12

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	X
AMB4	X
AMB5	X
AMB6	X
AMB7	X
AMB8	X

Lefel sbardun:

Horizon Nuclear Power yn methu a chyflwyno cais am GCD erbyn Rhagfyr 2017.

Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth i'r cais GCD erbyn Rhagfyr 2018.

Dadansoddiad:

Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Cyflwynwyd canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Roedd y penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig ar 23 Hydref, 2019. Fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Yn dilyn cais gan Horizon Nuclear Power yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ohirio ei benderfyniad, ar 27ain o Ionawr, 2021 fe gadarnhawyd Horizon Nuclear Power eu bod yn tynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nôl.

Gweithred:**Eglurhad o'r weithred**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. Bydd angen ystyried unrhyw ddatblygiadau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ac ymateb iddynt wrth fynd ati i baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D27

D27 – Statws y cais i DECC am gymeradwyaeth derfynol.

Amcan:

SO9: Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.

Targed:

Prosiect Wylfa Newydd yn cael cymeradwyaeth “cadarnhad” gan DECC erbyn Rhagfyr 2019

Polisiau perthnasol:

PS8, PS9, PS10, PS11, PS12

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	—
AMB3	X
AMB4	X
AMB5	X
AMB6	X
AMB7	X
AMB8	X

Lefel sbardun:

Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth / “cadarnhad” gan DECC erbyn Rhagfyr 2019.

Dadansoddiad:

Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Cafodd canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol. Roedd y penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig erbyn 23ain o Hydref, 2019. Fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Yn dilyn cais gan Horizon Nuclear Power yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ohirio ei benderfyniad, ar 27ain o Ionawr, 2021 fe gadarnhawyd Horizon Nuclear Power eu bod yn tynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn ôl.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. Bydd angen ystyried unrhyw ddatblygiadau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ac ymateb iddynt wrth fynd ati i baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D29

D29 – Nifer a math o ddatblygiadau perthynol Prosiect Wylfa Newydd a gychwynwyd

Amcan:

SO9: Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu

Targed:

Datblygiadau perthynol unigol Prosiect Wylfa Newydd wedi eu cychwyn yn unol â chaniatâd cynllunio unigol

Polisiau perthnasol:

PS8, PS9, PS10, PS11, PS12

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Datblygiad perthynol prosiect Wylfa Newydd heb gychwyn o fewn yr amserlen a osodwyd yn y caniatâd cynllunio unigol a'r Gorchymyn caniatâd Datblygu (lle bo'n berthnasol).

Dadansoddiad:

Yn sgil y penderfyniad gan Horizon i dynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nol, nid oes yna unrhyw ddatblygiad perthynol wedi cychwyn. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer gwelliannau i'r A5025 (27C106E/FR/ECON) yn 2018 ac yna caniatâd i ddiwygio amod ymestyn cyfnod cychwyn ar y gwaith (VAR/2020/24) i hyd at Orffennaf 2023.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. Bydd angen ystyried unrhyw ddatblygiadau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ac ymateb iddynt wrth fynd ati i baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Darparu Cyfleon ar gyfer Economi Ffyniannus**Gweledigaeth Economaidd**

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos a Llywodraeth Cymru ynghyd â Awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru drwy'r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r bwrdd yn grŵp ar y cyd o sefydliadau preifat a chyhoeddus yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd ar draws yr ardal. Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys annog buddsoddiad busnes yng Ngogledd Cymru gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth.

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth, sy'n cynnwys chwe chyngor Gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion, lansio Bargaen Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Mae'r Fargaen Twf yn nodi gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth gyda'r nod o greu 5,300 o swyddi a denu buddsoddiad sector preifat gwerth £1 biliwn yn y rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf. Arwyddwyd y gytundeb derfynol ar gyfer Bargaen Twf Gogledd Cymru ar 17 Rhagfyr, 2020. Caiff y fargaen ei gefnogi gyda £120 miliwn yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Gobeithir y bydd y Fargaen Twf yn trawsnewid economi y rhanbarth drwy gefnogi twf gwyrdd a chynaliadwy.

Dangosydd D31

D31 – Swm o dir cyflogaeth neu arwynebedd llawr (dosbarth defnydd B1, B2 a B8) a gynhwysir ar safleoedd a amlinellir ym Mholisi CYF 1 sy'n cael eu colli i ddefnyddiau eraill.

Amcan:

SO10: Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.

Targed:

Dim colled net o dir cyflogaeth/arwynebedd llawr i ddefnyddiau amgen (defnyddiau heblaw dosbarth defnydd B1, B2 a B8) yn groes i Bolisi CYF 3 neu Bolisi CYF 5.

Polisiau perthnasol:

CYF 1, CYF 3 A CYF 5

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Caniatáu un cais cynllunio nad yw'n unol a Pholisi CYF 3 neu CYF 5.

Dadansoddiad:

Caniatawyd cyfanswm o 10 cais cynllunio ar safleoedd cyflogaeth a warchodir yn unol â Pholisi CYF 1. Roedd 11 o'r ceisiadau hyn yn gysylltiedig â defnyddiau yn nosbarthiadau defnydd B1,

B2 a B8 neu defnyddiau eraill presennol sydd wedi eu lleoli ar y safleoedd cyflogaeth a warchodir. Y cais nad oedd yn ymwneud â'r defnyddiau hyn oedd:

- C26/0052/25/LL: Ail gyflwyniad o gais i newid defnydd yr uned swyddfa B1 bresennol i ddefnydd cymysg sy'n cynnwys uned cleifion allanol feddygol (dosbarth defnydd D1) a gofod swyddfa (B1) - 14 Llys Castan Ffordd Y Parc, Parc Menai, Bangor, LL57 4FH

Rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r cais hwn gan y Pwyllgor Cynllunio yn erbyn yr argymhelliad y swyddog achos cynllunio (h.y. yn groes i bolisi CYF5) ac o ganlyniad cyrhaeddwyd y 'Lefel Sbardun'.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D32

D32 – Swm o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodir a gynhwyswyd ym Mholisi CYF 1 a gymerwyd i fyny yn ôl dosbarth defnydd datblygu B1, B2 neu B8.

Amcan:

SO10: Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.

Targed:

6.9 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodwyd a gymerir i fyny fesul blwyddyn yng Ngwynedd.

Polisiau perthnasol:

CYF 1, CYF 3 a CYF 5

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	✓
AMB3	✓
AMB4	✓
AMB5	X
AMB6	X
AMB7	X
AMB8	X

Lefel sbardun:

Llai na 27.4 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd erbyn 2021 yng Ngwynedd.

Llai na 57 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd erbyn 2021 yn Ynys Môn.

Dadansoddiad:

Mae'r sbardun monitro yn ymwneud â swm y tir safleoedd cyflogaeth a warchodwyd sydd wedi ei gymryd fyny erbyn diwedd 2021.

Yng Ngwynedd, mae 5.189ha o dir wedi derbyn caniatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd yn ystod cyfnod y wythfed Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB8).

Gan gynnwys caniatadau cynllunio a roddwyd yn ystod AMB1, AMB2, AMB3, AMB4, AMB5, AMB 6 & AMB7 mae cyfanswm cronws y tir a dderbyniodd ganiatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth safleoedd cyflogaeth a warchodwyd yng Ngwynedd yw 22.099ha (gan gynnwys adleoli uned 0.47ha ar Stad Cibyn yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu ffordd osgoi Caernarfon)

Nodir fod y gyfradd caniatâd ar safleoedd cyflogaeth gwarchodedig yn ystod y cyfnod byr hwn yn is na'r hyn a ddisgwylir. Ystyrir fod y Cynllun yn hwylusydd o ran darparu safleoedd cyflogaeth a bod llai o geisiadau am ddatblygiad ar y safleoedd cyflogaeth yn debygol o fod yn seiliedig ar faterion economaidd sydd tu hwnt i reolaeth y Cynllun.

*NODER: Mae rhan o ffordd osgoi Caernarfon yn mynd trwy gornel de-orllewinol Stad Ddiwydiannol Cibyn. Mae rhan fechan o'r stad ddiwydiannol bresennol wedi cael ei golli i'r ffordd osgoi.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D33

D33 – Swm o dir cyflogaeth (hectar) a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r holl ddynodiadau cyflogaeth.

Amcan:

SO10: Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.

Targed:

Sicrhau caniatâd cynllunio ar y safle cyflogaeth a ddynodwyd yng Ngwynedd erbyn 2019

Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 64 ha o dir cyflogaeth ar safle a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2021

Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 112ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2024

Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 144ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2026

Polisiau perthnasol:

CYF 1, CYF 3 a CYF 5

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	X
AMB2	X
AMB3	X
AMB4	X
AMB5	X
AMB6	X
AMB7	X
AMB8	X

Lefel sbardun:

Cyfanswm o dir cyflogaeth a ganiatawyd yn disgyn o dan yr angen cronol a nodwyd yn y targed polisi

Dadansoddiad:

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio ar y safleoedd a ddynodir yng Ngwynedd yn ystod AMB 8.

Mae'r targed yn nodi'r angen i'r safleoedd dderbyn caniatâd cynllunio erbyn 2019 yng Ngwynedd a Môn, ac o ganlyniad mae'r lefel sbardun eisoes wedi ei gyrraedd. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd economaidd yn sylweddol wahanol i pan fabwysiadwyd y Cynllun ac ystyrir fod hyn wedi cael cryn effaith ar faint o dir cyflogaeth sy'n cael ei ddatblygu.

*NODYN: Mae'r dadansoddiad hyn yn ymwneud a ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bwriedir paratoi Asesiadau o Dir Cyflogaeth fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r gefnogi'r Cynllun.

Dangosydd D35

D35 - Statws cyflogaeth 16+

Amcan:

SO11: Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithlu

Targed:

Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgarwch economaidd erbyn 2026 o gymharu â'r lefel yn 2017

Polisiau perthnasol:

PS 9, ISA 3

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	✓
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	✓

Trothwy:

Cyfradd gweithgarwch economaidd yn gostwng am 2 flynedd yn olynol

Dadansoddiad:

Arolwg o'r Gweithlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd (16-64)

	Blwyddyn yn dod i ben mis	Blwyddyn yn dod i ben mis	Blwyddyn yn dod i ben mis	Blwyddyn yn dod i ben mis	Blwyddyn yn dod i ben mis	Blwyddyn yn dod i ben mis

PENNOD 6.3 ECONOMI AC ADFYWIO

	March 2021	Mawrth 2022	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Mawrth 2025	Mawrth 2026
Ynys Môn	78.8%	74.1%	79.6%	Dim yn monitro	Dim yn monitro	Dim yn monitro
Gwynedd	77.9%	75.9%	77.7%	73.7 %	76.7%	80.5 (+3.8%)
Cymru	76.6%	75.6%	75.5%	76.2%	75.1%	75.5% (+0.4%)

Tarddiad: Stats Cymru - Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (16-64) yn ôl Ardal Leol a'r Flwyddyn yng Nghymru

Mae cyfradd gweithgaredd economaidd Gwynedd wedi codi rhwng Mawrth 2024 a Mawrth 2026.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Dangosydd D36

D36 – Nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd

Amcan:

SO11: Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle

Targed:

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun, lleihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2026 o'i gymharu â'r lefel yn 2017.

Polisiau perthnasol:

PS 9, ISA 3

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	✓
AMB3	X
AMB4	✓
AMB5	✓
AMB6	✓
AMB7	✓
AMB8	✓

Lefel sbardun:

Methiant o'i leihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2019.

Dadansoddiad:

Mae'r tabl isod yn amlygu patrymau cymudo o Ynys Môn i Wynedd dros y blynyddoedd diweddar.

Blwyddyn	Cyfanswm cymudwyr Ynys Môn	Nifer cymudwyr o	% Cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd

		Ynys Môn i Wynedd	
2016	32,200	7,900	24.5%
2017	31,500	7,000	22.2%
2018	32,200	7,900	24.5%
2019	32,000	7,500	23.4%
2020	30,900	7,400	24%
2021	30,000	5,700	19%
2022	31,600	4,300	13.6%
2023	32,500	4,800	14.8%
2024	30,300	6,500	21.5%
2025	33,300	7,200	21.6%

(Ffynhonnell: StatsWales, Llywodraeth Cymru)

Fel y gwelir, mae'r gyfradd poblogaeth weithio a gymudodd o Ynys Môn i Wynedd wedi amrywio dros y flynyddoedd, ar ôl gostyngiad clir rhwng 2021 a 2023 mae yna gynydd wedi bod yn 2024 a 2025 er dal yn is na'r sefyllfa yn 2016.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D37

D37 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer busnesau newydd mewn Pentrefi Gwasanaeth/ Lleol/Gwledig/ Arfordirol neu yn y cefn gwlad

Amcan:

SO12: Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleon cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu'r gymuned leol a pharchu buddiannau amgylcheddol.

Targed:

Caniatáu busnesau newydd ar raddfa fach ar safleoedd addas neu mewn adeiladau addas o fewn neu'n agos at bentrefi neu yn y cefn gwlad yn unol â Pholisi CYF 6

Polisiau perthnasol:

CYF 6

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer busnesau graddfa fach newydd ar safleoedd/ mewn adeiladau o fewn neu'n agos at bentref neu yn y cefn gwlad am ddwy flynedd yn olynol

Dadansoddiad:

Cymeradwywyd 3 o geisiadau cynllunio ar gyfer busnesau newydd mewn pentrefi gwasanaeth/lleol/gwledig/arfordirol a chefn gwlad agored sydd wedi cyfeirio at Bolisi CYF 6 wrth ystyried egwyddor y bwriad. Mae'r mathau o geisiadau sydd wedi'u cymeradwyo

yn cynnwys swyddfeydd masnachol, defnydd swyddfa ac unedau swyddfa symudol (a lle parcio ar gyfer staff).

Ymddengys fod Polisi CYF 6 yn parhau i gael ei ddefnyddio'n effeithiol i gymeradwyo ceisiadau am fusnesau newydd ar raddfa fechan ac y gall felly gyfrannu at sicrhau ffyniant economaidd a chyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Canol Trefi a Datblygiad Manwerthu

Mae canolfannau manwerthu yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer defnyddiau manwerthu. Nid oes yna unrhyw geisiadau mawr o fewn yr ardaloedd manwerthu (canol trefi a phrif ardal siopa) wedi ei dderbyn yn ystod cyfnod yr wythfed Adroddiad Monitro Blyneddol. Mae effaith Brexit a pandemig Covid-19 ar ganol trefi wedi amlygu ei hun fwyfwy yn ystod y blyneddoddi diwethaf gyda nifer o siopau gadwyn amlycaf y stryd fawr wedi cau. Golygai hynny fod yna wagle nodweddiadol wedi ei adael yn rhai o'n prif canol trefi.

Yn 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen 'Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydwerth a Mwy Disglair'. Mae'r ddogfen hyn yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru yn dilyn pandemig Covid. Rhoddir cryn bwyslais o fewn y ddogfen i adferiad y stryd fawr yn dilyn Covid.

Dangosydd D38

D38 Swm y datblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir (m.sg) o fewn a thu allan i ffiniau sefydledig canol trefi

Amcan:

SO13: Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phyllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Targed:

Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir o fewn ffiniau canol trefi sefydledig o'i gymharu â'r swm blynyddol a ganiateir tu allan i ffiniau canol trefi sefydledig ar safleoedd ar ymylon y canol a safleoedd tu allan i'r canol

Polisiau perthnasol:

MAN 1, MAN 2 & MAN 3

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	—
AMB3	✓
AMB4	✓
AMB5	✓
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir ar safleoedd tu allan i ganol trefi sefydledig yn fwy na'r swm blynyddol a ganiateir o fewn canol trefi sefydledig

Dadansoddiad:

Nodir bod lefel sbardun y dangosydd eisoes wedi'i chyrraedd yn dilyn caniatáu cais manwerthu mawr (C19/0398/11/LL) y tu allan i ganol dinas Bangor yn ystod cyfnod Monitro Blyneddol 2 (1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020).

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio manwerthu mawr yn ystod y cyfnod monitro hwn (AMB 8).

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D39

D39 – Cynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli

Amcan:

SO13: Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Targed:

Archwiliad i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli yn cael ei gwneud erbyn diwedd 2017/2018 o fabwysiadu'r Cynllun.

Dynodi safleoedd manwerthu ym Mangor, Llangefni a Phwllheli i gyfarch casgliadau'r Astudiaeth adeg adolygu'r Cynllun.

Polisiau perthnasol:

MAN 1, MAN 2, MAN 3

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Methiant i gynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli erbyn diwedd 2016/2017 o fabwysiadu'r Cynllun.

Methiant i ddarparu safleoedd manwerthu i gyfarch casgliadau'r Astudiaeth.

Dadansoddiad:

Ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd, ymddengys fod y niferoedd o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau manwerthu (A1) ym Mangor a Phwllheli yn gymharol isel ac mewn gwirionedd beth sydd yn cael ei gyflwyno ydi ceisiadau er mwyn newid defnydd unedau dosbarth defnydd A1 i ddefnyddiau amgen, er enghraifft defnydd A3 ac C3 neu i leihau arwynebedd llawr daear y gofod manwerthu. Mae effaith Brexit a'r pandemig wedi effeithio canol trefi yn sylweddol gan arwain at ymadawiad siopau cadwyn o ganol trefi yn hytrach na galw am ychwaneg o ofod. Oherwydd y diffyg cynnydd a phwysau ar gyfer defnyddiau A1 yn y canolfannau manwerthu penodol hyn nid yw'n ymddangos fod y galw ar gyfer defnyddiau manwerthu yn cyd-fynd a chasgliadau'r Astudiaeth Manwerthu (2013) a gynhaliwyd gan Applied Planning. Yn sgil hynny, ni ystyrir yn briodol i gynnal Astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu posibl ym Mangor a Phwllheli. Rhagwelir y bydd yr Astudiaeth Manwerthu (2013) yn cael ei ddiweddarau yn ystod y broses o adolygu'r Cynllun. Bydd casgliadau'r Astudiaeth yn sail i'r polisïau manwerthu yn yr adolygiad ac yn ein galluogi i ragweld os yw'r pwysau a'r galw am ychwaneg o ofod llawr nwyddau cymhariaeth yn parhau i fodoli ym Mangor a Phwllheli.

Mae'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun yn hwyluso'r ddarpariaeth o safleoedd manwerthu yn unol â'r galw a phriodoldeb y safle, gan hynny mae yna fecanwaith polisi yn ei le er mwyn cyfarch y galw pe byddai'n codi. Ymhellach, ystyrir yn briodol i gynnal adolygiad o'r Astudiaeth Manwerthu yn ystod y broses o baratoi Cynllun newydd er mwyn canfod os yw'r casgliadau yn parhau i fod yn gyfredol ac asesu'r angen ar gyfer darpariaeth o lawr gofod manwerthu.

Oherwydd y diffyg galw ar gyfer gofod manwerthu ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, ystyrir yn briodol fod yr angen a'r galw am ofod manwerthu ar gyfer y dyfodol yn derbyn ystyriaeth fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun newydd.

*NODYN: Mae'r dadansoddiad hyn yn ymwneud a ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D40

D40 - Nifer y ceisiadau cynllunio am ddefnyddiau nad ydynt yn A1 a gymeradwywyd mewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol.

Amcan:

SO13: Hyrwyddo canol trefi hanfodol a bywiog yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phyllheli, sydd un ai wedi cynnal neu wedi ailddarganfod eu pwrpas fel canolfannau gwaith a gwasanaethau, ac sy'n lleoedd bywiog a deniadol i drigolion.

Targed:

Defnyddiau A1 yn parhau i fod y prif ddefnydd o fewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol o gymharu â'r astudiaeth arwynebedd llawr manwerthu yn 2017

Polisiau perthnasol:

PS 15, MAN 1, MAN 2, MAN 3

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	✓
AMB7	✓
AMB8	✓

Trothwy:

Defnyddiau nad ydynt yn rhai A1 sydd wedi'u caniatáu mewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol yn groes i Bolisi MAN 2.

Dadansoddiad:

10 cais wedi'u cymeradwyo yn yr Prif Ardal Siopa. Mae pob cais yn cydymffurfio â meini prawf y polisi:

- 2 ganiatâd i drosi'r llawr gyntaf i fflatiau,
- 1 caniatâd i newid defnydd A1 i A3,
- 3 chaniatâd am hysbysebion,
- 2 ganiatâd i newid ffenestri a drysau,
- 1 caniatâd i newid yr oriau agor,
- 1 caniatâd i osod peiriant arian parod.

Ystyrir bod polisiau manwerthu'r cynllun yn cael ei weithredu'n effeithlon gan nad oes caniatâd wedi ei roi i unrhyw ddefnydd nad yw'n cael ei ystyried fel defnydd canol tref (yn unol â diffiniad PCC). Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Yr Economi Ymwelwyr

Mae twristiaeth yn sector deinamig sy'n newid yn barhaus. Mae ganddo gyfraniad sylweddol i'w wneud i economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion ardal y cynllun.

Mae pwysigrwydd twristiaeth i Wynedd i'w weld yn yr ystadegau isod:

Crynodeb Twristiaeth Gwynedd* 2024 (STEAM)

Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth (£Bn) % newid ar 2024	1.72 -0.6%
Cyfanswm diwrnodau ymwelwyr (Miliynau) % newid ar 2022	24.20 +0.1%
Diwrnodau ymwelwyr sy'n aros (Miliynau) % newid ar 2022	20.25 -0.8%
Cyfanswm yr ymwelwyr (Miliynau) % newid ar 2022	8.02 +1.7%
Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (Miliynau) % newid ar 2022	4.07 -1.2%
Nifer yr ymwelwyr dydd (Miliynau) % newid ar 2022	3.95 +4.9%
Nifer o swyddi FTE¹ sy'n cael eu cefnogi gan wariant twristiaeth	17,538 -1.1%

*yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri

¹ FTE = Cyflogaeth Llawn Amser (Full Time Employment)

Dangosydd D41

D41 - Nifer yr atyniadau a chyfleusterau i ymwelwyr neu welliannau wedi'u cymeradwyo i atyniadau a chyfleusterau

Amcan:

SO14: Rheoli'r ardal fel cyrchfan gynaliadwy amgen i dwristiaid gan ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n diwallu anghenion cyfoes ac sy'n cynnig manteision trwy gydol y flwyddyn.

Targed:

Atyniadau a chyfleusterau newydd neu well wedi'u caniatáu ar safleoedd addas yn unol â pholisi TWR 1

Polisiau perthnasol:

PS 14, TWR 1

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	✓
AMB3	✓
AMB4	✓
AMB5	✓
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	✓

Trothwy

Dim ceisiadau cynllunio am atyniadau neu gyfleusterau newydd, neu i wella atyniadau neu gyfleusterau wedi'u caniatáu am ddwy flynedd yn olynol.

Dadansoddiad:

1 caniatâd newydd ar gyfer chyfleusterau twristiaeth yn y cyfnod AMB yma.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

DRAFT

Dangosydd D42

D42 - Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir am unedau gwersylla amgen parhaol a dros dro

Amcan:

SO14: Rheoli'r ardal fel cyrchfan gynaliadwy amgen i dwristiaid gan ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n diwallu anghenion cyfoes ac sy'n cynnig manteision trwy gydol y flwyddyn.

Targed:

Unedau gwersylla amgen parhaol neu dros dro a ganiateir yn unol â Pholisi TWR 3 neu Bolisi TWR 5

Polisiau perthnasol:

PS 14, TWR 3, TWR 5

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	✓
AMB3	✓
AMB4	✓
AMB5	✓
AMB6	✓
AMB7	✓
AMB8	✓

Trothwy:

Dim ceisiadau cynllunio am unedau gwersylla amgen parhaol neu dros dro wedi'u caniatáu am ddwy flynedd yn olynol.

Dadansoddiad:

2 ganiatâd cynllunio newydd am ddatblygiadau gwersylla amgen dros dro (TWR 5).

Ystyrir bod y polisiau yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

DRAFT

Lleoliad Tai (Rhan 1)

Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), Mawrth 2020, yn nodi'r angen i gyflwyno dau ddangosydd newydd yn seiliedig ar y Taflwybr Tai o fewn y Cynllun. Mae hyn yn disodli'r angen i ymgymryd â Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac i fonitro ar sail y cyflenwad tir a'i hamlygir ar sail yr astudiaeth honno (Dangosydd D43 yn flaenorol fel nodir yn y CDLI ar y Cyd). Gweler y ddau ddangosydd newydd hyn isod, sef dangosyddion D43(A) a D43(B).

Nodir bod yn rhaid nodi'r lefelau cwblhau mewn perthynas â dangosyddion D43(A) a D43(B) yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blyneddol ar ffurf rhifau a chanrannau (plws/minws x %).

Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), megis felly'r CDLI ar y Cyd, caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blyneddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.

Yn unol â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, rhan 8.16), fe asesir y ddarpariaeth tai yn erbyn y taflwybr tai a'i nodir yn y Cynllun gan ddiwygio'r taflwybr er mwyn ei gymharu gyda'r taflwybr sydd yn rhan o'r Cynllun.

Fe noder bod y taflwybr yn y Cynllun yn cyfleu gwybodaeth i ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd sydd yn cynnwys Ynys Môn. O gofio bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi dirwyn i ben yn Ebrill 2023, bellach mae angen ystyried gwybodaeth o ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unigol. Yn sgil hyn mae'r taflwybr gwreiddiol a gyflwynwyd yn y CDLI ar y Cyd wedi ei gyfleu yn yr AMB hwn ar sail ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig. Mae'r wybodaeth sydd wedi ei gasglu yn cael ei ystyried a'i asesu felly yn erbyn y taflwybr i Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig.

Mae'r wybodaeth o'r taflwybr gwreiddiol wedi ei gyfleu ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig wedi ei nodi yn y tabl isod:

Blwyddyn	2011/ 12	2012/ 13	2013/ 14	2014/ 15	2015/ 16	2016/ 17	2017/ 18	2018/ 19	2019/ 20	2020/ 21	2021/ 22	2022/ 23	2023/ 24	2024/ 25	2025/ 26	CYFANSWM
Safleoedd bach	74	79	65	75	83	79	79	79	79	79	79	80	80	80	80	1170
Safleoedd mawr	47	92	107	136	70	79	79	79	79	79	79	79	79	79	80	1243
Dynodiadau	0	0	4	27	58	88	127	165	159	147	147	119	103	90	65	1299
Gofyniad blyneddol y Cynllun	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	3712.5
Cyfanswm cwblhau	121	171	176	238	211	246	285	323	317	305	305	278	262	249	225	3712
Cyfanswm cwblhau cronol	121	292	468	706	917	1163	1448	1771	2088	2393	2698	2976	3238	3487	3712	

Mae'n rhaid i'r Adroddiad Monitro Blyneddol gynnwys adran sy'n cynnwys graff gwreiddiol y taflwybr a thabl Cyfrifo'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig (neu Gofyniad Blyneddol Cyfartalog yn achos y CDLI ar y Cyd) ac mae'n rhaid i'r AMB gynnwys diweddariad o'r ddwy elfen. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i waith monitro, cymharu â dadansoddi mwy manwl

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI


gael ei wneud yn yr Adroddiad Monitro Blyneddol. Nodir mai'r pwynt allweddol yw y dylai fod yn glir i'r darllenwyr beth sydd wedi newid rhwng y cynllun a fabwysiadwyd a'r Adroddiad Monitro Blyneddol presennol.

Noder fod yn rhaid cynnwys sylwadau ar y canlyniadau a'r goblygiadau a nodi'n glir pa gamau (lle y bo'n berthnasol) sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg/tangyflawni yn erbyn strategaeth y cynllun. Noder fod sylwadau o'r fath yn cael eu cynnig o fewn y dadansoddiad o ddangosyddion D43(A) a D43(B) isod.

Gan mai dyma flwyddyn olaf cyfnod y CDLI ar y Cyd, ni ymgynghorwyd gyda tirfeddianwyr/datblygwyr mewn perthynas â sefydlu'r bwriad o ran dynodiadau tai'r Cynllun ynghyd a'r safleoedd banc tir mawr (5 neu fwy o unedau). Ni ymgynghorwyd ychwaith â'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai wrth ystyried y taflwybr arfaethedig i weddill cyfnod y CDLI ar y Cyd. Nid oedd ychwaith angen i ddarparu taflwybr newydd o gofio mai dyma yw blwyddyn olaf oes yn Cynllun.


Mae Atodiad 3 yn nodi'r sefyllfa o ran y dynodiadau tai a'r safleoedd banc tir mawr.

Graff y Taflwybr fel y'i nodir yn y CDLI a'i fabwysiadwyd – gwybodaeth wedi ei gyfleu ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig



PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

Graff y Taflwybr – ar sail gwybodaeth yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol – Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig



Mae'r graff hwn yn seiliedig ar y wybodaeth yn y tabl canlynol sydd yn cyfleu'r wybodaeth yn y Cynllun a'i mabwysiadwyd i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig.

Blwyddyn y CDLI ar y Cyd	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15
	2011 - 12	2012 - 13	2013 - 14	2014 - 15	2015 - 16	2016 - 17	2017 - 18	2018 - 19	2019 - 20	2020 - 21	2021 - 22	2022 - 23	2023 - 24	2024 - 25	2025 - 26
Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd mawr	47	92	111	163	128	218	160	228	186	97	124	63	82	187	88
Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd bach	74	79	65	75	83	58	48	53	59	38	45	44	55	25	30
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a'u dynodwyd yn ystod y flwyddyn															
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir yn ystod y flwyddyn															
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn ystod y flwyddyn															

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap bach yn ystod y flwyddyn															
Nifer y Tai Wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn	121	171	176	238	211	276	208	281	245	135	169	107	137	212	118
Nifer y Tai a'u rhagwelir fydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn															
Gofyniad Blynnyddol Cyfartalog	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247

Dangosydd D43 (A)

Y lefelau cwblhau tai blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Targed:

Caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun

Polisiau perthnasol:

PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gyfradd gofyniad blynyddol cyfartalog

Dadansoddiad:

Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.

Fe nodir y dylid monitro cydrannau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dynodiadau, a safleoedd hap bach a mawr ar wahân.

Rhaid nodi'r lefelau hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn rhifau a chanrannau (plws/minws x %).

Fe noder y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ynghyd â'r wybodaeth gwblhau flynyddol a nodir yn y taflwybr tai yn y CDLI ar y Cyd (wedi ei nodi ar sail ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig).

2025/26

Cymhariaeth â'r taflwybr tai (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

	Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd	Gwybodaeth o daflwybr tai y Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwyllir eu cwblhau	Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a'r wybodaeth yn y taflwybr
Safleoedd ar hap bychan (Llai na 5 uned)	30	80	-50 (-62.5%)
Safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai)	50	80	-30 (-37.5%)
Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai	38	65	-27 (-41.5%)
Cyfanswm cwblhau	118	225	-107 (-47.6%)

Cymhariaeth â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd	Gofyniad blynyddol cyfartalog y Cynllun	Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd â'r gofyniad blynyddol cyfartalog
118	247	-129 (-52.2%)

- Yng nghyfnod yr AMB hwn, noder fod 118 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol yw 247 o unedau i Wynedd yn unig (felly 129 uned yn llai neu -52.2%) ac roedd y taflwybr yn rhagweld datblygu 225 o dai, heb lwfans llithro, yn ystod 2025/26 (felly 107 uned yn llai neu -47.6%).
- O'i gymharu â'r wybodaeth o'r taflwybr (heb ystyried y lwfans llithro), noder ar gyfer 2025/26 fod 50 uned yn llai (-62.5%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan; 30 uned yn llai -37.5%) ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 27 yn llai o unedau wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-41.5%).
- Er mwyn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, noder y wybodaeth ganlynol ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd ynghyd ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unigol:

Ardal CDLI ar y Cyd

	Nifer o unedau wedi eu cwblhau	Cymhariaeth gyda ffigwr taflwybr	Cymhariaeth gyda Gofyniad Cyfartalog Blynyddol
2016/17	402	+6.9%	-16.0%
2017/18	462	-8.5%	-3.5%
2018/19	548	-11.2%	+14.4%
2019/20	453	-28.2%	-5.4%
2020/21	360	-44.4%	-24.8%
2021/22	347	-44.3%	-27.6%
2022/23	298	-47.3%	-37.7%
2023/24	-	-	-

Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd

	Nifer o unedau wedi eu cwblhau	Cymhariaeth gyda ffigwr taflwybr	Cymhariaeth gyda Gofyniad Cyfartalog Blynyddol
--	--------------------------------	----------------------------------	--

2016/17	276	+12.2%	+11.7%
2017/18	208	-27.0%	-15.8%
2018/19	281	-13.0%	+13.8%
2019/20	245	-22.7%	-0.8%
2020/21	135	-55.7%	-45.3%
2021/22	169	-44.6%	-31.6%
2022/23	107	-61.5%	-56.7%
2023/24	137	-47.7%	-44.5%
2024/25	212	-14.9%	-14.2%

- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44 a D45.
- Mae'r wybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd i gyfnod AMB 8 yn cyd-fynd â'r tueddiad cyffredinol sydd wedi bod yn amlwg yn yr ardal hon ynghyd ag ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd ers 2019/20, sef y ffaith nad yw'r nifer o unedau a'u darparwyd yn cwrdd â'r gofyniad yn y taflwybr nac y gofyniad blynyddol cyfartalog (sydd wedi ei gyfleu i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd). Fodd bynnag mae'r diffyg hwn yn llawer yn fwy arwyddocaol na'r llynedd gan gyfleu'r patrwm cyffredinol ar gyfer y blynyddoedd diweddar i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Mae gostyngiad arwyddocaol wedi bod yn y nifer o dai a gwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn 2025/26 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae yn fwy cyson â'r ffigyrau ar gyfer y pedair mlynedd cyn hynny.
- Gellir nodi, yn unol â'r lefel sbardun, bod yr hyn sydd wedi ei ddatblygu yn sylweddol is na'r gyfradd gofyniad blynyddol cyfartalog (i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig). Credir fod yna'n sicr angen i ystyried yr hyn a'i hamlygir yn y dangosydd hwn wrth baratoi'r Cynllun newydd.
- Yn hyn o beth mae'n bwysig ystyried y gwahanol gydrannau o ddarparu tai h.y. rôl safleoedd ar hap bach a mawr ynghyd a'r dynodiadau, wrth asesu'r ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd. Mae'n amlwg fod y nifer o dai sydd wedi eu datblygu ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn sylweddol is na'r hyn a ragwelir yn y taflwybr (gweler hefyd ymateb i ddangosydd D45). Credir bod angen cadw llygaid ar y sefyllfa yn ei gyfanrwydd wrth baratoi Cynllun newydd a bydd yn bwysig ystyried y wybodaeth hyn ynghyd a materion eraill cyd-destunol, megis y sefyllfa economaidd a chynnwys dogfen Cymru'r Dyfodol ar y cyd a'r wybodaeth o ran dangosydd D43(B) wrth ystyried effaith datblygiadau blynyddol ar y ffigwr tai yn ei gyfanrwydd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd 43 (B)

Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeledd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Targed:

Caiff lefelau cwblhau tai cronol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol a nodir yn y Cynllun

Polisiau perthnasol:

PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol

Dadansoddiad:

Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, caiff lefelau cwblhau tai cronnol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol a nodir yn y Cynllun.

Fe noder y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyledig a noder yn nhaflwybr tai'r CDLI ar y Cyd (wedi ei nodi ar sail ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig).

Gwybodaeth o ran y gyfradd cwblhau gronnol hyd at 2025/26 – gwybodaeth fesul cydrannau darpariaeth tai (ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

	Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd	Gwybodaeth o daflwybr tai'r Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwylir eu cwblhau	Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a'r wybodaeth yn y taflwybr
Safleoedd bychan (Llai na 5 uned)	831	1170	-339 (-29.0%)
Safleoedd mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai)	1259	1243	+16 (+1.3%)
Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai	715	1299	-584 (-45.0%)
Cyfanswm unedau cronnol wedi eu cwblhau	2805	3712	-907 (-24.4%)



PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI


Cyfradd darparu tai blynyddol o'i gymharu â'r wybodaeth yn y taflwybr tai (ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

Blwyddyn	Ffigwr cwblhau cronol a nodir yn y taflwybr	Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol)	Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau blynyddol yn y taflwybr	Cyfanswm cwblhau cronol	Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau cronol yn y taflwybr	% cwblhau yn erbyn y ffigwr cwblhau cronol
2011-12	121	121	0	121	0	0%
2012-13	292 (+171)	171	0	292	0	0%
2013-14	468 (+176)	176	0	468	0	0%
2014-15	706 (+238)	238	0	706	0	0%
2015-16	917 (+211)	211	0	917	0	0%
2016-17	1163 (+246)	276	+30	1193	+30	+2.6%
2017-18	1448 (+285)	208	-77	1401	-47	-3.2%
2018-19	1771 (+323)	281	-42	1682	-89	-5.0%
2019-20	2088 (+317)	245	-72	1927	-161	-7.7%
2020-21	2393 (+305)	135	-170	2062	-331	-13.8%
2021-22	2698 (+305)	169	-136	2231	-467	-17.3%
2022-23	2976 (+278)	107	-171	2338	-638	-21.4%
2023-24	3238 (+262)	137	-125	2475	-763	-23.6%
2024-25	3487 (+249)	212	-37	2687	-800	-22.9%
2025-26	3712 (+225)	118	-107	2805	-907	-24.4%

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

Mae'r graffiau isod yn cymharu'r tai sydd wedi eu darparu fesul y gwahanol gydrannau yn erbyn y wybodaeth yn nhaflywyr tai'r Cynllun (wedi ei seilio ar wybodaeth Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig).





Noder isod wybodaeth sydd yn asesu'r gwir ddarpariaeth tai yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol, sef yr hyn a nodir yn y wybodaeth targed fel yr amlygir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3.

Cyfradd darparu tai o'i gymharu â'r gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol (ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

Blwyddyn	Gofyniad blynyddol cyfartalog cronnol (247 uned y flwyddyn)	Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol)	Cymhariaeth yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog	Cyfanswm cwblhau cronnol	Cymhariaeth yn erbyn gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol	% cwblhau yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol
2011-12	247	121	-126	121	-126	-51.0%
2012-13	495	171	-76	292	-203	-41.0%
2013-14	742	176	-71	468	-274	-36.9%
2014-15	990	238	-9	706	-284	-28.7%
2015-16	1237	211	-36	917	-320	-25.9%
2016-17	1485	276	+29	1193	-292	-19.7%

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

2017-18	1732	208	-39	1401	-331	-19.1%
2018-19	1980	281	+34	1682	-298	-15.1%
2019-20	2227	245	-2	1927	-300	-13.5%
2020-21	2475	135	-112	2062	-413	-16.7%
2021-22	2722	169	-78	2231	-491	-18.0%
2022-23	2970	107	-140	2338	-632	-21.3%
2023-24	3217	137	-110	2475	-742	-23.1%
2024-25	3465	212	-35	2687	-778	-22.5%
2025-26	3712	118	-129	2805	-907	-24.4%

- Gan gynnwys gwybodaeth o gyfnod yr AMB hwn, noder bod 907 yn llai o unedau wedi eu cwblhau yn ardal awdurdod Cynllunio Gwynedd o'i gymharu â'r ffigwr disgwylidig a noder yn y taflwybr ac hefyd y gofyniad blynyddol cyfartalog ar gyfer ardal Gwynedd (gan ei fod yn cymharu gyda'r cyfanswm o ran y nifer o unedau a oedd yn ddisgwylidig yn ystod oes y Cynllun). Noder nad yw hyn yn cymryd i ystyriaeth y lwfans llithro yn y Cynllun ond yn hytrach y gwir ffigwr ar gyfer cwrdd â ffigwr tai'r Cynllun.
- Noder fod 2805 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd ers y dyddiad sail yn 2011 hyd at 2025/26. Mae hyn 24.4% yn is na'r ffigwr cyfanswm a ddisgwyliwyd ar gyfer oes y Cynllun.
- Mae'r diffyg o ran y canran o unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd wedi cynyddu ers y llynedd o safbwynt y cymhariaeth gyda'r ffigwr cronol disgwylidig yn y taflwybr ynghyd ac o ran y gofyniad tai cronol yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.
- O ran y ffigwr cronol disgwylidig yn y taflwybr, noder fod cynnydd arwyddocaol wedi bod yn y diffyg hwn dros y blynyddoedd diweddar (er enghraifft, roedd y diffyg yn -13.8% yng nghyfnod AMB 3). Noder fod y gyfradd cwblhau gronol wedi bod yn eithaf cyson â'r wybodaeth a nodir yn y taflwybr hyd nes cyfnod AMB 2 ond nodir fod y bwlch, o safbwynt y ffigwr canran, wedi cynyddu yn gyson ers hynny (o ran diffyg) gyda'r eithriad o gyfnod AMB 7.
- Tra bod diffyg arwyddocaol yn y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau o'i gymharu â'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol, noder, ar y cyfan, fod y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronol wedi bod yn fwy cyson â'r gofyniad blynyddol cyfartalog cronol yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun o'i gymharu â blynyddoedd cynnar oes y Cynllun (ar ffurf canran).

- Wrth ddadansoddi'r wybodaeth yn fanylach o safbwynt cymharu gyda'r wybodaeth gronnol o'r taflwybr ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (heb ystyried y lwfans llithro) noder fod 339 uned yn llai (-29.0%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan (llai na 5 uned) o'i gymharu â'r hyn a nodir yn y taflwybr; 16 uned yn fwy (+1.3%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 584 yn llai o unedau wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-45.0%).
- Mae'r graffiau uchod yn amlygu fod unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan yn y blynyddoedd diweddar wedi bod yn is na'r hyn roedd y taflwybr yn ei ragweld tra ar y llaw arall fod yr unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor) wedi bod yn uwch mewn llawer blwyddyn na'r wybodaeth yn y taflwybr. Mae'n amlwg fod unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yn y Cynllun wedi bod yn sylweddol is na'r hyn roedd y taflwybr yn ei ragweld (gweler sylwadau pellach ynglŷn â'r agwedd hon yn y sylwadau i ddangosydd D45).

Noder y pwyntiau canlynol yn gysylltiedig â'r wybodaeth hyn:

- Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 yn nodi lle y ceir diffyg o ran lefelau cwblhau tai cronol yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog am ddwy flynedd yn olynol, mae'n rhaid i'r ACLI ystyried maint unrhyw ddiffyg a nodi ei gasgliad/camau monitro o ran y goblygiadau ar gyfer cyflenwi'r lefel ofynnol o dai neu gyflawni'r strategaeth. Mae'r lefel sbardun o ran y dangosydd hwn yn nodi bod yn rhaid ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol.
- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronnol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44 a D45.
- Mae'n amlwg o'r wybodaeth hyd at gyfnod yr AMB hwn fod diffyg wedi bod yn y ddarpariaeth tai ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y CDLI ar y Cyd o'i gymharu â'r hyn oedd yn ddisgwyliedig. Fel amlygir mewn perthynas â dangosydd D45, wrth baratoi'r Cynllun newydd bydd rhaid ystyried addasrwydd dynodiadau tai'r Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y ffigwr tai.
- Mae'r nifer o unedau a gaiff eu cwblhau yn ddibynnol ar amgylchiadau o ran safleoedd unigol ac o ran agweddau a gofynion fwy eang e.e. sefyllfa economaidd. Tra bod ystyriaeth wedi ei roi i'r holl agweddau perthnasol wrth ragweld lefelau twf tai yn y dyfodol, y gwir yw bod hyn yn ddibynnol ar ddymuniad a dyheadau'r tirfeddianwyr a datblygwyr i ddatblygu'r safleoedd perthnasol. Hwylusydd yw'r Cynllun i ddarparu tai - ni all orfodi hyn. Nodir mai rôl y CDLI ar y Cyd ydyw i ddarparu'r amodau i gyflawni datblygiadau perthnasol ac i gyflenwi tai yn y modd mwyaf addas. O gofio fod y gwaith o baratoi Cynllun o'r newydd wedi cychwyn, ni chredir fod angen gweithredu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r dangosydd hwn.
- Bydd yr ystyriaethau mewn perthynas â'r dangosydd hwn yn greiddiol wrth baratoi Cynllun o'r newydd. Tra bod y Cynllun yn ceisio sicrhau fod y safleoedd a'u nodir yn gallu cyflawni'r datblygiadau perthnasol, ni all y Cynllun orfodi bod y datblygiadau hyn yn digwydd yn unol

â'r wybodaeth yn y taflwybr. Wrth baratoi'r Cynllun newydd, mi fydd yn hollbwysig ystyried y lefel twf tai yn ei gyfanrwydd ynghyd ac adnabod y safleoedd gorau a mwyaf addas i gwrdd â'r twf hwn mewn modd effeithiol sydd yn cwrdd â strategaeth y Cynllun.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D44

D44 Nifer yr unedau tai newydd a adeiledir yn ardal y Cynllun

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Targed:

Darparu 7,184 unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun, yn ôl y dadansoddiad a nodir ym Mhapur Pwnc 20B Taflwybr Tai

Targedau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:

2016/ 17 = 376

2017/ 18 = 505

2018/ 19 = 617

2019/ 20 = 631

2020/ 21 = 647

2021/ 22 = 623

2022/ 23 = 565

2023/ 24 = 527

2024/ 25 = 528

2025/ 26 = 466

Polisiau perthnasol:

PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol

Dadansoddiad:

Mae'r tabl isod yn nodi cymhariaeth o ran y nifer o unedau sydd wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun o'i gymharu â'r targed:

Ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd

Blwyddyn	Targed	Nifer gwirioneddol	Gwahaniaeth (%)
2016/17	376	402	+6.9%
2017/18	505	462	-8.5%
2018/19	617	548	-11.2%
2019/20	631	453	-28.2%
2020/21	647	360	-44.4%
2021/22	623	347	-44.3%
2022/23	565	298	-47.3%

Ardal Gwynedd yn unig

Blwyddyn	Targed	Nifer gwirioneddol	Gwahaniaeth (%)
2023/24	527 (gydag Ynys Môn)	137	-
2024/25	528 (gydag Ynys Môn)	212	-
2025/26	466 (gydag Ynys Môn)	118	-

O gofio bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn wedi dirwyn i ben ar 31ain Mawrth, 2023 ac mai dim ond gwybodaeth o ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd sydd ar gael ar gyfer cyfnod AMB 8, mae'r tabl isod yn cyfleu gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r taflwybr ar gyfer yr ardal hon yn unig.

Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig

Blwyddyn	Targed	Nifer gwirioneddol	Gwahaniaeth (%)
2016/17	246	276	+12.2%
2017/18	285	208	-27.0%
2018/19	323	281	-13.0%
2019/20	317	245	-22.7%
2020/21	305	135	-55.7%
2021/22	305	169	-44.6%
2022/23	278	107	-61.5%
2023/24	262	137	-47.7%
2024/25	249	212	-14.9%
2025/26	225	118	-47.5%

Fel amlygir yn y tabl uchod, mae'r nifer o unedau preswyl newydd a ddatblygwyd yn ardal awdurdod Cynllunio Gwynedd wedi gollwng yn sylweddol o niferoedd y llynedd. Gellir gweld yn glir nad yw'r nifer o unedau wedi cyrraedd â gofynion yr targed blyneddol yng Ngwynedd nac yn ardal y Cynllun ers 2016/17.

O ran ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig, wrth ychwanegu'r wybodaeth o gyfnod AMB 8 i'r wybodaeth yn y blyneddod blaenorol a'u noder yn y tabl uchod (h.y. cyfnod 2016-26), fe nodir bod 1888 o unedau wedi eu cwblhau o'i gymharu â tharged o 2795 o unedau. Mae hyn gyfystyr â 67.5% o'r lefel targed (diffyg o 907 uned dros gyfnod o 10 mlynedd sef 90.7 uned y flwyddyn).

Noder fod gostyngiad sylweddol yn y nifer o unedau a gwblhawyd eleni i gymharu a canlyniadau yr AMB blaenorol ond noder nad dyma'r cyfanswm isaf ers 2016/17. Gellir dadlau bod cyfanswm eleni yn gymharol â nifer o'r symiau blyneddol a nodwyd o fewn y chwe mlynedd diwethaf. Mae'r diffyg eleni o 47.5% rhwng y ffigwr targed a'r gwir ffigwr datblygu yn arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd ers 2016/17, sef diffyg o 32%. Er noder nad diffyg eleni yw'r diffyg mwyaf o ran canran ers 2016/17, dylid nodi mai'r targed a ddisgwylir yn 2025/25 yw'r targed isaf (225) yn y cyfnod hwn.

O'i gymharu â'r ffigwr cwblhau blynyddol uchaf ers mabwysiadu'r Cynllun, sef 2018/19, mae 163 yn llai o unedau wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yng nghyfnod AMB 8. Mae'r gwahaniaeth hwn yn fwy na'r ffigwr datblygu ar gyfer eleni.

Wrth ystyried y rheswm dros y diffyg amlwg gyda'r ffigwr targed a'r lleihad arwyddocaol o'r gymharu a ffigwr y llynedd, noder y gallai costau adeiladu fod wedi cael effaith yn hyn o beth. Ffactor arall posib yw rhaglenni datblygu cymdeithasau tai. Tra bod Cymdeithasau Tai yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r unedau sydd wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yng nghyfnod AMB 8, noder bod y ffigwr hwn 53 uned yn is na'r llynedd. Noder hefyd bod yna ddatblygiadau gan ddarparwyr o'r fath, sy'n cynnwys nifer sylweddol o unedau tai, ar ganol eu datblygu ond heb eu cwblhau yng nghyfnod yr AMB hwn. Wrth rhoi ystyriaeth ar gyfer unedau sydd yn disgwyl datblygiad, mae'n hanfodol nodi mai ond caniatâd cynllunio y gall y Cyngor ei roi. Mae cyflawni a datblygu'r unedau a gymeradwywyd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor

Er mae'r niferoedd o datblygiadau preswyl yn is o'i gymharu â AMB llynedd, mae'n bwysig rhoid ystyriaeth i'r holl geisiadau byw sydd yn rhestr banc tir yn ardal y cynllun. Gellir gweld o gwaith maes 2025/26 fod 65 uned yn ychwanegol sydd heb eu dechrau o'i gymharu â ffigyrau 2024/25. Felly mae'n bosib rhagweld fydd mwy o datblygiadau newydd yn digwydd yn y dyfodol.

Tra bod ffigwr cwblhau wedi gostwng eleni, noder fod 116 uned wedi derbyn caniatâd ar safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai yn ystod yr AMB hwn o'i gymharu â dim un ar safleoedd o'r fath yn 2024/25.

Mae'r diffyg caniatâdau hyn o'r flwyddyn flaenorol yn debyg wedi cael effaith ar ffigyrau cwblhau y cyfnod hwn.

Noder nad oes caniatâd cynllunio (Ebrill 2026) yn bodoli ar gyfer nifer arwyddocaol o'r safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai h.y. 13 o'r 38 dynodiad yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, sef 34.2%.

O gofio'r bwlch rhwng y lefel targed (yn flynyddol ac yn gronnol) a'r hyn sydd wedi ei gwblhau mewn gwirionedd, credir fod hyn yn agwedd bydd yn rhaid ei ystyried wrth baratoi'r Cynllun newydd yn enwedig o safbwynt ystyriaeth o ffigwr darpariaeth tai y Cynllun newydd.

Bydd y gwaith o fonitro'r Cynllun yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed. Noder fodd bynnag mai rôl y Cynllun Datblygu Lleol yw darparu'r amodau i gyflawni datblygiadau perthnasol ac i gyflenwi tai yn y modd mwyaf addas. Ni all y Cynllun orfodi bod y safleoedd hyn yn cael eu datblygu. Wrth baratoi Cynllun newydd credir y dylid ail-edrych ar y gyfradd twf tai ynghyd a'r dynodiadau i'w gynnwys ynddo.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi'r Cynllun newydd.

DRAFT

Dangosydd D45

D45 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yng Ngwynedd fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Targed:

Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisiâu TAI 1 - 5 am 1,467 o unedau tai newydd yng Ngwynedd (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) dros gyfnod y Cynllun, sy'n cyfateb i 19% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol.

Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:

	Safleoedd a ddynodwyd
2016/ 17	99
2017/ 18	144
2018/ 19	187
2019/ 20	180
2020/ 21	166
2021/ 22	166
2022/ 23	135
2023/ 24	117
2024/ 25	102
2025/ 26	74

Polisiau perthnasol:

PS16, TAI1, TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Gwynedd yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol

Dadansoddiad:

Mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yng Ngwynedd wedi disgyn islaw'r targedau a'u nodir ar gyfer cyfnod yr AMB hwn ynghyd a phob un o'r blynyddoedd eraill a'u nodir yn y wybodaeth darged:

	Targed	Nifer gwirioneddol
2016/ 17	99	70
2017/ 18	144	77
2018/ 19	187	123
2019/ 20	180	106
2020/ 21	166	49
2021/22	166	38
2022/23	135	55
2023/24	117	13
2024/25	102	55
2025/26	74	38

Noder fod rhai o'r dynodiadau tai wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu'r Cynllun, yn aml ar sail eu bod yn ddynodiadau yn y cynllun datblygu blaenorol, a bod hyn yn gyfrifol ar gyfer canran arwyddocaol o'r unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau fel nodir yn y tabl uchod, yn enwedig felly yn y blynyddoedd cynnar wedi mabwysiadu.

Mae enghreifftiau o'r fath (o safbwynt safleoedd a oedd wedi eu cwblhau yng nghyfnod AMBau blaenorol) yn cynnwys safleoedd megis safle T1 Goetra Uchaf ym Mangor a safle T27

Lôn Cae Phillips yng Nghaernarfon, sef rhai o'r dynodiadau mwyaf y CDLI ar y Cyd yng Ngwynedd.

Yng nghyfnod AMB 8 noder mai ond ar ddau safle sydd wedi eu dynodi y mae unedau wedi eu cwblhau. Mae mwyafrif o'r unedau sydd wedi eu cwblhau (30 uned) wedi eu lleoli ar safle a gafodd ei gyflwyno o'r newydd yn y CDLI ar y Cyd, sef safle T57 (Tir gyferbyn â Stad y Cremlyn, Bethel). Mae'r 8 uned arall a'u cwblhawyd ar safle T41 (Tir ger North Teras, Cricieth) sydd yn safle a oedd wedi ei ddynodi yn flaenorol yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

Tra bod darpariaeth sylweddol o dai wedi eu hadeiladu ar y dynodiad ym Methel, mae'n amlwg nad yw'r ddarpariaeth ar ddynodiadau o'r newydd (a gyflwynwyd yn y CDLI ar y Cyd) yn ddigonol i gwrdd â'r lefel targed a nodir yn y dangosydd. Byddai disgwyl erbyn hyn i'r dynodiadau tai a'u cyflwynwyd yn y CDLI ar y Cyd ddarparu cyfran arwyddocaol o'r targed blyneddol ar gyfer y dangosydd hwn. Mae'r gyfran o unedau sydd wedi eu cwblhau ar ddynodiadau tai yn sylweddol is na'r targed a'i noder ar gyfer y flwyddyn hon.

Noder ym mis Ebrill 2026 fod 20 uned wrthi yn cael eu datblygu ar 4 gwahanol safle sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai yn y CDLI ar y Cyd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Rhoddwyd caniatâd yn ogystal yn ystod cyfnod yr AMB hwn ar gyfer 116 uned ar safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai yn y CDLI ar y Cyd (ar 4 safle). Gall hyn olygu felly bod cynnydd yn y ddarpariaeth ar ddynodiadau tai yn y dyfodol.

O'r 25 dynodiad yng Ngwynedd nad oedd wedi eu cwblhau erbyn diwedd cyfnod yr AMB hwn, mae caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer 12 o'r safleoedd hyn (h.y. caniatâd byw ar 31 Mawrth, 2026). Golygai hyn felly bod 13 safle wedi eu dynodi yng Ngwynedd nad sydd â chaniatâd cynllunio hyd at 31ain Mawrth 2026.

Mae 32.2% o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yn 2025/26 wedi eu lleoli ar ddynodiadau tai. Mae hyn yn gyfradd uwch na'r llynedd, er nodir bod y cyfanswm unedau sydd wedi eu datblygu yng Ngwynedd y flwyddyn hon yn sylweddol is na'r flwyddyn diwethaf. Ers cofnodi'r wybodaeth ar gyfer y dangosydd hwn, noder mai ond yng nghyfnodau AMB 5 (51.4%), AMB 3 (36%) ac AMB 2 (43%) y gwelwyd canran uwch o unedau wedi eu cwblhau ar ddynodiadau tai nag y flwyddyn hon. Mae'r taflwybr tai yn y Cynllun (wedi ei gyfleu ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd) yn nodi y disgwylir i 28.9% o unedau a'u cwblheir yn 2025/26 yn ardal y Cynllun i fod ar ddynodiadau tai. Mae'r gwir ganran felly yn uwch na'r ffigwr hwn (er ddim o reidrwydd y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau).

Gan nad yw'r nifer o unedau a ddatblygir ar y dynodiadau tai yn gyson heb gwrdd â'r targedau o ran y dangosydd hwn a bod y bwlch rhwng y gwir ddarpariaeth a'r ffigyrau targed yn rhai arwyddocaol yn y blyneddol diweddar, credir bod lle i ail-ystyried y safleoedd sydd

yn berthnasol i'w dynodi wrth baratoi'r Cynllun newydd. Mae'n rhaid ystyried addasrwydd yr holl ddynodiadau tai yn y Cynllun o ran eu gallu i gyfrannu yn effeithiol at y targed.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D47

D47 Cyfanswm nifer y tai fforddiadwy ychwanegol a adeiladwyd yn ardal y Cynllun

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o unedau tai o ansawdd da a fforddiadwy, o ystod o fathau a deiliadaeth i ddiwallu gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth

Targed:

Adeiladu 1,572 o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun erbyn 2026

Targedau adeiladu ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun (2015 – 2026):

Adeiladu 345 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2018

Adeiladu 575 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2020

Adeiladu 805 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2022

Adeiladu 1035 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2024

Adeiladu 1266 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026

Polisi perthnasol:

PS16, TAI 1-TAI 7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19

Deilliant:

Cyfnod Monitro (AMB)	Adroddiad Blynnyddol	Deilliant
AMB1		—
AMB2		—
AMB3		—
AMB4		—

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
<u>AMB8</u>	—

Lefel sbardun:

Mae nifer cyffredinol yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a adeiladwyd o fewn ardal y Cynllun 10% neu fwy yn is na'r gofyniad cronrus a nodwyd yn y Targed Polisi.

Dadansoddiad:

Yn y cyfnod 2015-23, nodir bod 854 o unedau fforddiadwy wedi'u hadeiladu yn ardal y Cynllun. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth o gyfnodau AMB 6, 7 ac 8 yn berthnasol i Wynedd yn unig. Yn 2025-26, adeiladwyd 91 o unedau fforddiadwy yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Mae hyn yn ychwanegol at y 68 a 140 o unedau fforddiadwy a adeiladwyd yn yr ardal yn ystod 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno. Mae hyn felly yn golygu darpariaeth o 1153 o unedau fforddiadwy yn y cyfnod perthnasol ac eithrio gwybodaeth o Ynys Môn yng nghyfnodau AMB6, AMB7 ac AMB8.

Er bod targed o adeiladu 1266 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026, mae'n anodd gwneud asesiad uniongyrchol yn erbyn y targed a nodir yn y dangosydd o ystyried y diffyg gwybodaeth gan Ynys Môn am y tair blynedd flaenorol.

Fodd bynnag, er bod y ddarpariaeth a nodwyd uchod yn is na'r targed o adeiladu 1266 o anheddau fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026, mae'r diffyg hwn o fewn y lwfans 10% a nodwyd yn y lefel sbardun (ac eithrio gwybodaeth Ynys Môn am y tair blynedd diwethaf).

Mae rhaniad yr unedau fforddiadwy wedi'u cwblhau fel a ganlyn:

Blwyddyn	Cyfanswm Awdurdod Cynllunio Gwynedd	Ardal y Cynllun yn ei Gyfanrwydd
2015-16	44 uned	82 uned
2016-17	54 uned	68 uned
2017-18	31 uned	61 uned
2018-19	118 uned	187 uned

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

2019-20	98 uned	120 uned
2020-21	31 uned	99 uned
2021-22	74 uned	115 uned
2022-23	58 uned	122 uned
2023-24	68 uned	-
2024-25	140 uned	-
2025-26	91 uned	-
Cyfanswm	807 uned	854 uned* (heb gynnwys 2023-26)

Er ei fod yn anodd gwneud asesiad uniongyrchol yn erbyn y targed a nodir yn y dangosydd erbyn 2026, o ystyried bod y ffigwr a nodwyd o fewn y lwfans llithriad o 10% heb ddarpariaeth ar gyfer Ynys Môn ar gyfer y tri chyfnod AMB diwethaf, credir nad oes angen gweithredu mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Ar gyfer Gwynedd yn unig, nodir, er bod nifer yr unedau fforddiadwy a gwblhawyd yn y cyfnod AMB hwn (91) yn llai na'r AMB 7 blaenorol (140), fodd bynnag, dyma'r ail gofnod uchaf ers 2019/20.

Ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig, nodir bod 807 o unedau fforddiadwy wedi'u cwblhau yn y cyfnod a nodir yn y wybodaeth uchod (2015-26). Wrth geisio dadansoddi'r ffigwr targed hyd at 2026 ar gyfer Gwynedd yn unig, credir bod y ddarpariaeth hon yn cyfateb yn effeithiol iawn i'r hyn a ddisgwylir. Mae hyn yn wir os yw'r ffigwr targed ar gyfer 2026 wedi'i rannu'n ei hanner (targed o 633 o unedau) neu os caiff ei rannu'n seiliedig ar gyfran cyfanswm y ddarpariaeth dai rhwng Gwynedd ac Ynys Môn (targed o 654 o unedau).

Oherwydd y gofyniad i gyfiawnhau unedau fforddiadwy yn seiliedig ar hyfywedd, mae polisïau CDLI ar y Cyd yn nodi trothwyon sy'n aml yn is na'r rhai a nodwyd yn y cynlluniau datblygu blaenorol sy'n ymwneud â'r gofyniad am ddarpariaeth fforddiadwy. Gall gymryd amser i'r polisi hwn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr unedau fforddiadwy a ddatblygwyd yn ardal y Cynllun. Yn hyn o beth, nodir bod nifer yr unedau fforddiadwy a adeiladwyd bob blwyddyn ers 2018-19 yn sylweddol uwch na'r data ar gyfer blynnyddoedd blaenorol. Nodir bod nifer yr unedau fforddiadwy a gwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yng nghyfnod AMB 8 yn uwch na'r wybodaeth gyfatebol ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd ym mlynnyddoedd cynnar y wybodaeth a ddangosir.

Mae'r ffigwr o ran nifer y cartrefi fforddiadwy a ddarperir yn debygol o fod yn uwch ar gyfer yr ardal na'r hyn a nodwyd, gan nad yw'n cynnwys unedau tai sy'n fforddiadwy oherwydd eu maint a'u lleoliad (ond nad ydynt wedi'u rhwymo'n ffurfiol fel unedau fforddiadwy yn ôl amod neu rwymedigaeth gyfreithiol). Yn ogystal, derbyniwyd cyfraniad ariannol mewn perthynas â rhai datblygiadau yn hytrach na darpariaeth fforddiadwy ar y safle.

Mae'r gwaith maes sy'n gysylltiedig â'r dangosydd hwn (Ebrill 2026) yn dangos bod caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer 358 o unedau fforddiadwy yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, sy'n cynnwys 260 o unedau heb eu dechrau a 98 o unedau wedi'u categoraiddio fel unedau sy'n cael eu hadeiladu. Felly, mae nifer o unedau fforddiadwy o fewn y banc tir presennol.

Gweithred

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D48

D48 % o unedau tai fforddiadwy a ganiateir fesul ardal prisiau tai

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau i gefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o unedau tai o ansawdd da a fforddiadwy, o ystod o fathau a deiliadaeth i ddiwallu gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth

Targed:

% darpariaeth tai fforddiadwy yn unol â'r targed dangosol fesul ardal pris tai

Polisi perthnasol:

PS16, TAI 1-TAI 7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	✓
AMB4	✓
AMB5	✓
AMB6	✓
AMB7	✓
<u>AMB 8</u>	✓

Lefel sbardun:

Mae'r % cyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn yn is na'r targed dangosol fesul ardal pris tai am 2 flynedd yn olynol, oni bai ei fod wedi'i gyfiawnhau gan Bolisi TAI 15

Dadansoddiad:

Nodir bod y wybodaeth isod yn cyfeirio at safleoedd lle mae'n berthnasol gofyn i ganran o unedau fod yn fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15 h.y. trothwy o ddwy uned neu fwy, ac eithrio safleoedd mewn clystyrau neu yng nghefn gwlad. Nid yw'n ystyried caniatâd ar

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

safleoedd eithrio lle mae'n rhaid i'r cynnig fod ar gyfer tai fforddiadwy 100%.

Mae'r data yn berthnasol ar gyfer caniatâd newydd a cheisiadau i ailystyried neu ymestyn dyddiad dod i ben y caniatâd blaenorol. Mae'r rhain i gyd yn geisiadau lle mae'n rhaid ystyried y ddarpariaeth fforddiadwy yn unol â chynnwys Polisi TAI 15. Felly, nid yw'n ystyried ceisiadau am faterion a gedwir yn ôl lle roedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi'i gymeradwyo, nac yn ystyried tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl.

Nodir bod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd yn olynol. Er bod angen ystyried y wybodaeth ar gyfer 2025/26 ochr yn ochr â'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 7, nodir nad yw gwybodaeth Ynys Môn bellach yn cael ei chyflwyno yn y wybodaeth isod. Felly, mae'r wybodaeth o ran y dangosydd hwn yn cyfeirio at y wybodaeth berthnasol ar gyfer yr ardaloedd prisiau tai yng Ngwynedd yn unig.

Tabl sy'n crynhoi'r wybodaeth ar gyfer yr holl Ardaloedd Prisiau Tai

Ardaloedd Prisiau Tai	Cyfnod	Canran y tai fforddiadwy a geisiwyd	Darpariaeth tai fforddiadwy gwirioneddol (canran)	A yw'n cyrraedd y lefel darged?
Arfordir Gwerth Uchel Gwynedd	2024/25	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
	2025/26	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
Aneddiadau Arfordirol Mwy	2024/25	30%	33%	✓
	2025/26	30%	31%	✓
Canolfannau Gwledig	2024/25	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
	2025/26	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
Arfordir Gogleddol a De Arfon	2024/25	20%	56% (*)(**)	✓
	2025/26	20%	78%**	✓
Llŷn				
	2024/25	10%	40%	✓

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

	2025/26	10%	100%	✓
Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig	2024/25	10%	44%**	✓
	2025/26	10%	0%*	✗
Y Mynyddoedd	2024/25	10%	33%	✓
	2025/26	10%	0%	✗
Dwyrain Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol	2024/25	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
	2025/26	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
Blaenau Ffestiniog				
	2024/25	10%	17%	✓
	2025/26	10%	50%	✓

*Cyfraniad ariannol (fforddiadwy) hefyd

** Unedau ychwanegol nad ydynt yn fforddiadwy o dan TAN 2 ond y credir eu bod yn fforddiadwy 'trwy ddyluniad' hefyd wedi'u cymeradwyo (heb eu cyfrif at ddibenion y dangosydd hwn).

O'r naw ardal prisiau tai yng Ngwynedd, nodir nad oes caniatâd cynllunio perthnasol wedi bod mewn tair o'r rhain yn ystod cyfnod AMB 8. O'r 6 ardal lle rhoddwyd caniatâd perthnasol, nodir bod pedair wedi cyrraedd y targed dangosol (fel yr amlygwyd ym Mholisi TAI 15) o ran canran gyffredinol y tai fforddiadwy a ddarparwyd fel rhan o ganiatâd cynllunio preswyl perthnasol yng nghyfnod AMB 8.

Ynghyd â'r ddarpariaeth fforddiadwy ffurfiol, nodir bod unedau a ystyrir yn fforddiadwy trwy ddyluniad hefyd wedi'u caniatáu yn ystod y cyfnod hwn. Mae cyfraniad ariannol hefyd i'w dderbyn ar draul darpariaeth fforddiadwy ar un safle a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn ystod 2025/26.

Ni ddarparodd dwy ardal prisiau tai y ddarpariaeth fforddiadwy ddisgwyliedig (Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig a'r Mynyddoedd). Fodd bynnag, mae'r ddau ffigwr yn seiliedig ar un caniatâd ym mhob ardal. Cafwyd cyfraniad ariannol ar gyfer tai fforddiadwy o'r caniatâd yn ardal Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig.

O ystyried y lefel sbardun, h.y. bod canran gyffredinol y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn yn is na'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am ddwy flynedd yn olynol, nodir nad yw hyn

PENNOD 6.4: CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

wedi bod yn amlwg mewn unrhyw ardal prisiau tai. Nodir, fodd bynnag, nad oes gwybodaeth berthnasol ar gael ar gyfer pob ardal ar gyfer y ddwy flynedd dan sylw.

Ardaloedd Prisiau Tai ar y Cyd: Canran fforddiadwy 30% - Gwybodaeth ar gyfer Gwynedd yn unig

Cyfnod	Nifer o ganiatadau	Nifer yr unedau a gymeradwywyd	Tai fforddiadwy	Canran yr unedau fforddiadwy
2024/25	1	12	4	33%
2025/26	2	36	11	31%

Ardaloedd Prisiau Tai ar y Cyd: Canran fforddiadwy 20% - Gwybodaeth ar gyfer Gwynedd yn unig

Cyfnod	Nifer o ganiatadau	Nifer yr unedau a gymeradwywyd	Tai fforddiadwy	Canran yr unedau fforddiadwy
2024/25	6	54	30	56%
2025/26	5	66	53	80%

Ardaloedd Prisiau Tai ar y Cyd: Canran fforddiadwy 10% - Gwybodaeth ar gyfer Gwynedd yn unig

Cyfnod	Nifer o ganiatadau	Nifer yr unedau a gymeradwywyd	Tai fforddiadwy	Canran yr unedau fforddiadwy
2024/25	10	65	26	40%
2025/26	5	40	33	83%

Wrth ystyried yr ardaloedd prisiau tai ar y cyd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig (lle mae'r ganran o dai fforddiadwy a geisir yn gyson), nodir bod y ddarpariaeth fforddiadwy yn cyfateb yn effeithiol i'r holl dargedau polisi (o ran y gofynion 30%, 20% a 10%).

Ynghyd â'r ddarpariaeth ffurfiol uchod o unedau fforddiadwy, dylid cofio hefyd bod unedau pellach wedi'u caniatáu sy'n cael eu hystyried yn 'fforddiadwy trwy ddyluniad' a hefyd bod cyfraniad ariannol wedi'i dderbyn ar gyfer un safle yn hytrach na darparu unedau fforddiadwy ar y safle.

Mae nifer y caniatâd cynllunio sy'n berthnasol i'w hystyried mewn perthynas â'r dangosydd hwn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yng nghyfnod AMB 8 (12 cais) yn llai na'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 7 (17 cais perthnasol). Sylwer, fodd bynnag, bod yna rai ardaloedd prisiau tai lle nad oes caniatâd cynllunio perthnasol wedi'i roi yn 2025/26 nac yn 2024/25 o ran ystyried gofynion Polisi TAI 15.

Gweithred

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D49

D49 Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd eithriedig gwledig

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Targed:

Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 – 2016/ 17

Polisiau perthnasol:

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	✓
AMB2	✓
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	✓
AMB7	✓
<u>AMB8</u>	✓

Lefel sbardun:

Dim cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy a ganiateir am 2 flynedd yn olynol

Dadansoddiad:

Caniatâd cynllunio ar safleoedd eithrio yn ystod cyfnod yr AMB hwn (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)¹:

Safle	Nifer o unedau
Ger Maes Llwyd, Llanystumdwy	5
Tir Gyferbyn Deunant, Aberdaron	8
Tir Henllys , Llanbedrog	1
Tir Oddi Ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug	17
Tir ger Llys Yr Eifl, Trefor	15
Cyfanswm (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)	46

Gwybodaeth flaenorol:

Ardal y Cynllun

Cyfnod	Nifer o safleoedd	Nifer o unedau
AMB 1 (i gyd yn 2018/19)	6	24
AMB 2 ²	4	45
AMB 3	3	10
AMB 4	2	24
AMB 5	5	33
AMB 6	-	-
AMB 7	-	-

¹ Caniatadau o'r newydd yn unig

² Rhai safleoedd wedi eu lleoli tu mewn ac oddi allan i'r ffin datblygu. Ble fod y rhan tu allan i'r ffin yn cael ei ystyried yn erbyn Polisi TAI 16 (Safleoedd Eithrio) yna caiff y safleoedd/unedau hyn eu hystyried yn y ffigwr hwn.

Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig

Cyfnod	Nifer o safleoedd	Nifer o unedau
AMB 1 (i gyd yn 2018/19)	-	-
AMB 2³	1	10
AMB 3	2	8
AMB 4	1	1
AMB 5	2	4
AMB 6	3	26
AMB 7	4	14

Mae'n anodd gwneud cymhariaeth gyda ffigyrau o gyfnodau blaenorol gan nad yw'r wybodaeth o'r cyfnod AMB hwn yn ystyried gwybodaeth o Ynys Môn. Fodd bynnag wrth edrych ar y wybodaeth o gyfnodau'r Adroddiadau Monitro Blynnyddol diweddar, ac yn enwedig felly o ran gwybodaeth Gwynedd yn unigol, noder bod ffigyrau eleni yn hynod dderbyniol. Mae mwy o safleoedd eithrio wedi eu caniatáu yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yng nghyfnod AMB 8 nag mewn unrhyw gyfnod AMB arall (Gwybodaeth i Wynedd yn unigol ddim ar gael ar gyfer cyfnod AMB 1). Mae mwy o unedau fforddiadwy hefyd wedi eu caniatáu ar y safleoedd hyn nag mewn unrhyw flwyddyn arall a noder yn unrhyw gyfnod AMB blaenorol, gan gynnwys y blynnyddoedd hynny ble roedd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i safleoedd yn Ynys Môn.

Mae'n debyg fod y rheswm am hyn yn gyfuniad o lai o safleoedd addas ar gael o fewn ffiniau datblygu ar sail dod i ddiwedd cyfnod y Cynllun a rhaglenni a graddfa datblygu Cymdeithasau Tai (Tir Oddi Ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Tir ger Llys Yr Eifl, Trefor a Tir Gyferbyn Deunant, Aberdaron) a Chyngor Gwynedd (Maes Llwyd, Llanystumdwy). Noder bod un safle ar gyfer uned unigol hefyd wedi ei ganiatáu.

Tra bod y lefel sbardun yn berthnasol ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd, credir bod y wybodaeth o gyfnod yr AMB hwn, o safbwynt Gwynedd yn unigol, yn cyd-fynd yn effeithiol gydag ef. Tra bod y lefel sbardun yn cyfeirio at nifer o safleoedd sydd wedi eu caniatáu yn hytrach na'r nifer o unedau sydd wedi eu canitau arnynt, noder bod cynnydd cyson o 1 safle wedi bod yn flynyddol yn y nifer o safleoedd eithrio sydd wedi derbyn caniatâd yn ardal cynllunio Gwynedd ers cyfnod AMB 4, gan olygu felly bod cydymffurfiaeth gyda'r lefel sbardun.

³ Rhai safleoedd wedi eu lleoli tu mewn ac oddi allan i'r ffin datblygu. Ble fod y rhan tu allan i'r ffin yn cael ei ystyried yn erbyn Polisi TAI 16 (Safleoedd Eithrio) yna caiff y safleoedd/unedau hyn eu hystyried yn y ffigwr hwn.

Tra ei fod yn bwysig ystyried y modd mae'r Cynllun yn hwyluso darpariaeth o unedau fforddiadwy ar safleoedd eithrio, fe nodir bod ceisiadau ar gyfer safleoedd o'r fath yn rhywbeth sy'n ddibynnol ar gynlluniau penodol i ddod yn eu blaen mewn lleoliadau ble na all y galw am dai fforddiadwy gael ei gwrdd o fewn y ffin ddatblygu. Tra ei fod yn bwysig ystyried y ddarpariaeth ychwanegol o unedau fforddiadwy, credir ei fod yn bwysig ystyried hyn yng nghyswllt y ddarpariaeth fforddiadwy yn ei gyfanrwydd.

Noder fod y targed o ran y dangosydd hwn yn nodi "Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 - 2016/ 17". Nodir mai'r ffigwr o ran nifer y safleoedd eithrio a'r unedau a'u caniateir yn y blynyddoedd hyn oedd: 2015/16 (3 safle: 3 uned); 2016/17 (2 safle: 3 uned) – ar gyfer ardal y Cynllun yn gyfan. Noder fod y wybodaeth o ran caniatadau safleoedd eithrio a roddwyd yn 2024/25 yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig, o ran y nifer o safleoedd ynghyd a'r nifer o unedau ar y safleoedd hyn, yn cymharu'n bositif â'r targed hwn. Mae'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 8 yn dderbyniol felly o'i gymharu â'r wybodaeth targed

Ar sail y wybodaeth uchod, ni chredir fod angen unrhyw weithrediad o safbwynt y dangosydd hwn ond credir bod angen ystyried hwyluso darpariaeth ddigonol o unedau fforddiadwy wrth baratoi'r Cynllun newydd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D50

D50 Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws yr ardaloedd prisiau tai a nodwyd ym Mholisi TAI 15

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth.

Targed:

Cyflenwi'r lefel uchaf bosib o dai fforddiadwy a ystyrir yn hyfyw yn unol â Pholisi TAI 15

Polisiau perthnasol:

PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	☒
AMB2	☐
AMB3	☒
AMB4	☒
AMB5	☒
AMB6	☐
AMB7	☐
<u>AMB8</u>	☐

Lefel sbardun:

Cynnydd neu ostyngiad o 5% mewn gwerth gweddilliol mewn unrhyw ardal prisiau tai mewn unrhyw flwyddyn unigol

Dadansoddiad:

Mi fydd yna sail tystiolaeth cyfredol ar gyfer hyfywedd gwahanol ardaloedd i ddarparu unedau fforddiadwy ar safleoedd preswyl yn cael ei baratoi fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol

newydd. Yn ogystal mae'r Cyngor wrthi yn paratoi Asesiad Marchnad Tai Lleol ac mae'r fersiwn drafft yn adnabod ardaloedd marchnad tai sydd yn wahanol i'r hyn sydd yn y CDLI ar y cyd presennol.

Oherwydd hyn nid yw'r Cyngor wedi cario allan gwaith yn asesu'r newidiadau o fewn gwerthoedd gweddilliol ardaloedd prisiau tai sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a felly ni ellid diweddarau'r dangosydd yma.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Bydd astudiaethau hyfywedd manwl yn cael ei gynnal fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Dangosydd D52

D52 Nifer o unedau tai marchnad leol a gaiff eu hadeiladu mewn aneddleodd a nodir ym Mholisi TAI 5

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleodd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Targed:

Cyflenwi'r lefel uchaf bosibl o dai marchnad leol mewn aneddleodd a restrir ym Mholisi TAI 5.

Polisiau perthnasol:

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Llai na 10 o unedau tai marchnad leol yn cael eu hadeiladu mewn aneddleodd a nodir ym Mholisi TAI 5 mewn unrhyw flwyddyn unigol

Dadansoddiad:

2025/26: 0 uned marchnad lleol wedi ei gwblhau (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

Gweler isod wybodaeth o ran y nifer o unedau marchnad lleol sydd wedi eu cwblhau fesul blwyddyn (ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd)

Cyfnod	Ardal y CDLI ar y Cyd	Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig
AMB 8*	-	0
AMB 7*	-	0
AMB 6*	-	1
AMB 5	3	1
AMB 4	0	0
AMB 3	0	0
AMB 2	1	1
AMB 1	0	0
Cyfanswm	5	3

* Heb gynnwys unrhyw unedau marchnad lleol posib yn Ynys Môn

Mae'n amlwg, o safbwynt ystyried ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unigol, nad yw'r wybodaeth uchod yn cyd-fynd yn effeithiol gyda'r lefelau targed a sbardun o ran y dangosydd hwn.

Noder bod caniatâd ar gyfer 1 uned marchnad lleol yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (a gafodd ei ganiatáu yn ystod cyfnod AMB 7). Yng Ngwynedd noder mai dyma'r unig ganiatâd byw ar gyfer uned marchnad lleol (ar 31/3/26).

Noder bod cyfanswm o 5 uned marchnad lleol wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun (heb gynnwys unrhyw uned posib yn Ynys Môn yn ystod cyfnodau AMB 6 - AMB 8). Mae 3 o'r unedau hyn yng Ngwynedd.

Tra roedd awgrym mewn adroddiadau monitro blynyddol blaenorol, yn benodol AMB 5, bod y gofyniad polisi newydd hwn wedi dechrau cael gwir effaith, nid yw hyn fodd bynnag yn cael ei gyfleu yn y wybodaeth ers hynny.

Mae'n rhaid cofio bod Polisi TAI 5 mewn perthynas â Thai Marchnad Lleol wedi cyflwyno egwyddor polisi hollol newydd nad oedd yn amlwg mewn cynlluniau datblygu blaenorol ac o bosib golygai hyn wahaniaethau o flwyddyn i flwyddyn o ran nifer o unedau marchnad lleol

sydd yn cael eu cwblhau. Derbynnir fodd bynnag bod tipyn o amser wedi mynd heibio bellach ers mabwysiadu'r Cynllun ac fe ddylai'r egwyddorion newydd a gafodd ei gyflwyno ynddo bellach gael ei drosglwyddo i ganiatadau ac yna datblygiadau perthnasol. Mae'r ffaith mai dim ond 1 uned marchnad lleol sydd â caniatâd cynllunio byw yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn golygu nad yw'r ffigyrau cwblhau yn y byr dymor am fod yn uchel iawn.

Roedd hefyd awgrym yn yr asesiad o wybodaeth AMB 5 yn benodol bod gofyniad y polisi yn dechrau cael ei dderbyn yn fwy eang gan y cyhoedd a'r sawl sydd yn datblygu tai (er noder fod hyn ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd). O gofio'r wybodaeth yn y cyfnodau ers hynny, byddai monitro parhaus yn gallu cadarnhau unrhyw dueddiadau penodol.

Tra mai'r gobaith yw y bydd cynnydd pellach yn nifer yr unedau o'r fath sydd yn cael eu hadeiladu a'u caniatáu wrth i'r egwyddor polisi cael ei sefydlu a'i dderbyn ymhellach er mwyn cwrdd ag anghenion y cymunedau lleol, noder fod y polisi yn amlwg wedi cyfyngu ar ddatblygiadau hapfasnachol yn y lleoliadau sydd a'r problemau mwyaf dwys o ran y farchnad dai.

Bydd yn bwysig ystyried agweddau mewn perthynas â hybu mwy o ddatblygiadau tai marchnad lleol fel rhan o Gynllun newydd er mwyn sicrhau fod y polisi mor effeithiol â phosib o ran diwallu anghenion tai lleol.

Ni chredir fod angen unrhyw weithrediad o safbwynt y dangosydd hwn. Byddai asesiad pellach o'r polisi hwn yn bwysig fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun newydd. Yn hyn o beth byddai'n bwysig, er enghraifft, diweddarau'r sail dystiolaeth gan o bosib ystyried ffynonellau eraill o dystiolaeth yn ogystal. Mae angen cynnal ymchwil hefyd i ddeall y rhesymau dros y nifer isel o unedau marchnad leol sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio a'u datblygu gan gynnwys unrhyw agweddau newydd a rhwystrau sydd wedi eu hamlygu ers cyflwyno'r polisi. Rhaid sicrhau drwy hyn bod dystiolaeth gadarn i gefnogi polisi o'r fath yn y Cynllun newydd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D53

D53 Ceisiadau cynllunio ac apeliadau i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amod ar gyfer tai marchnad leol

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Targed:

Cadw cytundebau 106 ac amodau i hyrwyddo adeiladu tai marchnad lleol yn unol â Pholisi TAI 5

Polisiau perthnasol:

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol yn cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (fel bo'n berthnasol) mewn unrhyw flwyddyn

Dadansoddiad:

Nid oes yr un cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau adran 106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol wedi cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (yng nghyfnod yr AMB hwn nag ychwaith ers mabwysiadu'r Cynllun).

Yn unol â Deddf Cynllunio 1990 gellir apelio ymrwymiad cynllunio i'r Arolygaeth Cynllunio ar ôl 5 mlynedd ar sail nad oes rheswm cynllunio perthnasol ar ei gyfer. Cyn hynny fe ellir ail-negodi ymrwymïadau cynllunio os yw'r awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr yn cytuno i hynny. Fodd bynnag o gofio bod unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer tŷ marchnad lleol yn seiliedig ar bolisi yn y CDLI ar y Cyd a fabwysiadwyd yn 2017, mae'n annhebygol iawn y byddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn barod i ddiwygio neu gael gwared ag amod/chytundeb 106 sy'n ymwneud a chyfyngu eiddo i fod yn dŷ marchnad leol.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Comisiynwyd ARC 4 i helpu i gynnal Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2022 (GTAA). Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2023.

Nododd y GTAA yr angen preswyl canlynol o fewn Gwynedd:

Awdurdod Lleol	Angen heb ei ddiwallu (5 mlynedd) i 2025	Angen heb ei ddiwallu (cyfnod y cynllun) i 2036 sy'n cynnwys targed 2025
Gwynedd	7	11

Ar gyfer anghenion tramwy daethpwyd i'r casgliad fod dim angen safle pellach yng Ngwynedd gan fod yna le stopio ar gael yng Nghaernarfon yn barod.

Gan na fydd Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu tan ar ôl 2025 bydd yn rhaid cyflawni unrhyw angen a nodwyd erbyn 2025 drwy Bolisi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd TAI 19 'Safleoedd ar gyfer Lleiniau Parhaol neu Deithiol neu Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr'.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r GTAA, ond hyd at ddiwedd Mawrth 2025 tydy'r Cyngor heb ei gytuno / mabwysiadu eto. Mae'r Cyngor yn gweithio i gyfarch yr angen ychwanegol, ac yn parhau i fod mewn trafodaethau â tirfeddianwyr wrth edrych am safle addas.

Mae angen preswyl o 7 llain erbyn 2025 wedi'i nodi yn y GTAA, gan na fydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu tan ar ôl 2025, bydd angen cyflwyno'r angen hwn trwy Bolisi TAI 19 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Dangosydd D57

D57 Nifer o leiniau Sipsiwn ychwanegol a ddarperir ar estyniad i'r safle Sipsiwn presennol, gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeledd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:

Prif ganlyniadau:

- bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;
- bydd y twf tai wedi cael ei ddsbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;
- bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;
- bydd y galw am lecynau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.

Targed:

Darparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018

Darparu cyfanswm cronol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026

Polisiau perthnasol:

PS1

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—

AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Methiant i ddarparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018

Methiant i ddarparu cyfanswm cronol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026

Dadansoddiad:

Mae 5 llain ychwanegol wedi'u darparu gyda chyfanswm o 12 llain barhaol bellach ar gael i Sipsiwn oedd i gyd wedi'u meddiannu ym mis Mawrth 2024.

Mae adroddiad GTAA 2022 yn nodi angen preswyl o 7 llain erbyn 2025 gyda 4 arall erbyn 2036. Mae darparu 5 llain ychwanegol yn ogystal ag uwchraddio'r lleiniau presennol ar safle Sipsiwn yn ystâd ddiwydiannol Llandygai yn golygu nad oes tir ychwanegol ar gael i ehangu'r safle hwn ymhellach. Gan na fydd Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu tan ar ôl 2025, bydd yn rhaid darparu'r 7 llain sydd eu hangen erbyn 2025 trwy Bolisi TAI 19 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D58

D58 Yr angen am lain ychwanegol wedi'i nodi mewn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:

Prif ganlyniadau:

- bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;
- bydd y twf tai wedi cael ei ddsbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;
- bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;
- bydd y galw am lecynau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.

Targed:

Darparu nifer a math o leiniau i ymdrin â'r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026

Polisiau perthnasol:

PS1

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Methiant i ddarparu nifer a math o lain ychwanegol i ymdrin â'r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026

Dadansoddiad:

Mae Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2022 yn nodi'r angen am safleoedd tramwy yn ardal Caernarfon yng Ngwynedd.

Ar gyfer cyfarch yr angen am safle dros dro o fewn ardal Caernarfon mae'r Cyngor wedi cytuno i ddefnyddio rhan bellaf o faes parcio Shell yng Nghaernarfon pan fo yna alw, efo cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i'r Sipsiwn / Teithwyr.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D59

D59 Nifer o wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod yr adroddir arnynt yn flynyddol a hyd yr arhosiad

Amcan:

SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:

Prif ganlyniadau:

- bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;
- bydd y twf tai wedi cael ei ddsbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;
- bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;
- bydd y galw am lecynau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.

Targed:

Monitro newidiadau yn yr angen am leiniau a chymharu â chyflenwad o leiniau yn y cyfnod rhwng yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

Polisiau perthnasol:

PS1

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
AMB8	—

Lefel sbardun:

Nifer o wersylloedd a hyd yr arhosiad yn awgrymu angen am leiniau ychwanegol

Dadansoddiad:

Ni chafwyd unrhyw wersyll anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn yma yng Ngwynedd.

O adolygu'r sefyllfa, nid oes dim yn peri pryder ar hyn o bryd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D60

D60 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn lleol

Amcan:

SO17: Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.

Targed:

Cynnal neu wella gwerth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth safleoedd sy'n bwysig yn lleol yn unol â Pholisi AMG 5 a Pholisi AMG 6

Polisiau perthnasol:

PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
<u>AMB8</u>	

Lefel sbardun:

Caniatáu un cais yn groes i Bolisi AMG 5 neu Bolisi AMG 6.

Dadansoddiad:

Ar ôl archwilio'r ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt, nid yw'n ymddangos fod unrhyw ganiatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo yn groes i bolisiau AMG 5 ac AMG 6 yn ystod y cyfnod monitro.

Ymddengys fod y polisiâu yn cael eu gweithredu'n effeithiol

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred
Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

DRAFT

Dangosydd D61

D61 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol neu ar safleoedd sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd a ddynodwyd

Amcan:

SO17: Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwylt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.

Targed:

Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol

Polisiau perthnasol:

PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19

Dadansoddiad:

Cymeradwywyd cyfanswm o 3 cais cynllunio a oedd yn llwyr/rhannol o fewn safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ramsar, Safleoedd o

Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol). Dyma fanylion y 2 cais:

1. C25/0559/37/TR - Cais i amnewid newidydd ar bolyn sengl presennol gyda newidydd mwy ar ddau bolyn.
2. C25/0888/39/TC - Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon ar gyfer newid defnydd arfaethedig o prif gartref (C3) i ddefnydd cymysg ail gartref (C5) a llety gwyliau tymor byr (C6)
3. C26/0028/39/DT – Cais deilydd tŷ.

Ni ystyriwyd fod unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd yn amharu ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth rhyngwladol/cenedlaethol y dynodiadau hyn. O ganlyniad, ystyrir fod pob caniatâd yn cydymffurfio â pholisi PS 19, a bod y polisi yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D62

D62 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer datblygiad mawr mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

Amcan:

SO17: Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwylt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.

Targed:

Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr sy'n niweidiol i harddwch naturiol AHNE.

Polisiau perthnasol:

PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Caniatawyd un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19 a Pholisi AMG 1

Dadansoddiad:

Caniatawyd un cais cynllunio ar gyfer 'datblygiad mawr' o fewn yr AHNE yn ystod y cyfnod monitro, sef:

C25/0824/37/LL - Cais llawn i adeiladu 15 tŷ fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys creu mynedfa gerbydol newydd a ffordd stad, tirlunio a chreu ardal draenio dwr wyneb cynaliadwy, Tir ger Llys yr Eifl, Trefor

Gan ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol, gan gynnwys polisiâu a chanllawiau lleol a chenedlaethol, ystyriwyd bod y cynnig hwn yn dderbyniol.

Gweithred:

Eglurhad o’r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D63

D63 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir mewn Ardaloedd cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n effeithio ar eu gwerth hanesyddol neu ddiwylliannol

Amcan:

SO17: Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol

Targed:

Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i gymeriad ac edrychiad yr Ardal Gadwraeth neu Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd

Polisiau perthnasol:

PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Lefel sbardun:

Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 20 neu Bolisi AT 1

Dadansoddiad:

Cymeradwywyd 1 cais cynllunio o fewn STB 'Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward'. Cymeradwywyd 39 cais o fewn STB 'Dirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru', a chyfanswm o 50 cais cynllunio (llawn/amlinellol) o fewn Ardaloedd Cadwraeth y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys gosod pypiau gwres, paneli solar, newid defnyddiau, adeiladau/strwythurau

swyddfa/cyflogaeth newydd, tai annedd/fflatiau newydd, trosi adeiladau, ffenestri blaen newydd, ac estyniadau.

Ystyrir fod y caniatadau hyn yn cydymffurfio â Pholisïau PS 20 ac AT 1 a bod y polisïau hyn yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.

Gweithred:

Eglurhad o’r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

DRAFT

Dangosydd D64

D64 - Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth

Amcan:

SO17: Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwylt, cymeriad y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol

Targed:

Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun

Polisiau perthnasol:

PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	—
AMB2	—
AMB3	—
AMB4	—
AMB5	—
AMB6	—
AMB7	—
<u>AMB8</u>	—

Lefel sbardun:

Peidio mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun

Dadansoddiad:

Mae'r gwaith cychwynnol yn ymwneud â pharatoi'r CCA wedi digwydd. Fodd bynnag, gyda chyhoeddiad NCT 24 (Yr Amgylchedd Hanesyddol) a cyhoeddi nifer o ganllawiau gan CADW, ystyrir nad oes bellach angen CCA penodol ar y mater hwn. Hefyd, bod y Canllaw Cynllunio Atodol: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru mabwysiedig yn

amlinellu sut fyddai Cyngor Gwynedd a’i bartneriaid yn rheoli’r Safle yn y dyfodol, drwy warchod ein treftadaeth a thrwy sicrhau datblygiad o ansawdd uchel a phriodol.

Gweithred:

Eglurhad o’r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

DRAFT

Dangosydd D65

D65 - Faint o dir a chyfleusterau sydd eu hangen i ymdrin â gwastraff yn ardal y Cynllun

Amcan:

SO18: Annog rheoli gwastraff wedi ei seilio ar hierarchaeth lleihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu diogel.

Targed:

Cynnal digon o dir a chyfleusterau i ymdrin â gwastraff ardal y Cynllun (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â threfniadau monitro gwastraff TAN 21)

Polisiau perthnasol:

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
<u>AMB8</u>	

Trothwy:

Y trothwyon i gael eu sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN21

Dadansoddiad:

Yn seiliedig ar Adroddiad Monitro Gwastraff Gogledd Cymru, 2020, nid oes angen darparu cyfleuster tirlenwi newydd ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus neu sy'n anadweithiol yn rhanbarth Gogledd Cymru, a rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd o gael gormod o ddarpariaeth wrth ymdrin â chynigion pellach i ddatblygu cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth.

Yn unol â gofynion TAN 21, rhaid cwblhau Adroddiadau Monitro Gwastraff er mwyn adnabod a oes capasiti digonol ar gyfer trin gwastraff a thirlenwi yn y rhanbarth; p'un a yw'r ddarpariaeth ofodol yn ddigon i ddiwallu'r angen; a ph'un a oes angen i awdurdodau cynllunio lleol weithredu camau angenrheidiol i ddiwallu unrhyw faterion nas ragwelwyd, ac i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu trosolwg strategol o dueddiadau yn y sector gwastraff i gyfrannu at y CDLI a darparu arweiniad wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio gwastraff.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D66

D66 - Nifer y ceisiadau cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1.

Amcan:

SO18: Annog rheoli gwastraff wedi ei seilio ar hierarchaeth lleihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu diogel.

Targed:

Cynnydd yn nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff a ddarperir ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1, o gymharu â'r nifer a ddarparwyd ar safleoedd cyflogaeth yn 2016/2017.

Polisiau perthnasol:

GWA 1

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
AMB8	

Trothwy:

Dim ceisiadau cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1.

Dadansoddiad:

1 cais newydd am cyfleuster rheoli gwastraff yn y cyfnod AMB yma ar safle sydd wedi ei adnabod o dan Bolisi GWA 1, sef cais C26/0046/34/LL ar gyfer gweithredu gwaith ailgylchu,

sgrinio ac adfer deunyddiau gwastraff anadweithiol yn Cefn Graianog, Llanllyfni (cafodd ganiatâd ar 15/6/26).

Ystyrir bod Polisiâu CYF 1 a GWA 1 yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

DRAFT

Dangosydd D67

D67 – Swm yr agregau cynradd a enillwyd o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MNCT)

Amcan:

SO19: Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy.

Targed:

Cynnal cyflenwad o leiaf 10 mlynedd o gronfeydd agregau cerrig mâl drwy gydol cyfnod y Cynllun yn ardal y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22.

Polisiau perthnasol:

PS 22, MWYN 6

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
<u>AMB8</u>	

Lefel sbardun:

Y cronfeydd agregau cerrig mâl yn disgyn islaw 12 mlynedd yn ardal y Cynllun

Dadansoddiad:

Ar ddiwedd 2016 roedd 42.94 miliwn o dunelli o gronfeydd wrth gefn a ganiateir ar gyfer creigiau mâl yn weddill, sydd ymhell dros y lefel trothwy (Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Blyneddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (2016)). Mae'r wybodaeth hyn yn

seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd.

Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer carreg fâl (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 10 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLI ar y Cyd. Mae'r ardaloedd a ffafrir ar gyfer cerrig mâl ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLI ar y Cyd yn fwy na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol sydd wedi ei adnabod yn y Ail Datganiad Technegol Rhanbarthol.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D68

D68 – Cyflenwad tir tywod a graean yn ardal y Cynllun

Amcan:

SO19: Diwallu anghenion mwynau’n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy.

Targed:

Cynnal cyflenwad o leiaf 7 mlynedd o dywod a graean drwy gydol cyfnod y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22.

Polisiau perthnasol:

PS 22, MWYN 6

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
<u>AMB8</u>	

Lefel sbardun:

Y Cronfeydd tywod a graean yn disgyn islaw 9 mlynedd.

Dadansoddiad:

Roedd gan Ogledd Cymru oddeutu 15.70 miliwn o dunelli metrig o dywod a graean yn weddill ar ddiwedd 2016 (cyfraniad ardal y Cynllun tuag at y cyfanswm hwn yn 1.175 miliwn). Gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant dros 10 mlynedd, fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn eu llythyr egluro polisi CL-04-14 mae hyn yn gyfwerth â banc tir o 21.8 mlynedd.

Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd. Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 22 mlynedd, ar gyfer tywod a graean (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 7 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLI ar y Cyd. Tra bod y banc tir tywod a graean ar gyfer ardal y Cynllun yn is na'r trothwy 7 mlynedd, mae'r ardaloedd a ffafirir sydd wedi eu hadnabod ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLI ar y Cyd yn fwy na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd D69

D69 – Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir o fewn clustogfa mwynau

Amcan:

SO19: Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy.

Targed:

Dim caniatáu datblygiad o fewn clustogfa mwynau a fyddai'n arwain at sterileiddio'r adnodd mwynau, oni mai ei fod yn unol â Pholisi MWYN 5.

Polisiau perthnasol:

PS 22, MWYN 6

Deilliant:

Cyfnod AMB	Deilliant
AMB1	
AMB2	
AMB3	
AMB4	
AMB5	
AMB6	
AMB7	
<u>AMB8</u>	

Lefel sbardun:

Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi MWYN 5.

Dadansoddiad:

Rhoddwyd 18 o ganiatadau cynllunio ar safleoedd sydd o fewn glustogfa mwynau. Mae'r mathau o ganiatadau yn amrywio o fod yn ddatblygiadau yn gysylltiedig a cheisiadau deilydd

tŷ, adeiladu swyddfeydd, isadeiledd lleol, cyfleusterau gweithgaredd antur, maes parcio a cheisiadau yn gysylltiedig a safleoedd mwynau.

Ni roddwyd caniatâd cynllunio o fewn clustogfa mwynau sydd yn groes i Bolisi MWYN 5. Gan hynny ystyrir fod Polisi MWYN 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd.

Gweithred:

Eglurhad o'r weithred

Parhau i fonitro. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION

- 4.1 Fel gyda AMBau blaenorol, bydd AMB8 yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer y dangosyddion er mwyn galluogi'r Cyngor i gymharu gwybodaeth ac i adnabod unrhyw dueddiadau. Mi fydd AMB8 ynghyd a'r AMB blaenorol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- 4.2 Fel sydd wedi ei nodi uchod bydd yr AMBau yn darparu tystiolaeth bwysig a fydd angen cael ei ystyried pan yn paratoi'r CDLI newydd. Er bod yna faterion lle mae angen gwaith pellach a bod angen edrych eto ar y polisiau mae rhaid dilyn y broses statudol o baratoi Cynllun newydd a chasglu sail tystiolaeth gadarn i gefnogi unrhyw newidiadau i bolisi neu bolisiau newydd.
- 4.3 Mae'r nifer o dai sydd wedi cael ei gwblhau yn ardal y Cynllun ers dyddiad cychwyn y Cynllun (2011) yn is na'r ffigwr disgwyledig. Mae nifer o rhesymau am hyn gan gynnwys twf economaidd ddim wedi bod ar y raddfa ddisgwyledig, prosiectau isadeiledd ar raddfa mawr ddim wedi dod yn ei flaen, y pandemig a bod y galw am dai mewn rhai ardaloedd o'r Cynllun ddim wedi bod ar y raddfa ddisgwyledig.
- 4.4 Rhoddwyd caniatâd am 98 o unedau tai fforddiadwy yn ystod 2025-26. Cwblhawyd 709 o unedau tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod 2017-26. Cwblhawyd 91 o unedau tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod yr AMB hwn yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd sydd yn ostyngiad o'i gymharu o'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun ac felly mae'r ddarpariaeth o dai sy'n fforddiadwy yn debygol o fod yn uwch na'r ffigwr hwn. O'r unedau a gafodd ganiatâd am y tro cyntaf a'u cwblhau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, mae canran y tai fforddiadwy tua 56%. Mae hyn yn golygu bod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma wedi darparu canran uchel o dai fforddiadwy, gan sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cwrdd, mae hyn yn helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.
- 4.5 Ar y cyfan mae'r dangosyddion o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau o dan yr amgylchiadau. Ble nad yw targedau polisi yn cael eu cwrdd, mae hyn, ar y cyfan, yn seiliedig ar ffactorau sydd y tu allan i reolaeth y CDLI ar y Cyd. Ble na fo targedau polisi eraill yn cael eu cyflawni, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu'r polisi. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried wrth i'r Cyngor baratoi'r sail tystiolaeth ar gyfer ei Gynllun Datblygu Lleol newydd. Er y newidiadau cyd-destunol, fe ystyrir fod polisiau'r CDLI ar y Cyd yn parhau'n berthnasol ac yn darparu fframwaith gynllunio gadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ar draws ardal y Cynllun. Mae'r pwyntiau isod yn amlygu sut mae'r Cynllun yn parhau i gyflawni er budd yr ardal:
 - Nodir nad oes unrhyw un o'r polisiau yn methu a chyflawni amcanion y Cynllun. Fodd bynnag, nodir fod rhai dangosyddion yn adnabod fod y polisi ddim yn cael ei weithredu mor effeithiol a ddisgwyliwyd. Mae'r rhan helaeth o'r dangosyddion hyn yn ymwneud a methu a chyrraedd y twf disgwyledig, e.e. tir cyflogaeth, ynni adnewyddol a lefel twf tai. Fel y nodir yn yr AMB, mae'r methiant hyn oherwydd ffactorau sydd y tu allan i rheolaeth y CDLI.
 - Cafodd 3 cais ei wrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a chafodd 8 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.
 - Mae rhai datblygiadau yr adroddwyd arnynt yn benderfyniadau a wnaed cyn mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd.
 - Ar y cyfan mae penderfyniadau apêl ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cefnogi polisiau a strategaeth y cynllun. Fodd bynnag mae yna rhai penderfyniadau wedi ei

derbyn sydd yn amlygu materion a fydd angen rhoddi ystyriaeth ofalus iddynt wrth ystyried cynnwys a llunio polisiau penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 215 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2025-26. Roedd 98 uned (45.6%) ar gyfer tai fforddiadwy.
- Mae 91 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cwblhau yn 2025-26.
- Roedd y banc tir ar gyfer tai (safleoedd â chaniatâd presennol) yn 2026 yng Ngwynedd gan eithrio unedau mae'r CDLI wedi nodi sydd yn annhebygol o gael eu datblygu yn ystod oes y Cynllun yn 872 o unedau (553 heb ddechrau a 319 yn cael eu hadeiladu) ac roedd 357 ohonynt ar gyfer unedau fforddiadwy (260 o unedau heb ddechrau a 97 uned wrthi yn cael eu hadeiladu).
- Nodir bod 2805 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd rhwng y dyddiad sail (2011) a 2025/26, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi ffigur o 3712 o unedau hyd at y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 24.4% (907 uned) yn is na'r ffigur yn y taflwybr.
- Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio na phenderfyniadau apêl i addasu neu ddileu cytundebau neu amodau S106 ar gyfer tai marchnad leol wedi'u cymeradwyo na'u caniatáu (yn ystod y cyfnod AMB hwn nac ers mabwysiadu'r Cynllun).
- Mae cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth newydd ar safleoedd sydd wedi ei ddiogelu wedi'u cefnogi gan y polisiau yn y Cynllun ar y Cyd.
- Ar y cyfan mae'r dangosyddion a gynhwysir o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, lle nad ydynt yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisi.

- 4.6 Bydd ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i casgliadau'r Adroddiadau Monitro Blyneddol wrth baratoi'r sail tystiolaeth fydd yn cefnogi polisiau y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Atodiad 1: Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

1. MONITRO'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD

- 1.1 Roedd y CDLI ar y Cyd yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses iterus drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun. Bu i'r AC ymgorffori'r gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Gyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC. Diben yr AC oedd arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y Cynllun, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bu i AC y CDLI ar y Cyd adnabod 11 o amcanion a 29 o ddangosyddion sydd wedi'u bwriadu i fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Cynllun.
- 1.2 Dylid nodi mai rhagarweiniol oedd y rhaglen fonitro a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd a'i bod wedi tynnu sylw at ddangosyddion posib yn unig. Canfu'r broses monitro bod cyfle i wella'r dasg o fonitro'r AC i sicrhau bod data priodol yn cael ei gasglu. Er nad oes yr un dangosydd yn cael ei ddileu, dylid nodi bod y dadansoddiad yn nodi'n glir lle nad yw gwybodaeth ar gael ac/neu yn amherthnasol. Mewn rhai achosion, nid oes gwybodaeth ar gael mwyach (neu nid yw'n berthnasol); mewn achosion eraill, nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl fel y gellir monitro'n ddefnyddiol.
- 1.3 Mae nifer o Ddangosyddion AC lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft, y rhai sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Mae goblygiadau'r pandemig Cofid hefyd wedi golygu nad yw rhai mathau o wybodaeth wedi bod ar gael. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, ac o ganlyniad nid yw'r rhain, o reidrwydd, am fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen o ran monitro yn y dyfodol. Fodd bynnag, maent wedi'u cadw er mwyn darparu gwaelodlin, gwneir gwaith pellach mewn pryd ar gyfer yr AMB nesaf i bennu p'un a oes ffynonellau gwybodaeth amgen ar gael.
- 1.4 Dylid nodi nad yw'r system goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro'r CDLI wedi'u defnyddio wrth Fonitro'r AC. Mae nifer o'r amcanion AC o natur ddyheadol ac i raddau mae'n wybodaeth fyddai'n cael ei monitro mewn sefyllfa ddelfrydol. Yn ogystal, nid y CDLI ei hun fyddai'r unig ffactor i'w ystyried wrth gyflawni'r nodau. Nid yw'r Monitro AC yn cynnwys Targedau fel y cyfryw, yn wahanol i Fonitro'r CDLI, felly byddai'n anodd dehongli'r sylwadau mewn system sgorio goleuadau traffig.
- 1.5 Gan mai hon yw'r wythfed Adroddiad Monitro Blynnyddol, bydd y ffocws ar asesu'r newidiadau sydd wedi digwydd i bob dangosydd AC ers y seithfed AMB y CDLI. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol ac mae sylwadau i'w cael o dan bob amcan AC sy'n disgrifio'r cynnydd. Mae pob Amcan AC yn cael ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, ac mae'r casgliadau wedi'u nodi yn y rhannau isod. Mae'r lliwiau isod wedi'u defnyddio i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd:

Lliw	Effaith
✓	Effeithiau positif
+/-	Effeithiau cymysg
x	Effeithiau negyddol
0	Niwtral / Data ddim ar gael

Crynodeb Monitro AC

- 1.6 Mae Tabl 1 yn nodi asesiad cryno o ganlyniadau'r Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd. Cynhwysir crynodeb o'r canlyniadau hyn ym mharagraff 1.7.

Tabl 1: Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd – Crynodeb

Amcanion	Canlyniad
1: Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth	✓
2: Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol	0
3: Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu	✓
4: Cadw, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg	x
5: Cadw, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol	✓
6: Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth leol	✓
7: Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol	✓
8: Gwerthfawrogi, cadw a gwella tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun	✓
9: Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff	✓
10: Cefnogi a gwella cysylltiadau trafndiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi	✓
11: Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaliadwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd	✓

Crynodeb o'r Canlyniadau

- 1.7 Mae canlyniadau'r monitro Arfarniad Cynaliadwyedd yn nodi, o'r 11 Amcan Cynaliadwyedd, nodwyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer 9 amcan, effeithiau niwtral ar gyfer 1 amcan efo 1 amcan gydag effaith negyddol. Dengys y tabl bod cynnydd yn cael ei wneud, wrth gydbwyso popeth, gyda mwyafrif yr amcanion cynaliadwyedd a nodwyd, yn erbyn yr amrediad o ddangosyddion monitro ar gyfer yr amcan penodol. Mae'r tablau canlynol yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad y dangosyddion:

Amcan AC 1: Bioamrywiaeth

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) Colled bioamrywiaeth drwy ddatblygiad sy'n cael ei fesur drwy golled neu ardrawiad i safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLI.	Gostyngiad	2023/2024	Gweler esboniad isod	✓
2) Gwir golled bioamrywiaeth yn ardal y Cynllun oherwydd datblygiad.	Cynnydd	-	Gweler esboniad isod	0
3) % o nodweddion (gwahanol fathau) mewn cyflwr ffafriol, gan gynnwys nodweddion ar y tir ac ar y môr	Cynnydd	2021/2022	Gweler esboniad isod	0
4) Llwyddiant amcanion a thargedau BAP (DU a gwledydd penodol/rhanbarthol/ lleol)	Cynnydd	-	Gweler esboniad isod	0
5) Tueddiadau a statws NERC 2006, Rhan 42 rhywogaethau / cynefinoedd.	Gwelliant	-	Gweler esboniad isod	0
6) Nifer ac arwynebedd SINC's a GNL o fewn y Cynllun.	Cynnal/Cynnydd	2019/2020	Gweler esboniad isod	✓

Esboniad / Dadansoddiad

- Cymeradwywyd cyfanswm o 3 cais cynllunio a oedd yn llwyr/rhannol o fewn safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol). Dyma fanylion y 2 cais:
 - C25/0559/37/TR - Cais i amnewid newidydd ar bolyn sengl presennol gyda newidydd mwy ar ddau bolyn.

- C25/0888/39/TC - Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon ar gyfer newid defnydd arfaethedig o prif gartref (C3) i ddefnydd cymysg ail gartref (C5) a llety gwyliau tymor byr (C6)
 - C26/0028/39/DT – Cais deilydd tŷ.
2. Er nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau, mae polisïau o fewn y CDLI yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei warchod.
 3. Dim data mwy diweddar er yr AMB blaenorol. Dim ond ar gyfer ACA ac AGA y mae'r wybodaeth ar gael ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:
 - ACA - 40% (8 o'r 20 ACA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLI) o ardal yr holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol';
 - ACA - 89% (8 o'r 9 AGA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLI) o'r holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol'.
 4. Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.
 5. Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.
 6. Dim newid ers yr AMB blaenorol:
 - 392 (7115HA) Safleoedd Bywyd Gwyllt wedi'u cadarnhau (Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur)
 - 13 (3137HA) Gwarchodfa Natur Leol

Amcan AC 2: Cymuned a Iechyd

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) % cyfanswm poblogaeth gyda mynediad at wasanaethau allweddol.	Cynnydd	-	Data ddim ar gael	0
2) Mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.e. gorbwysedd) – Arolwg Iechyd Cymru.	Gwelliant	-	Data ddim ar gael	0

Esboniad / Dadansoddiad

- 1) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd.
- 2) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd.

Amcan AC 3: Newid Hinsawdd

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
% newid mewn allyriad carbon deuocsid gan ddiwydiant /masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd a'r sector coedwigaeth.	Gostyngiad	2018 - 2024	Gweler esboniad isod	✓

Esboniad / Dadansoddiad

Mae'r tablau canlynol yn dangos amcangyfrifon allyriadau CO₂ (KtCO₂) ym mhob un o'r 5 sector yng Ngwynedd ers 2018:

Gwynedd

	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Diwydiannol	49.6	46.9	44.4	50.2	49.5	44.5	41.9
Masnachol	59.6	49.3	40.2	48.2	46.7	41.0	44.3
Domestig	198.1	189.5	183.3	184.1	151.8	147.8	145.7
Trafnidiaeth	277.1	269.9	212.4	227.2	230.0	232.6	237.9
Coedwigaeth a Newid Defnydd Tir	-142.6	-145.7	-150.1	-152.4	-153.7	-154.1	-154.1

(Ffynhonnell: Adran Diogelwch Ynni a Net Sero)

Amcan AC 4: Iaith Gymraeg

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
Nifer/ % siaradwyr Cymraeg	Cynnydd	Blwyddyn yn gorffen Rhagfyr 2021	Cyfrifiad 2021	X

Esboniad / Dadansoddiad

Mae Polisi PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Nod Polisiâu PS 1, PS 5 a PS 6 yw integreiddio 'datblygiadau cynaliadwy' yn y broses ddatblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy.

Mae 'Adroddiad Blyneddol o'r boblogaeth' sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Y ffigyrau diweddaraf yw Ebrill 2026 sydd yn datgan fod yna 844,300 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ar gyfer Gwynedd mae'n datgan fod yna 91,300 yn gallu siarad Cymraeg sef 76% o boblogaeth y Sir.

Fodd bynnag o ganlyniad i ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 (538,300 o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a 73,560 sef 64.4% yng Ngwynedd) ar wahaniaeth rhwng hwn ar ffigyrau yn yr Adroddiad Blyneddol mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith i ddarganfod pam fod yna wahaniaeth rhwng y ffigyrau yma.

Mae blog y Prif Ystadegydd (25 Ebrill 2023) yn datgan "...wastad wedi bod yn glir ein bod yn ystyried y cyfrifiad fel y ffynhonnell wybodaeth awdurdodol am nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru...". Yn bellach mae'n datgan "...Mae sawl ffynhonnell ddata arall ar gael sy'n rhoi ychydig o wybodaeth am y Gymraeg y gallwn ei defnyddio i fonitro tueddiadau yn y cyfnod rhwng cyfrifiadau. Mae gan y ffynonellau hyn eu cryfderau a'u cyfyngiadau eu hunain o ran ystadegau ar y Gymraeg...".

Arolwg o'r Llafurlu yw sail i'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth. Er bod arolygon aelwydydd fel arfer yn rhoi amcangyfrifon uwch i ni o allu i siarad Cymraeg, yn gyffredinol maent wedi symud i gyfeiriad tebyg i amcangyfrifon y cyfrifiad. Fodd bynnag, gyda canlyniadau Cyfrifiad 2021, dyma'r tro cyntaf i'r cyfrifiad amcangyfrif bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng a'r arolygon cartrefi amcangyfrif bod y niferoedd wedi cynyddu.

Oherwydd yr ystod o ffynonellau data sydd ar gael, nid yw'n syml i ddefnyddwyr ystadegau am allu yn y Gymraeg gysoni'r gwahanol amcangyfrifon, yn enwedig gan fod rhai amcangyfrifon yn dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac eraill yn dangos bod y niferoedd yn gostwng. Gall hyn ei gwneud yn heriol gwybod sut i ddefnyddio'r ystadegau hyn i lywio polisi cyhoeddus iaith Gymraeg.

O fewn Adroddiad 'Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd' y prif bwyntiau oedd:

- O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i gytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl 65 oed neu hŷn; pobl sy'n byw yn y gogledd orllewin; pobl a anwyd yng Nghymru; a phobl â hunaniaeth genedlaethol Gymreig.
- O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i anghytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl iau na 25 oed; pobl sy'n byw yn y de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain; pobl a anwyd mewn mannau eraill o'r DU; a phobl heb hunaniaeth genedlaethol Gymreig.

- O'r bobl oedd yn cytuno y gallent siarad Cymraeg ar y ddwy ffynhonnell, nododd dros ddwy ran o dair (68.6%) eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd. O'r bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu ond nid yng Nghyfrifiad 2021, dim ond tua chwarter (24.8%) oedd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd.
- Mae cyfran lai o aelwydydd cwpl yn cytuno ar eu gallu i siarad Cymraeg rhwng y ddwy ffynhonnell lle nad oes yr un, neu ddim ond un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu ag aelwydydd cwpl sy'n cynnwys dau neu fwy o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg.

Felly ar sail hyn i gyd ni chredir y dylid rhoi unrhyw bwysau i'r cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg a welir yng Ngwynedd o fewn 'Adroddiad Blynnyddol o'r boblogaeth' Rhagfyr 2024.

Yn AMB 5 fe edrychwyd ar y newidiadau o fewn gwahanol gymdogaethau Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) gan nodi fod yna nifer o ffactorau yn effeithio ar y newidiadau rhwng 2011 a 2021 yn y canran ar nifer o siaradwyr Cymraeg ynddynt.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran ar nifer o siaradwyr efo datblygiadau eithaf mawr breswyl, eraill wedi gweld cynnydd yn y nifer ond gostyngiad yn y canran.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran er bod gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, mae hyn ar sail gostyngiad uwch yn y nifer di-gymraeg. I rai cymdogaethau gall hyn fod ar sail colled o unedau o'r stoc dai i ddefnydd fel ail gartrefi / llety gwyliau.

Yn nifer o'r cymdogaethau sydd wedi gweld y lleihad mwyaf o ran canran y siaradwyr Cymraeg ychydig iawn o dwf tai newydd sydd wedi bod trwy'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Mae elfen fawr o'r newidiadau sydd yn effeithio ar ardaloedd y Cynllun yn dod allan o newidiadau i'r stoc dai presennol.

Am fwy o fanylder ar faterion iaith gweler dangosyddion yr iaith Gymraeg ym Mhennod 3.

Amcan AC 5: Treftadaeth / Diwylliant

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
Nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg	Gostyngiad	2023/2024	Gweler esboniad isod	✓

Esboniad / Dadansoddiad

Cymeradwywyd 1 cais cynllunio o fewn STB 'Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward'. Cymeradwywyd 39 cais o fewn STB 'Dirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru', a chyfanswm o 50 cais cynllunio (llawn/amlinellol) o fewn Ardaloedd Cadwraeth y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys gosod pypiau gwres, paneli solar, newid defnyddiau, adeiladau/strwythurau swyddfa/cyflogaeth newydd, tai annedd/fflatiau newydd, trosi adeiladau, ffenestri blaen newydd, ac estyniadau.

Amcan AC 6: Economi a Chyflogaeth

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) Actifedd economaidd fesul sector	Cynnydd	2023/2024	Gweler esboniad isod	✓
2) Statws cyflogaeth preswylwyr dros 16 mlwydd oed.	Cynnydd	2023/2024	Gweler esboniad isod	✓
3) Nifer o bobl yn cymudo i fewn ac allan o ardaloedd awdurdodedig.	Gostyngiad	2023/2024	Gweler esboniad isod	+/-

Esboniad / Dadansoddiad

1 + 2) Dengys ystadegau y bu cynnydd mewn gweithgaredd economaidd a chyfradd cyflogaeth yn ardaloedd Awdurdod Lleol Gwynedd rhwng 2025 a2 026 fel y gwelir yn y tabl isod.

Arolwg o'r Gweithlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd (16-64)

	Blwyddyn yn dod i ben mis March 2021	Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2022	Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2023	Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2024	Blwyddyn yn dod i ben Mawrth 2025	Blwyddyn yn dod i ben Mawrth 2026
Ynys Môn	78.8%	74.1%	79.6%	Dim yn monitro	Dim yn monitro	Dim yn monitro
Gwynedd	77.9%	75.9%	77.7%	73.7	76.7%	80.5 (+3.8%)
Cymru	76.6%	75.6%	75.5%	76.2	75.1%	75.5% (+0.4%)

Tarddiad: Stats Cymru - Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (16-64) yn ôl Ardal Leol a'r Flwyddyn yng Nghymru

3) Dengys ystadegau fod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n cymudo allan o Wynedd ac Ynys Môn yn 2025. Tra bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymudo i Wynedd mae nifer y bobl sy'n cymudo i Ynys Môn wedi aros yn gyson ers 2022 fel y gwelir yn y tablau isod. Parhau i fonitro'r dangosydd.

Patrymau Cymudo fesul Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Blwyddyn	Gwynedd	Cymru
----------	---------	-------

Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2018	8,600	95,400
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2019	8,700	98,500
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2020	8,000	100,300
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2021	5,700	92,100
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2022	7,100	78,500
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2023	6,800	81,800
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2024	7,300	92,600
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2025	7,800	94,400

Ffynhonnell: Stats Cymru

Blwyddyn	Gwynedd	Cymru
Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2018	12,500	47,000
Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2019	12,200	42,700
Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2020	13,300	48,400

Number of people commuting into the area 2021	10,100	34,900
Number of people commuting into the area 2022	7,300	32,500
Number of people commuting into the area 2023	8,900	31,600
Number of people commuting into the area 2024	11,200	37,400
Number of people commuting into the area 2024	12,800	33,800

Ffynhonnell: Stats Cymru

Amcan AC 7: Tai

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
Nifer o unedau tai fforddiadwy sy'n cael ei ddarparu bob blwyddyn fel canran o'r holl unedau.	Cynnydd	2023-24	Gweler esboniad isod	✓

Esboniad / Dadansoddiad

Mae'r tabl isod yn cymharu'r ganran o dai fforddiadwy a gwblhawyd ers mabwysiadu'r cynllun (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig):

Blwyddyn	Unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd	Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd	Unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd
2017-18	31	208	14.9%
2018-19	118	281	42.0%
2019-20*	102	245	41.6%
2020-21*	36	135	26.7%
2021-22	74	169	43.8%
2022-23	58	107	54.2%
2023-24	67	137	48.9%
2024-25	140	212	66.0%
2025-26	91	118	77.1%

**Nodir oherwydd cyfyngiadau pandemig coronafirws, nid oedd yn bosib ymweld â phob safle dros y cyfnod hwn.*

Tra bod lleihad yn y nifer o unedau tai fforddiadwy a'u cwblhawyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fe nodir bod lleihad arwyddocaol wedi bod yng nghyfanswm yr unedau tai sydd wedi eu cwblhau. O'r herwydd mae'r ganran o dai fforddiadwy sydd wedi eu cwblhau o'i gymharu â chyfanswm y tai a gwblhawyd wedi cynyddu ers y llynedd. Mae'r targed ar gyfer y dangosydd hwn felly wedi ei gyrraedd.

Amcan AC 8: Tirlun a Threflun

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) Cyfran o'r dirwedd o ansawdd uchel/uchel iawn fel mae wedi ei adnabod gan LANDMAP	Cynnydd	2019-2020	Gweler y dadansoddiad isod	✓
2) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE	Gostyngiad	2021-2022	Gweler y dadansoddiad isod	✓
3) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu categorio'n bwysig gan LANDMAP	Gostyngiad	2021-2022	Gweler y dadansoddiad isod	✓

Esboniad / Dadansoddiad

- Dim newid ers yr AMB blaenorol. Mae'r canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd a ddiffiniwyd dan LANDMAP fel a ganlyn:
 - Gweledol a Synhwyrdd - dosbarthwyd 51% (135 o 267 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
 - Diwylliannol - dosbarthwyd 98% (374 o 382 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
 - Daearegol - dosbarthwyd 62% (133 o 213 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol
 - Tirweddau Hanesyddol - dosbarthwyd 81% (319 o 392 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
 - Cynefinoedd y Dirwedd - dosbarthwyd 47% (592 o 934 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol
- Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn AHNE fel a ganlyn:
 - 2018/2019 = 540
 - 2019/2020 = 219
 - 2020/2021 = 222
 - 2021/2022 = 340
 - 2022/2023 = 209
 - 2023/2024 = 100 (ACLI Gwynedd yn unig)
 - 2024/2025 = 96 (ACLI Gwynedd yn unig)
 - 2025/2026 = 68 (ACLI Gwynedd yn unig)
 - 2025/2026 = 70 (ACLI Gwynedd yn unig)

- 3) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn ardaloedd a ddosbarthwyd yn rhagorol gan LANDMAP fel a ganlyn:

Categori LANDMAP	AMB 1	AMB 2	AMB 3	AMB 4	AMB 5	AMB 6*	AMB 7*	AMB 8*
Gweledol a Synhwyrdd	81	26	20	24	31	7	4	5
Diwylliannol	1587	619	613	861	687	502	523	525
Daearegol	724	291	287	374	322	235	255	218
Hanesyddol	1270	532	528	691	493	278	255	325
Cynefinoedd y Dirwedd	70	26	24	36	36	20	19	21

Mae'r nifer o geisiadau cynllunio a chymeradwywyd o fewn ardaloedd wedi eu categorio fel rhagorol gan LANDMAP wedi aros yn cyson ers yr AMB blaenorol. Bydd y dangosyddion uchod yn parhau i gael eu monitro.

Amcan AC 9: Tir, Mwynau a Gwastraff

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) % cyfradd datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.	Cynnydd	2021/2022	Gweler esboniad isod	0
2) % gwastraff bwrdeistrefol a yrrwyd i'w dirlenwi	Gostyngiad	2018/2019	Gweler esboniad isod	✓
3) % ail-ddefnyddio / ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol	Cynnydd	2024/2025	Gweler esboniad isod	✓

Esboniad / Dadansoddiad

1) mae % cyfran y datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes fel a ganlyn:

- Gwynedd 2017-2018 12.82ha (64%);
- Gwynedd 2018 i'r presennol – gwybodaeth perthnasol ddim yn cael ei gasglu. Methu adrodd ar y dangosydd.

Oherwydd diffyg argaeledd gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, nid oes modd dod i gasgliad llawn os yw'r targed wedi ei gyrraedd.

2) Mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei dirlenwi fel a ganlyn (*Ffynhonnell: StatsWales*):

- 2016-2017 = Gwynedd (31%)
- 2017-2018 = Gwynedd (24.3%)
- 2018-2019 = Gwynedd (18.1%)
- 2019-2020 = Gwynedd (7.6%)
- 2020-2021 = Gwynedd (0.6%)
- 2021-2022 = Gwynedd (1%)
- 2022-2023 = Gwynedd (0.5%)
- 2023-2024 = Gwynedd (0.4%)
- 2024-2025 = Gwynedd (0.7%)

Mae'r gyfran o wastraff a aeth i dirlenwi yng Ngwynedd wedi gostwng yn sylweddol ers 2018-2019.

3) Mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei ailgylchu fel a ganlyn (*Ffynhonnell: My Recycling Wales*):

- 2016-2017 = Ynys Môn (66%) Gwynedd (61%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (72%), Gwynedd (60%)

- 2018-2019 = Ynys Môn (70%) Gwynedd (62%)
- 2019-2020 = Ynys Môn (68%) Gwynedd (65%)
- 2020-2021 = Ynys Môn (65.7%) Gwynedd (65.5%)
- 2022-2023 = Ynys Môn (62.3%) Gwynedd (64.2%)
- 2023 – 2024 = Gwynedd (65%)
- 2024 – 2025 = Gwynedd (64%)

Mae Gwynedd wedi gweld gostyngiad bychan yng nghanran y gwastraff dinesig a ailgylchwyd rhwng 2023/2024 a 2024/2025.

DRAFT

Amcan AC 10: Trafnidiaeth a Mynediad

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) Dull o deithio i'r gwaith - % o'r boblogaeth weithiol sy'n teithio gyda char	Gostyngiad	Cyfrifiad 2011	Cyfrifiad 2021	✓
2) Canran datblygiad preswyl o fewn 30 munud (amser trafndiaeth gyhoeddus)	Cynnydd	2017/2018/2019	Gweler esboniad isod	✓
3) Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan drafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.	Cynnydd	2016/17	Gweler esboniad isod	0
4) % cynnydd yn y rhwydwaith beicio	Cynnydd	Papur Testun Trafnidiaeth (2015)	Gweler esboniad isod	0
5) Cyfradd adnoddau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur.	Cynnydd	2019 ymlaen	Gweler esboniad isod	0

Esboniad / Dadansoddiad

- 1) Mae'r tablau isod yn cymharu'r sefyllfa yn Môn, Gwynedd a Chymru rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021 ar gyfer y gwahanol ddulliau o deithio i'r gwaith (rhain ar sail poblogaeth oedran 16-74 sydd yn gweithio):

Ynys Môn

Dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle (12 categori)	Ynys Môn % (Cyfrifiad 2011)	Ynys Môn % (Cyfrifiad 2021)	Newid %
Gweithio'n bennaf gartref	6.85%	22.51%	15.66%
Cludiant Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram	0.07%	0.02%	-0.05%
Trên	0.71%	0.41%	-0.30%
Bws neu bws mini	2.67%	1.59%	-1.08%
Tacsi	0.38%	0.32%	-0.06%
Beic modur, sgwter neu moped	0.73%	0.39%	-0.34%
Gyrru car neu fan	70.40%	61.35%	-9.05%

Teithiwr mewn car neu fan	6.10%	4.64%	-1.46%
Beic	1.58%	0.96%	-0.62%
Ar droed	9.54%	6.87%	-2.67%
Ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith	0.96%	0.74%	-0.22%

Gwynedd

Dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle (12 categori)	Gwynedd % (Cyfrifiad 2011)	Gwynedd % (Cyfrifiad 2021)	Newid %
Gweithio'n bennaf gartref	8.41%	23.66%	15.25%
Cludiant Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram	0.07%	0.05%	-0.02%
Trên	0.71%	0.38%	-0.33%
Bws neu bws mini	4.53%	2.44%	-2.09%
Tacsi	0.23%	0.24%	0.01%
Beic modur, sgwter neu moped	0.51%	0.26%	-0.25%
Gyrru car neu fan	62.97%	56.61%	-6.36%
Teithiwr mewn car neu fan	5.94%	4.38%	-1.56%
Beic	1.31%	1.03%	-0.28%
Ar droed	14.55%	10.21%	-4.34%
Ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith	0.78%	0.74%	-0.04%

Cymru

Dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle (12 categori)	Cymru % (Cyfrifiad 2011)	Cymru % (Cyfrifiad 2021)	Newid %
Gweithio'n bennaf gartref	5.36%	25.61%	20.25%
Cludiant Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram	0.09%	0.04%	-0.05%
Trên	2.01%	0.84%	-1.17%
Bws neu bws mini	4.61%	2.30%	-2.31%
Tacsi	0.48%	0.56%	0.08%
Beic modur, sgwter neu moped	0.56%	0.34%	-0.22%
Gyrru car neu fan	67.37%	56.46%	-10.91%
Teithiwr mewn car neu fan	6.80%	4.83%	-1.97%
Beic	1.44%	1.10%	-0.34%
Ar droed	10.64%	7.06%	-3.58%
Ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith	0.64%	0.86%	0.22%

Fel y gwelir y newid mwyaf yw yn y canran o bobl sydd yn gweithio o adref +15.66% yn Môn, +15.25% yng Ngwynedd a +20.25% yng Nghymru. O ran y nifer sy'n gyrru car neu fan i'r gwaith mae hyn wedi gostwng -9.05% yn Môn, -6.36% yng Ngwynedd a -10.91% yng Nghymru.

2) 100% o ddatblygiadau preswyl newydd o fewn 30 munud.

3) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol

- Ym Môn, ceir y trydydd nifer isaf o ddeiliaid tocyn bws mantais ar gyfer pobl 60 mlwydd oed a throsodd (75.6%).
- Mae'r pedwerydd nifer isaf i'w gael yng Ngwynedd (80.0%).
- Yr ardal gyda'r nifer isaf yw Powys (71.5%).
- Yr ardal gyda'r nifer uchaf yw Caerdydd (98.9%).
- Y cyfartaledd cenedlaethol yw 87.0%. Felly, mae Gwynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

4) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol

- Mae Ynys Môn wedi'i chynnwys yn ardal Taith. Mae Gwynedd wedi'i chynnwys yn ardaloedd Taith a Tracc.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Taith yw: 5 - Reading i Gaergybi; 8 - Caerdydd i Gaergybi.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Tracc yw: 8 - Caerdydd i Gaergybi; 42 - Y Clas-ar-Wy i Gaerloyw; 43 - Llanfair ym Mualt i Abertawe; 81 - Aberystwyth i'r Amwythig; 82 - Porthmadog i Aberteifi.

5) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol

- Ar hyn o bryd, mae 92 o orsafoedd tanwydd yng Nghymru sy'n gwerthu tanwydd LPG.
- Mae deg gorsaf yng Ngwynedd yn gwerthu LPG. Y rhain yw: A496 – 1; A4487 – 1; Bangor – 1; Abermaw - 1; Blaenau Ffestiniog – 1; Caernarfon -2; Machynlleth – 1; Pwllheli – 2.

Amcan AC 11: Dŵr a Pherygl Llifogydd

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) % o ddatblygiadau newydd gyda systemau draenio cynladwy.	Cynnydd	-	Data ddim ar gael	0
2) % cyrff dŵr gyda statws ecolegol da neu botensial	Cynnydd	2018/2019	Gweler yr esboniad isod	✓
3) Cyfradd / nifer absoliwt o ddatblygiadau yn C1 ac C2 (fel y'i diffinnir yn NCT15).	Gostyngiad	2023-2024	Gweler yr esboniad isod	✓

Esboniad / Dadansoddiad

- 1) Nid yw'r Awdurdodau yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd.
- 2) Dim gwybodaeth diweddar ers yr AMB blaenorol ar gael. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro
- 3) Ar 31/03/2025 daeth Nodyn Cyngor Technegol newydd 15 (Datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol) i rym, ynghyd â Map Llifogydd newydd yng Nghymru sy'n cynnwys y canlynol 'Cynllunio parthau llifogydd':
 - Parth Llifogydd 1
 - Parth Llifogydd 2
 - Parth Llifogydd 3
 - Parthau a Amddiffynnir TAN 15

At ddibenion yr AMB ystyrir bod y Parth Llifogydd 2 newydd yn cyd-fynd yn agos â'r hen barth llifogydd C1. Fodd bynnag, dylid nodi bod ceisiadau a ddilyswyd cyn 31 Mawrth 2025 ac unrhyw apeliadau dilynol i'w penderfynu o dan y TAN15 blaenorol (2004). Mae hyn er mwyn caniatáu cyfnod o ras ac i benderfynu yn erbyn y fframwaith polisi a oedd mewn grym ar yr adeg y cawsant eu cofrestru.

Caniatawyd 31 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn Parth Llifogydd 2; roedd 14 o'r rhain yn geisiadau deilydd tŷ. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio, casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y ceisiadau cynllunio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol); penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion y profion sydd wedi'u gosod yn NCT 15.

Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLI ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

DRAFT

Atodiad 2 – Dosbarthiad Caniatadau Preswyl

Gwybodaeth i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig ar sail fod y cytundeb cyd weithio rhwng Gwynedd a Ynys Môn wedi dirwyn i ben ar 31ain Mawrth, 2023.

Canolfan Isranbarthol:

1. Bangor (66 uned preswyl wedi cael caniatâd y cyfnod yma / 429 uned preswyl wedi cael caniatâd ers i'r cynllun cael ei fabwysiadu)

Canolfannau Gwasanaeth Trefol:

Gwynedd

2. Blaenau Ffestiniog (4 uned / 35 uned),
3. Caernarfon (3 uned / 116 uned),
4. Porthmadog (1 uned / 20 uned),
5. Pwllheli (38 uned / 115 uned)

Canolfannau Gwasanaeth Lleol:

Gwynedd

6. Abermaw (1 uned / 24 uned),
7. Abersoch (0 uned / 2 uned),
8. Bethesda (1 uned / 62 uned),
9. Criccieth (4 uned / 71 uned),
10. Llanberis (0 uned / 15 uned),
11. Llanrug (17 uned / 36 uned),
12. Nefyn (15 uned / 30 uned),
13. Penrhyndeudraeth (5 uned / 64 uned),
14. Penygroes (1 uned / 40 uned),
15. Tywyn (1 uned / 29 uned)

Pentrefi Gwasanaeth:

Gwynedd

16. Bethel (0 uned / 36 uned),
17. Bontnewydd (0 uned / 29 uned),
18. Botwnnog (0 uned / 1 uned),
19. Chwilog (0 uned / 85 uned),
20. Deiniolen (0 uned / 74 uned),
21. Rachub (0 uned / 31 uned),
22. Tremadog (0 uned / 1 uned),
23. Y Ffôr (1 uned / 2 uned)

Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol:

A) Pentrefi Lleol

Gwynedd

24. Abererch,
25. Brynrefail (0 uned / 1 uned),
26. Caeathro (0 uned / 12 uned),
27. Carmel (0 uned / 4 uned),
28. Cwm y Glo,
29. Dinas (Llanwnda) (0 uned / 28 uned),
30. Dinas Dinlle (0 uned / 1 uned),

31. Dolydd a Maen Coch,
32. Efailnewydd,
33. Garndolbenmaen (0 uned / 1 uned),
34. Garreg-Llanfrothen,
35. Groeslon,
36. Llandwrog,
37. Llandygai,
38. Llanybi (0 uned / 2 uned),
39. Llanllyfni (1 uned, 1 uned),
40. Llanystumdwy (1 uned / 8 uned),
41. Nantlle (0 uned / 1 uned),
42. Penisarwaun (4 uned / 7 uned),
43. Pentref Uchaf (0 uned / 3 uned),
44. Rhiwlas (0 uned / 6 uned),
45. Rhosgadfan (0 uned / 4 uned),
46. Rhostryfan,
47. Sarn Melltayrn (0 uned / 2 uned),
48. Talysarn (0 uned / 2 uned),
49. Trefor (15 uned / 17 uned),
50. Tregarth (1 uned / 20 uned),
51. Tudweiliog,
52. Waunfawr (0 uned / 2 uned),
53. Y Fron

B) Pentrefi Arfordirol/Gwledig:

Gwynedd

54. Aberdaron (8 uned / 14 uned),
55. Borth-y-Gest (0 uned / 1 uned),
56. Clynog Fawr,
57. Corris (0 uned / 1 uned),
58. Edern (0 uned / 6 uned),
59. Fairbourne,
60. Llanaelhaearn (1 uned / 3 uned),
61. Llanbedrog (1 uned / 2 uned),
62. Llangian,
63. Llithfaen (0 uned / 2 uned),
64. Morfa Bychan (0 uned / 2 uned),
65. Morfa Nefyn (12 uned, 15 uned),
66. Mynytho,
67. Rhoshirwaun,
68. Sarn Bach,
69. Y Felinheli (1 uned / 26 uned)



Clystyrau:



Gwynedd

70. Aberdesach,
71. Aberllefenni,
72. Aberpwll,
73. Bethesda Bach,
74. Bryncir,
75. Bryncroes,
76. Caerhun/Waen Wen,
77. Capel y Graig,
78. Corris Uchaf,
79. Crawia,

80. Dinorwig (0 uned, 1 uned),
81. Gallt y Foel,
82. Glasinfryn (0 uned / 9 uned),
83. Groeslon Waunfawr,
84. Llanaber (0 uned / 1 uned),
85. Llandderfel,
86. Llanengan (0 uned / 2 uned),
87. Llanfor,
88. Llanllechid,
89. Llannor,
90. Llanwnda,
91. Llwyn Hudol,
92. Minffordd,
93. Minffordd (Bangor),
94. Mynydd Llandygai,
95. Nebo,
96. Pantglas,
97. Penmorfa,
98. Penrhos,
99. Penrhos (Caeathro),
100. Pentir,
101. Pentrefelin (1 uned, 1 uned),
102. Pistyll (0 uned / 1 uned),
103. Pontllyfni,
104. Rhoslan,
105. Saron (Llanwnda),
106. Swan,
107. Tai'n Lôn,
108. Talwaenydd,
109. Talybont,
110. Tan y Coed,
111. Treborth (0 uned / 4 uned),
112. Ty'n-lôn,
113. Ty'n y Lôn,
114. Waun (Penisarwaun) (0 uned / 1 uned).

DRAFT





Atodiad 3 – Darpariaeth o dir ar gyfer tai

Tabl A1: Amseru a chatau cyflawni safleoedd â chaniatâd cynllunio – Safleoedd banc tir mawr (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd)

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
4	Canolfan Is-ranbarthol	30-32, Ffordd Caergybi, Bangor	3/11/722B	8	8	0	0	0	8
1932	Canolfan Is-ranbarthol	Neuadd Deiniol & Wayside, Ffordd Caergybi, Bangor	C11/0342/11/TC	24	24	0	0	0	24
178	Canolfan Is-ranbarthol	Coed y Maes (Caeau Briwas), Penrhos, Bangor	3/25/195AB	20	2	18	0	0	2
179	Canolfan Is-ranbarthol	Tir yn Y Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor	C06A/0663/25/LL	5	1	4	0	0	1
5105	Canolfan Is-ranbarthol	Railway Institute, Ffordd Euston, Bangor	C21/0803/11/LL	25	25	0	0	0	25
5200	Canolfan Is-ranbarthol	Blenheim House, Ffordd Caergybi, Bangor	C20/0669/11/LL	36	36	0	0	0	36
5201	Canolfan Is-ranbarthol	Maes Berea, Bangor	C18/0365/11/AM	9	9	0	0	0	9
5255	Canolfan Is-ranbarthol	Plas Llwyd Terrace, Bangor	C07A/0755/11/MG	10	10	0	0	0	10
5305	Canolfan Is-ranbarthol	Coed Mawr, Bangor	C24/0436/11/LL	10	10	0	0	10	10

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
5273	Canolfan Is-ranbarthol	290-294 Stryd Fawr, Bangor	C21/0959/11/LL	24	24	0	0	24	24
5298	Canolfan Is-ranbarthol	Ysgol Annibynol, Bangor	C24/0074/11/LL	9	9	0	0	0	9
5322	Canolfan Is-ranbarthol	Halifax, 243-245 Stryd Fawr, Bangor	C25/0186/11/LL	13	13	0	0	13	13
2206	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Rhan OS 8825, Cae Clyd, Manod, Blaenau Ffestiniog	C14/0248/03/LL	5	5	0	0	0	5
1660	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Cyn Westy Marine, Ffordd y Gogledd, Caernarfon	C18/1040/14/LL	15	15	0	0	15	15
5209	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Garej Lleiod, Ffordd Llanberis, Caernarfon	C22/0745/14/LL	21	SAFLE WEDI'I GWBLHAU				
2518	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Capel Garth, Bank Place, Porthmadog	C16/0761/44/LL	9	9	0	0	9	9
1969	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Snowdon Mill, Heol yr Wyddfa, Porthmadog	C07D/0707/44/LL	24	24	0	0	24	24
1640	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Plot 31, Awel y Grug, Porthmadog	C15/0224/44/LL	10	1	9	0	0	1
4838	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Tir Ysgubor Wen, Pwllheli	C20/0870/45/LL	5	1	4	4	1	1
743	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Promenad Abermaw	5/51/815B	26	26	0	0	0	26

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
4100	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Safle Gwesty Whitehouse, Abersoch	C14/1208/39/LL	18	18	0	0	18	18
5249	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Brig y Nant, Bethesda	C22/0256/13/LL	18	18	0	0	0	18
24	Canolfan Gwasanaeth Lleol	OS 8361, 8958, 8650, Bryn Caseg, Bethesda	3/13/130A-E	22	1	21	0	0	1
5269	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Banc Natwest, Bethesda	C23/0969/13/LL	6	6	0	0	0	6
224	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Stad Gorseddfffa, Cricieth	2/15/143A-Z	13	1	12	0	0	1
225	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Stad Wern y Wylan, Cricieth	C96D/0181/15/CL	9	1	8	0	0	1
5353	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Tir oddi ar Ffordd Glanffynnon, Llanrug	C25/0651/23/LL	17	17	0	0	0	17
5198	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Tir ger Treddafydd Stryd Fawr, Penygroes	C19/1089/22/LL	12	12	0	0	12	12
2495	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Capel Seion, Stryd y Plas, Nefyn	C04D/0722/42/LL	7	7	0	0	7	7
285	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Stad Bro Gwylwyr, Nefyn	C07D/0699/42/LL	35	1	34	1	0	1
3790	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Tir y Farchnad, Sandilands Road, Tywyn	C13/0102/09/LL	18	18	0	0	18	18

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
76	Pentref Gwasanaeth	Bro Eglwys, Saron, Bethel	3/18/202J	50	14	36	0	0	14
5177	Pentref Gwasanaeth	Capel Ebeneser, Stryd Fawr, Deiniolen	C19/1194/18/LL	7	7	0	0	0	7
2477	Pentref Gwasanaeth	Llwyn Bedw Estate, Rachub	C10A/0040/21/MG	13	1	12	8	0	1
3966	Pentref Lleol	Plot o dir ger Hen Gapel, Ffordd Waunfawr, Caeathro	C09A/0412/26/LL	12	12	0	0	0	12
2216	Pentref Lleol	Ceir Cwm, Cwm y Glo	C10A/0087/23/LL	8	5	3	3	0	5
5310	Pentref Lleol	Tir ger Talardd, Dinas	C20/1093/24/LL	16	16	0	0	16	16
5171	Pentref Lleol	Tir ger Maes Llwyd, Llanystumdwy (1)	C21/1091/41/LL	6	SAFLE WEDI'I GWBLHAU				
5320	Pentref Lleol	Tir ger Maes Llwyd, Llanystumdwy (2)	C25/0204/41/LL	5	5	0	0	0	5
5351	Pentref Lleol	Tir ger Llys yr Eifl, Trefor	C25/0824/37/LL	15	15	0	0	0	15
5274	Pentref Arfordirol / Gwledig	Bodernabwy, Aberdaron	C24/0011/30/AM	5	5	0	0	0	5
5343	Pentref Arfordirol / Gwledig	Tir gyferbyn Deunant, Aberdaron	C25/0418/30/LL	8	8	0	0	8	8
1669	Pentref Arfordirol / Gwledig	Plotiau 15-23 Heol Seithendre, Fairbourne	C04M/0072/01/LL	9	5	4	0	0	5
5290	Pentref Arfordirol / Gwledig	Tir Maes Twnti, Morfa Nefyn	C24/0689/42/LL	9	9	0	0	0	9

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
2517	Pentref Arfordirol / Gwledig	Gyferbyn Halfway House, Y Felinheli	C09A/0424/20/LL	7	7	0	0	0	7
1730	Pentref Arfordirol / Gwledig	Gwesty Plas Dinorwig, Y Felinheli	C05A/0152/20/LL	8	8	0	0	0	8
1428	Pentref Arfordirol / Gwledig	Harbwr, Y Felinheli	C05A/0750/20/LL	22	3	19	0	0	3
5256	Pentref Arfordirol / Gwledig	Tir ger Y Wern, Y Felinheli	C23/0772/20/LL	23	SAFLE WEDI'I GWBLHAU				
2428	Clwstwr	OS 3910, Ger Eglwys St Engan, Llanengan	C11/1186/39/MG	6	1	5	5	1	14
CYFANSWM				712	473	189	21	176	465

- Safle wedi ei gwblhau yn ystod 2025/26

Tabl A2: Amseru a chamau cyflawni dynodiadau tai (Safleoedd ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig)

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
3944*	Canolfan Is-ranbarthol	T1	Goetra Uchaf, Bangor	SAFLE WED'I GWBLHAU					
4591	Canolfan Is-ranbarthol	T2	Caeau Chwarae Hen Ysgol Friars, Bangor	43					43
4225	Canolfan Is-ranbarthol	T3	Hen safle Jewsons, Bangor	17					17
4592	Canolfan Is-ranbarthol	T4	Tir dros ffordd i'r Amlogfa, Bangor	48	Caniatâd cynllunio C25/0686/11/LL	0	0	0	48
4596	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T23	Cyn Gaeau Chwarae, Blaenau Ffestiniog	95					95
4597	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T24	Tir yn Congl y Wal, Blaenau Ffestiniog	60					60
4443*	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T25	Cyn Ysgol Hendre, Caernarfon	SAFLE WED'I GWBLHAU					
1373	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T26	Tu cefn i Maes Gwynedd, Caernarfon	29					29

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
1372*	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T27	Lôn Cae Phillips, Caernarfon	SAFLE WED'I GWBLHAU					
5336	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T28	Tir ger Ffordd Caernarfon, Pwllheli (Plot Dwyrain) (Noder bod archfarchnad wedi ei ddatblygu ar ran o ddynodiad T28)	26	Caniatâd cynllunio C23/0673/45/AM	0	0	0	26
5337	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T28	Tir ger Ffordd Caernarfon, Pwllheli (Plot Gorllewin) (Noder bod archfarchnad wedi ei ddatblygu ar ran o ddynodiad T28)	12	Caniatâd cynllunio C23/0671/45/AM	0	0	0	12
1400	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T29	Cae Deiniol, Pwllheli	14	Caniatâd cynllunio C21/0111/45/LL	12	12	2	2
1399	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T30	Cyn Gae Hoci, Pwllheli	14	Caniatâd cynllunio C18/1198/45/AM	0	0	14	14

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
2205	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T41	Tir ger North Teras, Cricieth	23	Caniatâd cynllunio C21/1136/35/LL	20	20	3	3
1374	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T42	Tir ger Gwesty'r Fic, Llanberis	16					16
2790*	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T43	Tir ger Lôn Tŷ Du, Llanberis	SAFLE WED'I GWBLHAU					
3602	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T44	Cae'r Eglwys, Llanrug	10	Caniatâd cynllunio C18/0942/23/LL & C23/0033/23/LL	9	9	0	1
2567*	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T45	Tir ger Lôn Rhyhallt, Llanrug	SAFLE WED'I GWBLHAU					
4603	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T46	Tir ger Helyg, Nefyn	14	Caniatâd cynllunio C24/1119/42/LL	0	0	14	14
3832*	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T47	Cyn Gerddi Rhandir, Nefyn	SAFLE WED'I GWBLHAU					
1405*	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T48	Canol Cae, Penrhyndeud raeth	SAFLE WED'I GWBLHAU					
4604	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T49	Tir ger cyn Ysbyty Bron Garth, Penrhyndeud raeth	46					46
4605	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T50	Tir ger Canol Cae, Penrhyndeud raeth	31					31

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
1379	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T51 (rhan)	Tir ger Maes Dilyn, Penygroes Caniatâd C20/0942/22/LL (5064) ar ran o'r safle - Nifer o unedau yn seiliedig ar yr arwynebedd safle sydd yn weddill.	15					15
5064	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T51 (rhan)	Tir ger Maes Dilyn, Penygroes	SAFLE WED'I GWBLHAU					
2142	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T52	Sŵn y Tonnau, Tywyn	41	Caniatâd cynllunio C06M/0069/09/LL	32	23	0	9
667	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T53	Garreglwyd, Tywyn	23	Caniatâd cynllunio 5/79/134	11	2	0	12
4598	Pentref Gwasanaeth	T57	Tir gyferbyn â Stad y Cremlyn, Bethel	SAFLE WED'I GWBLHAU					
4599	Pentref Gwasanaeth	T58	Tir gyferbyn â Stad Rhoslan, Bethel	7	Caniatâd cynllunio C18/0545/18/MG	6	6	1	1

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
2478*	Pentref Gwasanaeth	T59	Tir ger Stad Glanrafon, Bontnewydd	SAFLE WED'I GWBLHAU					
4593	Pentref Gwasanaeth	T60	Tir ger Pont Glan Beuno, Bontnewydd	10					10
4594	Pentref Gwasanaeth	T61	Tir ger Cefn Capel, Botwnnog	18	Caniatâd cynllunio C24/0205/32/LL				18
4595	Pentref Gwasanaeth	T62	Tir ger Pentre, Botwnnog	11					11
4125	Pentref Gwasanaeth	T63	Tir tu cefn i'r Madryn Arms, Chwillog	SAFLE WED'I GWBLHAU					
1364	Pentref Gwasanaeth	T64	Tir ger Cae Capel, Chwillog	20					20
3959	Pentref Gwasanaeth	T65	Tir ger Pentre Helen, Deiniolen	27	Caniatâd cynllunio C09A/0396/18/AM	0	0	0	27
4600	Pentref Gwasanaeth	T66	Tir ger Maes Bleddyn, Rachub	SAFLE WED'I GWBLHAU					
4601	Pentref Gwasanaeth	T67	Tir ger Tyn Lôn, Y Ffor	18					18
4602	Pentref Gwasanaeth	T68	Tir ger yr Ysgol, Y Ffor	10					10
2214	Pentref Gwasanaeth	T69	Tir ger Bro Gwystil, Y Ffor	SAFLE WED'I GWBLHAU					
CYFANSWM						90	72	34	608

*	Ar gyfer safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio, mae'r ffigwr yn nodi'r nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd.
	Safle wedi ei gwblhau
	Caniatâd cynllunio byw (datblygiad heb ei gwblhau)

DRAFT

ATODIAD 2

GWEITHGOR POLISI CYNLLUNIO – 16 Medi, 2026

5. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL (AMB) 8

Dechreuodd y Gweithgor gyda chyflwyniad gan Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio Cyngor Gwynedd ar ddangosyddion Adroddiad Monitro Blynnyddol (AMB) 8, sef yr AMB olaf o dan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol. Amlygwyd fod yr holl ddangosyddion wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn a bod y data a gyflwynwyd yn cynnwys ffigurau ffeithiol. Rhoddwyd trosolwg o'r AMB, gan egluro bod y casgliadau'n deillio o'r gwaith monitro a gynhelir yn flynyddol gan y gwasanaeth polisi cynllunio. Esboniwyd mai pwrpas yr adroddiad yw asesu effeithiolrwydd strategaeth a fframwaith polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Cafodd y Gweithgor eglurhad hefyd o'r modd y caiff dangosyddion eu hasesu a'u sgorio yn erbyn y meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â pholisiau'r Cynllun. Rhannwyd y prif ganfyddiadau gyda'r aelodau, gan dynnu sylw at y canrannau a'r data perthnasol a gasglwyd wrth baratoi AMB 8. Wrth gloi'r cyflwyniad, nododd y swyddog y bydd canfyddiadau AMB 8, ynghyd â'r adroddiadau monitro blaenorol, yn darparu tystiolaeth werthfawr i lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Materion a godwyd

1. Amlygwyd aelod yr angen i gymharu canfyddiadau'r AMB presennol â rhai blynnyddoedd blaenorol mewn modd mwy cyson, er mwyn gallu adnabod y dangosyddion a'r materion sy'n gofyn am fwy o sylw neu ystyriaeth. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch y camau nesaf a'r prif risgiau a nodwyd. Yn ogystal, holwyd a yw canlyniadau rhai dangosyddion yr AMB yn or-ddibynnol ar gynnydd safleoedd datblygu mawr, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys pum uned neu fwy.
2. Awgrymodd aelod y dylid ystyried sefyllfa bresennol yr AMB a'r CDLI mewn modd mwy realistig. Nodwyd y dylid cydnabod nad yw'r targedau a osodwyd ar gyfer twf swyddi a'r boblogaeth wedi'u cyflawni yn unol â disgwyliadau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Cyfeiriwyd hefyd at ganlyniadau apeliadau cynllunio, gan nodi y gall yr AMB gyflwyno apêl a wrthodwyd fel canlyniad negyddol. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai rhai o'r canlyniadau hyn adlewyrchu diffygion neu ragdybiaethau anghywir o fewn y Cynllun ei hun, yn hytrach na methiant yn y broses benderfynu. Defnyddiwyd prosiect Wylfa fel enghraifft o ffactor allanol a gafodd effaith sylweddol ar gyflawni amcanion y Cynllun a pherfformiad sawl dangosydd o fewn yr AMB. Pwysleisiwyd y dylai'r adroddiad roi mwy o sylw i'r ffactorau allanol a'r amgylchiadau ehangach sydd wedi dylanwadu ar y canlyniadau, er mwyn darparu darlun mwy cyflawn o'r rhesymau dros unrhyw fethiannau neu ddiffyg cynnydd yn erbyn y targedau.
3. Cefnogodd yr aelod y pwyntiau uchod a gofynnodd am eglurhad pellach ynghylch dangosydd D19 yr AMB, sy'n ymwneud â datblygiadau newydd ar safleoedd tir llwyd. Yn benodol, gofynnwyd pam fod statws y dangosydd wedi'i nodi mewn oren wrth

ystyried fod yr Adroddiad yn nodi fod y wybodaeth ddim ar gael. Dydi o ddim yn bosib dweud un ffordd neu'r llall, h.y. o bosib fod y dangosydd yn cyflawni, ond does dim gwybodaeth ar gael.

4. Dechreuodd aelod drwy gyfeirio at waith Adran Addysg y Cyngor, gan nodi ei argraff positif o'u gallu i ragweld nifer y disgyblion yn y dyfodol ac asesu'r angen am leoedd ysgol ychwanegol dros gyfnod o amser. Symudodd wedyn i drafod statws a lefel y swyddi sydd ar gael, gan nodi bod nifer y swyddi wedi bod yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y Cynllun. Awgrymwyd bod hyn, o ganlyniad, wedi lleihau'r angen am unedau preswyl newydd. Yn dilyn hyn, gofynnodd yr aelod beth fyddai statws y Cynllun ar ôl mis Ionawr 2027. Er iddo gydnabod yr ymateb a roddwyd, mynegodd y gallai'r sefyllfa olygu bod mwy o hyblygrwydd i anwybyddu polisiau'r Cynllun wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.
5. Rhannwyd yr aelod am y gwrthdaro yn y Pwyllgor Cynllunio ynglŷn â'r iaith Cymraeg a chredwyd petai cryfhau y canllaw cynllunio atodol (CCA) ar yr iaith Cymraeg yn helpu datrys y gwrthdaro. Amlygwyd yr angen i gryfhau safbwynt yr CCA yn benodol ar diroedd dynodedig ar gyfer tai. Hefyd rhannwyd y pwysigrwydd o gydnabod camgymeriadau neu fethiant dangosydd neu bolisi ac i seilio datblygiadau tai ar dargedau sydd wedi methu, defnyddiwyd Wylfa fel esiampl i'r gollyngiad mewn poblogaeth.
6. Amlygodd yr aelod fod y dangosyddion o'r AMB yn hollol ffeithiol a statudol ac nid yw'r canlyniadau'r dangosyddion yn gallu newid. Cyflwynwyd her tuag at Adran 106 a'i effaith ar dai fforddiadwy lleol. Hefyd cydnabuwyd sefyllfa staff yr adran polisi cynllunio a rhoddwyd cynnig i dderbyn AMB 8.
7. Cytunodd yr aelod â'r sylwadau a wnaed ynghylch yr AMB, gan gyfeirio hefyd at yr heriau sy'n ymwneud â chapasiti ac adnoddau o fewn y tîm Polisi Cynllunio. Parhaodd i drafod effaith prosiect Wylfa ar gyflogaeth yn yr ardal, gan nodi bod methiant i wireddu'r lefelau cyflogaeth a ragwelwyd wedi cael goblygiadau uniongyrchol ar y galw am dai. Fodd bynnag, amlygwyd bod canran uwch o unedau tai fforddiadwy wedi'u darparu nag a ragwelwyd, sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi amcanion strategol y Cyngor. Gofynnodd yr aelod hefyd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i bolisiau sy'n ymwneud â dwysedd datblygiadau preswyl wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mewn ymateb, nodwyd ei bod yn debygol y bydd angen ailystyried a lleihau'r lefelau dwysedd mewn rhai achosion er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion a pholisiau cenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â draenio.
8. Nododd Aelod y dylid amlygu methiannau / anaddasrwydd mesuryddion a'r fframwaith fonitro pan yn y cyflwyno'r adroddiad i Llywodraeth Cymru.

Ymatebion

1. Eglurodd y swyddog fod perfformiad a llwyddiant y dangosyddion yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau allanol a lleol. Wrth bwysleisio pwysigrwydd yr AMB fel ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer llywio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, nodwyd bod y targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn cael eu cyflawni, a bod mwy o safleoedd eithrio wedi'u datblygu yn ystod cyfnod AMB 8 nag mewn unrhyw gyfnod monitro blaenorol o dan y Cynllun presennol. Amlygwyd hefyd bwysigrwydd rhoi ystyriaeth fanwl i faterion tai a'r Gymraeg wrth baratoi'r Cynllun newydd. Nodwyd fod canlyniadau'r dangosyddion yn gallu amrywio'n sylweddol yn flynyddol, a bod y swyddogion yn gyfyngedig i adrodd ar y data a'r ceisiadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod monitro perthnasol. Ychwanegodd swyddog arall fod angen adolygu canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol er mwyn adnabod y meysydd hynny sydd angen eu diweddarau neu eu hailystyried o fewn y CDLI newydd. Pwysleisiwyd y bydd angen rhoi sylw i ystod eang o faterion wrth symud ymlaen â'r broses o baratoi'r Cynllun. Nodwyd ymhellach fod angen parhau i roi sylw manwl i'r fframwaith polisi cenedlaethol, a chadarnhawyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio i amlygu'r materion hyn yn fanylach. Yn olaf, cydnabuwyd y gallai risgiau penodol godi yn ystod y cyfnod rhwng diwedd y Cynllun Datblygu Lleol presennol a mabwysiadu Cynllun newydd, yn enwedig mewn perthynas ag apeliadau cynllunio a'r pwysau a allai godi yn sgil absenoldeb cynllun datblygu cyfredol.
2. Amlygwyd mae polisiâu cynllunio wedi'i ddylunio ar gyfer amgylchiadau annisgwyl ar be gall ddigwydd a nodwyd hefyd mai hyblygrwydd yr polisiâu sydd yn bwysig i ddelio hefo materion annisgwyl. Rhannodd swyddog fod dangosyddion yr AMB yn destun trafodaeth yn aml rhwng swyddogion.
3. Nododd y swyddog nad oes dull clir ar hyn o bryd o fonitro na mesur llwyddiant y dangosydd hwn. O ganlyniad, ystyrir bod angen adolygu a chryfhau'r dangosydd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu sail fwy cadarn ar gyfer monitro perfformiad wrth symud ymlaen gyda'r CDLI newydd. Cynnig ychwanegu testun i'r AMB sydd yn amlygu hyn sydd wedi ei godi gan yr aelod.
4. Mewn ymateb, eglurwyd mai statws y Cynllun fydd parhau fel ystyriaeth gynllunio faterol, ac felly ni fydd y Cyngor yn gallu ei anwybyddu'n llwyr wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Cyfeiriwyd hefyd at bwynt cynharach yr aelod ynglŷn yr Adran Addysg, gan nodi bod yr Adran yn cael ei hymgyngori ar geisiadau cynllunio perthnasol ar gyfer datblygiadau tai ac wedi cyfrannu at brosesau paratoi'r CDLI presennol yn ogystal â'r Cynllun newydd sy'n cael ei ddatblygu. Pwysleisiwyd ymhellach y bydd statws y Cynllun ar ôl mis Ionawr 2027 yn parhau fel ystyriaeth gynllunio faterol, ac na fydd swyddogion cynllunio na'r Cyngor yn ei anwybyddu wrth asesu ceisiadau. Nodwyd hefyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a fydd yn egluro'r sefyllfa a'r goblygiadau yn fwy manwl. Rhannwyd mai'r brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau fydd y cynllun datblygu sydd mewn grym ar y

pryd, gan nodi bod polisïau'r Cynllun presennol yn parhau i fod yn gyson â chyfeiriad a gofynion y fframwaith cynllunio cenedlaethol.

5. Cydnabod yr pwynt a godwyd. Mae amgylchiadau CDLI yn gallu newid a mi fydd yr proses statudol yno i ddelio efo newidiadau a wynebir.
6. Nodi'r sylw
7. Cytuno mi fydd angen ailedrych ar bolisïau ar gyfer cwrdd dwysedd i gydymffurfio efo newidiadau deddfwriaeth ac i wneud y defnydd gorau o dir. Rhannwyd y pryderon bod targedau ddim yn cael ei gwrdd yng nghyd-destun y CDLI wrth nodi mae materion e.e. topograffi yn gallu effeithio ar amgylchiadau ceisiadau a datblygiadau.
8. Nododd y swyddog fod effaith peidio â gwireddu prosiect Wylfa wedi cael ei chydabod a'i hadlewyrchu o fewn y gwaith monitro perthnasol. Eglurodd hefyd fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi dangos ei allu i ymateb i amgylchiadau a newidiadau annisgwyl, gan gyfeirio at lwyddiant y ddarpariaeth tai fforddiadwy fel enghraifft o hyn.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod:	13 Hydref 2026
Aelod Cabinet:	Cyng. Huw Wyn Jones – Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog Cyswllt:	Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr a Ffion Mai Jones - Uwch Reolwr Gweithredol
Teitl yr Eitem:	Strategaeth Gyfalaf

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo:
 - ariannu £1.49M ar gyfer bwlch cyllido prosiect atal llifogydd Prom y Gogledd, Abermaw
 - ariannu bwlch cyllido o £583k ar gyfer prosiect Ysgol Bontnewydd
 - darparu £6.86M ar gyfer amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy
 - darparu £4.11M ar gyfer amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy ac ymateb i risgiau traffig ar safleoedd Ysgolion Uwchradd
 - dirprwyo'r hawl i gytuno ar union raniad y £4.11M rhwng gwella ysgolion uwchradd a ymateb i risgiau traffig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Addysg, Y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Cyllid wedi i waith pellach gael ei gwblhau.
 - dadymrwymo £3.5M o gynllun asedau presennol y cyngor, er mwyn i ryddhau i gyfrannu at yr adnoddau sydd ar gael i ariannu yr uchod.
- 1.2. Gofynnir i'r Cabinet gadarnhau ymrwymiadau eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer cynnydd costau Ysgol Tryfan (cabinet 16 Rhagfyr 2025) a chanolfan arloesi Trawsfynydd (10 Chwefror 2026).

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Ers i'r Cyngor fabwysiadu ei Gynllun Asedau yng Ngorffennaf 2024, mae cyllid cyfalaf uwchlaw yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn setliad Llywodraeth Leol wedi ei dderbyn ac angen penderfyniad ar ei ddyrannu.

3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2024 bu i'r Cyngor Llawn fabwysiadu ei Gynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 2024-2034. [Microsoft Word - Cynllun Asedau 2024-34 f2.docx](#)
- 3.2. Wrth osod y cynllun rhagdybiwyd yr adnoddau cyfalaf tebygol a fyddai ar gael ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd (£88.2M) ac o'r holl gynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau, blaenoriaethwyd y cynlluniau hynny a fyddai'n gallu cael eu cyflawni o fewn yr adnoddau ar gael.
- 3.3. Yn sgil y broses blaenoriaethu roedd nifer o gynlluniau na fu modd eu cynnwys, ac roedd cydnabyddiaeth hefyd y byddai cynlluniau yn codi yn ystod y cyfnod 10 mlynedd nad oedd yn aeddfed ar adeg paratoi y cynllun.
- 3.4. I'r perwyl hwn roedd angen i'r Cynllun fod yn un byw a hyblyg.
- 3.5. Mae'r sefyllfa adnoddau wedi newid ychydig ers i'r cynllun gael ei gymeradwyo ac mae angen ystyried pa addasiadau sydd eu hangen felly i'r Cynllun.
- 3.6. Nodwyd yn y Cynllun Asedau 2024-2034 y byddai anghenion gwario i'w cyfarch gan y Cynllun Asedau yn cael eu dynodi mewn 3 grŵp:

Rhan A: Cynlluniau y mae modd cyflawni o fewn yr amlen adnoddau sydd gennym

Rhan B: Cynlluniau lle bydd yn rhaid eu cyfarch drwy ddull arall

Rhan C: Cynlluniau lle bydd angen aros i weld a allwn ychwanegu at yr adnoddau cyfalaf fydd gennym cyn y gellir cadarnhau i ba raddau y bydd modd i ni eu cyflawni.

- 3.7. Roeddem hefyd yn ymwybodol wrth baratoi y cynllun y byddai yna gynlluniau yn codi yn ystod y cyfnod 10 mlynedd nad oedd modd eu rhagweld ac felly fe roddwyd £500k y flwyddyn o'r neilltu er mwyn cyfarch y gofynion hynny. Roedd hwn yn swm llai gan y tybiwyd mai cynlluniau bach fyddai ac y byddai'n rhaid ymdopi gyda symiau mwy drwy ystyried y cynlluniau unigol hynny a sut i'w hariannu.
- 3.8. Mae cynlluniau llai yn cael eu hystyried yn flynyddol drwy fidiau cyfalaf gan Adrannau, a'u cymeradwyo drwy adroddiad y Pennaeth Cyllid ar y Gyllideb.
- 3.9. Er hynny, mae cynlluniau eraill mwy sylweddol sydd angen ystyriaeth. Yn ogystal, nodwyd o fewn y Cynllun Asedau 2024-2034 y bwriad os daw adnoddau pellach ar gael y byddem yn blaenoriaethu'r cynlluniau na fu modd eu cymeradwyo ar y pryd yn rhan C, yn benodol cynlluniau y rhaglen dreigl ysgolion cynaliadwy a darparu cyllideb ar gyfer chynnal a chadw adeiladau y Cyngor. Mae hyn wedi ei gynnwys ym mhenderfyniad y Cyngor Llawn wrth fabwysiadu'r Cynllun Asedau ac mae'r hawl wedi ei ddirprwyo i'r Cabinet ddelio gyda'u materion hyn.

- 3.10. Mae'n briodol felly i'r Cabinet adolygu'r Cynllun presennol i geisio cyfarch yr uchod, gyda'r adnoddau newydd sydd wedi cronni ers 2024.

Adnoddau Cyfalaf newydd ar gael

- 3.11. Ers cymeradwyo'r cynllun gwreiddiol yn 2024, rydym wedi derbyn amrywiol grantiau lle roedd modd eu defnyddio yn hytrach na defnyddio'r adnoddau Cynllun Asedau gan gynnwys.
- 3.12. Mae derbyniadau cyfalaf hefyd wedi arwain at gynnydd yn yr adnoddau sydd ar gael.
- 3.13. Yn ychwanegol i hyn, mae un prosiect lle nad ydym wedi parhau fel partner i'r datblygiad gyda'r Bwrdd Iechyd a chymdeithas dai yn parhau gyda chynllun ar raddfa llawer llai gan hepgor anghenion nifer o bartneriaid gan gynnwys y Cyngor, sef Hwb Iechyd a Gofal - Canolfan Lleu.
- 3.14. Er y gwyddom bod anghenion a demograffi y boblogaeth yn debygol o arwain at yr angen am ddatblygiadau yn y maes gofal, nid oes cynlluniau sy'n ddigon aeddfed i'w cynnwys ar hyn o bryd ac felly argymhellir fod yr adnoddau cyfalaf o £3.5M sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y cynllun yn cael ei ddad-ymrwymo. Byddai unrhyw gynlluniau ac angen i'r dyfodol i'w ystyried mewn adolygiad llawn o'r Cynllun Asedau yn 2029.
- 3.15. Gyda hynny mewn golwg bydd yr adnoddau oedd wedi eu neilltuo ar gyfer y prosiect hwn yn dod ar gael ar gyfer yr anghenion newydd sydd wedi eu cyflwyno.
- 3.16. O ystyried hyn oll mae yna gyfanswm o £16M ar gael i'r Cabinet ystyried sut maent am ei ddefnyddio i gyfarch yr anghenion gwario cyfalaf ar draws y Cyngor.

Anghenion Gwariant Cyfalaf

Cynlluniau lle nad oedd modd eu hariannu wrth osod Cynllun Asedau yn 2024

- 3.17. Ar adeg llunio y Cynllun Asedau yn 2024, roedd dau broblem na fu modd eu cyfarch, sef Cynnal a chadw adeiladau a'r wedd nesaf o rhaglen dreigl ysgolion cymunedau cynaliadwy.
- 3.18. Bu ychwanegiad i'r gyllideb craidd Cynnal a Chadw wrth osod cyllideb 2026-27 ac mae'r cais gwreiddiol hwn felly wedi ei ddatrys tu allan i drefn y Cynllun Asedau ac ni fydd yn derbyn sylw pellach yma ar hyn o bryd.
- 3.19. Mae'r amlen nesaf o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru dros gyfnod o 9 mlynedd, felly os am ymgeisio am y grant o 65% gan y Llywodraeth roedd gofyn i'r Cyngor gyflwyno Rhaglen Strategol Amlinellol ar gyfer y wedd nesaf o arian cyfalaf. Nid oedd modd ymrwymo i arian cyfatebol wrth osod y cynllun asedau ddwy flynedd yn ôl ac felly mae cyfle i wneud yn yr adolygiad hwn. Manylir ar elfennau penodol yn 2.24 isod.

Cyfarch cynnydd costau prosiectau eisoes o fewn y Cynllun Asedau

3.20. Cryfhau'r ddarpariaeth Addysg Gymraeg Uwchradd ym Mangor – Ysgol Tryfan.

Un o brosiectau'r Cynllun Asedau cyfredol yw i gryfhau'r ddarpariaeth Addysg Gymraeg Uwchradd ym Mangor gyda £5.2M eisoes wedi ei glustnodi fel arian cyfatebol (35%) i ddenu grant Llywodraeth Cymru. Ymhellach i hynny mae'r adran wedi adnabod ffynhonnell benthyca ar gyfer £1.1M ychwanegol. Yn sgil cynnydd yng nghostau'r prosiect mae'r Cabinet eisoes wedi ymrwymo i £1.96M yn ychwanegol ar gyfer y prosiect yma.

3.21. Prom y Gogledd, Abermaw.

Pan gafodd y cynllun yma ei ystyried yn gyntaf gofynnwyd am gyfraniad o 15% tuag at gostau lefel uchel oddeutu £23M ar gyfer gwaith atal llifogydd ar Brom y Gogledd yn Abermaw, ble mae dros 700 o dai mewn risg o lifogydd arfordirol. Yn dilyn gwaith i ddatblygu y cynllun, ymddengys fod y gost tebygol yn llawer uwch ac yn agosach at £35M. Er fod y gwaith hyn yn parhau ac nad yw'r union ffigwr yn derfynol, mae angen i ni baratoi ar gyfer costau sylweddol uwch na'r £23M gwreiddiol. Gan nad yw'r gost yn derfynol, dylem fod yn ceisio clustnodi cyfraniad tuag at gynllun oddeutu £35M, sef £5.25M. Gan fod £3.76M yn y Cynllun Asedau yn barod, mae angen clustnodi £1.49M pellach yn yr adolygiad hwn.

Cyfarch materion mae rhagdybiaeth eisoes wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf y byddant yn cael eu hariannu o'r Cynllun Asedau

3.22. Ysgol Bontnewydd

Bu i Llywodraeth Cymru gyhoeddi buddsoddiad o £15M (grant wedi ei gyllido 100%) ar gyfer adeiladu ysgol newydd arloesol ac ecogyfeillgar i Ysgol Bontnewydd. Mae cost y cynllun bellach wedi codi i £17.67M, sydd yn uwch na'r hyn gytunwyd a'r cyfanswm mae'r Llywodraeth yn gallu ei ariannu. Mae angen i Wynedd gyfrannu £583,000 os am allu cario mlaen, sef 35% o'r gost ychwanegol. Mae sawl ffactor technegol wedi arwain at gynnydd yn y gost, gan gynnwys chwyddiant dros amser hirach na'r hyn ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Mae creu'r ysgol "dros dro" er mwyn symud y plant allan wedi bod yn fwy costus na'r disgwyl hefyd.

Mae'r cynnig ariannol yn dal i fod yn gyfle gwych, gyda'r Llywodraeth yn parhau i ariannu 97% o'r gost a Gwynedd yn cyfrannu 3%.

3.23. Canolfan arloesi Trawsfynydd

Mae Cynllun Canolfan Arloesi Trawsfynydd yn gyfle strategol i Gyngor Gwynedd gefnogi adfywio economaidd yn ardal Meirionnydd drwy ddatblygu safle canolfan ymwelwyr Trawsfynydd fel canolfan ar gyfer arloesi, hyfforddi a swyddi gwerth uchel i'r dyfodol. Mae'r Cynllun yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor o greu cyfleoedd gwaith lleol, cadw sgiliau o fewn y sir a manteisio ar botensial economaidd safle Trawsfynydd. Er mwyn galluogi'r prosiect i symud ymlaen a denu cyllid grant allanol sylweddol, mae'r Cabinet eisoes wedi ymrwymo £1M o arian cyfatebol yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2026 o adnoddau ychwanegol.

Ceisiadau am adnodd ychwanegol

3.24. Rhaglen dreigl Ysgolion Cymunedau Cynaliadwy

3.24.1. Ar hyn o bryd, wedi i'r prosiectau Gwedd B o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif a datblygiad Ysgol Bontnewydd ddod i derfyn, nid oes unrhyw adnoddau cyfalaf ychwanegol wedi eu hymrwymo i alluogi buddsoddiad sylweddol yn stad ein hysgolion i'r dyfodol. Mabwysiadwyd Strategaeth Ysgolion newydd gan y Cabinet ar 10 Chwefror 2026 a thra bod trafodaethau am flaenoriaethau ac anghenion buddsoddi strategol yn parhau, rhagwelir y byddai cynllun ad-drefnu a moderneiddio angen sicrhau cyllideb oddeutu £6.86M fel 35% o arian cyfatebol i ddenu grant Llywodraeth Cymru o 65%. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda chi fel aelodau Cabinet ynghylch manylder y rhaglen a blaenoriaethu dros y cyfnod nesaf.

3.24.2. Argymhellir hefyd clustnodi swm o fewn yr adnoddau sydd ar gael er mwyn galluogi'r Adran Addysg i symud ymlaen â gwaith datblygu strategol ar opsiynau i ymateb i heriau hysbys o fewn y stad ysgolion. Nid yw hyn yn ymrwymo'r Cyngor i unrhyw gynllun unigol ar hyn o bryd, ond bydd yn galluogi gwaith pellach i asesu anghenion, datblygu opsiynau, ystyried cyfleoedd cyllido allanol a chyflwyno achos busnes mwy cyflawn i'r Cabinet cyn gwneud unrhyw benderfyniadau gweithredu penodol. Wrth gyflwyno costau lefel uchel ar gyfer cynllun o'r fath, mae'r adran wedi ymgeisio am £6.17M.

3.24.3. Gwyddom hefyd fod materion yn ymwneud a thraffig ar safleoedd addysgol yn heriol ac yn derbyn sylw gan yr adran ar hyn o bryd. Os am allu gwireddu cynllun bydd angen sicrhau arian cyfalaf ac mae'r adran wedi ymgeisio am £1.7M i'r perwyl hwn.

4. Casgliadau

4.1. Gellir crynhoi'r galw uchod am adnoddau cyfalaf ychwanegol fel a ganlyn:

Prosiect	Swm ychwanegol	Cyfraniadau allanol
Ysgol Tryfan, Bangor – cynnydd mewn costau – 35% arian cyfatebol i ddenu grant Penderfyniad wedi ei ragdybio eisoes gan y Cabinet ar 16/12/25	£1.96M	£3.64M

Prom y Gogledd, Bermo – cynnydd mewn costau – 15% arian cyfatebol i ddenu grant Prosiect eisoes o fewn y Cynllun Asedau.	£1.49M	£8.45M
Ysgol Bontnewydd – cyfraniad 35% tuag at gynnydd mewn costau – datblygiad oedd wedi ei dalu â grant Llywodraeth Cymru.	£583k	£16.1M
Canolfan Arloesi Trawsfynydd – cyfraniad Cyngor Gwynedd i ddenu grant. Penderfyniad wedi ei ragdybio eisoes gan y Cabinet ar 10/02/26	£1M	Denu £18.45M o amryw ffynonellau cyllido
Rhaglen Dysgu Cymunedau Cynaliadwy – 35% o arian cyfatebol i ddenu grant	£6.86M	£12.74M
Prosiect Rhaglen Dysgu Cymunedau Cynaliadwy - 35% o arian cyfatebol i ddenu grant	£6.17M	£11.74M
Ymateb i heriau traffig ysgolion	£1.7M	-
CYFANSWM	£19.76M	

- 4.2. O gofio mai £16M o adnodd ychwanegol sydd ar gael ar hyn o bryd nid oes modd cyllido'r cyfan ac felly bydd rhaid blaenoriaethu.
- 4.3. Mae cynnydd costau cynlluniau oedd eisoes yn y Cynllun Asedau yn golygu'r angen i ymrwymo £3.45M pellach os am gario 'mlaen i'w gwireddu. Yn achos Ysgol Tryfan, mae'r Cabinet eisoes wedi rhoi'r ymrwymiad i'r arian hwnnw.
- 4.4. Mae rhagdybiaeth eisoes wedi ei wneud ar gyfer Ysgol Bontnewydd a Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd ar gost o £1.58M.
- 4.5. Mae hyn yn gadael £10.97M heb ei ymrwymo ar gyfer cyfarch anghenion gwario o £14.73M yn y maes Addysg, sef £3.76M yn brin o'r cyllid sydd ei angen.
- 4.6. O ystyried y cynlluniau unigol uchod, risgiau perthnasol a blaenoriaethau strategol y Cyngor, argymhellir y dylid cyfarch y gost llawn o gynllun blaenoriaeth yn yr amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy (£6.86M) gan na fyddai'n synhwyrol ceisio cyfarch y cynllun yn rhannol.

- 4.7. Mae hynny'n gadael £4.11M yn weddill ar gyfer ail gynllun yn y rhaglen dreigl ysgolion cymunedau cynaliadwy ac ymateb i risgiau traffig Ysgolion. Mae angen gwaith pellach i gyfrifo union gostau'r gwaith yma, ac yn achos y risgiau traffig mae angen gwell dealltwriaeth o'r gwir risgiau a'r opsiynau amgen ar gyfer eu cyfarch. Argymhellir felly fod y blaenoriaethu terfynol yn digwydd ar ôl y gwaith pellach gael ei gyflawni a bod yr hawl i gytuno'r union raniad yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Addysg, y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Cyllid.
- 4.8. Bydd rhaid derbyn na fyddwn yn gallu cyllido'r cyfan o'r gofynion uchod gan nad yw'r adnoddau cyfalaf gennym. Fodd bynnag, dylai Aelodau fod yn ymwybodol fod y Cyngor yn derbyn grantiau blynyddol gan y Llywodraeth tuag at gyflwr adeiladu addysg. Er nad oes gwarant o'r grant hwn, ac nid yw'n ffigwr cyson ychwaith, gallwn fod yn ffyddiog y bydd symiau newydd yn ein cyrraedd yn flynyddol. Gellir ystyried ychwanegu'r arian grant yma tuag at geisio cyflawni'r gwaith uwchradd a risgiau traffig felly.
- 4.9. Gellir crynhoi'r argymhelliad terfynol o ran dyrannu'r cyfalaf ychwanegol o £16M fel a ganlyn:

Cynnydd costau cynlluniau oedd eisoes yn y Cynllun Asedau	£3.45M
Rhagdybiaeth eisoes wedi ei wneud	£1.58M
Amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy	£6.86M
Prosiect pellach o fewn y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy ac ymateb i risgiau traffig Ysgolion	£4.11M

5 SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

Pennaeth Cyllid

"Gallaf gadarnhau fod cyfrifwyr o'r Adran Gyllid wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi agweddau ariannol o'r adroddiad yma ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."

Swyddog Monitro

"Mae'n briodol fod y Cabinet yn adolygu y rhaglen cyfalaf i ymateb i newidiadau ac anghenion ychwanegol neu wahanol sydd wedi datblygu."

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd



Teitl yr eitem:	Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2026)
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	13 Hydref 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2026) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 5 Mawrth 2026 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
 - cynnydd o £846,000 mewn defnydd o fenthycia
 - cynnydd o £64,980,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - cynnydd o £5,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - cynnydd o £673,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - lleihad o £350,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
 - cynnydd o £13,329,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2026/27 – 2028/29.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2026/27. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r

ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhannau 3.2.2 a rhan 3.2.3 o'r adroddiad (rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad) fel a ganlyn:

- Rhan 3.2.1: Prif Gasgliadau
- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £175.715m am y 3 blynedd 2026/27 – 2028/29.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £79.483m ers y gyllideb agoriadol.
- Rhan 3.2.4: Manyllder grantiau ychwanegol ers y gyllideb agoriadol.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mae gan y Cabinet rôl i gymeradwyo'n ffurfiol yr ymgorfforiad o ariannu trwy grant i mewn i'r gyllideb gyfalaf, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blyneddau mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £123.5m yn 2026/27 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £72.1m (58%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae £12.0m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ailbroffilio o 2026/27 i 2027/28 a 2028/29, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2026/27 i 2028/29

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2026, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb £000	Addasiad Llithriad £000	Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb heb Lithriadau £000
	2026/27 £000	2027/28 £000	2028/29 £000	Cyfanswm £000			
Addysg	21,291	16,674	3,223	41,188	27,338	6,421	20,917
Amgylchedd	11,249	827	1,759	13,835	6,924	906	6,018
Gwasanaethau Corfforaethol	912	1,249	976	3,137	(41)	(41)	-
Cyllid	14	-	-	14	-	-	-
Economi a Chymuned	52,531	5,053	2,226	59,810	45,099	5,563	39,536
Tai ac Eiddo	20,454	4,972	4,154	29,580	15,959	3,639	12,320
Oedolion, Iechyd a Llesiant	4,798	-	-	4,798	2,098	2,026	72
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,078	700	-	1,778	314	250	64
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth	11,129	6,904	2,542	20,575	3,763	3,207	556
Corfforaethol	-	500	500	1,000	-	-	-
CYFANSWM	123,456	36,879	15,380	175,715	101,454	21,971	79,483

3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £101.454m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol gyda £21.971m yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol a £79.483m yn ariannu o'r newydd. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ddiwygiedig ar gyfer hyn :

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb £000	Addasiad Llithriad £000	Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb heb Lithriadau £000
	2026/27 £000	2027/28 £000	2028/29 £000	Cyfanswm £000			
Benthyca gyda chefnogaeth	4,063	4,063	4,063	12,189	-	-	-
Benthyca Arall	6,923	-	792	7,715	2,306	1,460	846
Grantiau a Chyfraniadau	77,372	17,527	4,808	99,707	74,926	9,946	64,980
Derbyniadau Cyfalaf	164	-	-	164	164	159	5
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	1,856	-	-	1,856	693	20	673
Cronfa Cyfalaf	11,553	10,792	969	23,314	10,218	10,568	(350)
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	21,525	4,497	4,748	30,770	13,147	(182)	13,329
CYFANSWM	123,456	36,879	15,380	175,715	101,454	21,971	79,483

3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £66.509m a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol, gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol neu grantiau yn cael eu tynnu yn ôl, yn dod â chyfanswm y symudiad i £64.980m (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion) :

- £24.325m Grant Cronfa Twf Lleol Newydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru
- £16.365m Rhan o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy a'r Grant Gofal Plant tuag at Ysgol Bontnewydd

- £11.648m Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru
- £4.260m Grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) gan Lywodraeth Cymru - nifer o wahanol gynlluniau
- £2.840m Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2026/27
- £2.091m Grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru - cynlluniau adfywio
- £1.656m Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy –amrywiol gynlluniau

3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf

Mae Cod Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus (gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion).

3.3 Camau nesaf

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

4.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad 2 - Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Atodiad 3 - Gwariant Cyfalaf 5 mis cyntaf 2026/27

Atodiad 4 – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2026/27

Rhestr Dogfennau Cefndir:

Cyllideb 2026/2027 : [Cyllidebau Blynnyddol](#)

Strategaeth Cyfalaf 2026/27 : Cyngor Llawn 05/03/26: [Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 5ed Mawrth, 2026, 1.30 y.h.](#)

[Eitem 8 - Strategaeth Cyfalaf 2026-27.pdf](#)

Manylion y Prif Newidiadau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr gyllideb wreiddiol:

	2026/27 £'000	2027/28- 2028/29 £'000
Benthyca Arall		
Adnewyddu Cerbydau ac Offer trwy fenthyca (<i>Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd</i>).	846	
Grantiau a Chyfraniadau		
Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2026/27 (<i>Adran Addysg</i>).	2,840	
Rhan o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy a'r Grant Gofal Plant tuag at Ysgol Bontnewydd (<i>Adran Addysg</i>).	5,822	10,543
Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau (<i>Adran Addysg</i>).	1,656	
Grant Cronfa Twf Lleol gan Lywodraeth Cymru tuag at Unedau Diwydiannol (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	815	
Grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau adfywio (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	2,091	
Grant Creu Lleoedd gan Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau adfywio (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	510	
Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	11,648	
Addasiad grant gan y Cyngor Chwaraeon tuag at gaeau synthetig (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	(223)	

Grant Cronfa Twf Lleol Newydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	24,325
Grant Chwaraeon Cymru tuag at Ganolfan Hamdden Penllyn (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	96
Cyfraniad Deddf Cynllunio, Adran 106 tuag at gynllun gofal yn Ysgol Bro Lleu (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	65
Grant Diogelwch Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Amgylchedd</i>).	300
Grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).	4,260
Grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru tuag at Llwybr yr Arfordir (<i>Adran Amgylchedd</i>).	156
Grant Gwella Mynediad gan Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>).	146
Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at bwyntiau gwefru cyhoeddus cerbydau trydanol (<i>Adran Amgylchedd</i>).	100
Grant Hwyluso (Enable) gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth er mwyn byw'n annibynnol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	360
Cyfraniad benthyciadau atgyweirio ac adnewyddu tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	100
Addasiad Grant Ynni Cymru - Llywodraeth Cymru wedi tynnu yn ôl o'r cynllun ym Mhlas Ogwen (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	(1,328)
Grant Carbon Isel gan Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau ym Mhlas Silyn a Plas Ffrancon (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	676

Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	
• Addasiadau cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adrannau Addysg; Amgylchedd; Tai ac Eiddo</i>).	129
• Cyfraniadau refeniw tuag at gynllun Llyfrgell Caernarfon (<i>Adrannau Economi a Chymuned; Tai ac Eiddo</i>).	250
• Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	293
Cronfa Cyfalaf	
• Addasiad cynllun Canolfan Iechyd a Lles Bangor (rhan o'r Cynllun Rheolau Asedau) ble mae'r proffil wedi addasu heibio'r tair mlynedd yn y Rhaglen Gyfalaf gyfredol (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	(350)
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	
• Adnewyddu Cerbydau ac Offer o gronfeydd adrannol (<i>Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd</i>).	794
• Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	117
• Cyfraniad tuag at brosiectau gwledig a meysydd parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>).	14
• Addasu'r cyfraniad o'r Gronfa Breimiwm Treth y Cyngor tuag at y cynlluniau Strategaeth Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	12,400
• Addasu'r cyfraniad o'r Gronfa Swyddfeydd a Chronfa Corfforaethol tuag at swyddfeydd y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	150
• Addasu'r cyfraniad o'r Gronfa Hinsawdd tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	(147)

Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hailbroffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2026/27	2027/28 - 2028/29
	£'000	£'000
Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) (<i>Adran Addysg</i>)	(5,904)	5,904
Cynlluniau Unedau Diwydiannol ac Adfywio (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(669)	669
Cronfa Ffyniant Bro (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(2,854)	2,854
Cynlluniau Hamdden (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(61)	61
Cynlluniau Ffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth</i>)	(96)	96
Adnewyddu Cerbydau ac Offer (<i>Adran Amgylchedd</i>)	30	(30)
Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd (<i>Adran Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth</i>)	(1,058)	1,058
Cynlluniau Trafnidiaeth, a Gwelliannau Trefol (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(289)	289
Meysydd Parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(89)	89
Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(970)	970

Noder :

Ni fydd yr ailbroffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ailbroffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2026/27

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst)	GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT
	2026/27 £'000	31/08/2026 £'000
Addysg	21,291	3,006
Amgylchedd	11,249	3,281
Gwasanaethau Corfforaethol (cynnwys Technoleg Gwybodaeth)	912	421
Cyllid	14	-
Economi a Chymuned	52,531	3,977
Tai ac Eiddo	20,454	3,798
Oedolion, Iechyd a Llesiant	4,798	1,020
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,078	303
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth	11,129	3,266
Corfforaethol	-	-
CYFANSWM	123,456	19,072

Noder:

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (15%) yn debyg i'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2025/26 yn 15%) a dwy flynedd yn ôl (gwariant 5 mis 2024/25 yn 15%).

Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2026/27

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthyca gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Cod Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Gwariant Cyfalaf

Mae'r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

	Gwir 2025/26 £m	Amcan 2026/27 £m	Cyllideb 2027/28 £m	Cyllideb 2028/29 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	84.6	123.8	37.2	15.7
Prydlesu Cronfa Gyffredinol	2.3	0.0	0.0	0.0
CYFANSWM	86.9	123.8	37.2	15.7

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2026/27 yn cynnwys (gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo'n berthnasol) :

- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £8.2m
- Cerbydau Adrannol - £6.5m
- Cynlluniau/Strategaeth Tai - £5.0m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro/Cyffredin - £4.9m
- Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol - £3.6m
- Cartrefi/Canolfannau Oedolion a Phlant - £3.5m

Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

	Gwir 31.3.2026 £m	Amcan 31.3.2027 £m	Cyllideb 31.3.2028 £m	Cyllideb 31.3.2029 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	188.5	192.9	190.2	188.4

Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

	Gwir 31.3.2026 £m	Amcan 31.3.2027 m	Cyllideb 31.3.2028 £m	Cyllideb 31.3.2029 £m	Dyled ar 31.08.2026 £m
Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau)	81.0	75.5	73.1	72.2	81.0
Gofyn Cyllido Cyfalaf	188.5	192.9	190.2	188.4	

Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

	Uchafswm Dyled 2026/27 £m	Dyled ar 31.08.2026 £m	Terfyn Awdurdodedig 2026/27 £m	Ffin Gweithredol 2026/27 £m	Wedi cydymffurfio ?
Benthyca	73.9	73.9			
Menter Cyllid Preifat (MCP) a Phrydlesau	7.1	7.1			
Cyfanswm Dyled	81.0	81.0	200	190	Do

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw'r ffin gweithredol, nid yw'n arwyddocaol os eir yn uwch na'r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

	Gwir 2025/26	Amcan 2026/27	Cyllideb 2027/28	Cyllideb 2028/29
Costau Ariannu (£m)	8.9	9.9	9.9	9.8
Cyfran y Llif Refeniw Net (%)	2.4%	2.7%	2.5%	2.4%

Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o'r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.